

PERERINDODAU

W. AMBROSE BEBB

I AELODAU'R CLWB LLYFRAU CYMREIG
YN UNIG

PERERINDODAU

GAN

W. AMBROSE BEBB

Y CLWB LLYFRAU CYMREIG
1941

Argraffiad Cyntaf—Medi 1941

I'm Cyfeillion

yn

LLYDAW;

ac yn arbennig

!

FRANCIS GOURVIL

Argraffwyd yng Ngwasg Gee, Dimbych

CYNNWYS

<i>Pen.</i>	<i>Tud.</i>
Rhagair	ix
Map o Lydaw	xv
I. Bro'r Wynwyn : St-Pol-de-Léon	1
II. Roscoff (Llydaweg : Rosco)	19
III. Guimiliau	30
IV. Tua'r Berfeddwlad	47
V. Huelgoat a Saint Herbot	56
VI. Taldir	67
VII. Kemper (Ffrangeg : Quimper)	83
VIII. Gyda'r Cenhadwr	92
IX. O Gemper i Bont l'Abbé, Penmarc'h, Loctudy, Douarnenez, Concarneau, Pont Aven	108
X. Quimperlé : Le Faouët : Saint Fiacre	122
XI. La Villemarqué	133
XII. Y Morbihan;—Auray, Carnac, Vannes	146
XIII. Y Tad Vallée a'i Gylch	161
XIV. Ymddiddan ag Anatole le Braz	174
XV. Pardwn Sainte-Anne-de-la-Palud	191

RHAGAIR

TESTUN mymryn bach o ymfrost tawel imi, wrth grafu pen am ychydig o eiriau i'w doddi ar riniog y llyfr hwn, ydyw cofio mai ef ydyw'r trydydd a ysgrifennais ar Lydaw. Trist, i raddau, yw fy atgoffa fy hun fod un mlynedd ar ddeg er pan gyhoeddwyd y cyntaf o'r tri, dan yr enw digon rhyddieithol—*Llydaw*. Llawenach o lawer ydyw cofio nad oes eto flwyddyn gyfan er pan ysgrifennais yr ail, dan amgylchiadau cwbl wahanol. Mewn ystyr, nid oedd hwnnw—*Dyddlyfr Pythefnos, neu Y Ddawns Angau*—yn llyfr ar Lydaw; gan mai pythefnos argyfyngol yn hanes holl Orllewin Ewrop ydoedd ei faes, neu ei awyrgylch. Yr un pryd, yn Llydaw yn bennaf y gwelais, y clywais, y teimlais ac yr anadlais yr ofnau a'r cyfyngderau a'r rhwygiadau sy'n llenwi tudalennau'r llyfryn bach hwnnw o glawr i glawr. Yn Llydaw . . . fel y dylasai fod. O ganlyniad, y mae'n gwbl gyfreithlon imi ystyried hwn y trydydd llyfr ar y wlad honno.

A bod yn fanwl, buasai'n gywirach imi ysgrifennu, nid y trydydd, ond un o dri. Canys y gwir ydyw bod hwn wedi ei ysgrifennu o flaen y *Dyddlyfr*. Ni wn yn iawn pa bryd—ond o dro i dro, ac o dudalen i dudalen, mewn munudau wedi eu lloffa â dwy law, allan o'r ysbeidiau hamdden prin a adawai fy ngwaith imi yn awr ac yn y man. O Galan Gaeaf i Galan Mai, trown ambell ddalen wen yn ddalen o ddu a gwyn, pan fyddai llythyr o Lydaw, neu lun ar y mur, neu gof hiraethus amdani, yn torri i mewn i ganol prysurdeb dydd yn ei

PERERINDODAU

ddydd. O un i un, ac weithiau bob yn hanner tudalen, y newidiai'r rheini eu lliw, neu efallai'n fwy cywir, y collent eu lliw. Wedi'r Calan Mai, cyflymai'r lliwio'n llai araf, nes cyrraedd aml blwc o sbonc yng ngwyliau'r haf, a threulio ambell ddiwrnod cyfan o liwio tudalennau, a chyfansoddi pennod. Felly, ar ddamwain megis, yn ddiarwybod, fel y bydd arian, meddir, yn magu llog yn y Banc . . . felly y daeth y dail hyn yn bentwr ar ei gilydd, i ffurfio'r hyn a alwaf bellach yn llyfr.

Yr oedd wedi ei gwblhau erbyn canol yr haf llynedd (1939), a phan euthum yn niwedd Awst i Lydaw, ni allwn ryfygu mynd hebdo. Teimlwn y buasai'n dweud, pe medrai lefaru o gwbl: "Myfi a Llydaw, un ydym." A theithiodd gyda mi yn ddiiddig a distaw iawn yr holl ffordd hyd yno, ac o gwmpas y ddaear annwyl, gan gasglu ambell rônyn o'i phridd santaidd amdano, wrth dreiglo o bentref i bentref, o orsaf i orsaf. Clywodd alargan y genedl yn nydd ei hing; teimlodd ddwystr profiadau drud yn y bysedd hyn. Oblegid bob nos, wedi gorffen crwydro a gwrando ar hyd y dydd, esgynnwn i'm hystafell, ac wedi cau'r drws, codwn ef yn dyner allan o'i ymguddfan yn fy ysgrepan, a lledwn ef allan o'm blaen—i'w ddarllen, i'w fodio, i'w bwyso yn y glorian, bob yn bennod, yn y fan a'r lle yr oeddyr ar y pryd. Mesurwn ef wrth y mesur a ddaliai fy llygaid a'm meddwl y dwthwn hwnnw. Yr oedd y lleisiau oll wedi distewi, a'r Llydawiaid i gyd wedi mynd i gysgu. Nid oedd ond ni'n dau'n sibwrw wrth ein gilydd, i fyny ar y llofft, wrwchlaw ein cyfeillion cwsg. Ymwelai awelon y môr â ni weithiau, ac awelon y mynydd bryd arall. A hwynthwy oedd yr unig ddyddwyr rhyngom ein dau . . .

RHAGAIR

Y mae'n deg imi gyfaddef iddo ddyfod allan o'r maen prawf yn hynod ddi-anaf . . . yn wir, yn fwy di-anaf na myfi fy hun.

Dyna'i hanes. Dyna'i gyfiawnhad. A ddisgwylir, hefyd, iddo egluro paham yr aeth ei awdur i'r ffwdan ffôl o'i ysgrifennu . . . ac yntau wedi ysgrifennu eisoes ddau lyfr ar y wlad anenwog hon? Eglurhad o ran y mae'n llawen ganddo ei roddi, gan yr ofna fod hynny'n eisiau. Gŵyr yn dda erbyn hyn nad ydyw ei genedl ei hun yn rhoddi fawr bris ar Lydaw. Yn ei dallineb a'i balchter penchwiban, y mae'n dda ganddi ddiystyru Llydaw, a'i chyfrif megis tom. Digon ganddi wybod i Syr O. M. Edwards fynd yno am "dro" unwaith, a'i gweled yn bentwr o bechod, o ofergoeledd, o anwybodaeth, a dilyw o Babyddiaeth yn ei boddi. Ar fy llw, heddiw ddiwethaf, Awst 28 o'r flwyddyn 1940, gwelaf lythyr yn *Y Faner* yn dweud yn groyw fod Syr O. M. Edwards "wedi dangos" gymaint y rhagorai Cymru ar Lydaw. Pa beth a ddywedaf? Fy ateb ydyw'r ddihareb: *Ni Wyr, ni Welodd, ni Ddysg*. Fy ateb ydyw dyfynnu darn o adnod, a'i orffen fy hun: "Nid oes arnaf gywilydd . . . o Lydaw . . . Ond y mae arnaf gywilydd . . . o'r llun ohoni a dynnodd . . . Syr O. M. Edwards." Beiwch fi, mellthiwch fi, ond ni fedraf ddywedyd yn amgenach.

Eithr paham y daliaf i sôn am Lydaw? Dyfynnaf eto—gan fod llawer Cymro'n pesgi'n fras ar ddyfyniadau, a'i bregethwyr salaf yn eu tasgu o'i bulpudau, fel llwch o lawr dyrnu, ger bron ei gynulleidfa . . . yn Saesneg. Dyfynnwn, ynteu. Dywed Walter Pater eiriau tebyg i hyn yn rhywle: "*Nid oes dim o'r hyn a fu erioed o ddiddordeb i ddynion yn colli ei fywyd—yr un iaith a*

PERERINDODAU

siaradwyd ganddynt, yr un oracl y buont yn ei ymyl yn tewi â'u sôn, yr un breuddwyd a anweswyd unwaith gan wir feddyliau dynol, na dim o'r hyn y gwariasant amser ac egni arno, ac yr aethant yn angerddol yn ei gylch." Cymhwyswch y geiriau at Lydaw, a chwi a welwch ar unwaith fod yno freuddwydion a anweswyd ac a anwesir, gan wŷr a gwragedd; oraclau yr ânt yn fud ger eu bron; meini yr ymgrymant iddynt; iaith a gwlad a garant ac y ffolant arnynt; a chysgodion miloedd o flynyddoedd yn gwarchod anadl einioes y genedl ynddynt. Onid ydyw'n ddigon?

Y mae'n ddigon. Digon . . . heb imi brin fynegi bod y breuddwydion a anwesir yno, yr oraclau sy'n sibwrdd, y meini sy'n llefaru, yr anadl a chwyth, y wlad a gerir, y gwŷr a'r gwragedd a sieryd, i gyd . . . a phob un ar ei ben ei hun . . . a llawer o bethau eraill . . . yn ffynhonnell ddihsbydd o syndod, o edmygedd, ac o ddiddordeb imi. Ni byddaf yn fodlon, ac ni bydd y llyfr hwn yn cyrraedd ei amcan, oni throsglwyddaf i'm cenedl fy hun o leiaf gyfran o'r hoffter—ie, o'r cariad—sydd ynof i tuag at Lydaw. Eglured a fynno,—amheued a fynno—y mae Llydaw'n wlad hynod hawdd ei charu, a'r Llydawiaid mor hawdd â hynny. Amcan y llyfr hwn ydyw ceisio dangos Llydaw i Gymru, ei dangos mor deg ac mor gywir ag y mae modd—ei dangos fel yr adnabydder hi, yr offer hi, y carer hi, gan fy nghenedl fy hun . . . Saith gan mlynedd yn ôl, mewn hynafol gerdd, *La Chanson des Saisnes*, cyhoedda'r awdur y sylw hwn:

*Ne sont que trois matères, à tout hom' entendant,
De France, de Bretagne et de Rome la grant.*
—"Nid oes ond tri mater i bob dyn deallus, eiddo

RHAGAIR

Ffrainc, Llydaw, a Rhufain fawr." Am ganrifoedd, fflachiodd y "*matière de Bretagne*" ei wridog desni dros wyneb cyfandir Ewrop. Y mae'n digwydd bod yn un o argyhoeddiadau'r awdur ers blynyddoedd na ddarfu am Lydaw fel testun, fel "*matière.*" Iddo ef y mae'n fwy na thestun; y mae'n bersonoliaeth, y mae'n greadigaeth ddynol, y mae'n brydyddiaeth hardd, ac y mae'n genedl dan lygad y nefoedd. Heddiw y mae llen drom o dawelwch, o ddistawrwydd mud ac o adwyth blin yn gwasgu'n dynn arni; a'r unig ffordd y gallaf gymuno â hi yn yr awr ddu hon ydyw drwy ail-feddwl fy meddyliau a'm serchiadau am ei daear, a hir aros mewn myfyrdod tawel, cariadus, â'm cyfeillion islaw'r gorchudd trwm. Iddynt hwy oll yn ddi-enw, ac i un ohonynt wrth ei enw, Gourvil hoffus, y cyflwynaf y gyfrol hon dan y gorchudd.

W. AMBROSE BEBB.

Bangor, Awst 1940.

ÔL-NODIAD: Yr oedd lluniau i fod i harddu'r llyfr. Ond diddymodd y rhyfel y breuddwyd hwnnw fel llawer un arall. Ceir map o'r wlad, er hynny, ac amdano ef yr wyf yn dra diolchgar i un o'm myfyrwyr, Mr. Myrddin Davies.

W. A. B.

Mai 1941.

PENNOD I

BRO'R WYNWYN : ST-POL-DE-LÉON

ERBYN hyn, yr oeddwn wedi treulio amryw ddyddiau difyr a diwyd ym *Montroulez* (Morlaix), wedi synhwyro ei heolydd hen a'u harogleuon canol-oesaidd, ac wedi dysgu llawer yng nghwmni Lajat a Le Garreg, ac yn enwedig Gourvil. Fe'i cawswn mewn llawer ystyr yn dref ddiddorol a deniadol, yn dref yr oedd ei llonyddwch tawel yn faich o undonedd gwasgedig ar y dechrau, ac yn rhyw hanner trist nes cynefino ag ef. Ond wedi ym-eneinio yn awyrgylch y lle, wedi arafu i syllu fry ar ei phont fawr, gadarn, yn cyhwfan ei mireinder yn y nefoedd, wedi aros yn hir i ysbïo ar hendai gwŷdd y bymthegfed ganrif, ac ymweled a'r tŷ a berthynai i'r *Duchesse Anne*, arglwyddes olaf Llydaw, wedi cerdded ôl a blaen, i fyny ac i lawr ei strydoedd culion, byrion, anwastad; ie, wedi hyn oll o ymdrech ddi-dreth, didrafferth, yr oedd y dref gyfan wedi myned i'm calon, yn y lle y caf afael arni fyth mwy ar unrhyw awr annisgwyl a ddewisaf.

Nid hi yw'r unig un sydd yno. Nid hi yw'r harddaf na'r lanaf na'r anwylaf sydd yno—hyd yn oed o drefi Llydaw yn unig. A gwyddwn yn iawn, pan oeddwn yn ei gadael, mai am ysbaid yn unig y gadawn hi. Byddai'n rhaid imi ddychwelyd, nid yn unig o *St-Pol-de-Léon* a *Roscoff*, nid yn unig o *St. Thégonnec* a *Guimiliau*, ond bob cam o'm gwlad fy hun, o Gymru.

PERERINDODAU

Ni thâl hi ddim ichwi wneud cyfaill, a chefnu arno wedyn. Peth i'w feithrin yn hir, yn araf ac yn foethus yw cyfeillgarwch. Canys nid oes gormod ohono ar y ddaear hon. Ei brinder ef, efallai, ydyw'r tloidi mwyaf. Traethodd Montaigne y cwbl sydd yn werth ei ddywedyd am gyfeillgarwch; ac ysgrifennodd Emrys ap Iwan dudalen odidog ar gyfeillgarwch llyfrau. Y mae cyfeillgarwch arall—cyfeillgarwch trefi, bychain a mawr. Ni wyddwn i ddim oll am hwn yng Nghymru. Nid adwaenwn yr adeg honno nemor dref yng Nghymru ar wahân i Dregaron ac Aberystwyth. A gwn yn burion fod fy nghyfeillgarwch i at y rheini yn bennaf oherwydd fy ngeni yn agos i'r naill a'm dwyn i fyny gerllaw'r llall. Yn wir, y mae braidd yn amheus gennyf a oes llawer o drefi yng Nghymru y gellir gwneud cyfeillion ohonynt. Tybiaf fod y Bala yn un o'r ychydig hynny—a Rhuthyn . . . a Dinbych. Ac er mor syn, efallai, yr ymddengys hyn i lawer Cymro, y mae gennyf ryw ddirgel gred bod Caerdydd hefyd yn meddu ar y gynneddf hon. Tewi â sôn am y lleill sydd orau, a chyfaddef nad ydym ni, yng Nghymru, wedi llwyddo eto i godi trefi dengar. Nid dinesydd ydyw'r Cymro, ond gwladwr.

Y gwir cas ydyw mai oddi allan i Gymru y gwneuthum gyfeillion â threfi, ac â dinasoedd. Y gyntaf, er efallai yr arafaf i'w hadnabod yn dda, ac i lwyr ennill ei serch, ydoedd Paris. Ond ers blynnyddoedd bellach y mae fy nghyfeillgarwch â hi yn berffaith, ac ni wnâi dim o gwbl ei wanhau, ei lacio, heb sôn am ei dorri. Y mae'r cyfamod sydd rhyngom yn ddi-sigl. A phob tro y codaf fy nghefn i gyfeirio tuag yno, mi wn yn sicr y caf hi, er newid ohoni'n ddibaid, fel yr oedd y tro diwethaf a

BRO'R WYNWYN : ST-POL-DE-LÉON

phob tro o'r blaen, yn ddinas y goleuni, yn ddinas y bywyd a'r bwrlwm, yn ddinas yr Afon Seine, y gerddi llysiuog, a'r percydd coediog a blodeuog, dinas y gwindai a'r gwestai, y siopau llyfrau dirifedi, a'r ddynoliaeth gyfrwysaf, dyneiddiaf, a mwyaf atyniadol sydd ar y ddaear.

Yn wir, un o ryfeddol gyfoeth Ffrainc ydyw nifer y trefi a'r dinasoedd sydd ganddi y gellir eu caru fel bodau byw; ac ni ddeuwn i ben a'u henwi oll. Yn y dosbarth blaenaf, ar ôl Paris, mi a osodwn ar unwaith dair sy'n gyfartal gyfeillgar â mi—*Tours, Rouen a Lyon*. Yn yr ail ddosbarth, chwedl beirniaid yr Eisteddfod, mi a enwaf ag un anadl: *Laon, Avignon, Carcassonne, Angers ac Orleans, Reims a Strasbourg, Bourges a Grenoble*. Y mae amryw o drefi yn Llydaw a gynysgaeddwyd yn uchel â'r un gynneddf: *St. Malo, Tréguier, Lannion, Morlaix a Rennes* yn y Gogledd, *Quimperlé, Vannes a Locronan* yn y De—ac yn fwy na'r un, *Quimper*.

Ac y mae St-Pol-de-Léon. Yno y bwriadwn fynd o Fontroulez (Morlaix). Yr oedd y bore'n wresog deg, a'r cyniwair tua'r orsaf yn ddiwyd ers oriau. Dacw'r trên bychan a'n dwg ni'n araf deg i St Pol—yn Llydaweg, *Kastel Paol*. Bydd yn hwyr, fel arfer, cyn cychwyn ar ei daith, a dyry ichwi gyfle i ddarllen hanner eich papur bore cyn dringo i fyny iddo—er y bydd llawer hen Lydawes ddiddig yn eistedd yn llonydd fel delw ynddo ers meityn. Ond wele orchymyn i'r gweddill ohonom ei gloywi hi i mewn. Ufuddhau i lais awdurdod, a llenwi ein lle yn y trên bach.

Dyma gychwyn. Gadael Morlaix, a mynd allan i'r wlad, o du y Gogledd, ac agor llygaid arni i dde ac i

chwith. Nid yw'n hardd, nid yw'n ddengar . . . i fryd dieithr ddyn. Nid amrywia ddigon. Ni chyfyd yn fryn yma ac yn fynydd draw. Nid egyr yn ddyffrynnoedd eang a helaeth. Rhy wastad yw hi o lawer. Ni loywa, ac ni ddisgleiria. Y mae ei lliwiau oll yn llwydaidd—lliwiau ei bythynnod a'i thyddynnod, ei threffannoedd a'i phentrefi; a lliwiau ei gwrychoedd a'i choedydd, ei chaeau bach a'i chulffyrdd dyfnion. Yma, acw, i fyny ac i lawr, ymestyn yn fro o fân gaeau fel gerddi, a'r cwbl yn llawn o feillion, o ydau, ac yn enwedig o datws, *artichauts*, wynwyn a phob rhyw lysiau gerddi.

Rhwng y tameidiau caeau hyn a'i gilydd, y mae pentyrtau o gloddiau, trwchus, uchel. Crawcwellt a rhoncwellt a rhedyn sydd yn cuddio eu moelni, ac eithin cwta—yn amlwg wedi ei *hau* arnynt. Dim cyll, dim ynn, dim bedw. Helyg trist, derw gwrengaidd, gwydn, ac ambell boplysen bell yn cyhoeddi ei hunigedd yn ymyl gofer neu aber. Eithin, eithin, ar glawdd ar ôl clawdd; tatws a gleision gerddi mewn cae ar ôl cae; ac yn amlach na dim, yn tyfu ym mhob cyfeiriad, ac yn bugeilio'r caeau iddynt hwy eu hunain—yr *artichauts* â'u dwrn caeëdig yn yr awyr, yn bygwith pob twf arall rhag ymosod ar eu treftadaeth hwy.

Yng nghanol y llwydni dilewch hwn, yr oedd tyddyn-nod bychain aml, hwnt ac yma, a'u pridd hwythau, a'u meini, yn unlliw â'r byd o'u deutu. Atynt hwy, ac oddi wrthynt, gan eu dolennu wrth ei gilydd ac wrth eu caeau ac wrth y pentrefi, rhedai rhwydwaith o lonydd isel, dwfn fel pe baent am ymguddio oddi wrth y byd, ac ymgolli rhwng y cloddiau a'u tywysai hwy igam-ogam heibio i fylchau a chlwydi a chamfeydd, yn ddihangol

at y tai. Tai ffermydd ym mhobman, dynion yn gweithio ym mhob un o'r caeau mân, anifail neu ddau yn pori ym mhob twll a chornel. Nid esgeulusir dim yma, ni chollir dim, ni adewir i dalar fynd yn ofer. Erwau'r rhaniadau manwl sydd yma, rhandiroedd wedi eu torri allan mor fân â gerddi, a'u trin yr un mor ofalus, yr un mor ddarbodus; perchentyaeth ar raddfa fechan a dwys, ymdrech draddodiadol y teulu, cydweithrediad tad a mam a llond tŷ o blant—gweriniaeth Llydaw.

Pan oedd fy llygaid yn synfyfyrion uwchben cymdog-aethau mor wastad, a dycnwch dynol mor ddi-arbed, daeth y môr i roddi'r hyn oedd o'r blaen ar goll—gloywder, disgleirdeb, llacharder, a gwynder tai a threfi o bob tu iddo. Yr ochr yma, yn daclus fel pin mewn papur, yr oedd *Carantec* a'i thai gwynion, newyddion. Yn serennu o'r tu draw iddo, wele *Plouezoc'h*, *Tregastel*, ac efallai ar y gorwel pellaf oll, *Locquirec*. Ac yng nghanol ei lesni pur, ynysoedd lawer, a frwydrodd am oesoedd yn ei erbyn ac a dorrwyd ganddo ef oddi wrth eu cytir, ond sydd bron wedi llwyr anghofio ei gyn-ddaredd gwyllt. Heddiw ymgartrefant yn ddiolfal yn ei ddŵr claeur, tawel. . . . Colli golwg arno toc, ac ymgolli'n llithrig i mewn i olygfa arall. Yr oedd y trê'n bach ar fin cwblhau ei daith, a'm dwyn i orsaf Kastel Paol. Diolchais iddo am ei gymwynas, a disgyrnais.

O'm blaen, ryw chwarter milltir i ffwrdd, y mae'r tŵr uchaf a welais erioed, ar wahân i'r Tŵr Eiffel ym Mharis; ac o ran tegwch ni ddeil hwnnw gannwyll frwyn iddo. Clywswn ei ganmol i'r cymylau gan gyfeillion o Lydaw-iaid, ym Mharis, yn Rennes, ym Morlaix. Yn awr, mi a'i gwelaf â llygad y cnawd. Y tu ôl iddo y mae dau

dŵr arall, nid anenwog hwythau, ac nid anghelfydd o gwbl. Tyrau'r Eglwys Gadeiriol ydynt hwy, ac yn gweddu'n gymwys ac yn gyflawn i'w thegwch hi. Ar eu pennau eu hunain, tynnent sylw mewn unrhyw dref yn Llydaw neu yn Ffrainc, neu ym mhob gwlad arall. Nid oes gennym ni, yng Nghymru, ddim i'w gymharu â hwy.

Ond yma, wrth ymyl y tŵr arall, y tŵr a elwir gan y Llydawiaid—*Kreisker*, nid oes ganddynt y rhithyn lleiaf o obaith i ymddisgleirio. Y *Kreisker* sydd yn arglwydd ac yn unben anghymarol a diamheuol, yn tra-arglwyddiaethu ar dir a môr, ac yn derbyn gwrogaeth rydd a bodlon yr holl froydd o'i gwmpas, a'u trigain tŵr a saeth, a'u heglwysi hwythau. Ato ef y dug yr holl diroedd o'r bron eu dawn, eu cyfoeth, eu celfyddyd, eu cywreirwydd, eu dyheadau a'u defosiwn. Crefydd y ddaear hon a'i gwŷr a'i merched, gweddi cenedlaeth ar ôl cenedlaeth o ddynion, sydd wedi eu mynegi yma mewn meini, yn un golofn o esgyniad ysbrydol tua pharadwys. Ysgol Iacob anniflan. Dyhead canrifoedd o Lydawiaid am nefoedd wedi ei fynegi'n gytbwys, yn unfryd, yn orchestol, yn dragywydd.

Wedi hir a hwyr syllu ar fireinder, ar wrhydri, ac ar ysgafnder pensyfrdan y tŵr, a mwynhau ei oruchafiaeth esmwyth, di-draha, ar dyrau eraill, cerddais allan o'r fan lle'r oeddwn agos wedi glynu, a chyfeirio at y dref. Un heol gymharol hir, yn arwain at glwstwr mawr o dai a chapeli a choleg ac Eglwys Gadeiriol, ac un heol arall yn troi'n wyllt oddi wrth y gongl lle y mae'r mwyafrif o'r adeiladau—dyna ydyw Kastel Paol. Tref fechan, go dawel, o ryw saith neu wyth mil o boblogaeth. Oherwydd bod yn ei chroth fwy na mil o flynyddoedd o

hanes, y mae cymeriad a phersonoliaeth ganddi. Od oes gennych ddawn i synhwyro'r pethau hynny, hyd yn oed lle byddant guddiedig neu hanner cuddiedig, yna fe ddywedwch ar eich gwaethaf yn St Pol: "Wele, y maent yma."

I'r dref hynafol hon y cerddais yn araf y bore hwnnw, gan droedio palmant anwastad ei heolydd, a sylwi ar ambell hendy yma a thraw, a thŵr bychan ar ei gongl. Yr oedd cryn brysurdeb yno, yn enwedig gan y gwragedd. Y maent hwy, y gwragedd, yn amlach na neb yma, am fod y gwŷr yn y meysydd ers oriau, a rhai ohonynt, o leiaf, yng Nghymru, yn Lloegr ac yn yr Alban, yn gwerthu peth o gynnyrch y fro fras hon, yn ffurf wynwyn rhaffog. Dyma fi ym mhrifddinas pobl y wynwyn—y "Sioni Winwns," ys dywedir yn Sir Aberteifi. Bro fechan ydyw, heb fod nemor yn fwy na rhyw bedair milltir sgwâr, ac eto'n codi cannoedd o dunelli o'r ffrwyth hwnnw bob blwyddyn, a llawer ffrwyth arall; ac yn rhoddi'n hael o'i daear dri chnwd gyn sicred ag y daw blwyddyn heibio.

Y "Sioni Winwns"! Ni all fy ngwendid ymatal rhag afradu peth o'm rhethreg arnoch chwi! Yng Nghymru y gwelais chwi gyntaf, yng nghanol gwlad Sir Aberteifi. Er yn blentyn bach, y mae gennyf gof melys amdanoch yn cerdded ein ffyrdd ni, ac yn galw yn y naill dŷ fferm ar ôl y llall. Cofiaf fel ddoe y dydd cyntaf y gwelais chwi. Còg o grwt bach oeddwn ar y pryd, ac yr oedd hi'n ddydd mawr yn yr ardal. Diwrnod Ffair Rhos ydoedd, diwrnod a ddynodai gyfnod mewn blwyddyn, yn debyg i Ddydd Nadolig a Dydd Ffair Garon. Erbyn y dydd hwnnw—y pumed-ar-hugain o Fedi—y mae pob

ffarmwr yn yr holl gwmpasoedd wedi golygu cael ei ŷd i ddiddosrwydd, a'i doi'n dda â brwyn y gors, a chymhennu ei ydian, fel y bo holl ffermwyr yr ardaloedd yn dotio at ei llawnder a'i glendid a'i thaclusrwydd, ar eu ffordd o Ddyffryn Aeron, o Lan Ddewi Brefi, o Lwynpiod, ac o'r Bronant i'r hen ffair, sydd wedi disgyn erbyn hyn o'r Rhos i lawr i Bont Rhyd Fendigaid.

Yr oedd hi'n un o foreâu hyfryd Haf Bach Mihangel, a'm tad a'm mam wedi eu gosod eu hunain yn y cerbyd a dynnid gan globen o 'boles fywiog. Ac yr oeddwn innau yn cael mynd gyda hwy, yn freiniol o wŷr bach pum mlwydd oed. Ar y ffordd fawr tua'r "Bont" dyna ni'n gweled bob yn hyn-a-hyn gydnerth o wŷr llydain, mewn llodrau gleision, ac esgidiau pren—clocs. Yn llaw pob un yr oedd clamp o bren wedi ei dorri o'r berth, ac ar ei ysgwydd resi gloywon o wynwyn Llydaw. Gofynnais i'm rhieni pwy oedd y dynion rhyfedd hyn, yr unig rai nad oedd ganddynt wisgoedd ffair. A dyna'r pryd, yn y cerbyd hwnnw, rhwng fy nhad a'm mam, ar y ffordd gul o Dregaron i'r Bont, y clywais gyntaf eich enwi chwi, a'ch bedyddio'n annwyl fel "Sioni Winwns."

Bu llawer tro ar fyd er hynny, a bu llawer Ffair Rhos arall yn y Bont, a llawer o gladdu ar y lluoedd a arferai dreiglo o ddwy ochr gwlad tuag yno. Nid yr un yw'r ffordd fawr erbyn heddiw, ac nid yr un yw'r rhai a drig yn y ffermydd gyda'i hymylon hi. Ni bŵm i yn y Ffair fy hun ers llawer blwyddyn bellach. Nid yn yr un dull yr eir yno, ac nid mor niferus, waetha'r modd. Ond mi glywaf o hyd, pan af i lawr y tro nesaf, y bydd rhai ohonoch chwi wedi galw yn y ffermydd, ac wedi cerdded

a theithio tua Ffair Rhos, gan roddi cymaint o liw a bywyd iddi ag y mae ynoch chwi.

Fe'ch gwelais lawer gwaith wedi hynny, weithiau yn y tŷ gartref, yn ffeiriau eraill y cylch, yn y trê'n o Fachynlleth i Gaernarfon, o Southampton i Gaerdydd; ac weithiau yn disgyn mor ddisyfyd â lleidr ar ben bore i bentref bach Tâl-y-wern; yn troedio hirion ffyrdd i Ffestiniog ac i Lanrwst, drwy law ac eira, barrug y bore a chrwybr y corsydd, yng ngorawen ieuencid y dydd, ac ym mlinder siomedig, llwyd-dywyll yr Hydref. Fe welais Gymry ffôl na wyddent mo'ch hanes yn chwerrthin am eich pen, a gwelais ragor nag unwaith ddeigr ar eich llygaid, a sychai yno'n fuan am na adawai eich balchter chwi iddo nac ymddangos na disgyn oddi yno. Gwybyddwch fod ichwi groeso i Gymru, eich henfro chwithau gynt, a bod gennych hawl arni, a hawl ar ei pharch i chwi. Dydd i'w gofio, dydd a ddyry lawenydd yn y galon, yw'r dydd y gwelaf gyntaf cip ar eich wyneb ar rodfeydd ein gwlad ni. Y dydd hwnnw, codaf o ba le bynnag y byddaf, yn unig i fwynhau'r profiad o edrych arnoch, i dorri geiriau â chwi, i'ch croesawu i'n plith, ac i ddiolch ichwi am gadw oed mor gyson, mor blygeiniol â'ch cartref cyntaf. Pwy ni ddyhea yn y Gwanwyn am glywed y gog, ac a fydd lawen wedyn? Profiad felly, profiad o orohian, ydyw'r eiddof innau pan wêl fy llygaid olwg arnoch chwi, "Sioni Winwns," yr unig ymwelwyr sy'n dyfod i Gymru yn weddus, yn ostyngedig, yn fonheddig, yr unig rai a ddirmygir yn y trefi, ond yr unig ymwelwyr gwir aristocrataidd a ymwêl â ni mewn blwyddyn gyfan. *Hawddamor!*

* * * *

Ac wele finnau bellach wedi cyrraedd i'ch cartref chwi, i geisio talu peth o'r pwyth yn ôl, ac i ymdrechu deall eich cyfrinach, i astudio'r gwareiddiad a godwyd gennych mor ddyfal, mor ddi-goll, mor ddianwadal, mor gydnaws â'ch naturiaeth chwi eich hunain. Yma, yng Nghastel Paol, edmygaf dŵr ehedog, wybrennol y *Kreisker* a dau dŵr eich Eglwys Gadeiriol, a'i brith-ffenestri, yn enwedig y rhos-wydr. Edmygaf chwithau, ddyinion heini, cryfion, gweithgar, a'ch merched aml, iach, gosgeiddig, fel y gwelaf chwi yn heolydd Kastel Paol a Rosco; ond yn arbennig pan welaf chwi ar eich ffordd i'ch Eglwys Gadeiriol ar fore Sul; ac yno, oddi mewn i'r fan lle bu'ch teidiau chwi am ganrifoedd yn addoli, a chyn hynny'n llafurio'n ddefosiynol i godi'r adeiladau hyn sy'n ogoniant i'ch tref ac i'ch bro—yno y mae eich gwled ar eich gorau ac ar eich harddaf, ar eich cryfaf ac ar eich doethaf. Y mae harddwch a chadernid ar dalcennau eich merched, a hoenusrwydd ac iechyd ar ruddiau eich bechgyn. Y mae nod ac arwydd bonedd ar eich ymarweddiad chwi oll. Y mae undeb ac unoliaeth yn eich hanes ac yn eich addoli, a mawl a llawenydd ac angerdd tawel; ac ar eich wynebau y mae goleuni gweddi. Wrth edrych ar y myrdd ohonoch sy'n gweddio ac yn canu o flaen fy llygaid, daw rhyw ryfedd hyfrydwch a balchter i minnau. Ni flinaf edrych arnoch. Y mae'n llawenydd i'r galon. Teimlaf yn falch ohonoch, ac yn llawen o gael perthyn yn y mymryn lleiaf i'r fath lond eglwys ac ardal o ddynoliaeth. A dywedaf wrthyf i fy hun, mor ddistaw fel na chlyw yr un ohonoch: "Wele genedl gref. Wele wŷr a gwragedd dynol, cyfoethog. Wele olygfa o sadrwydd a gweddusrwydd, undod moesol

a gwedd traddodiadol na welais erioed mo'i gyffelyb yng Nghymru. Mor hardd ydyw'r Llydawiaid ar eu gliniau, y gleiniau yn eu llaw, a syched am y dwfr bywiol yn eu llygaid! Prydferthwch santeiddrwydd!"

* * * *

Pum niwrnod yr arhosais yn St Pol ar y daith gyntaf, ac yr oedd hynny'n hen ddigon o amser nid yn unig i'w gwled oll, ac i ddewis y manau a foddiai fy llygaid orau, ac i ddarganfod dau neu dri o gonglau dengarach a chynhesach na'i gilydd. Rhoddodd imi gyfle da i ddyfod i adnabod rhai o drigolion y lle. Gŵr o'r enw Louis le Disses oedd y cyntaf a gyfarfûm, a hynny ar ganol un o'r caeau sy'n estyn eu cloddiau hyd at ddrysau'r dref. Erys yn fy nghof yn lled eglur hyd heddiw. Efallai mai'r rheswm am hynny ydyw imi hoffi gwedd ei wyneb tyner, parod i wenu, a'i lygaid gleision, a thybio ei fod yn debyg i ryw lun a welais yn rhywle o S.R. Llanbrynmair yn wŷr gweddol ifanc.

Llydawr ydyw Louis le Disses, ac ni chlywsai erioed air am S.R., ond daeth ar unwaith yn ddiddorol imi. Gwyddai Lydaweg mor drwyadl ac mor gywir ag y gŵyr unrhyw Gymro diwylliedig Gymraeg. Gweithiwr cyffredin, gwerinwr fel y cannoedd oedd yn y caeau nesaf ato, ac yn y dref. Ond gwyddai lawer iawn mwy am Gymru nag a wŷr athrawon ein Colegau ni am Lydaw. Breuddwyd mawr ei fywyd ydoedd cael dyfod i Gymru, i gael "ysbrydiaeth," meddai ef, ar gyfer gweithio dros Lydaw. Ni las-wenais am ben ei freuddwyd. Ond yr un pryd, ni allwn lai na gofyn i mi fy hun: Atolwg, pa ryw ysbrydiaeth i fywyd cyhoeddus yn Llydaw a allai unrhyw Lydawr ei gael yn fy ngwlad i?

Gwelais ryw gymaint ar y cyfaill hwn bob dydd tra bùm yn aros yn ei dref. Gwelwn ef gan amlaf yn chwalu'r pridd a garai, yn chwynnu—*c'hwennad*, ys dywedai ef yn ei iaith ei hun—ac yn tynnu'r *artichauts* yn y maes. Ond gwelais ef hefyd yn ei gartref clyd, gyda'i wraig a'u pedwar plentyn bywiog. Yr un yn union ydoedd diddordeb y tŷ â phe bai'n dŷ yng Nghymru, sef yn llenyddiaeth ei wlad; ac adwaenai'r pen teulu bob awdur byw yn Llydaw. Ysgrifennai ychydig ei hun, ac ymdrechai ef a dau gyfaill iddo i ymddiddori preswylwyr Kastel Paol ym mudiad y ddrama.

Un o'r ddau hynny oedd y nesaf imi ddyfod i'w adnabod, gŵr o'r enw Nicolas. Dyn gwyllt iawn oedd hwn, ac un o'r rhai ffyrnicaf eu golwg a welais erioed. Gŵr wedi ei eni i gyffroi, i chwyldroi ac i greu cyn-ddaredd. O'r braidd na thybiwn fod Marat a Robespierre yn ddof wrtho ef, a bod gwibiadau llygaid yr Athro T. Gwynn Jones megis dreigiau diniwed wrth fellt ei lygaid ef. Dyma ŵr llidiog, oedd ganddo gŵyn yn erbyn cymdeithas, ac a'i fflangellai hi, a'i fflamio. Dioddefai ing yn ei enaid am na ddysgodd hi Lydaweg iddo yn yr ysgol, a'i amddifadu am byth, meddai, rhag meddu crap iawn arni hi na'r Ffrangeg. Dioddef a fyddai ei ran tra byddai anadl ynddo. "Addysg amherffaith a gefais i. A pha ymdrech bynnag a wnaf, addysg amherffaith a fydd hi." Felly y llefarai'r loes yn ei galon, a'i wanc anniwall am ddiwylliant.

Yr oedd yn Llydawr da, a'i ffydd yn y Llydawiaid fel milwyr yn ddi-ben-draw. "Ar dir ac ar fôr, nid oedd neb tebyg iddynt. Yn y Rhyfel Mawr, hwy a osodid bob tro

i gadw'r lleoedd anoddaf. Os diffygiai'r Ffrancod neu'r Saeson neu rywrai eraill, y Llydawiaid a ddanfonid i flaen y frwydr, ac i drechu'r gelyn. Nid byth, byth yn ofer." Yna, gan droi'n wyllt o'i falchter i eithaf ei eiddigedd, "Lladdwyd llaweroedd ohonynt fel Ellmyn yn y Rhyfel diwethaf . . ."

"Wyddoch-chi pam?"

"Am eu bod hwy, fel yr Ellmyn, yn defnyddio'r gair 'Ia,' a thybiwyd felly mai'r gelyn oeddynt lawer tro. Yn Rhyfel 1870 yr oedd ar y Llywodraeth gymaint o'u hofn nes gwrthod rhoi arfau iddynt. Rhag ofn y defnyddient hwy yn erbyn Ffrainc!"

Er poethed gŵr oedd ef, gallai fod yn annwyl iawn wrth ei blant. Yr oedd ganddo saith ohonynt, mwy na llond ei gartref bychan. Yno, mewn ystafell o'r neilltu, y gweithiai ei grefft, a barchai'n fawr, ac a driniau'n gelfydd. Yr oedd yn gyfrwysach o'r hanner gyda'i law na chydai dafod, a gwelais ei waith glân mewn amryw eglwysi wedi hynny. Anodd, yn wir, oedd eu cysylltu hwy ag wyneb eiddigus y sawl a'u lluniodd mor ddeheuig. Hoffed a hoffo, ond ni fedrwn yn fy myw lai nag ymgynhesu at y Llydawr gwrthryfelgar hwn.

Offeiriad oedd y trydydd. Ni chofiaf ddim o'i enw ef, pe bai waeth am hynny. Croen glân, gruddgoch, ei wyneb a gofiad egluraf erbyn hyn, ac yna ei barabl isel a diwylliedig, a'i garedigrwydd. Ef a fu gyda mi yn y lleoedd cysegredig, yng nghapel y *Kreisker*, ac yng nghapeli lawer yr Eglwys Gadeiriol, ac wrth droed ei hallorau a'i phulpud, gerllaw'r fedyddfan ac at y côr; ac ef a ddangosodd imi y creiriau a berthyn i'r Eglwys. Ac un diwrnod aeth â mi i'w dŷ ei hun, lle bu rhyngom

lawer maith ymgom am Lydaw—am y grefydd Babyddol, am obaith y Llydaweg i estyn ei heinioes, ac am werth (neu beidio) y gwŷr sy'n arwain yn Llydaw heddiw.

Gweithiai'n ymdrechgar gyda'r bywyd Llydewig; astudia'i'r iaith yn ofalus, a dysgai hi yn y Coleg yn ymyl. Ef a arweiniai'r ddau gyfaill arall, Disses a Nicolas, i mewn i gyfrinachau hanes Llydaw a'i llenyddiaeth. Ef a'u galwai ynghyd i ddarllen y dramâu diweddar, ac i ffurfio cylch myfyr bob gaeaf. Yn y modd hwn, ef oedd offeiriad, tad cyffes, athro a bugail ei braidd a'i bobl, gan lenwi lle urddasol, cyfrifol, ac arweiniol yn y ddinas a'r cylch. Dywedodd air neu ddau wrthyf am y cylch myfyr. Dechreuai bob amser drwy ddarllen pennod o'r *Buhez ar Zent*, sef Hanes Bywyd Seintiau Llydaw, y rhai a ddaeth o Gymru i roddi trefn ar fywyd diffwrth y chweched a'r seithfed ganrif yn Llydaw. Wedi hynny, trafodent hanes eu gwlad, astudient ddatblygiad yr iaith, a thröent eu llygaid fyth a beunydd tuag at Gymru, gan ddysgu amryw o'i cherddi diweddar. Cylch Myfyr gwreiddiol a ffrwythlon iawn, fel y gwelir; a gofynnwn i mi fy hun, pa sawl gweinidog yng Nghymru a wnâi gyfryw wasanaeth yn ei ardal yntau—ie, yn rhad ac am ddim?

Ar ôl cerdded llawer o'r dref, a gweled ei rhyfeddodau ragor nag unwaith, dringais un prynhawn dydd Gwener i ben tŵr y *Kreisker*, i gael un cipolwg oddi uchod ar yr holl wlad gyda'i gilydd. Yn yr uchter gwybrol hwnnw, oedd yn fwy na digon i ddychrynu ac i grynu eich cynheddfau cryfaf ar y cyntaf, ni chynhyrfai dim ar eich tawelwch pellennig, awyrol, ond chwa adenydd ambell aderyn ffo. Islaw—ymhell islaw—yr oedd to'r Eglwys

Gadeiriol, a'i dau dŵr hithau'n codi'n iselfryd a gostyngedig tua hanner y ffordd i'r lle y safwn i. Yn is wedyn yr oedd tōau llwydion holl dai'r dref ddi-gynnwrf, yn un pentwr bychan cryno. Ac yna, yn is eto fyth, pan feiddiech blygu'ch pen syfrdan i syllu arnynt, yr oedd y trigolion bychain, bach, yn rhyw wau fel gwybed drwy'i gilydd. Oddi yno, ac o ben y Tŵr Eiffel ym Mharis, y gwelwch mor fychan o beth yw dyn—y pryf gwan, eiddil, y corrach balch, tymhestlog hwn. Ac yno, yn wir, y mae ystyr greulon mewn gofyn: "Pa beth yw dyn i Ti ei gofio, a mab dyn i Ti ymweled ag ef?"

Hyfryd a gobeithiol ydoedd troi oddi wrth yr olwg drist-anobeithiol ar ddyn yn ei fychander, ac edrych ar y pethau mawr, di-gyfnewid, di-ffun-olaf—y môr glas, mawr ei gynhaeaf; y tir llonydd, gwastad, undonog, ufudd i lafur dynion; y tyrau pell ac agos, y gellid eu rhifo hyd at drigain a deg, y mae'n debyg, a phob un o'r rheini'n mynegi gogoniant dyn a'i feistrolaeth ar elfennau a galluoedd llawer iawn cadarnach nag ef ei hun. Dyna ochr arall ei gymeriad. "*Gunaethost ef ychydig yn is na'r angylion.*" Ei waith ef, wedi'r cyfan, oedd y Tŵr y safwn ar ei ben, yr Eglwys Gadeiriol ar y dde imi, y dref islaw, gyda'i hawyrgylch tebyg i glas asetic mynachlog, a'r holl drefi eraill a welwn i bob cwr, yma, acw, draw—*Santec, Rosco, Penpoul, Carantec, Sibiril, Plouescat*, a llu eraill.

Yn hwyr yr un dydd, mi euthum—ac af â chwithau gyda mi, os mynnwch—i mewn i amaethdy Llydewig yng nghyffiniau St Pol. Yr oedd yno gegin helaeth, gynhwysfawr, a theulu lluosog o gwmpas bwrdd hir. Distaw iawn oedd yr holl le, a deëllais yn union beth

oedd y rheswm, ac ymddiheurais. Newydd orffen bwyta eu pryd olaf am y dydd yr oeddynt, ac yna'n cadw'r ddyletswydd deuluaidd ar ôl—yn hynod o debyg i'r fel y gwneir mewn ambell amaethdy yng Nghymru, ac yn debyg hefyd i'r dull yn Ffrainc fel y disgrifiwyd inni gan Retif de la Bretonne yn ei *Vie de mon pere*. Nid y Beibl a ddarllenent, ond Beibl er hynny—eu Beibl hwy, *Buhez ar Zent*, gyda'r bennod wedi ei thorri allan ar gyfer pob dydd o'r flwyddyn. Onid oedd awdur y Llyfr hwn yn ŵr call, wrth ofalu rhoddi i'r Llydawiad hanes un o'u Seintiau am bob dydd o Ionor i Ragfyr?

Digwyddai fod yno offeiriad, ac ef, os cofiaf yn iawn, a weddiodd wedi'r darllen. Pan orffennodd hyn oll, cawsom gryn rydd-ymddiddan, a pheth dadlau. Yr oedd y sôn wedi mynd am weddio, a mentrais innau awgrymu mai gwendid a bai ydoedd gweddio yn Lladin ger bron gwerinwyr gwlad. Cytunodd un o'r meibion â mi, ac aeth yn ddadl go hir rhyngddo ef a'r offeiriad. Ni ddywedaf pwy a enillodd y dydd—os oes y fath beth ag ennill y dydd mewn dadl. Ond y mae'n rhaid imi gyfaddef bod gan y weddi Ladin ei *raison d'être*; nid yn unig am ei bod yn draddodiadol hen, ond am fod ganddi'r gallu i gysylltu cynifer o genhedloedd wrth ei gilydd, ac wrth eu gorffennol. Er hynny, llais y mab ydyw llais y dydd heddiw, a chlywais gyffelyb feirniad-aeth gan eraill o dro i dro, yn Llydaw ac yn Ffrainc.

Yn yr amaethdy go gyfoethog hwn y gwelais gyda'i gilydd y nifer mwyaf o *wele clôs* ar a welais erioed. Gwely caeedig mewn dodrefnyn mawr, megis cwpwrdd, ydyw'r *gwele clôs* Llydewig, ac fe ddeuir ar ei draws yn fynych iawn yn y ffermdai drwy'r wlad. Bydd y cwpwrdd

gan amlaf o dderw hen a da, ac weithiau wedi ei gerfio'n deg dros ben. Bydd iddo sedd ar ei waelod, megis i'r hen "sgiw" Gymreig; a gwasanaetha'r dodrefn, gan hynny, fel eisteddle yn y dydd a gwely yn y nos. O'i gylch ef yn llawn mwy na'r tân, y try bywyd y teulu Llydewig; a llun ohono ef, â'r teulu'n dringo i'r gwely—neu'n disgyn ohono—ac yn eistedd ar ei "sgiw," ydyw'r harddaf peth y gellir ei dynnu o fywyd y tŷ. Os ewch i Lydaw, mynnwch ar bob cyfrif weled y *gwele clôs*; nid, cofier, mewn siop, lle nad yw yn ddim ond ffrâm farw, ddi-gyflead, ond mewn cartref, lle y mae ganddo ei wir fywyd ei hun, a brodwaith myrdd o freuddwydion.

Yn yr amaethdy hwnnw yr oedd chwech ohonynt gyda'i gilydd, ochr yn ochr, a phob un mor gyflawn o henaint a harddwch â'i gilydd. Nid euthum i mewn i'r un, a phe gwahoddid fi i gysgu yno, ofnaf y buasai'n rhy anodd gennyf gydymffurfio. Nid am nad oeddynt yn lân. Yr oeddynt oll gyn laned ag y gallai gwely fod. Nid am na hoffwn y teulu. Ni allaswn fod yn fwy cysurus a chartrefol mewn un tŷ—oddi cartref. Yn sicr iawn, nid am yr amheurn foesoldeb cysgu o gynifer o bobl gyda'i gilydd yn yr un ystafell. Mi wn yn burion fod Llydaw yn wlad fwy moesol na Chymru. . . . Fel y Cymry cysetylid i gyd, buaswn yn petruso treulio'r nos mewn lle mor gyfyng ac mor gaeedig. Yr ydym wedi mynd yn genedl "lân" iawn yn ein golwg ein hunain, ac os na ofalwn byddwn toc yn rhy "lân" i fyw mewn byd o bridd a baw. Nid ein ffyrdd ni ydyw ffyrdd Llydaw.

Prin yr oedd angen imi ymboeni gyda'r fath feddyliau mursennaidd ac ofer. Yr oedd gan y teulu fwy na digon o bersonau i lenwi pob gwely yn y lle. Ac ni ellid

PERERINDODAU

gwahodd hurtyn o estron i gadw gŵyl nos gyda hwy. Euthum innau i'm ffordd, yn hwyr y nos honno, a thŵr y *Kreisker* yn cysgodi pob cam o'm cerdded yn ôl tua Chastel Paol. Ac yno, mewn gwesty cymharol dlodaidd, y gorweddais y nos, fel pob nos arall a dreuliais yn y dref.

* * * *

NODIAD.—Ymwelais â *St-Pol-de-Léon* yn niwedd Awst 1939 eto. Gwelais Le Dissez, ond yr oedd y ddau arall wedi symud—Nicolas i fyw i Nantes, lle y caiff well cyfle i bregethu ei ddieter yn erbyn cymdeithas, a'r offeiriad (mi gofiat ei enw'n awr—M. Léon) i'w fedd. Le Dissez yn unig o'r tri a erys. Darfu am y ddrama Lydaweg yno; darfu am y Cylch Myfyr. Ond rhoddir gwersi mewn Llydaweg yn Neuadd y Dref bob wythnos yn y gaeaf. Ceidw Le Dissez ei ysbryd yn ieuanc o hyd, ac ychydig iawn a newidiodd mewn pymtheng mlynedd. Yr un ireidd-der plentynnaidd ag erioed! A'r bore y gwelais ef yr oedd newydd fod yn hebrwng un o'i feibion tua'r fyddin. Gobeithiai—druan ag ef!—mai po fwyaf o fechgyn a âi, mwyaf fyddai gobaith Heddwch heb ryfela! Y gŵr syml, annwyl a syber!

PENNOD II

ROSCOFF (LLYDAWEG : ROSCO)

YN y bennod ddiwethaf, gelwais Gastel Paol yn brif-ddinas bro'r wynwyn. A thybiaf fod y disgrifiad yn un hwylus, ac yn gywir. Heb fod nepell iawn oddi wrthi y mae llawer o drefi eraill, a cherddais i'r rhan fwyaf ohonynt yn ystod y dyddiau nesaf. O'r trefi a'r pentrefi hyn, y mwyaf ei maint yw Rosco. Yno hefyd yr oedd yn rhaid imi fyned.

Rhyw bedair milltir o ffordd sydd hyd yno, ac ni chymerai fawr fwy nag awr i'w cerdded wrth fy mhwysau. A dyma gychwyn yn gynnar y prynhawn dydd Iau. Gan fod awel o wynt teg i roddi hwyl yn fy adenydd, yr oeddwn wedi cerdded o ymyl yr orsaf at y *Kreisker* a'r Eglwys Gadeiriol, ac yn wir allan o'r dref, heb yn wybod i mi fy hun bron. Ni welwn ddim yn ddiddorol yn y wlad o ddau tu'r ffordd, gan ei bod mor undonog o wastad, ac mor gynhyrchiol o ffrwythau gwerthfawr ond di-ogoniant. Pan oeddwn yn ymeginio'n fwyfwy, gan ymdafu i frasgamu ar y ffordd garegog, lychlyd, dyma fi'n gweld gŵr a chert ar y drofa nesaf o'm blaen. Yr oeddwn yn ei ymyl cyn iddo droi, ac yn ei gyfarch mewn Llydaweg eithaf Kastel-Paolaidd, yr hyn oedd yn bwysig dros ben, gan fod yr iaith, mewn lliw ac acen a thonyddiaeth, yn newid cymaint o ardal i ardal yn Llydaw. Yno, y mae'n rheol—neu'n ffasiwn

—i drigolion dwy ardal gyfagos honni na ddeallant Lydaweg ei gilydd!

Llwyddais yn bur dda, y mae'n amlwg. Canys y peth nesaf a ddigwyddodd oedd fy ngwahodd i'r lan i'w gert. I fyny â mi, er nad oeddwn wedi blino dim ar y ffordd, os nad oeddwn ar anhygared ei hwyneb. Cefais gyfrinach y gŵr-a'r-gert heb ofyn amdani. Yr oedd yn byw yn ymyl, ond wedi teithio allan o'i wlad fwy nag unwaith. Buasai yng Nghymru, a gwyddai lawn mwy na mi am Abertawe, Caerfyrddin a Llanelli. Rhaid oedd siarad Cymraeg, ar bob cyfrif, ac yr oedd ei Gymraeg yn weddol ddisgloff, ond bod ei eirfa'n gyfyng. Iaith y Deheudir oedd ganddo, iaith Llanelli, ei grymuster a'i gwallau. Yr oedd yn odiaeth o hoff o Lanelli, er cyfaddef mai bywyd caled, prenaidd, oedd ei fywyd ef ac eraill tra byddent yng Nghymru.

"Dim cartre, welwch chi, dim cysuron. Cerdded drwy'r glaw a'r gwynt ar bob tywydd. Gwlychu, ac aros mewn dillad gwlybion o fore tan nos. Bwyta 'winwns' oer yn ein dwrn, ac ambell gilydd o fara. Yna daw'r Sul, y dydd tristaf i gyd inni yng Nghymru. Dim Eglwys Gadeiriol fel hon yn St Pol. Dim gweddio a chanu Llydaweg a Lladin gyda'i gilydd. A dim anale brodyr a chwirydd o'r ddeutu i chi, yn eich cynhesu chi. A dim gwisgo, chwaith, fel y byddwn ni'n gwisgo yma ar y Sul. Welsoch chi ni, y Llydawiaid yn ein dillad gore?"

"Do; lawer gwaith."

"Yn St Pol?"

"Ie, ac yng *Ngwengamp, Montroulez, Tremel, a . . .*"

"O, wel, 'does dim eisiau imi ddweud dim wrthych chi, 'te, am ein dillad dydd Sul ni—yn enwedig y

merched. Ond ma' llawer o bobl yng Nghymru yn meddwl taw tramps ŷm ni, am mai yn ein dillad gwaith ma' nhw'n ein gweld ni bob dydd."

Mor wir! Mor drist o wir!

Trodd y gŵr-a'r-gert oddi wrth y ffordd fawr yn o fuan wedyn, ac anelodd am ei gartref, oedd yn union yn ein golwg. Erbyn hynny yr oeddym yn ben cyfeillion, a syndod i'r rhai oedd yn ymyl oedd ein clywed yn parablu Cymraeg â'n gilydd. Mewn gwirionedd, ni ddylai fod yn syndod o gwbl, gan fod amryw eraill yn yr ardal yn medru Cymraeg yn eithriadol o dda. Cwrddais ag ambell un fy hun wrth gerdded o fan i fan, a chofiaf yn iawn am un a siaradai'n rhuclach hyd yn oed na'r cyfaill uchod. Pan ryfeddais i at ystwythter a llithrigrwydd ei Gymraeg, atebodd:

"O, welwch chi, 'rwy' i'n mynd i Gymru bob blwyddyn ers blynnydde. A pheth arall, ma' gen i frawd-yng-nghyfraith yn ymyl 'ma, sy'n siarad Cymraeg yn llawn cystal â minnau."

"'Fyddwch chi'n siarad Cymraeg â'ch gilydd weithiau?"

"Na byddwn ni wir! Bob tro y gwelwn ni'n gilydd—ac yn enwedig os na byddwn ni am i bawb ein deall ni. O! mae'n talu inni wybod Cymra'g."

* * * *

Rosco! Y mae'r ffordd arw yn goleddfu'r mymryn lleiaf ar i lawr tuag ati am y filltir olaf, gan fod y dref yn union ar lan y môr. Er bod tai'n weddol gyson ar y daith o Gastel Paol, y maent yn llawer amlach oddi yma ymlaen. Tai newydd gan mwyaf, a rhai ohonynt yn hanner plasau bach digon o ryfeddod. Enwau Llydewig

hefyd. Arwydd dda iawn. Dengys sut y mae'r gwynt yn troi, a'r ffasiwn yn newid. *Avel-Dro*, yn wir, ydyw enw un o'r cyntaf o'r tai hyn. *Avel-Dro*, yna *Hep-Toen*, *Ti-Bihan*, *Lez Fôr*, *Ker Maria*, *Ker Theven*, *Bogedou*, *Ker Nitroun*, ac yn y blaen, hyd at y *Ker-Diveza*—y Tŷ Diwethaf!

Yn fuan, aeth y rhibyn tai cymharol wasgarog yn rhestr dynn yn ei gilydd, yna yn rhestr dew o bob tu i'r ffordd—yn ystryd. Dacw westy mawr ar y chwith, ac yna, ar y dde, yr Eglwys. Eglwys heb fod nac yn well nac yn waeth na'r cyffredin, ag eithrio un peth. Y clochdy ydyw hwnnw, ac un tra gwahanol i glochdai Llydaw. Tyrau pedryal fydd i'r rheini gan amlaf, yn esgyn yn chwimwth ac yn gyfrwys i'r uchelder. Yna, oddi yno i fyny, tyllant yr wybren â saeth ysgafn, feiddgar, a gorffen yn bigfain-finiog fel blaen nodwydd. Nid felly y clochdy a'r tŵr yn Rosco. Crynion a llawnion ydyw mân dyrau'r rhain, ac yn dringo i fyny gyda'r prif dŵr, o ris i ris, gan gwblhau'r ddringfa brid hon mewn crynder drachefn. Ni wn yn iawn ai'r cynllun crwn, ai'r pennau bwäog sydd i'w fân dyrau, a ddyry i Dŵr Eglwys Rosco dipyn bach o gywreinrwydd nodedig ac eithaf deniadol. Pair ichwi feddwl am gyfoeth, ac am gymdeithas ffyniannus, ac am ddylanwad y Dadeni. Nid edmygwch ef yn ormodol, efallai; ac yn sicr, ni synnwch ato â cheg agored fel y gwnewch wrth ysbïo a syllu ar y *Kreisker*. Creu chwilfrydedd ynoch y mae, a goglais tipyn ar eich llygaid.

Nid af i'r Eglwys eto. Gwell gennyf weled beth sydd o gwmpas. Mi wn fy mod yng nghanol y dref. Nid eir ddim ymbellach heb ddisgyn i'r môr neu gylchu'r dref

tuag yn ôl. Ac ni fynnaf wneud na'r naill na'r llall eto. Gwelaf mai tri-onglog ydyw'r 'sgwâr' hwn, a bod pob tŷ yma'n hen, yn gadarn, ac yn uchel. Arwydd cyfoeth ar bob llaw. Mewn cyfnod llewyrchus iawn o farsiaandiaeth lwyddiannus, yn llawn elwch yr unfed ganrif ar bymtheg, y codwyd y rhain. Gwelaf fod rhyw ychydig o'r elwch hwnnw yn aros yma o hyd. Y mae llawnder o bobl ddiwyd o'm cwmpas, plant a thrigolion y lle, ac ymwelwyr parthau pell, siaradwyr a segurwyr, pysgotwyr a marchnatwyr, rhodienwyr a rhodreswyr, a phob un yn tafu gair i'r drysorfa gyffredin o gyfeillach dafodog a geir yma.

* * * *

Nid cynt y cefais yr ail olwg ar y cwmni lliwgar hwn nag y mentrais i'w plith, gan dorri ar eu heisteddfod. "*Ar Vreton*," meddai un o'r neilltu. "*Americain*," meddai'r llall. "*Saoz*," meddai'r trydydd. Ond pan welodd yr olaf hwn fi'n syllu arno'n guchiog, ymguddiodd yn y cefn, i wrido ac i ymgwilyddio. "'Ddewch chi yn y cerbyd i St Pol?'" medd llipryn o lencyn yn diferu diogi. "Na; 'rwy' i newydd gerdded oddi yno." "Beth am ddod i'r cwch? Mae Ynys Batz yn ymyl." "Dim o hynny, ychwaith, diolch."

* * * *

Nid oeddwn i am frysio'n ôl i Gastel Paol, nac am hwylio tua'r ynys—a chanol y dref ei hun mor ddiddorol. Yr oedd yno amryw o westai golygus, a bŵm yn treulio dyddiau yn un ohonynt yn ddiweddarach—yr Hotel Talabardon. Hen le campus i aros ynddo, gyda gŵr a gwraig o Lydawiaid gwengar, siaradus, yn ei gadw'n raenus, ac yn rhoddi croeso mwy na brenin ichwi, ac yn

arbennig os siaredwch Lydaweg â hwy. Os oes bai o gwbl ar y llety hwn, yr unig un ydyw y rhoddir gormod o fwyd o'ch blaen, ac y temtir chwi gan ei ddengared i'ch gorlwytho eich hun unwaith neu ddwy bob dydd.

Os digwydd hynny—ac fe ddigwydd, mi wn—yna nid oes ond un peth call i'w wneud, sef eistedd ar un o'r aml gadeiriau sydd o flaen y gwesty yn llosgi yn haul y prynhawn. Yno, rhyngoch a'r rhes coed llwyf sydd o gylch yr Eglwys, fe welwch yr holl bentref yn llusgo heibio ichwi; gellwch chwithau losgi fel y cadeiriau yn yr haul crasboeth, bob yn ail ag ymguddio'n llechwraidd tan eu llenni. Gellwch fwynhau eich coffi du gydag awdur o Vienna neu athro coleg o Sbaen, a gwrando'n foethusfryd ar ddisgrifiadau rhamantus o ddinasoedd a gwledydd na chawsoch eto na'r amser na'r cyfle i ymweled â hwy. Cewch flasau, os dewiswch, glywed eich gwesteiwyr yn cyfeirio atoch wrth bawb o'u cydnabod—lle y mae pawb yn gydnabod—fel y gŵr gwyrtiol a ddysgodd Lydaweg, ac sy'n awdurdod arni! Beth fwy a fynnwch?

* * * *

Os blinwch ar y wledd hon, fel y dirwyn yr oriau heibio mor ddigynnwrf araf â'r bywyd o'ch deutu, yna y mae'r porth i'r môr yn agored o'ch blaen, i ymdrochi ac i dorheulo bob yn ail. Os ymglaearu a fynnwch, a dianc rhag gwreichion haul, yna y mae drysau'r Eglwys o led y pen. Beth am godi allan o'r haul a mynd iddi? Y mae'n llawn mor ddiddorol oddi mewn ag yw'r tŵr a welsom gyntaf. Y mae'r rhan fwyaf ohoni yn disgyn o'r unfed ganrif ar bymtheg, ac yn dangos tipyn o ddylanwad y Dadeni—y pulpud cerfiedig, bas-gerfluniau ala-

bastr gwych iawn, a phrif allor ddifai ddigon. Ond gwelais eu gwell mewn llawer eglwys yn Llydaw. Yr un pryd, gan imi ddod i mewn rhag yr haul, mi a eisteddaf i lawr ar un o'r cadeiriau gwellt, tua chanol yr Eglwys.

O'm cwmpas y mae ychydig eraill, ambell un fel minnau yn ymddiddori'n bennaf yng nghelfyddyd yr adeilad, ac ambell un arall yn myfyrio'n dawel ar ei liniau. Tri, 'rwy'n meddwl, a welaf o'r rhai olaf hyn—un ferch ieuanc, a gwisg go dda amdani, heb ddim i ddangos mai Llydawes ydyw; gŵr gwth-oedrannus, tal, ac wyneb go lym ganddo, a gwedd ddwys; a gwaig ganol oed, annwyl ei golwg a defosiynol iawn, Llydawes yn sicr oddi wrth ei gwedd a'i gwisg. Wedi imi fynd i mewn y daeth y tri yno, a gwyliais hwy'n eithaf gofalus yn cerdded i benlinio, bob un yn ei le ei hun, ac yna'n disgyn mewn myfyrdod a gweddi. Heb fod rhyw lawer o gamau oddi wrthynt yr oedd cyffsgell, a daeth y meddwl imi ar unwaith mai tuag yno yr âi'r tri yn hwyr neu'n hwyrach.

Yn y man wele ddau, ie, dri, o offeiriaid yn ymddangos o'r tu ôl i'r brif allor, ac yn gwneuthur eu defosiwn yn llaes. Ieuainc oedd y tri, a hardd i edrych arnynt, gweddus eu gosgo a heini eu cam. Ar y gair, dyma un ohonynt, yr hynaf o'r tri, yn cerdded at y gyffsgell, yn cau'r llen, ac yn myned yn rhan o'r tywyllwch sydd yno. Cododd y ferch ieuanc o'i lle gyda hynny, ac aeth hiithau y tu ôl i'r llen, gan ymdafu'n sypyn difalch ar lawr y gell. Gwnaeth y Llydawes ganol oed yr un modd, ac ymgolli o'm golwg i yn yr un lle distaw, tywyll, o'r tu arall i'r offeiriad. Arhosai'r gŵr oedrannus ar ei liniau

ar y gadair wellt, yn dal ymlaen i ymddiddan â'r Tragwyddol.

Yr oedd yr holl Eglwys yn llwythog o ddwys erbyn hyn, ac yn llethol dawel. Nid agorodd yr un drws, ni ddaeth neb i mewn, ni symudodd neb gam. Sŵn clamp o hen gloc yn ticio wrth lofft y Grog y munudau araf, trwm, oedd yr unig sŵn a glywai clust. Caeai'r Eglwys yn dynn, yn gaethiwus, am yr holl ddistawrwydd; ac ymddangosai'r heulwen a wresogai o hyd oddi allan ar lawr y dref ac ar gefn ei phobl, yn annelwig bell ac ansylwedol. Daliai'r ferch ieuanc i gyffesu; cyffesai'r Llydawes am y pared â hi; arhosai'r hen ŵr yn llawn myfyrdod yn ei le. Am hir, am hir iawn, mi dybiwn i, parhaodd y gyffes a'r gwrando, y myfyrio a'r gweddïo, gan y ferch ieuanc a'r Llydawes ar lawr y gell; a'r gŵr ar ei gadair. . . . Anadlai'r cloc yn drwm. . . .

Cofiw'n innau'n dda am yr ymddiddan a gefais gynt ag offeiriad Tremel, ac am ei eiriau wrthyf ynglŷn â rhin y gyffes. "Y mae bywyd glân a buchedd santaidd yn amhosibl heb gyffesu." Dyna oedd y frawddeg ryfedd a redodd yn ôl i'm meddwl, ac a lynnodd yno'n hir. Daeth imi awydd cryf i drafod yr holl bwnc gydag ef unwaith yn rhagor. Ond gwyddwn na chawn fyth mo'r cyfle hwnnw, gan iddo ef, yn ei anfodlonrwydd ar gynnydd ei enaid fel offeiriad y plwyf yn Nhremel, ymuno ers llawer blwyddyn ag Urdd Fynachaid na edy iddo bellach ddal pen-rheswm â neb.

Daeth y diwedd. Tynnodd y ferch ieuanc y llen oedd rhyngddi a mi, cododd, ac aeth drachefn i benlinio ar y gadair oedd ganddi o'r blaen. Ennyd bach, a gwnaeth y Llydawes yr un peth. Tro'r hen ŵr ydoedd hi bellach;

ac anelodd yntau'n eithaf crimpinaidd tua'r gell, a disgyn yn styrlyd ar y stôl oedd yno. Cyn iddo ef ddyfod allan, yr oedd y ddwy wraig wedi gorffen eu holl ddefosiwn, wedi ymryddhau o bwys euogrwydd, a chyrraedd yn ôl eilwaith i'r byd, a gynrychiolid iddynt hwy gan Rosco, y dref a'i thai a'i strydoedd, y wlad a'i thri chnwd, a'i diwydrwydd. Gwyliais y gŵr hen yntau'n dod allan o'r tu hwnt i'r llen, ac yn camu'n sigledig at ei gadair wellt. Gweddïodd yntau ysbaid, ac yna fe'i gwelais—yn llonnach gŵr, 'rwy'n meddwl—yn dianc allan drwy'r un drws i gyfranogi o'r un bywyd.

Y tro hwnnw yn Rosco, yr oedd gyda mi gwmni bychan dedwydd o Gymry; ac yn ddiweddarach yn y prynhawn aethom oll at lan y môr yn ymyl. Ac yno y buom yn dadlau'n hir am y gyffesgell. Odid fod un o'm cyfeillion hynny yn barod i gydnabod unrhyw rin yn y cyffesu. Byrlyment yn frwd yn erbyn, gan ddywedyd: "Pwy yw offeiriad i fynd rhwng dyn a'i Dduw? Paham na chaiff y credadun gyffesu ei hun, yn ddi-gyfrwng, wrth Dduw? Pa reswm sydd mewn disgwyl i bechadur o ddyn gyfaddef ei holl ddrygau, ei feddyliau budron a'i fwriadau cêl, ger bron dyn arall, ag yntau'n euog o'r un rhai ffaelectedau a phechodau?"

Mi a ddadleuais fy hun lawer tro y dadleuon hyn, a rhai eraill cyffelyb iddynt. Eithr gwelais ragor nag unwaith nad yw cyffesu, wrth reswm, yn cau allan weddi ddirgel, bersonol. Yn wir, y prynhawn hwnnw yn Rosco, yr oedd hi'n lled eglur bod y tri a gyffesodd, yn gyntaf wedi gweddïo'n dawel yn yr Eglwys agored cyn symud tua'r gell. Gweddïodd y tri hefyd, bob un ar ei ben ei hun, wedi dyfod oddi yno. Yna, un peth arall a'm

synnodd ydoedd y modd yr ymdaflodd y ferch ieuanc i'w chyffes. Nid anghofiaf mohoni'n fuan iawn yn ei dadlwytho'i hun, megis, ar riniog y gell. Merch a welais i yno, merch dlos, ieuanc, yn taflu ei balchter ar y llawr, yn agor ei chlwy ac yn ei ddangos iddi hi ei hun ac i arall. A gafodd hi feddyginiaeth i'w dolur, nis gwn, Eithr wrth grefu amdano, creodd ar amrantiad brydferthwch na ddychmygodd hi ddim yn ei gylch; creodd brydferthwch santeiddrwydd. Ei gosgo hi y dydd hwnnw—nid gwedd llawer merch harddach na hi ar heolydd Rosco—ydoedd y peth tecaf a welais wedi colli golwg ar y Tŵr yn St-Pol-de-Léon. Yr oedd yn fythgofiadwy.

Yn hwyrach dipyn yr un prynhawn, ar ôl ymddigoni ar dywod glan y môr, a mynnu gweled aml beth prin y dywed pob *guide* ei fod yn Rosco—yr hen ffigysbren sydd dros ei thri-chanmlwydd oed, y tŷ a elwir yn Dŷ Mari Stuart, Brenhines yr Alban, un neu ddau o hen dai eraill—wedi hyn oll, ni a aethom tua'r orsaf. Cyn cyrraedd, gwelsom olygfa sydd gydag un o'r rhai mwyaf cyffredin yn Llydaw—gwragedd yn golchi dillad mewn pynfarch o lyn pwrpasol. Ar hynny o bryd, tua chwech o'r gloch, rhyw dair neu bedair yn unig oedd yno. Yr oedd y lleill, a fuasai yno'n gynt yn y dydd, yn ddiâu wedi myned i'w tai, a'r dillad yn lân gyda hwy. Digon dilewych oedd cyflwr y llyn pan arosasom yn ei ymyl, a throchion sebon yn nofio ar ei wyneb. Ar y grisiau a gylchai amdano, safai'r tair neu'r pedair, gan weithio'n ddygn ar eu golchi. Yr oeddynt yn hen bob un, a dywedodd un ei bod hi'n drigain a deunaw mlwydd oed.

Y syndod mawr oedd eu gweled oll mor sionc ar ôl oes faith o lafur caled, mor llawen ar ddiwedd dydd o oriau diwyd. Llanwent yr holl fro â'u chwerthin iach ac â'u ffraethineb chwareus. Gofynnwyd iddynt a fyddent yno drannoeth—dydd Sul.

"Dim perygl! Byddwn yn yr offeren bob un am wyth yn y bore!"

"Beth am weddill y Sul? . . ."

"Y mae'r gosberau yn y prynhawn! . . ."

"Ond 'd ewch chi ddim yno?"

"Ni gawn weld am hynny. Prun bynnag, dim o'r llyn golchi 'ma inni 'fory; dim diolch!"

"'Rych chi'n dduwiol iawn?"

Cyntaf: "Debyg iawn. Rhaid inni fod. 'Rydym am gael gwel lle ar ôl mynd oddi yma."

Ail: "Golchi fydd dy ran di, eto, mi gei di weld. A pheth arall, yr wyt ti'n o drwm i'th dynnu di i fyny i'r nefoedd."

Chwerthin mawr.

Cyntaf: "Wel, os i'r lle arall yr af i, 'fydd yno ddim gwaith imi—dim ond canu."

Ail: "Ti gei olchi wyneb yr hen Liwsiffer. Byddi wrth dy fodd!"

Felly y cellweiriair hen wrageddos â'u crefydd yn oriau olaf dydd diwethaf yr wythnos, a seiniau'r Offeren fore Sul bron â bod eisoes yn eu clustiau. Etifeddesau'r fath sicrwydd diymod, gallent yn ddiragrith, a diberygl i'w heneidiau, gymryd yn ysgafn, yng ngŵydd estroniaid, y trigfannau anweledig.

PENNOD III

GUIMILIAU

WEDI treulio dyddiau yng Nghastel Paol a'i chymdog-aethau o dir cyfoethog ond gor-wastad, mi a ddychwelais drachefn tua Morlaix (Montroulez), gan na fedrwn gyrchu am y Dehau heb fynd drwodd. Euthum ar fy union i chwilio am fy nghyfaill, Gourvil, i ddweud wrtho fy argraffiadau am Gastel Paol a Rosco. Disgyn i lawr y grisiau lawer sydd yn eich gollwng yn y diwedd ar lawr y dref. A nesu at y "Ti Breiz," y siop lyfrau a arferai Gourvil ei chadw yno. Y mae'r siop honno wedi ei chau erbyn heddiw; a phan wnaed hynny rhoddwyd dyrnod drom i fywyd cymdeithasol y dref. Pan oedd hi yno, a Gourvil yn ei chadw'n llawn o lyfrau Llydaweg a llyfrau ar Lydaw, ac ambell lyfr Cymraeg yn eu canol, yr oedd yn rhyw fath o ganolfan fechan, gynghreiddiol i fywyd Morlaix. Yn hynny o beth, yr oedd hi'n well na'r *café* gorau; a'r ymddiddanion a'r trafodaethau a geffid yno yn llawer ehangach, difyrnach a mwy diwylliedig nag yn un lle arall. Yr oedd yn sioncach hefyd, yn serchocach ac yn llawnach o hoen.

Yno, caech ymdrin yn rhydd ac agored â'r agweddau hynny ar fywyd Llydaw a ymddangosai yn anghyson â'i gilydd, yn anodd eu deall, neu'n groes i'r hyn a ddysgodd llyfrau am y wlad. Nid oedd ball byth ar amynedd Gourvil, ac nid oedd y conglau tywyllaf yn hanes ei wlad yn ddieithr iddo. Yr oedd bywyd Llydaw iddo ef

GUIMILIAU

fel un ffordd fawr wedi ei hagor allan a'i lledu o'i flaen, a'i goleuo gan ei fynych gerdded arni, a'i ddarllen helaeth. Os digwyddai'r siop fod heb neb arall yno, yna caem sgwrsio Cymraeg rhyngom ein dau, er dirfawr ddiddordeb i'r pererinion nesaf a gyrhaeddai yno. Nid ychydig o siom imi oedd cyrraedd i'r un siop yn 1931 a gweled nad y digymar Gourvil oedd ei pherchen bellach. Siomiant mwy fyth yn 1937 oedd bwhwman o gwmpas yr un hen le, a adwaenwn bob modfedd ohono, a deall bod y siop ei hun wedi darfod amdani. Ai ystyr hynny ydyw bod preswylwyr Morlaix yn myned yn llai lai hoff o lyfrau, yn enwedig o lyfrau Llydaweg? Dyna'r meddwl atgas a ddaeth ataf yr haf hwnnw, er mor wrthnysig yr oeddwn i'w anwesu. A phan dybiais imi glywed rhyw ychydig llai nag arfer o siarad Llydaweg yno, mynnodd lynu er fy ngwaethaf.

Ond yn 1922 nid felly yr oedd hi o gwbl. Dyddiau mwyaf araul yn hanes y "Ti Breiz" ydoedd y rheini, pan nad oedd yn wag hyd yn oed ar ganol y prynhawn mwyaf digynnwrf drymaidd, a myllni'n hidlo o awryglych canol-oesaidd yr heolydd, a chysgodion tai canrif-oedd oed yn damsang yn haenen ar haenen, a'u harogluon yn gawod ar gawod. Yn y llehtod hwnnw a ddisgyn weithiau ar Forlaix ym misoedd yr haf, yr oedd clonc cloffni Gourvil ar lawr y siop yn diaspedain oddi tan y llofft isel, ac yn dianc allan i'r heol, gan odli â chlonc-di-glonc esgidiau pren rhywun a ymlusgai'n ôl a blaen o dŷ i dŷ ar isel lawr y dref.

Y peth mwyaf cysurlawn ym Morlaix ydyw bod Gourvil yn byw yno o hyd, yr un ag erioed, yn sefydliad ynddo'i hun, ac yn drysor ac yn dywysydd i gyfaill o

Gymro. Eleni eto, ar ddyddiau'r gofidiau mawr cyn y rhyfel, treuliais brynhawngwaith hir yn ei gwmmi, yn trafod degau o bynciau yn hanes a llên a chelfyddyd Llydaw, ym mywyd Villemarqué a Rio a Souvestre. Bydd ganddo'n fuan lyfr ar Villemarqué; a gwelais ei gannoedd nodiadau ar enwau teuluoedd a lleoedd, mewn cwpwrdd ar gwpwrdd, deunydd llyfrau lawer. Newidiodd ei waith, newidiodd ei dŷ, ond erys yn un o'r hoffusaf o'r holl Lydawiaid a adwaen.

Yn nesaf yr oedd arnaf awydd myned i weled pentref bychan o'r enw *Guimiliau*, lle y gwyddwn fod eglwys ddiddorol a "Chalfaria" a gyfrifir yn un o'r rhai mwyaf cywrain yn Llydaw. "*Kenavo*" i Gourvil; hanner rhedeg i fyny grisiau'r dref, a llamu i mewn i'r trê'n, a dyma sigl-deithio tua Guimiliau. Newid cwmni, newid lle, a disgyn mewn gorsaf fach o'r naill du i'r pentref. Ni chymerodd fawr o dro imi gerdded pob modfedd ohono, ac ysbïo ar bob capel a chongl yn yr Eglwys. Ond dywedai rhywbeth wrthyf na allwn wneud chwarae teg heb ymweled â hi ragor nag unwaith, ac na ddi-hysbyddwn mo'i haml ryfeddodau mewn ennyd bach. Léon Daudet sy'n arfer dywedyd y dylai pawb ddarllen tudalen o lenyddiaeth ddiledryw o leiaf dair o weithiau — yn gyntaf, i'w fwynhau; yn ail, i ddotio arno; ac yn drydydd, i geisio deall pa fodd y lluniwyd ef. Y mae'n llawn mor wir am bob creadigaeth brydferth, bydded gelfyddyd geiriau neu gelfyddyd meini.

Yr oedd y pentref ar hynny o bryd yn llawn o bobl, a llawn oedd y tai a'r tefyrn. Dillad dydd Sul oedd amdanynt, a rhyw fath o gôt ysgafn, laes, dros y cwbl. Cefais wybod yn fuan mai campau a rhedegfeydd a

fuasai yno drwy'r-dydd bron, a bod y cwbl o'r chwarae drosodd cyn fy nyfod. Teimlo braidd yn ddig wrthyf fy hun oherwydd colli'r fath gad Gamlan, ac yn enwedig pan wybŷm wedyn mai y dydd cynt y buasai'r pardwn blynyddol, gŵyl grefyddol fawr yr holl gwmpasoedd. Eithr arhosai o hyd gryn heidiau o ddyinion yma a thraw rhwng mân heolydd y lle. Cyn mynd allan i'w canol i ymgymysgu â hwy, cymerais ystafell mewn gwesty bach hollol wledig, a gedwid gan frawd a chwaer.

Deuthum i adnabod y chwaer yn weddol dda, canys gweinai ar hwn ac arall fel y deuent i mewn i'r gwesty, a cherddai'n dawel o ystafell i ystafell gan dywallt o'i deutu yr urddas ufyll ond diamheuol oedd wedi cyddyfu â hi. Am y mab, ni chefais nemor gyfle i ddynesu ato. Treuliai'r rhan orau o'i amser yn ei wely, a phan godai oddi yno, ni adawai ei wanc imi gael yr ail olwg arno. Gwelwn ei gysgod yn diflannu drwy'r drws i'r pentref, neu'n llusgo'n llechwraidd tua'r llofft a'r gwely. Dau begwn eithaf ei fywyd ydoedd gwydr a gwely, a rhyngddynt y llerciai ei ddifyrrwch a'i ddyddiau. Pan ddeuthum yno ar ben blwyddyn arall, yr oedd ei gyflwr wedi gwaethygu'n enbyd. Yr oedd pob arwydd o ddeall wedi hen ddianc oddi ar ei wyneb anifeilaidd. Yn y gwely y trigai bron yn feunyddiol bellach, ac anaml y gwelwn ei gysgod ar bared. Digwyddais ollwng gair yn ei gylch wrth ei chwaer, ond deëllais ar amrantiad mai dwys-bigog iawn oedd hynny iddi hi. Ac ni feiddiais yngan yr un gair arall.

Wedi cymryd y llety hwn, a mynd â'm llyfrau i'm hystafell ac yfed cwpanaid o goffi, dychwelais i ganol y dref. Tybiwn eu cael yn llai bywiog pobl na'r rheini

ynghastel Paol, ac yn llai annibynnol; ond ar yr un pryd yn serchocach efallai, ac yn haws mynd atynt. Gallwn ddychmygu, a barnu oddi wrth eu dillad ac oddi wrth amled a hardded y cerbydau melynion oedd ganddynt, eu bod lawn mor gyfoethog a da-arnynt. Heb ddim dwywaith, yr oeddynt yn byw mewn bro harddach o dipyn. Nid tawch cryf a garw caeau wynwyn ac *artichauts* a lenwai'r awelon, ond arogleuon gwair ar ei orwedd mewn ystod a maes, ac fyd yn melyn y noriau'r dyddiau hwyaf, gan wasgar ei bereidd-dra gyda'r dechreunos dros gloddiau a llwybrau. Os dringwn i ben clamp o glawdd o'r tu allan i'r pentref, gwelai fy llygaid wlad lai gwastad o lawer nag yng Nghastel Paol, gwlad a frithid gan dyddynnod a ffermdai, gan gaeau gwenith ac ambell goedallt. Gwyddwn bob tro yr awn tua'r pentref y dygai pum munud o gerdded fi'n ôl eilwaith i ganol y tegwch bro oedd i'w gael yn union oddi allan.

* * * *

Yn y pentref ei hun, nid oedd bywyd mor annifyr ychwaith, nac yn undonog, er lleied oedd y lle. Ar ben bore cawn weled plant yr ardal yn dyfod yn llinynnau i'r tair ysgol sydd yno, gan lusgo eu clocs dros y palmant. Am un-ar-ddeg gwelwn hwy eilwaith yn rhuthro o'r ysgolion, ac yn disgyn fel cawod o wenyn ar ddistawrwydd y fan. Diflannent am ennyd i'w tai, gan ymddangos yn nesaf â chwllf o fara-ymentyn yn eu llaw. I'r ysgol eto, a gadael i'r pentref ei wead o gwsg ysgafn hyd hanner dydd. O hynny ymlaen byddai nid ychydig o ddiwydrwydd, a gellid ei fesur yn mynd ar gynnydd hyd

yr hwyr, pryd y byddai traed rhyddion y plant o gaethiwed yr ysgolion yn ei gyflymu—ac yn codi ei gloch.

Yr oriau hynny oedd orau i minnau. Y bore, pan oedd pawb o'r golwg, arhoswn gan amlaf yn fy ystafell i ddarllen. Ond y prynhawn, ni fedrwn ymddihatru oddi wrth y trigolion—Llydawiaid i gyd, bob enaid. Llydaweg yn unig a glywid yno, drwy gydol dydd a blwyddyn, er bod y mwyafrif yn medru rhyw fath o Ffrangeg. A sylwais ar un peth a lonnodd fy nghalon. Medrai pawb bron *ddarllen* Llydaweg. Gwir amheuthun i mi oedd hynny, gan mai'r gwrthwyneb sydd yn wir yn y rhan fwyaf o Lydaw. Yr oedd eglurhad, wrth reswm; a'r eglurhad hwnnw ydoedd bod un o ysgolion y pentref yn ysgol Gristnogol, hynny yw, yn ysgol Gatholig, a heb fod dan awdurdod y Llywodraeth. Ynddi hi câi iaith y wlad ei pharchu a'i dysgu. Yr oedd y canlyniad yn ddau-ddyblyg. Nid yn unig fe *fedrai* pawb ddarllen Llydaweg, ond *gwnaent* hynny. Prynai rhai bapur wythnosol Llydewig. Deuent ag ef i'w ddangos imi, ac ymddangosai'n wyrthiol iddynt fy mod yn gallu ei ddarllen! Ar wahân i'r papur hwnnw, hanner Ffrangeg a hanner Llydaweg—*Le Courier de Finistere* wrth ei enw—darllenent hefyd yn lled gyffredinol eu Beibl cenedlaethol—*Buhez ar Zent*. Drwy'r gaeaf, meddid wrthyf, fe'i darllenid fel rhan o'r ddyletswydd deuluol yn holl ffermydd yr ardal.

Wrth siarad â hwy, dysgwn ryw gymaint am y byd o'm cwmpas, am grefydd ac ofergoel fy nghyfeillion newydd, am draddodiadau na buont erioed mewn llyfr, am fywyd cyn y Rhyfel Mawr, am y loes erchyll a wnaeth hwnnw, am hen ddulliau'r dyddiau gynt o briodi a

chladdu, am y bwydydd sydd ar ddarfod amdanynt. Cofient oll yr adeg pan fwyteid uwd ym mhob tyddyn yn y fro. Ond erbyn heddiw nid oedd ond un ffermdy yn yr ardal lle y byddid yn sicr o'i gael bob dydd—ffermdy oedd hefyd yn felin. "Bydd pob croeso ichi fynd yno," meddent, "ichi gael profi o uwd ceirch fel y gwneir ef yn Llydaw." Mynd. Pan nesais at y tŷ, gwelwn fod y dynion yn gweithio wrth y gwair mewn cae yn ymyl. Anogwyd fi i fynd yn fy mlaen, gan ddweud y deuent hwythau'n union deg. Ar ben y drws, dyma guro, a llais yn gweiddi, "Dewch i mewn." . . . "O! wedi sôn wrthyich am yr uwd? . . . O'r gorau . . . eisteddwch. Dyma fo!"

Yno yr oedd yn fyw ac yn iach, ac yn ffrwtian ei orau yn y crochan.

Toc daeth y cedyrn i mewn o'r cae, dan gloncian eu ffordd dros garreg y drws ymlaen at yr aelwyd. Ar y chwith yr oedd bwrdd crwn go fawr, a'i wyneb yn wyn ac yn lân fel y camrig, ac o'i gwmpas feinciau oedd yn rhan o'r mur a'r pared. Yno yr eisteddodd gŵr y tŷ, ei feibion, a'r gweision, ac yno hefyd y gwahoddwyd finiau i gymryd fy lle. Wedi gosod ystyllen gron ar ganol y bwrdd, codwyd y crochan uwd a'i blannu yno yn y canol. Yr oedd bowlen bren gan bob un ohonom, a llwy bren, ond nid oedd yn y crochan na llwy na lletwad. Cymhellwyd fi i nesu at yr uwd. Yr oeddwn mewn tipyn o benbleth, ac yn rhyw wrthnysig-fonheddig i lyncu'r syniad newydd sbon, mai â'm llwy fy hun y disgwylid imi godi'r uwd o'r crochan i'm bowlen—nid yn unig y tro cyntaf, ond pob tro wedyn pe bai eisiau arnaf. Wedi torri'r iâ, megis, aeth popeth yn ei flaen yn hwylus ac

yn hwyllog, y bwyta a'r siarad. Cododd pob un yr uwd i'w fowlen ei hun, ac wedi bwyta hwnnw, gwnaethpwyd yr un peth dro ar ôl tro, nes bod y crochan yn wag, a phawb ohonom wedi ein llwyr ddigoni. Cefais y cwmni yn un annwyl iawn, er yn ddi-siarad braidd. Fel pob tynner, y mae gan y Llydawwr ei ddihangfa, ac iddi hi y ffŷ pan ddaw estron ar ei draws. Ei reddf gyntaf ydyw ei gwisgo amdano fel cragen, a chloddio amdano'i hun ynnddi. Nid cyn ei fodloni fod y gŵr dieithr yn gyfaill yn wir, yr egyr y gragen, ac y daw'r Llydawwr allan ohoni; ond heb ei rhoddi i gadw un amser yn hir, rhag ofn y bydd arno ei heisiau yn union deg. Rhyw gil-agor ar y gragen honno yn unig a wnaeth y teulu hwn. Ac ni chefais y cyfle i ymweled ag ef drachefn.

Yr oedd crefydd yn un o'r pynciau a drafodid amlaf o bob un yn y seiadau a gawn â thrigolion Guimiliau ar ganol y pentref. Yr oeddynt yn Gatholigion di-ysgog, yn Gatholigion o'r Catholigion. Nid oedd eu Catholigiaeth mor anghymodlon ag yng Nghastel Paol; ond nid oedd ganddo, ychwaith, y brodwaith o fwythus arferion a choelion addurniadol oedd gan ardalwyr Tremel. Yno, yn Nhremel, rhwng priodi a chladdu, a gŵyl goffa wythnosol a bedydd babanod, yr oedd dyddiau'r flwyddyn yn dirwyn rhagddynt fel cadwyn o rialtwch a sbleddach. Ond yma, nid oedd offeren ymhen wythnos wedi'r claddu, nac ymhen mis, na hyd yn oed ar ben blwyddyn—ond i'r cyfoethog yn unig. Pan ddigwyddai priodas, âi heibio'n swil a distaw bach, heb gyffroi'r holl bentref, a heb yr ymweled hanner-swyddogol â phob *café* a windy yno.

Parchent eu hoffeiriaid yn fawr iawn, ac ni chefais

rithyn o sail i gredu mai rhag eu hofn y gwnaent hynny. Yr oedd y wên fawr, lawen, a gerddai ar wyneb mam pan ddangosai ei phlentyn i offeiriad, yn rhywbeth rhy naturiol a boddhaus i neb feddwl nad o wir serch a pharch y tarddai. Canmolent y rheithor i'r cymylau, gan bwysleisio mor dyner ydoedd, mor annwyl ac mor dduwiol. Yr oedd, yn eu tyb hwy, yn sant gwirioneddol. "Ewch ato . . . ichwi gael gweled drosoch eich hun. Mae e' mor wir â'r pader."

Wedi cinio un prynhawn, dyma fi'n cerdded i fyny at ei dŷ, wrth ymyl yr Eglwys. Daeth i'r drws ar amrantiad, yn ŵr mwyn, tawel yr olwg arno; a mynd â mi i mewn yn ei law. Daeth ei diriondeb yn amlwg iawn i mi pan eisteddasom i lawr ynghyd yn ei ystafell noeth, lom. Efallai bod llymder asetig y muriau'n adlewyrchu'n well yr addfwynder a ddiferai allan o'i bersonoliaeth ef. Ymddiddanai'n dawel a hamddenol, mewn llais persain. Gwyddai yn burion mai Protestant oeddwn i, ond i'r sant ag ydoedd ef, ni fennai hynny ddim ar ei raslonrwydd, ac ni chythruddai mohono i'r gronyn lleiaf. Gwyddai mai i'r un gwaed â'i genedl ef y perthynwn innau, a bod hap a damwain wedi chwarae cryn dipyn o ran yn hanes y ddwy genedl fel ei gilydd. Yr oedd yr hyn a feddem yn gyffredin, ein gwreiddiau hen a'n hanes bore, yn bwysicach yn ei olwg na'r pethau oll a'n gwahanai. Soniais wrtho am amryw offeiriad a rheithoriaid eraill y bwm yn ymddiddan â hwy o dro i dro yn Llydaw, ac yn enwedig am reithor defosiynol Tremel.

O dipyn i beth, er yn dringar iawn, nid oedd modd ysgoi cyfeirio at rai pethau a welswn ac a glywswn yn y pentref, megis bod priodasau urddasol a phriodasau di-

sôn-amdanynt, angladdau drudion ac angladdau di-offeiriad. Paham y gwahaniaeth? Paham, mewn pentref bychan fel Guimiliau, na roddai'r Eglwys yr un safon o angladd i bawb? Oni welais, yn ymyl, angladd heb fod yr un offeiriad o gwbl ynddo? Ac onid oedd hynny yn un o'r golygfeydd mwyaf digalon i neb fyth ei gweld? Beth oedd yr eglurhad?

"Gwir iawn," meddai'r rheithor, "y mae'r Eglwys yn gwneud gwahaniaeth. Yn wir, y mae gennym ni bum math o gladdu. Y mae'r claddu drutaf yn cynnwys y gwasanaeth yn llawn ar y dydd hwnnw. A chynnwys hefyd wasanaeth arall ym mhen mis, ac un arall eto ar ben blwyddyn. Gwnawn hyn yn ôl cais gan berthnasau'r marw, y rhai sy'n awyddus am gladdu costus, ac a dâl inni 240 o ffranciau amdano. Bydd hwn bob amser am ddeg o'r gloch y bore, a bydd yno o leiaf ddau offeiriad yn gwasnaethu. Am hanner awr wedi naw y bydd yr ail fath o gladdu, ac un offeiriad fydd yno. Yn y trydydd dosbarth, nid ydyw'r offeiriad yn mynd i'r tŷ, ac yn y ddau ddosbarth arall nid â oddi wrth yr Eglwys. Am naw o'r gloch y bydd angladdau'r tri dosbarth isaf. Oherwydd bod llai o wasnaethau, etc., ynglŷn â'r rhain, ni thelir cymaint i ninnau—dwy-franc-ar-bymtheg a gawn am angladd o'r pumed dosbarth. Yr un modd gyda'r priodasau. Amrywiant hwythau yn eu hurddas o ddosbarth i ddosbarth, er mai tri dosbarth o briodasau a gydnabyddwn. Telir 80 franc am briodas o'r radd uchaf, 50 franc am yr ail radd, ac 20 franc am y trydydd, a hynny bob tro yn ôl dewis y rhai a briodir."

Gwybodaeth ry newydd imi ydoedd hon, a rhaid cyfaddef iddi fy synnu dipyn ar y pryd. Dadleuai'r rheithor

PERERINDODAU

yn dawel o'i phlaid, a rhyfeddai, mi wn, at fy anniddig-
rwydd i. Newidiwyd y gân, a chefais glywed yr un gŵr
rhadlon yn ymestyn allan ei glod i gyffes, am ei bod yn
darostwng dynion, ac yn eu gorfodi, megis, i gerdded y
llwybr cul. "Po amlaf y bydd dynion yn cyffesu," meddai,
"gorau oll fydd eu bywyd."

"A fyddwch chwithau'n cyffesu?" ebr fi.

"Byddaf."

"Yn aml?"

"Yn gyson, gyson . . . dyna anadl fy einioes."

Llawer o siarad arall a fu, am fywyd dibriad yr offeiri-
iaid, am grefydd gwerinwyr Llydaw, am y pedair mil
pererinion—o *Finistere* yn unig—a fu yn *Lourdes* yr
wythnos cynt, am y gwyrtiau a wnaethpwyd yno. Felly
y dihangodd rhwng fy nwylo y rhan orau o brynhawn
yn ystafell y rheithor; a phan godais i fynd oddi yno,
gwahoddodd fi'n garedig i ymweled ag ef drachefn.

Wrth ymadael ag ef, fel â llawer un arall o'i frodyr
o'r "fyddin ddu," chwedl Renan, teimlwn imi fod drwy
ryw ddirgel brofiad o ymddisgyblaeth ac ymddarostyng-
iad chwerw-felys. Yr wyf yn ŵr ffodus iawn, efallai,
canys ni chofiaf imi gwrdd â chymaint ag un o'r rhain
na roddodd imi'r argraff sicr ei fod yn llawer gwell
Cristion na mi. Bùm braidd yn ddigwilydd ambell dro
wrth eu holi, fel pe buasai gennyf hawl i roddi barn
arnynt. Ond ni wylltiodd ac ni chythruddodd yr un
ohonynt, ac er na syflodd yr un fodfedd ar bwnc o
argyhoeddiad, derbyniasant feirniadaeth â gwên ar eu
hwyneb. Nid unwaith na dwywaith y cywilyddiais oher-
wydd rhagfarn galed Syr O. M. Edwards yn erbyn yr holl
frawdoliaeth ohonynt. Ni siaradodd ef â chymaint ag un,

GUIMILIAU

ond eu beirniadu'n ddall o hirbell, a'u disgrifio bob
amser yn erlidwyr, yn dewion ac yn fudron. Euthum
innau i'w plith gyda'r un rhai rhagfarnau. Deuthum
oddi wrthynt â'r rhagfarnau wedi eu dymchwel a'u
darnio'n ulw mân. Yn wir, yn wir, ni wn yn fy nydd
am ddsbarth gwell o ddynion, a'u cymryd at ei gilydd,
nag offeiriaid Llydaw. "Chwi ydyw goleuni y byd."

* * * *

O'r persondy i'r eglwys. Yr oedd hi, fel y tlodion, gyda
phawb oll yng Nguimiliau; ac o'i chwmpas y trôl bywyd
y trigolion, yr un fath â bywyd eu hynafiaid ers canrif-
oedd a chanrifoeedd. Taflai ei chysgodion yn anwesol ac
amddiffynnol dros holl deuluoedd yr ardal; a thanynt
hwy y genid yr iengaf ac y cleddid yr hynaf. Y fynwent
fechan a gloddiai am yr eglwys a feddai ar holl feirw'r
plwy, ac eiddo iddi hi fyddai pawb a oedd â'i draed yn
rhydd, pan ddeuai'r amser priodol. I'r fynwent hon y
mae rhyw fath o Borth Buddugoliaeth, ac er nad ydyw
ond di-nod a diaddurn wrth y porth sydd yn *St The-
gonnec* yn ymyl, ac yn enwedig wrth borth godidog
Sizun, y mae'n nodweddiadol o agwedd meddwl y
Llydawiaid. Pwy ond hwy a ddychmygai godi Pyrth
Buddugoliaethus ar y fynedfa i'r fynwent? Pwy ond
cenedl nad oes ofn angau arni, a bletha'r gelyn olaf am
ei breuddwydion, a'i dyheadau? ac a dry ei holl-bresen-
oldeb ef yn gyfaill gwastadol?

Mewn meini y mynegodd y Llydawiaid ddeuparth eu
henaid; ac ynddynt hwy, yr eglwysi a'r tyrau, y Pyrth
Buddugoliaeth a'r Calfariau, yr Esgyrndai a'r Clochdai,
y mae darllen y bennod gyntaf ym mywyd Llydaw.
Darllener yr ail bennod yn y cerfiadau cywrain a meistr-

aidd ar dderw'r pulpudau a'r sgrinoedd, y bedyddfeini a'r allorau, y cyffesgelloedd a'r corau. Wedyn yn unig y daw'r drydedd bennod, y cerddi poblogaidd a'r llenyddiaeth ysgrifenedig.

Y mae pob Eglwys yma yn un gerdd faith, fawreddog, orchestol, gyda'i mân gampweithiau yn ffurfio math o delynegion unigol, personol. Yng Nguimiliau y mae'r Galfaria ei hun yn gân frodiog mewn meini celyd. Dywed llyfrau fod dros gant a hanner o bersonau gwahanol yn y Galfaria hon; a chan na chyfrifais i mohonynt, rhaid imi dderbyn hynny, er mor anodd ydyw. Beth bynnag yw eu rhif, y mae unoliaeth berffaith rhyngddynt â'i gilydd; ac y mae'r cyfanwaith yn fyw gan egni, naturioldeb, *naïveté*—ie, a bywyd. Iddewon ydyw'r personau hyn i fod, a hanes bywyd Iesu Grist a adroddant yno yn eu hunfan llonydd. Ond pryd a gwedd Llydawiaid sydd ar bob un ohonynt, a gwisgoedd yr unfed-ganrif-ar-bymtheg a wisgant amdanynt. Safant ar ben sylfaen gadarn, ac ymnythant yn dew yn ei gilydd, yn yr holltau a gerfiwyd ar eu cyfer, ac oddi uchod, yn agored ar lwyfan yn yr awyr. Oddi yno fry cyfyd colofn tua'r nefoedd, ac ar ei huchaf hi y mae'r Crist yn gwingo ar y Groes.

Ond pwy yw'r personau eraill? A pha beth a gynrychiolant? Pa chwedl a adroddant? Beth yw'r bywyd a anadla'r meini cerffedig hyn? Pa dafodau dieithr sydd yma'n llefaru?

Yma y mae holl dudalennau'r Testament Newydd yn rhoddi eu tystiolaeth. Dechreuir, yn naturiol, gyda chyfarchiad Mair Forwyn, ymweliad Gabriel â hi, a genedig-aeth Iesu Grist. Yna daw'r bugeiliaid i'w addoli Ef, a'r doethion o'r Dwyrain i blygu glin iddo. Dilyna'r

digwyddiadau eraill yn Ei hanes yn gyflym—yr ymweliad â'r Deml, y ffoi i'r Aifft ar gefn asyn, y bedyddio gan Ioan, y daith fuddugoliaethus i Gaersalem, golchi traed y disgyblion, gweddi ac ing yr Ardd, brad Suddas, Pedr yn torri clust Malchus, fflangellu Crist, Ei goroni â'r goron ddrain, Ei wawdio a'i watwar, Ei gondemnio i farw gan Beilat, Ei groeshoelio ar y pren, Ei dynnu i lawr a'i osod yn y bedd, a'i atgyfodiad . . . Yr Efengyl yn gyfan!

Treuliais rai oriau i olrhain y stori ryfedd hon yn wynebaw ac ystumiau'r personau gwreiddiol, geirwon, digrif, a chwaraeai eu rhan mor fywiog yn y ddrama fawr. Mynnai ymadrodd Emile Mâle am yr eglwysi fel "Beibl y Tlodion" lynu'n gyson yn fy meddwl, a pheri imi gydnabod mor llawn o wirionedd ydoedd. Yn wir, onid oedd eglwysi plwyf Llydaw weithiau wedi curo hyd yn oed yr Eglwysi Cadeiriol eu hunain, gan fod Testament Newydd cyfan o'r tu *allan* i'r eglwys, ar y Galfaria yn unig? Pa sawl Galfaria arall sydd yn Llydaw yr un mor gampus â hon yng Nguimiliau? Mi a welais fy hun un neu ddwy, ym *Mhlougastel* ac ym *Mhleyben*; ac y mae eraill, rhai hŷn a rhai diweddarach, rhai'n gwbl mor enwog â hi, a rhai'n ddistatlach o dipyn. Y gwir syml yw nad oes nemor gapel gwledig nac eglwys, na chwyr mewn plwyf na chroesffordd weddol hen, heb fod yno'n anelu tua'r ffurfafen ryw groes o wenithfaen, a'i phersonau yng nghysgod ei gilydd yn llefaru oddi arni.

Cyn mynd i mewn i'r eglwys ei hun, tynnir ein sylw gan adeilad arall sydd mor nodweddiadol o Lydaw, sef Esgyrndy. Mewn gwlad lle y mae gwareiddiad a hanes mor hen, a lle yr ymgasglodd dynion i fyw ynghyd i'r

un conglau ar hyd maith ganrifoedd, y mae esgyrddy yn hanfodol mewn mynwent. Er ei fwyn ef yr egyr y beddau bob rhyw bum mlynedd yng Nguimiliau, ac y rhoddant i fyny eu meirw, i'r byw eu claddu yn yr esgyrddy. Ni welais y cloddio hwn fy hun, ond bûm yn gwrando ar rai o drigolion Guimiliau yn ei ddisgrifio. Byddai iasau yn fy ngherdded pan welwn gip ar hwn, neu pan siaradai fy nghyfeillion amdano. Gallaf, fel pawb arall, ac o hir gynefino â'r syniad, ddygymod â'r beddau gwahanedig, y "teiau yn y tywod." Ond yr esgyrddy! A'i benglogau yn y golwg! Y mae beddau'n garedig wrth hwn. Cuddiant hwy fuddugoliaeth yr angau o'n golwg. Eithr cyhwfana'r esgyrddy goncwest y gelyn olaf gyda wyneb a digywilydd-dra di-groen-denau. Y rhyfeddod i mi ydoedd gweled y pentrefwyr mor ddi-grŷn wrth sôn amdano. Yr Esgyrddy—a yw yntau, fel yr angau, yn ddi-ddychryn i Lydawr?

Ar wahân i'r Calfariau, yr esgyrddai hyn yn fynych ydyw cofadeiliau mwyaf gwreiddiol y mynwentydd yn Llydaw. Arnynt hwy yr afradlonir y mwyaf o addurniadau. Y mae'n rhyfeddod i Gymro weled gyda pha fath anwes prudd a sobr y cerfir hwy, ac y gwisgir eu muriau â gogoniant. Y mae hyd yn oed hwn yng Nguimiliau gyda'i golofnau a'u rhigolau, a'r capanau uwch eu pen, yn wastrafflyd o addurniadol. Ond ni chymhara â'r esgyrddy sydd yn *St Thégonnec* ryw dair milltir i fwrdd. Gellid cymryd llw mai plasty ydyw hwnnw gyda'i dyrau blodeuog, ei wyneb gwenieithus, lle yr ymnytha rhai o Seintiau Llydaw yn rhes mewn agennau clyd; ac arno yn drwch yma a thraw frawddegau Lladin, Ffrangeg a Llydaweg, yn sôn am "y dyddiau diwethaf." Plasty, yn

ddiau, eithr nid i'r byw. Y meirw a'i piau yntau. Bedyddiwn ef, gan hynny, ag enw arall, a pheidiwn â'i alw bellach yn Esgyrddy. Haedda ef enw mwy ardderchog—Capel y Meirw. A chan fod y byw a'r meirw ar delerau da â'i gilydd yn Llydaw, gellir ei droi drachefn yn gapel i'r byw, a hyd yn oed yn dŷ byw iddynt. Ewch i *Landerneau*—nid yw'n bell oddi yma—ac fe welwch yr Esgyrddy wedi ei droi yn dŷ—a theulu cyfan yn *byw* ynddo!

Ni fedrir, mewn gwirionedd, lawn fwynhau pensaer-*ni*aeth Guimiliau heb ddal yn y cof beunydd yr hyn sy'n cyfateb iddi yn *St Thégonnec*. Y mae'r ddau blwyf yn ymyl ei gilydd, a bu rhyngddynt rysedd o gystadleuaeth bensaeriol am ganrif gyfan, o tua 1581 hyd tua 1677. Cododd y naill ei Chalfaria, a'r llall ei Phorth Buddugoliaeth, yn yr un flwyddyn—1581. Wedi gorffen ei Phorth, cododd *St Thégonnec* ei Chapel y Meirw, y perffeithiaf o ddigon yn Llydaw. Yna dilynodd Guimiliau gyda'i Phorth hithau, nid Porth i'r fynwent y tro hwn ond Porth i'r Eglwys. Y mae ei gelfyddyd yn gain ac yn gywrain, ac arno gerfluniau oddi mewn ac oddi allan. Nid yn fuan y deuw i ben â'u henwi, heb sôn am wneud dim byd tebyg i chwarae teg â hwy. Rhyngddynt a'i gilydd, adroddant lawer pennod o'r Hen Destament a'r Newydd gyda newydd-deb a gwreiddioldeb syfrdanol. Uwchlaw iddynt oll, mewn unigedd uwch-raddol a gorfoleddus, yr eistedd Sant Miliu, nawdd sant yr Eglwys, gyda choron duc ar ei ben, cleddyf yn ei law ddeau, a'i deyrnwialen yn ei aswy. Yma y geilw y Porth ei ystlysau ynghyd i ffurfio'r to ac i orffen ei ddring mewn clochdy sy'n goron i'r cwbl—y Porth a'i gerfluniau, yr

PERERINDODAU

ystlysau a'u clochdai hwythau, yr orielau a'r agen i Sant Miliâu.

Aeth y gystadleuaeth bensaernïol yn ei blaen. Wedi i Guimiliau gwblhau'r porth hwn, aeth St Thégonnec i ychwanegu Calfaria at ei hadeiladau crefyddol hithau. Gan fod cystadleuaeth mewn *meini* yn ddi-angen bellach, trodd Guimiliau ei sylw i ymdrech arall, i ymgais na ellid yn hawdd ei churo, i fuddugoliaeth mewn *derw*. Galwyd ynghyd y cerflunwyr gorau i addurno Ffynhonnau Bedydd yr Eglwys, a'r Pulpud, a Llofft yr organ. Wedi mynd i mewn, dyna'r pethau cyntaf a dynn eich sylw, ac yn bennaf o'r tri, y gortho rhyfeddol sydd uwchben y Fedyddfaen. Saif ar wyth o bileri wedi eu haddurno gan winwydd a llawryf, a gweithiwyd yn frodwaith arno bob ceinder a allai'r llaw gywreiniaf. Pan gwblhaodd moethusrwydd llaw a llygad ei lafur ar hwn, pa beth oedd gan y plwyf nesaf i ddychmygu o'r newydd yn gyfartal iddo? Aeth ati, a threchodd ef yn y peth yr oedd Guimiliau yn wannaf ynddo, ac felly y cafwyd yn St Thégonnec un o'r Pulpudau harddaf a drutaf yn yr holl wlad. Yn y modd hwn y terfynodd y gystadleuaeth rhwng y ddau blwyf, gan gyfoethogi'r ddau â thrysorau celfyddyd anodd eu curo yn unlle.

PENNOD IV

TUA'R BERFEDDWLAD

AR ôl treulio dyddiau ym Montroulez (Morlaix), Kastel Paol a Guimiliau, a theithio i St. Thégonnec a Brest, nid euthum i ddim pellach i'r Gorllewin ar y daith gyntaf hon. Nid ymwelais â *Phlouesgat* a *Lesneven* a *Folgoat*, er imi fyned i bob un ohonynt yn ddiweddarach. Rheswm da paham. Nid oedd gennyf ormod o amser, a rhaid oedd ei rannu yn fwy neu lai cyfartal rhwng llawer rhan o'r wlad.

Yr oedd rheswm arall. Gydag ymylon môr y teithiaswn fwyaf hyd yn hyn, tua'r glannau, lle y mae ymwelwyr haf yn heigio wrth y cannoedd bob blwyddyn. Ac nid mynd i ddysgu adnabod y wlad, i ddarganfod Llydaw, y maent hwy. Deuant yno i ymfwynhau ac i dorheulo ger y môr, heb roddi nemor sylw i'r wlad a'r werin, ac i'r awyrgylch o ddiwylliant a chelfyddyd a adeiladodd y ddau mewn cydweithrediad oesol â'i gilydd.

Darganfod cenedl a fyynnwn innau, a dysgu amdani mewn hwnwrwd a phardwn, mewn tref a phentref, mewn Eglwys a Chapel, tŷ a gwlad, yr hyn na ddysgai llyfrau imi fyth. Pa ragor oedd rhyngof i a'r ymwelwyr haf mwyaf di-doriad? Rhaid oedd imi dorri fy ffordd i'r berfeddwlad, a gweled â'm llygaid fy hun y rhannau mwyaf di-sathr ohoni.

Ers dyddiau, ers misoedd yn wir, yr oeddwn yn dyheu am gerdded y brynïau a elwir yn Llydaw yn fynyddoedd.

Gwyniaswn bob tro y meddyliwn amdanynt. A dyma fi wedi treulio oriau a dyddiau lawer yn y dyffrynnoedd a'r mân wastadeddau, gan godi llygad hiraethus beunydd a byth at lesni gwryf a ffurfafennau niwlog y brynau agos-bell, lle y preswylia Taliesin a'i delyn yn ei law, meddai'r Llydawiad, a lle y cwsg Myrddin yn nyfnder y fforestydd. Yno y disgwyliwn brofi o lesmair cyntefigrwydd pur, megis yn y dyddiau cyn cyd-ganu o sér y bore cyntaf, fel y profodd y Brythoniaid ef pan gyraeddasant yma yn y chweched ganrif o Gymru, o Gernyw, ac o ddeheubarth Prydain.

Nid y lleiaf o wreiddioldebau Llydaw ydyw'r gwahaniaeth dirfawr sydd rhwng ei glannau a'i chanoldir. Y mae'r glannau—*Armor*, ys dywedir yn Llydaw—yn wyllt a gwâr bob yn ail, ac ynddynt y mae hafan a phenrhyn yn dilyn ei gilydd yn gyson. Wynebant ym mhobman faith wryfodod y dyfroedd, a dangosant o hyd, mewn aber ac ynys, dreuliadau a gweddillion y frwydr erchyll rhwng tonnau a thiroedd. Ond y maent bob amser bron yn groesawgar, ac yno y mae bywyd yn chwerthinog, y bobl yn dew yn ei gilydd, ac adnoddau dihysbydd i ddynion fyw arnynt. Yno y mae'r tyddynnod a'r ffermydd bychain yn glwstwr, a'r caeau yn erddi o ran maintioli a ffrwythlonder. Yno ac ar flaen uchaf yr aberoedd y cododd y rhan fwyaf o'r trefi, ac yno y maent o hyd—*St. Malo, St. Brieuc, Paimpol, Treguier (Landreger), Kastel Paol, Rosco, Morlaix, Brest, Quimper, Quimperlé, Vannes* a *Nantes*.

Heb fod nepell oddi wrth yr arfordir y mae'r cefnennau bryniog a bryncynnog—y *Kein Breiz*, fel y'u gelwir. Codant, heb reol na rhythm, yn rhimynnau a

chrimpiâu moelion tua'r mynyddoedd—Mynyddoedd Arré a'r Mynyddoedd Duon. Nid yw'r rheini ar eu gorau gyfuwch â'r lleiaf o fynyddoedd Eryri; ac yng Nghymru ni alwem mohonynt yn fynyddoedd o gwbl. Gweddillion mynyddoedd ydynt, meddai'r dacaregwyr, olion cyfoes o oesoedd cynharaf y ddaear, ac wedi eu hysu a'u treulio hyd at y bôn megis. Eithr, er mai prin iawn yr haeddant yr enw mynydd, yr un yw'r argraff oddi arnynt ag oddi ar unigeddau gerwin yr Alpau, a mwy arswydus o lawer nag o ben yr Wyddfa a'r Tryfan. Islaw iddynt, i lawr wrth eu traed, yr ymestyn ac y lleda diffeithwch a diffwys anolygus, anhwygar, oeraidd, lle ni thyf dim ond blewynnach cwta a grug corachaid, eithin crablyd ac ambell gorsen rynllyd, a lle yr ymguddia siglennydd annihangol mewn corsydd tywyll a thwyllodrus. Pa ryfedd i'r Llydawiad ddychmygu mai yma, yn nyfnder yr anwlad anobeithiol hon, yr oedd preswylfeydd y cythreuliaid a phwll Uffern ei hun?

Er mai lleoedd anial o'r fath ydyw llawer o'r gefnwlad yn Llydaw, nid dyna ydyw i gyd; ac er na edy'r ffrâm esgyrnog inni ei hanghofio'n hir, y mae yno, yma a thraw, ac weithiau am ysbeidiau meithion gyda'i gilydd, ambell wastadedd moethus, cynnes, ac aml gwm clyd, tyner, a llawer llechwedd araf-oleddfog lle y trig yr haul yn hir, ac y disgleiria ei belydr ar erwau o wenith ac ar fforestydd o binwydd. O'r manau hyn i gyd, nid oes yr un yn harddach, na'r un yn ffrwythlonach, na *Huelgoat** a'r wlad goediog, dapestriaidd sydd o'i chwmpas.

Ac i Huelgoat yr arfaethwn innau fynd o Fontroulez.

* Yn Gymraeg, Uchel Goed.

Tamaid bach o drên gwledig, yn llawn gwythi fel y fro y torrai ei ffordd dwnelog drwyddi, oedd yn fy nisgwyl yn yr orsaf. Nid ymddangosai'n or-fonheddig, ac yr oedd hanner golwg yn ddigon i weled ei wendidau fel un cyfangorff o beiriant. Ond o'i blaid yr oedd y ddadl anatebadwy—y gwyddai ei ffordd i'w phen, ac y cyhoeddai ei ymweliad dyddiol â'r berfeddwlad gyda chwibaniad a berthynai'n unig iddo ef. Hawdd oedd gwybod hynny oddi wrth y croeso a gâi ar hyd y daith gan y gwerinwyr caredig yn y caeau, y rhai a adawai fwdwl a thanfa wair i'w gyfarch â bloedd ac estyniad breichiau. Nid rhyfedd ei fod yntau yn gwbl ddi-wylltio rhwng gorsaf a gorsaf, ond yn eithaf di-rybudd yn y gorsaf, am mai yno'n unig y câi groeso swyddogol a swta.

O'r diwedd, wedi rhai oriau o ddringo blinderus ac o bydru mynd yn bleserus, dug y cyfaill chwibanllyd fi i ben fy nhaith yn stesion *Huelgoat—Locmaria*, a pharhaodd yntau ar ei redegfa arferol ymhellach i'r mynydd-oedd. Nid oeddwn yn Huelgoat eto, fel y dëllais yn fuan. Yr oedd gennyf dair neu bedair milltir cyn cyraedd i fyny yno, a chan ei bod eisoes yn burion hwyr, a minnau â chodaidd o ddillad a llyfrau gennyf, gwell oedd aros a threulio'r nos yn y fan a'r lle. Cymryd llety ar unwaith, a bwyta am y penelin â'r ddau fyrddaid o ugain neu ragor a swperai yn agos i ganol y ffordd. Gweithwyr y cynhaef oedd y rhain, newydd eistedd i lawr ar feinciau i dorri eu newyn.

Gan y byddai'n dechrau nosi'n union deg, gadewais y cynhaefwyr, a cherdded i chwilio'r ardal oedd mor newydd imi. Cefais ffordd fach dawel, a'm harweiniodd toc allan yn llwyr o'r pentref, ac i fyny hyd agorfa o

ddyffryn. Yn y cyfnod lled-gyffwrdd rhwng diwedd o'r ffermwyr bob gwaith ar y meysydd a dyfodiad blaenion cysgod y tywyllwch i gau am y ddaear, yr oedd yno dawelwch dwys ar lawr y glyn; a disgynnai ambell lef o stabal ac ysgubor i'w ganol, ond gan ddwysáu'r tawelwch yn fwy fyth. Rhwydwaith o gaeau yn bleth am ei gilydd oedd gwaelod y dyffryn, ac afon fas yn gorffwyo yn hytrach nag yn rhedeg, ar wely llydan, rhwng torlannau uchel. Ac o bob tu, i fyny gyda'r ochrau, dringai trwch o goed yn rheng ar reng ar esgyniad gorymdeithiog at y topiau, a goronod hyd eithaf golygiad llygad. Yno y gostyngai'r ffurfafen hithau lynnau ei lleni bwäog gan bwyo'n drwm ar dawelwch y dyffryn, a chloi amdano a rhoddi iddo fodolaeth wahanedig a hunan-ddigonol, megis. Yr haul oedd yr unig elfen allanol a dreiddiai i'w awyrgylch annibynnol, a gwnâi hynny gyda gwrid yn ei fachlud pellennig.

Y mae'n ddiamau nad oedd y dyffryn yn hir iawn, ac na chymerai lawer o dro i'w gerdded o'r naill ben i'r llall. Ond y mae'n gynnwedd gan ddwyster tawelwch, oherwydd gwasgu'n gynghreiddiol ar amgylchfyd, i hwyhau amser ac i'w ymestyn allan. Oherwydd paham, ymddangosai'r awr neu ddwy a dreuliais ar lawr y dyffryn hwnnw yn oriau lawer, neu'n hytrach yn ysbeidiau o unigeddau a dorrid gan ysbeidiau o fyfyrdod a hiraeth, ac a redai i'w gilydd i ffurfio un maith a moethus brofiad gorawenus. Yn ei wead yr oedd cartref ac oddi cartref, Cymru a Llydaw, hiraeth a llawenydd, cerdded ac aros, gwranddo ac ymwrando, a phob cyffelyb wrthgyferbyniadau. Cyflwr yn yr enaid ydoedd a ddaw yn unig ar ddiethr adegau prin, "yn yr awr na thybioch," heb fod

gennych na rhan yn ei baratoi nac yn ei ddatblygiad. Oes, yn ddiâu, y mae pwerau mawr ar waith, ac ni fedr creadur o ddyn ond gadael iddynt pan ddônt, ym-drwytho ynddynt, a'i gipio ymaith, fel y Bardd Cwsg.

Nid o'm bodd y torrais innau ar fy mreuddwyd. Teimlais ddegau o weithiau yr hoffwn gysgu nos ar fin clawdd, heb ddim cysgod rhyngof a'r sêr yn eu graddau ac yn eu gogoniant. Ond ni chofiaf imi erioed deimlo'r awydd cynhwynol hwn yn gryfach na'r noson honno rhwng gorsaf Huelgoat-Locmaria a'r drofa lle y gedy'r ffordd y dyffryn, y croesa'r afon ac yr ymgyll i ganol y coedwigoedd. Nid oedd yn dywyll eto, a gallaswn gerdded yn ôl i'r dreflan dan chwiban cyn y collai'r cymoedd mynyddig y cysgodion olaf a fwriai'r haul arnynt. Ond siglwyd bwriadau'r galon pan welais geffyl a cherbyd yn dyfod i lawr o ganol y goedwig yr oedd y ffordd newydd gychwyn i mewn iddi. Yn y cerbyd yr oedd llencyn o fachgen calon-agored, a barnu oddi wrth ei gyfarchiad imi, a'r wên a addurnai ei wyneb Llydewig.

Pan ofynnodd imi a esgynnwn i'r cerbyd, yr oeddwn mewn cryn gyfyng-gyngor. Cawswn ryw ddwyawr gyda'r mwyaf godidog o'r holl oriau cofiadwy yn fy hanes, ac nid oeddwn yn barod iawn i garlamu'n gyflym, ddiystyr, mewn ymddiddan arwynebol drwy ddarn o wlad a ddi-hidlodd y fath fendith o dangnefedd a dedwyddwch ar fy ysbryd. Ond o'r ochr arall, yr oedd cyrraedd pen y dyffryn a chlywed carlam ceffyl, a llais bachgen o'r wlad, wedi torri ar lonyddwch fy myfyrdodau; ac nid oedd sicrwydd o gwbl y gallwn eilwaith ymgolli'n ôl i'm hyfrydwch cynt. Ac felly, rhoddais ben ar fy nghyfyng-gyngor, ac esgynnais i'r cerbyd. Pwy a wyddai na chawn

yn y cerbyd hwnnw gawod o swyngyfaredd y goedwig yr aethwn hyd at ei chyrrau? O'i dyfnderoedd hi y daethai'r bachgen, a gallasai fod ganddo ef beth o rin y dyfnderoedd hynny. Pwy a wyddai?

Ond bachgen digon rhyddieithol ydoedd gyrrwr y cerbyd, ac yn byw ar ei redeg o'r orsaf i fyny i Huelgoat bob dydd. Yr oedd mor gynefin â'r dyffryn ac â'r goedwig uwchlaw fel nad arhosai iddo na swyn na syndod, na dychlam na dychryn, yn y naill na'r llall. Rhoddodd ar ddeall imi'n fuan ei fod yn Brotestant o ran ei grefydd, a'i fod, fel pob newydd-ddyfodiad, yn selog dros ei broffes. Pe buaswn yn ddigon diniwed i'w goelio i gyd, credaswn mai Protestaniaid yn unig oedd trigolion yr holl ardaloedd cyfagos. "Yn Huelgoat," meddai, "y mae pawb yn Brotestaniaid, ac y mae'r Gweinidog, Mr. Jenkins, yn boblogaidd iawn."

"Y mae'n garedig dros ben, ac yn fawr ei gymwynas bob amser," meddai wedyn. Anair yn unig oedd ganddo i'r offeiriaid Catholig. "Does neb a wŷr pa ddrwg a all fod yn eu hofferen. Traethant eu truth mewn Lladin, a phwy sydd yma yn deall ei hanner? Dim ond tri neu bedwar sy'n mynd i'w clywed ar y Sul, a'r rheini gan amlaf yn hen wragedd." Dyna oedd stori'r bachgen, a phrofai fod ganddo ei wala o ddychymyg, a gweddill dros ben.

Cyn inni lwyr gyrraedd, dyma glywed sŵn canu'n dyfod o'r pentref. Cociodd y ceffyl ei glustiau, ac anelodd aros yn stond ar ganol ei duth. Yr oeddym yng ngolwg y tipyn tai cyntaf. Gwesty bychan oedd un, ac o'i flaen ef, ar ganol y ffordd fawr, yr oedd dawnsfeydd cylchog ar lawn hwyl. Yn is i lawr ychydig, yr oedd dau

PERERINDODAU

fwrdd hir, hwythau'n ddigon digywilydd ar ganol y ffordd. "Dawns y cynhaeaf," meddai'r bachgen wrthyf. Dihengais o'r cerbyd ag ysbonc, a mynd a cherdded arnaf at y dawnsywyr. Yr oedd yno gryn ddeg-ar-hugain neu ddeugain ohonynt, yn chwŷs gan y dawnsio a'r canu, ac yn plethu'n gylchoedd trwy'i gilydd gydag ystwythder ac ysgafnder gwir ryfeddol. Newydd orffen cinio'r cynhaeaf yr oeddynt, a brysio i adael bwrdd a mainc i fynegi eu llawenydd byrlymog mewn dawns a chân.

Dyna lle'r oeddynt!—o bob oedran, ifanc, canol oed, a gweddol hen; ac yr oedd yno lawn cymaint o ferched ag o ddynion. Ar hyd oriau hirion y dydd buasant yn pydru gweithio wrth y gwair er mwyn ei gael oll i ddiddosrwydd cyn nos. Yr oedd y nod wedi ei gyrraedd, y gwair wedi ei gadw, y ceffylau wedi eu tynnu o'r certi, y das wedi ei chwbláu a'i thacluso, y pigeuau a'r cribiniau wedi eu gosod o'r neilltu, a'r cinio mawr wedi ei gipio i foliau y cynhaeafwyr gobrwyedig. Ac wele hwy, y gweithwyr llafurus, ar ddiwedd y dydd, ar derfyn y cynhaeaf, yn llwyfannu dawns ddifyfyr ar gefn y ffordd fawr! Onid oes gwaelod o iechyd a llonder i gorff a meddwl llafurwyr y tir?

* * * *

Ni allai na chrychneidiai fy nghalon tuag atynt, mewn parch ac edmygedd. Llanwent y dechreunos distaw â'u cerddi Llydewig; harddent y pentref diddim â'u troellau gosgeiddig; coronent lafur y meysydd â gorohian seinber; amrywient ystum eu cyrff â rhythmiau troed a braich. Yn ysgafnder eu llithriadau trwy ei gilydd, anghofient galedi'r dyddiau a'r tymhorau, a chwarddent yn wyneb blinder a lludded. Pa beth na roddwn i am weled

TUA'R BERFEDDWLAD

Dawns Gynhaeaf yng Nghymru? Pa beth am gael cip ar y fath dylwyth teg ar ein ffyrdd rhyddieithol ni? Fe'm dygwyd i fyny yn y wlad, ac fe'm dysgwyd i fedru pob gwaith ar y tir—a diolch am hynny. Gweithiais gyda llawer cynhaeaf, gwair ac ŷd, a gwelais orffen amryw un. Ond, yng Nghymru, ni welais ddathlu hynny ar lawnt nac ar ffordd fawr. Yr oedd diwedd cynhaeaf, fel ei ddechrau, yn llawn traferth a helbul. Ni pherthynai nemor mwy o ramant i'r canfed llwyth nac i'r cyntaf. Dilynent ei gilydd, y llwythi a'r certi, y boreau a'r nosweithiau, y dyddiau a'r wythnosau, gan roddi yn ddiu lawer o hwyl a boddhad gwaith wedi ei ddiweddu, ond heb nyddu o gwmpas y cwbl ryw wead dirgel o swyn dedwydd. Mor hyfryd yw y rhai sydd ganddynt ddawns a chân ar yr heolydd, a bwrdd a mainc ar y priffyrdd, i ganu mawl y cynhaeaf!

PENNOD V

HUELGOAT A SAINT HERBOT

PAN orffennodd Dawns y Cynhaeaf, a gwasgar o'r dawns-wyr bob un dan ei nenbren, minnau a gerddais tua'm llety, lle y cefais ŵr a gwraig y tŷ yn fy nisgwyl. Er ei bod braidd yn hwyr erbyn hynny, yr oedd y ddau yn ddigon parod i ymddiddan am hir. Dywedodd y gŵr ar ei gyfer fod llawer iawn o Brotestaniaid y ffordd honno, ond aeth y wraig â'r gair o'i enau, gan ei gywiro'n ddi-syfyd. "Nage!" meddai, "dau deulu'n unig sydd yma o Brotestaniaid." Ac ni ryfygodd ef ei hamau. Yn Llydaw, fel yng Nghymru, gan y wraig y mae'r gair olaf.

Cysgais â'r ddawns yn fy nghlustiau, a deffrois i fyd y Llydawr mynyddig. Bwyteais o'i fara gwenith blasus, yfais ei goffi a'i lefrith, a chefnais ar y pentref. Yr oedd gennyf ryw dair neu bedair milltir o ffordd i Huelgoat, ac yr oedd arnaf ryw annirnad wanc nwydus am y daith hon. Ni fynnwn er dim frysio drosti, ond ei hysu bob yn fymryn. Yr oedd priffordd yn arwain yno bob cam, ond mynnai fy mympwy imi ei gadael bob tro y gwelwn gullfordd neu lwybr yn dringo llethr neu fron, a rhyw chwarae mig â hi felly. Erbyn cyrraedd Huelgoat buaswn wedi agos gerdded dwbl y daith. Yr un pryd buaswn wedi dyblu'r hyfrydwch a oedd yn pingo ar y wlad honno.

Yn y caeau a bwysai ar y lonydd a'r wtregydd hyn fel y pwysa merch ar ei chariad, y gwelwn blant y mynydd

HUELGOAT A SAINT HERBOT

yn chwarae gyda'i gilydd bob yn ail â bugeilio'r gwartheg. Cofw'n glywed fy mam yn adrodd amdani hithau yn ferch fechan yn bugeilio gwartheg ei thad ar dyddyn yn ymyl Swyddffynnon. Clywais hi'n dweud mai'r bugeilio hwn a'i rhwystrodd hi a llawer un arall rhag cael ysgol, ond am ychydig fisoedd yn y gaeaf. Daeth ei geiriau i'm cof yn awr, fel y daethant hefyd pan ddarllenais George Owen, Henllys, yn egluro pam nad oedd addysg yn uchel ei bri yn Sir Benfro yn yr unfed-ganrif-ar-bymtheg. Dyna paham, hefyd, y mae plant llawer parth yn Llydaw heb fedru gair ar lyfr o hyd. Hyd yn oed yr haf eleni (1937) siaredais â gwasanaethyddes mewn *café* yn Nantes, ond a fagwyd yn y Gorllewin Llydewig. Sicrhaodd fi na bu erioed mewn ysgol, oherwydd ei chadw gartref i fugeilio'r anifeiliaid. Rhwng popeth, y mae'n wyrthiol yn aml fod y plantos hyn yn llwyddo i grafu at ei gilydd enw o addysg.

Fel y pellhawn oddi wrth y pentref, deawn ar draws pobl oedd heb eto lwy'r orffen â'r gwair. Ac yno yr oedd pawb ond y bugeiliaid bach—*bugale* a ddywedir yn Llydaw am fugail ac am fachgen—ie, y dynion a'r merched, yn gweithio am y gorau â'r haul i gynhaefu gwair y gweundir uchel. Torrid ar dawelwch canol y bore gan sŵn gwair yn symud o'i fwdwl i'r gambo, gan guriad ffyn-dwybig yn erbyn ei gilydd, ac o hyd ac o hyd gan barabl gofer a nant yn disgyn o ffynhonnau. Pwy a ddywedodd na chlywir nant y mynydd yn llifo yn Llydaw? Yn y dyffryn hwn yn unig mi a glywais leferydd llawer un wrth ymdroelli rhwng cerrig a brwyn. A chof melyn sydd gennyf am glywed brodyr a chwiorydd iddynt

yn cynhyrchu'r addfwynder sydd yn diferu am ben y cwm yn *St.-Jean-du-Doigt*.

Trydar adar, bwhwman gwenyn, gwaedd cornicyll, llef plentyn, sŵn hogi'r bladur, a'i suo drwy ystod o wair—dyna oedd awyrgylch yr holl fro. Erbyn hyn, yr oedd y briffordd ei hun mor rhamantus â'i morynion, yn arwain ei phen i flaen y cwm, yn igam-ogamu o drofa i drofa, gan agor ar olygfa newydd bob gafael, a mentro, yn betrusgar efallai, i ganol coedwig fawreddog. Dychmygwch am Nant y Garth wedi ei hwyhau o filltir neu ddwy arall, ac am y coed sydd yno yn lledu dros erwau ac erwau yn ychwaneg. Ie: a dychmygwch gerdded drwy'r Nant y Garth feithach, helaethach, ddistawach honno. Tebyg i hynny oedd fy nhaith i tua Huelgoat. Ond bod y profiad yn ddwysach fyth oherwydd ei gael mewn gwlad ddieithr, dan wybrennau cyfrwys-gyfriniol a dirgel-drist, rhwng plygion o fryniau yn dianc o flaen y llygaid bob yn ail ag ail-ydddangos mewn hudoliaeth mwy cyfrin, o hyd ac o hyd.

Y mae'n arfer mewn llyfrynnau arwynebol sôn am Huelgoat fel *Fontainebleau* Llydewig. Ac yn ddiamau, y mae rhai pethau'n gyffredin i'r ddau le. Y mae florestydd tywyll yn *Fontainebleau*, ac y mae yno feini aruthr ac ambell bren praff a hen. Yn Huelgoat y mae'r pethau hyn oll. Yma y terfyna'r cyffelybrwydd. Y pethau eraill, er hynny, sydd wedi trwytho pob un o'r ddau le hyn â'i gymeriad ei hun, â'i enaid ei hun, fel na ellir byth gangymryd y naill am y llall. Fe ddichon i ddwy florest mewn dwy wlad—neu oddi mewn i'r un wlad, o ran hynny—fod yn debyg i'w gilydd mewn maintioli a helaethrwydd ac yn y rhywiogaeth o brennau a

gysgodant. Ond tra bo'r naill ar wastadedd a'r llall ar ucheldir, tra bo'r naill â phriffyrdd trystiog yn ei cherdded, a'r llall â llwybrau unigeddus yn ei threiddio, y naill wedi ei lled-ddofi gan gryman a bwyall a chaib, a'r llall wedi ei gadael ers canrifoedd i dyfu yn ôl ei bodd a'i mympwy, ie, tra bo'r naill o dan ffurfafennau araul, llachar, a'r llall dan nefoedd o gymylau llaes a niwloedd ysgafn, nid byth yr ymedy'r naill na'r llall â'r lledrith sy'n arbennig eiddo iddi hi ei hun. Gan hynny, nid *Fontainebleau* Llydaw ydyw Huelgoat ar un cyfrif yn y byd. Yr un modd, nid *Huelgoat* Cymru ydyw Betws-y-Coed, er cynifer o goed sydd yno. Na: fel y mae rhagor rhwng seren a seren mewn gogoniant, y mae hefyd ragor rhwng fforest a fforest mewn dirgelwch ac mewn hudoliaeth.

Prin gyffwrdd â godre'r fforest a wnaethwn eto, er fy mod dan gysgod ei lledrith er y noson cynt. Canys y mae'n gynneddf ar goedwig sy'n haeddu'r enw, allu ymestyn ei gafael y tu hwnt iddi hi ei hun, hyd at y cyrrau a feddai gynt cyn hynafiaeth Taliesin a Myrddin Fardd. Pan gerddwch y cam cyntaf i'r tu mewn i'r coed a erys, disgyn yn ddisymwth gawod o gyntefigrwydd dau-ddyblig arnoch, ac yr ydych yn hidlaid eneiniedig. Dyfnderoedd o unigedd a distawrwydd llethol ydyw eich byd yma. Teimlwch fod milltiroedd a milltiroedd rhyngoch a'r briffordd, a chanrifoedd ar ganrifoedd rhyngoch a'r dynion a welsoch ddiwethaf. Y mae ogofeydd y fforest yr un ag ogofeydd y "galon ddofn," a'r un rhai ofnau cynnar a breuddwydion crwydr yn llifo trwyddynt. Y mae trwst taran ei rhaedrau gwyllt, annof, yn mynnu carreg ateb yn ffynhonnau eich ymwybyddiaeth; ac y

mae'r anferthol feini a gwrddir yma a thraw yn gerrig milltir yn eich twf o ddyddiau'r cynfyd pell. Gyrr y chwa o'r cangau uwch eich pen, a'r rhu o'r dyfroedd dan y ddaear, gryndod llesmair drwy'r gwaed a'r gwythiennau. Chwiliwch fel plentyn "yn y dechreuad" am arwyddion a drychiolaethau ar bob llaw; a gwrandedwch ar rigymau dyrys ac is-lais tawel yn dyfod, y naill o berfeddion y ddaear a'r llall o berfeddion y goedwig. Yno y mae pob clyw yn hygryw a phob coel yn hygoel.

Pan welais ddyliffiad ewynnog yn tasgu allan o'r ddaear mewn rhuthr digllon, ac yn disgyn yn uchel-drystiog dros gewri o gerrig, eisteddais yn hir ar dwmpath ger llaw, gan wyllo mewn syndod myfyrgar y llanw a'r llifodiflin, di-drai a di-gyfyngau. Yr oedd y rhaeadru canrif-oedd oed hwn wedi golchi'n gannaid lân y meini a orweddaï ar ei gilydd fel anghenfilod i lawr hyd y diffwys, ac wedi esmwytháu eu ffurf, a'u llyfnhau hyd yr eithaf, fel na ellid perffeithio dim mwy ar eu llun-ieidd-dra. Fe all canrifoedd eto ysu llawer arnynt, a'u lleihau hyd at fod mor fychain â thywod y môr. Ond ni byddant byth yn lanach, na byth yn llyfnach. Y maent eisoes yn anllyfnadwy ac yn anllygradwy. Yn wir, y mae rhywbeth yn yr awyrgylch ei hun sy'n fynachaidd bur. Y mae'r golchi oesol hwn ar gerrig, a'r trybestod mawr a anadla ymdrech y llifogydd, yn creu awyrgylch yn yr hwn ni ffynna na llygredd na phechod.

Nid oedd y rhaeadr hwn nepell oddi wrth un o agorfeydd y goedwig, ac yn fuan yr oeddwn eilwaith ar ben y ffordd fawr. Rhedai bellach o'r naill du i'r coed, a daeth â mi'n fuan at bentref Huelgoat ei hun. Gwelwn ef yn sefyll ar ddwy ochr i gwm coediog, ac yn estyn

dros derfyn uchaf y cwm, lle y diweddaï'r ddwy ochr ac y closient at ei gilydd, gan ffurfio llwyfan i ganol y pentref. Yr oedd adeiladu diweddar wedi bod allan i'r wlad tua'r cyfeiriad y dringwn iddo; a gwelwn grynswth o dai newydd yn ymestyn o'r pentref i'm cyfarfod, os nad i'm croesawu. Yr oedd wynebaw gwyngalchog ganddynt, a'u safiad ar godiad tir yn annibynnol a balch. "Dyma le bach pert a hoffus," meddent wrthyf yn un côr, heb imi brin ymglywed â'r lle.

Gan imi gymryd amser mor hir i gerdded tuag yno, yr oedd yn wir anhepgor i'r corpws gael tamaid o fwyd ar unwaith. Rhoddais iddo goffi a bara-ymenyn, a mynd yn fy mlaen. Cerddais heibio i westy mawreddog, y rhybuddiaï ei wedd a'i enw—Hôtel d'Angleterre—imi gadw bant oddi wrtho, os oeddwn am gynilo ceiniog erbyn rhaid. A deuthum at sgwâr y pentref, digon cyffredin ei olwg, ond anghyffredin ei faint mewn cyn lleied o dreflan. Dyma Eglwys eithaf hynafol, ar wahân i'r tŵr, sydd yn gymharol ddiweddar. Hyfryd iawn oddi mewn, ac amryw fân gerfluniau diddorol, yn enwedig y tŵs hwnnw a ddangosai'r barnwr cyfiawn, St. Yves, yn gwyro oddi wrth ŵr goludog, gan wrthod ei arian. Y mae Seintiau Llydaw yn werinol i'r carn . . . ond yn ffyrnig o wrth-Sosialaidd! Credant yr Efengyl—yn ôl Marc, nid yn ôl Marx.

Yn fy mlaen â mi gan eiddigeddu at y gilfach deg y safai'r pentref ynddi. Yr oedd yno lyn ger ei law, neu o leiaf ger ei dai; ac ynddo ef y gwelid hwy'n golchi eu henaint a'u llwydni. Yn un pen iddo yr oedd fforddiart, a dirfawr oedd y llif a wrâi ei ddyfroedd llonydd pan redent i lawr dros hwnnw i'r ddisgynfa tua chanol y

coed. Dilynais rediad y dŵr, gyda llwybrau culion rhwng cerrig a muriau i ddechrau, rhwng pinwydd a chedrydd wedyn. Yr oedd yno ryfeddodau yn fy nisgwyl, a llawer plentyn coesnoeth, troednoeth, yn or-awyddus i'w dangos imi—y Garreg Sigl, Cegin y Forwyn, Diffwys y Baeddod, Ogot Arthur. Dychymyg byw a Llydewig y trigolion a lysenwodd yr holl bethau hyn, ac yn weddus ddiddiffyg. Ogofeydd bob un, y disgynnid i lawr iddynt ar droed a dwylo, o garreg i garreg, uwchben pyllau o ddŵr yn ffrydio, nes cyrraedd y gwaelod annaearyl. Y difyrraf a'r gweiddiolaf o'r cwbl ydoedd Cegin y Forwyn, yn enwedig pan fyddai un o'r plant i lawr wrth eich troed yn dysgu ichwi beth oedd beth yno—clustog y Forwyn, cadair y Forwyn, megin y Forwyn, a buddai'r Forwyn—yr olaf "i wneud 'menyn," meddai'r bach cyffrous, crediniol. Gofynnais iddo ple'r oedd y Forwyn ei hun. Siglo pen, a mynd yn fud. Ni wyddai ddim. Ni ddywedasai neb mo hynny wrtho. Aeth i fwrdd yn swil braidd—yn ddiau i'w hyfforddi ei hun ar gyfer y tro nesaf.

Fe'i gadewais ef a phob tywysydd arall, a thoc nid oedd neb yn unlle, a dim ond dyfnderoedd y goedwig yn cau amdanaf, a'i bedw a'i ffawydd yn pentyrru ar fy nhrywydd. Unwaith deuthum at lannerch werdd yng nghanol y coed, a agorwyd ac a dorwyd, y mae'n debyg, drwy orchymyn François II. Coeliwch fi neu beidio, ond ar fy llw mi a ddarllenais yn rhywle fod un o'r prennau a dorwyd yno wedi bod yn ddigon i wneud tri anferth blasty! Wedyn, ar y dde, treuais wrth yr afon Arian, a gwelod pompren yn ei chroesi. Yr oedd yno fôr o dawelwch ar y bompren honno, a lle i olchi'r enaid noethlymun. Erioed yr oedd pompren imi yn un o

greadigaethau mawr dyn. Yrhawg hi a fydd yn garreg filltir yn fy hanes. Ni welaf yr un fyth mwy heb weled yr hon a led-orweddaï dros yr afon Arian, ac a roddodd imi groeso mor dawel i bwyso arni, wrth syllu yn awr ac eilwaith i'r dwfr islaw, drachefn ar y colofnau coed, a'u cangau, a'u dail, y cwbl ar orymdaith rwydog i eithafoedd y goedwig.

Glynu yno am encyd, a throi yn ôl heb ddim mynd gam ymhellach. Canys yr oeddwn wedi profi pob cyfrinach y gallaswn obeithio amdani. Rhodiennais tua Huelgoat, ac i'm llety. Bûm yno droeon wedi hynny, a cherddais yr holl lwybrau fel cynt, a chefais hwyl a blas wrth dywys eraill hyd y rhodfeydd sydd bob amser yn gyforiog o swyn a dirgelwch.

Yn ystod un o'r troeon eraill hyn, yr oeddwn yn aros yn y gwesty arall yn Huelgoat. Ac wedi swpera yno dyma ddechrau sgwrsio â dau Lydawr yn y neuadd. Sonient am Lydaw'r dyddiau gynt, a throi'r siarad rywsut am y torwyr gwallt a gosient yma a thraw yn y berfeddwlad ddyfnaf. Ym mhlith y frawdoliaeth gyntefig honno yr oedd dau frawd yn gynteficach na neb arall gyda'u celfyddyd. Ac fel hyn, meddent, yr adroddai rhyw ddau gyfaill eu hanes wedi bod dan driniaeth y ddau dorwr gwallt.

"Wyddost ti sut gwnaeth e'i waith arna' i? . . . Mae'n rhyfedd 'mod i'n fyw! Ar ôl taflu hen sach fudr dros fy ysgwyddau, dyma fe'n cydio yn y brws. 'R own i'n methu gweld dŵr yn unlle. A be wnaeth y bwbach ond poeri arno fe, a'i rwbio yn fy wyneb cyn 'mod i wedi troi."

"O," meddai'r llall, "paid â chwyno dim. Mae'i frawd

PERERINDODAU

e'n waeth fyth, fel y gwn i'n dda. Wyddost ti 'i ffordd e? . . . Poeri'n syth ar dy wyneb di, a defnyddio'r brws wedyn. Mae gennyt ti le i ddiolch, wel'di!"

SAINT HERBOT

Y tro cyntaf y bûm yn Huelgoat, ni wyddwn ddim oll am bentref bach o'r enw Saint Herbot, rhyw bedair neu bum milltir ymhellach. Fe ddichon imi weld yr enw ar y map, ond nid oedd yn ddim mwy nag enw un o'r degau mân bentrefi sy'n ymguddio rhwng llethrau a chreigiau ar yr ucheldir o gwmpas. Clywais wedyn imi golli gwledd o'r gorau. Ac felly, y tro nesaf yr oeddwn ar fy nhaith yn Huelgoat, mi a ofalais ddringo tua Saint Herbot, rhag ofn fod gwir yn yr hyn a ddywedai fy nghyfeillion Llydewig.

Bellach y mae yntau'n un o gyrchfannau rheolaidd fy mhererindodau yn Llydaw, a bûm yno o leiaf deirgwaith eisoes. Nid oherwydd y pentref ei hun yr euthum yno, gan nad ydyw fawr fwy na llong fy llaw o bentref. Chwech neu saith o dai bychain, llwydaidd a mynyddig, ac eithaf di-obaith eu gwedd i estron. Eithr ar eu cyfer, yn wynebu'n garedig atynt, y mae un o'r capeli tlysaf sydd yn yr holl wlad. Ef yn wir yw'r pentref.

Y mae'r ffordd tuag yno, weithiau rhwng bryniau coediog ac weithiau'n cyfodi uwchlaw'r bryniau, yn un rhyfeddod. Unwaith cyn cyrraedd Saint Herbot y mae hi'n dangos ichwi un o'r golygfeydd godidocaf ac ehangaf a welir drwy Lydaw achlân. Yno y mae'n ymestyn ger bron eich llygaid, tua'r Gorllewin a thua'r Dwyrain, tua'r Gogledd a'r Deheu, banorama ogoneddus o

HUELGOAT A SAINT HERBOT

wledydd, hyd at gyrrau Trégor a chopäon y Mynyddoedd Du a Mynyddoedd Arré, i fyny at frig Mynydd Saint-Michel, clo a choron y cwbl.

Yn ddisyfyd wedyn disgynnwch eilwaith rhwng llech-weddi coediog, a dyfod i ddyffryn cilfachog, gwyrddlas, gydag addurn o eithin a rhedyn a grug yn drwchus drosto. Yno, mewn hafn fwsoglyd, y mae Saint Herbot, y chwe thŷ, y capel a'r Galfaria. Cysegrwyd y Capel hwn i ryw ddewin a gwneuthurwr gwyrthiau na wŷr Hanes ddim amdano, ond sydd yn annwyl ei enw drwy Lydaw Lydewig. Amddiffynnwr anifeiliaid, a da corniog yn arbennig, ydyw Herbot; ac ar ddydd ei Bardwn, meddai hen wraig wenffraeth wrthyf, dygir o hyd anifeiliaid lawer yno, a'u harwain dro neu ddau o gwmpas y Capel. Gwelais fy hun sypyn neu fwy o rawn ceffylau ar yr allor, a dywedodd hi—os oedd coel arni—yr offrymir pwysi lawer ohono bob blwyddyn. Ychwanegodd, gyda gwên fach slei yng nghil ei llygad, mai'r offeiriad, a ddaw yno o blwyf arall, a bocedai'r cannoedd o ffranciau a gaffai yn dâl am y rhawn.

Y mae i'r Capel dŵr Gothig o'r puraf, gyda ffenestri hirion yn ei ddringo, a mân ganllawiau yn bleth am ei gopa. Gwelaf ef eto'n fyw o flaen fy llygaid, a'r porth gyda'r agennau ym meini ei ystlysau i nythu'r apostolion. Y tu arall i'r capel, cofiaf edmygu Calfaria daliaidd yn cyfodi'n osgeiddig tua brig y coed, gan ymgolli yn y dail. Efallai fod y tu-mewn, er hynny, yn llawn trech na'r tu-allan. Cynnwys y côr a'r gangell aneirif baneli a bathodynau o bob math, a phersonau wedi eu gweithio ynddynt. Y mae'r cwbl yn odidog o gyfrwys ac yn gamp-waith cydnabyddedig. Y gangell orau yn Llydaw, meddai

Gourvil, ac y mae'n anodd anghytuno ag ef. Cymaint o gampwaith â dim ydyw'r modd y tyf y Capel a'r Galfaria—a'r Esgyrndy, canys y mae yntau yno—o'r llawr megis, mor naturiol â'r grug o'r pridd, y mwsog o'r cerrig.

Ewch yn eich blaen hwb-cam-a-naid o Saint Herbot, a dyna chwi mewn awyrgylch hollol wahanol. Ni thrig bellach na mwynder mewn cwm na dynjon mewn pentref. Ni ddisgyn ffrwd i ffynnon, nac aderyn i lwyn. Ni thyf na choed o fron, na phren o berth. Ni ddaw llef o'r pedwar gwynt nac awel siriol o gilfachau'r nef. Nid oes dim ond unigeddau ar unigeddau; ac nid unigeddau chwaith, ond un ehandle anial o unigedd di-obaith. Ni wêl llygad ddim ond aruthr fawnog gorslyd, siglennog; ac ni theimla'r galon ddim ond bygythiol olygon iasol daeardir a reibiwyd ac a felltithiwyd. I mi, a ddygwyd i fyny wrth ymyl Cors Caron, ac a wn am ei gwedd greithiog a thruenus yn y gaeaf, ac a gâr glywed an-naearol leferydd ei hingoedd yn y gwanwyn cynnar, yr oedd hagrwrch gerwin ac anserchog yr olygfa newydd hon ar ganol haf yn dor-calonnus, ac yn llawn drygargoel. Yn sic i chwi, ni welais erioed le mor wallgofus ddieithr a dolurus. Dyma yn ddiau yr "uffern lonydd, leddf, ar ryw bell ros" y gweddiâi'r bardd amdani, ond nad oedd yno ddim o'r "atgofus, dangnefeddus wynt" a garai ef. Yma, yn ymyl un o'r siglennydd mwyaf twyllodrus, y mynnodd y Llydawiaid osod y fynedfa i'w purdan hwy. Hwn yw pwll yr anobaith, cartref Chwedlau'r Meirw gan y Llydawiaid, yr *Youdig* ofnadwy, i'r lle y dygent gynt eu meirw, y rhai oedd wedi eu meddiannu gan gythreuliaid, ac a weddnewidid yn gŵn annwn gyda llygaid tân, ac a deflid yma i'w tynged danddaearol.

PENNOD VI

TALDIR

ODDI yno am Huelgoat ar garlam. Ac o Huelgoat i dref ychydig yn fwy, er ei bod hithau'n uchel yn y bryniau. *Carhaix* ydyw ei henw, ac y mae'n dref weddol ei maint gyda rhyw bedair mil o bobl yn byw ynddi; ac yn meddu ar hanes mor hynod â'r un yn Llydaw. Er dyddiau'r Rhufeiniaid, y mae wedi cyfrif llawer ym mywyd y wlad; ac er nad ydyw mor bwysig heddiw, y mae iddi o hyd waddol o atgofion hynafol a bonheddig, a ddena ymwelwyr iddi er ei mwyn ei hun. Ond rhaid imi gyfaddef, braidd yn ddigwilydd efallai, nad ei henaint na'i hanes a'm dug i yno gyntaf ar fore teg yng nghanol Gorffennaf 1922.

Yr hyn a'm denodd i ydoedd gwybod mai yn y dref hon yr oedd un o arweinwyr bywyd cyhoeddus Llydaw yn byw—Taldir. Yr oedd arnaf awydd mawr iawn i'w weld, a chyda llaw'n crynu gan ddisgwyliadau anniffiniol o orawenus, mi a gurais wrth ddrws ei dŷ. Fe'i agorwyd gan forwyn â'r wisg Lydewig amdani; ac fel taro llaw yn y llall yr oeddwn wyneb yn wyneb â Thaldir ei hun. Yr oedd imi groeso gorau'r wlad ganddo ef a Madame Jaffrennou, ei wraig, a'r mab a'r ferch. Nid oedd byw na bywyd nad arhoswn am ginio.

I aros pryd, aeth Taldir â mi allan i eistedd i'r ardd daclus sydd ganddo o'r tu cefn i'r tŷ, ac yno y cawsom awr dda o rydd ymddiddan am bob math o bynciau

Cymreig a Llydewig, mewn Cymraeg, Llydaweg a Ffrangeg—ond yn bennaf yn Gymraeg. Sieryd Taldir ein hiaith yn llawn rhwyddach na'r un Llydawr, er nad gyda'r un feistrolaeth â Gourvil. Daeth i Gymru pan oedd yn ieuanc iawn, ac ymwelodd â ni unwaith neu ddwy wedyn. Y mae rhamant rhyfedd yn hanes y bachgen ieuanc hwnnw'n dyfod i'n gwlad cyn bod yn ugain oed, ag yntau eisoes yn un o fechgyn ieuainc mwyaf addawol Llydaw. I Eisteddfod Caerdydd, 1899, y daeth, gan freuddwydio am wneud yn ei ddydd yr hyn a wnaethai bachgen ieuanc arall o gyffelyb ddychymyg, Villemarqué, drigain mlynedd o'i flaen, a dwyn y ddwy wlad i fynd allan i ymladd â'r byd law yn llaw.

Nid anghofia fyth, medd ef, y croeso cynnes a gafodd yma, yn gyntaf gan y bendefiges ardderchog, Arglwyddes Llanover, yn ei phlasty, ac yna gan chwarelwyr Ffestiniog. "Yr oedd y croeso hwn y tu hwnt i eiriau," meddai. "Bachgen ieuanc oeddwn ar y pryd, llai nag ugain oed. 'D oeddwn i ddim yn neb na dim. Nid oeddwn wedi gwneud dim i ennill clod nac enw da. Ac eto yr oedd imi ym mhob man groeso fel brenin. 'D oeddwn i ddim yn synnu cael derbyniad da gan Arglwyddes Llanover, achos yr oedd hi yn ein croesawu fel llys-genhadon, megis, o wlad Geltaidd arall. Yr hyn oedd bron yn ddigon i'm llethu oedd yr anwylo arnaf yn Ffestiniog. Gyda 'mod i yno yr oedd pawb yn tyrru ataf, y dynion yn ysgwyd llaw â mi, a'r plant yn cyffwrdd â'u bysedd bach yn fy *mragou-braz*.* 'R oedd pawb yn agor eu calonnau imi fel na welsoch chi mo'r fath olygfa erioed. A minnau a'r dagrau'n mynnu esgyn i'm llygaid er fy ngwaethaf."

* Y clos Llydewig, llodrau llydain.

Wrth adrodd hyn, deuai'r hen deimladau hynny'n ôl drachefn iddo. Gwedi ennyd bach, dyma fo'n ail-afael ynddi:

"Croeso digymar sydd yng Nghymru. 'Chewch chi ddim o'i debyg yn Llydaw. Ond y mae yna rai pethau sy'n well gennym ni. Dyna i chi'r Sul—wel, mae e'n iawn i'r Cymry efallai. Ond A la! la! 'Welais i ddim o'r fath dawelwch erioed. Gorffwys perffaith. Neb ar yr heol. Dim sŵn! Pob siop ar gaead—pob gwesty, pob tŷ, popeth! Dim smocio—o'r tu allan. Fe gaech eich ysgymuno am ddangos sigaret ar y stryd. A rhaid oedd mynd i'r Capel drwy'r dydd—pregeth am awr a hanner yn y bore, Ysgol Sul yn y prynhawn. Am bedwar o'r gloch clywais bregeth yn yr awyr agored; ac am chwech, bregeth arall, a'r pregethwr o hyd yn gweiddi, 'Pysgotwch ddynion!' Ac yn yr ysbeidiau rhwng yr ymarferiadau crefyddol hyn, pawb yn aros yn y tŷ i ddarllen y Beibl, a'i esbonio, ac yn y blaen. Yn ben ar y cwbl, dim diferyn o win, pe baech chi'n rhoi'r cwbl a feddech amdano. Pawb yn ddirwestwyr! Rhaid imi gyfaddef—ac fe faddeuwch imi, mi wn—bod yr holl lymder a'r sychder hwn yn bur anodd imi ei ddiodeff . . . Ar ddydd arall yr oeddwn wrth fy modd, ac yn dotio at glywed pawb yn siarad Cymraeg ac yn ei darllen. Dyna beth—darllen eich iaith eich hun—na welwch ryw lawer ohono yn Llydaw, ac yr ych chi ar ein blaen ni 'mhell yn hynny . . . Mae gennych wlad dlos dros ben—mynyddoedd gogoneddus—ond 'd oes gennych chi ddim o'r Eglwysi heirdd sydd gennym ni, na'r Calfariau, na'r Capeli . . . 'Welsoch chi Saint-Herbot? . . . Na'r gwisgoedd, na'r '*pardnou*'—'r ŷch chi wedi gweld un, mae'n siŵr? . . . Na dodrefn

chwaith . . . 'Welsoch chi *wel clos?* . . . Y ddau beth a welais i amla' ym mhob tŷ yng Nghymru oedd . . . piano . . . a . . . be 'dych chi'n 'i alw fo? . . . *théière?*'

"Tecell?"

"Ie: tecell."

Fe'i dadlwythodd ei hun o'r cwbl hyn ag un anadl, megis. Yna aethom i sôn am Lydaw, ac am ei phroblemau hi, pryd y cefais ryw gil-agor drws i galon . . . a oedd efallai'n siomedig, efallai'n euog.

"Anaml iawn y bydda' i'n mynd y tu allan i'r ardd yn awr . . . mae'n hoff gen i weithio ynddi . . . a bydd yn gas gen i fynd i unlle 'mhell . . . Mae'n eitha anodd imi fynd hefyd, 'nawr . . . fel yn y blynyddoedd a fu, pan own i'n mynd i Gymru, ac i Iwerddon."

Dyna'r cwbl. Ni ddywedodd ei fod wedi blino na digio. Ond teimlwn rywfodd nad hwn oedd y Taldir y clywswn amdano, ac y darlennaswn o leiaf ryw ychydig o'i waith. Parhâi i siarad am Lydaweg, er hynny, ond yn rhy debyg i ŵr a'i nwyd yn pallu. Ni chollai'r iaith ddim o'i thîr, meddai ef . . . A beiai'r Llywodraeth, a beiai'r offeren Ladin.

Yn union deg, galwyd ni i ginio . . . wedi ei ddarpar yn fonheddig gan Madame Jaffrennou a'i merch; cinio a gwasanaeth cegin gyda'r perffeithiaf y gellid ei ddymuno, mewn ystafell loyw. Yr oedd hyn oll yn newydd imi. Hyd yn awr, yn nhai'r werin bobl yn unig y bûm, a'u croeso hwy yn unig a brofais. Yn awr wele fy nghoesawu yn un o'r cartrefi pwysicaf yn y wlad. Cartref a digon o foethau ynddo, ond cartref Llydewig er hynny. Yr un oedd iaith y penteulu ag iaith ei forwyn fach, yr un arferion Llydewig a gedwid ac a berchid ganddynt.

Gan na frysir drwy ginio yn Llydaw, bu llawer ymgom rhyngom cyn ei orffen, ac yr oedd y seidr gwirioneddol dda a yfem oll yn hwyluso ac yn hwylio pob rhyw ymgom a ddilynai ei gilydd. Caffai Taldir flas neilltuol ar adrodd rhai o'i atgofion am Gymru, am yr Eisteddfod a'r Gorseddau y bu ynddynt, ac am y dynion a gyfarfu yma—Hwfa Môn, Cochfarf, Dyfed, ac amryw eraill. A gwiw oedd ganddo sôn am fawrion Llydaw, Anatole le Braz, Charles le Goffic, Renan, Villemarqué, Luzel, ac am ei beirdd gwlad, Prosper Proux a Charles Rolland. Ni fedrai sôn am yr olaf heb adrodd aml dro trwstan a ddigwyddodd iddo yn ystod y Rhyfel;—am ei brofiad yntau, ac am y golled adwythig a gafodd Llydaw. Fel y gweddai, Madame Jaffrennou a dywysai'r holl siarad, gan gyfrannu nid ychydig i'w ddifyrhau a'i ledneisio. Y mae hi'n batrwm o Lydawes, addfwyn a bonheddig, ac ni welais eto yr un wraig arall a ddwg amdani y wisg Lydewig gyda chyffelyb harddwch cyfrwys-urddasol.

Pan drois allan o'r cartref glanwaidd hwnnw, curai fy nghalon gan lawenydd, oherwydd cael y cyfle i adnabod gŵr a fu am gyfnod yn costrelu holl obeithion Llydaw. A rhaid oedd imi redeg yn fy meddwl ei yrfa lachar ôl a blaen. Clywswn feirniadaeth arno na buasai'n weddus imi yngan gair amdani wrtho ef. Gwyddwn ei fod ef, a fuasai unwaith yn cyhoeddi ac yn argraffu papurau Llydewig, wedi cefnu ar y cwbl hynny, a dyfod yn farsiantwr gwin a seidr. Pa fodd y cwmpodd y cadarn hwn? A oedd ar ddarfod amdano'n llwyr fel arweinydd cenedlaethol? A oedd yntau, fel llawer un arall yn hanes Cymru a Llydaw, wedi blino, wedi oeri ei waed, wedi . . . i ddweud y gair ar ei ben . . . wedi bradychu?

Yr oedd yng nghanol ei ddyddiau gorau—tair a deugain ydoedd pan ymwelais ag ef yr haf hwnnw, 1922. Tair a deugain . . . a'r rhin wedi mynd allan ohono? a'r "blynyddoedd crablyd" wedi dyfod arno cyn eu pryd? Yr oedd, ond odid, yn iau na Glyndŵr pan wnaeth hwnnw ddewis mawr ei fywyd. Ond dyna, onid oedd Tom Ellis—yn fy nhyb i yr adeg honno—wedi colli'r weledigaeth gyntaf cyn cyrraedd ei ddeugain oed? Ai rhyw Dom Ellis arall ydoedd Taldir, yntau wedi ei fwytho a'i faldodi? Atolwg, pwy oeddwn i i'w fesur, ac i'w gael yn brin? Ac eto mi a glywais leisiau'r ieuainc yn dywedyd hynny'n groyw. Gohiriais fy marn am ddwy flynedd arall, pryd y llwybreiddiais tua'i dŷ am yr ail waith. A thybais y tro hwnnw imi weled yn sicr arwyddion ymbellhau ohono oddi wrth helyntion ei wlad. Bodlonai i siarad amdani, ac imi ei holi yn ei chylch. Ond ymddangosai ei atebion yn hynod o rwydd a slic, ac ni allwn yn fy myw deimlo eu bod yn atsain fel cyffes gywir, neu'n neidio allan fel ffrwyth myfyrdod. Mi a'i gwelais wedyn, yn y Gynhadledd Geltaidd yng Nghemper (Quimper) yn 1924, ac yno cymerai ei le yn naturiol-awdurdodol fel arweinydd Llydaw.

A dyna fi'n dweud wrthyf fy hun, ac wrth fy nghyfeillion ieuainc yn Llydaw: "Dyma arweinydd yn wir. Denwch ef yn ôl i'r Mudiad Cenedlaethol. Y mae'n llawer hŷn na chi a mi, ac y mae ganddo lawer blwyddyn o brofiad. Mae ganddo dalent, huawdledd, a brwdfrydedd. Ni thynnai yn y wedd, mi wn. Ond gwnewch e'n geffyl blaen." Cytunai amryw ohonynt, ond ofnent ef yr un pryd. Ni wnaed dim. Aethant hwy i'w ffordd. Aeth yntau'n ôl i'w ardd. Eisoes disgrifiodd un o feirdd

ac ysgolheigion Llydaw ef yn "fumiste." A'r haf 1937, pan ofynnwn iddynt am Taldir, yr unig ateb oedd ystumio'r wyneb . . . ac yna un gair . . . dim ond un . . . "Zero." Eleni, ym mis Awst 1939, nid gan yr ieuanc a'r tanllyd yn unig, fe'i gelwir ar fwy nag un llaw yn . . . "fradwr"—i Lydaw, ac i'w orau ei hun. Tybed?

Pa fodd bynnag am hynny, erys imi, nid diddordeb yn unig, ond cryn dipyn o swyn, yn y gŵr hwn. Er ei fod yn tynnu at ei drigain oed erbyn heddiw, ymhoffaf ynddo fel y'i gwelais gyntaf yn anterth ei gryfder, yn ddyd chwimwth deugain oed, ei brofiad yn helaeth, a'r tân eto heb losgi allan. Meddyliwn mai arwydd dda iawn ydoedd ei hoffter o dawelwch ei ardd, a theimlwn y cyfodai allan oddi yno, wedi ei buro a'i ddirchafu gan fyfyrdod tawel, ac arwain gwlad gyfan i ymysgwyd o'i llwch. Clustfeiniwn i glywed a ddeuai'r gair oddi wrtho a gerddai o'i gartref mynyddig i bob cwr o Lydaw a deffro dilynwyd a disgyblion fel y cerddai. Ond uwchlaw popeth, yr hyn a garwn ynddo ydoedd y weledigaeth a gafodd cyn bod eto'n ugain oed. Gwyddwn ei hanes mor llawn bron â neb yn ei wlad, a rhedwn drosto'n bur fynych yn fy meddwl fy hun.

Pan oedd haul deunaw haf ar ei dalcen, ag yntau newydd orffen ei addysg mewn dau Goleg, yng *Ngwengamp* a *St. Briec*, dyma fo'n cychwyn ei yrfa gyhoeddus drwy freuddwydio am "Lydaw yfory"—y Llydaw a fynnai ef ei chreu allan o'i feddyliau a'i ddychmygion ei hun, y Llydaw a fyddai wrth fodd ei galon. Pa fath Lydaw a fydd hi? Gwlad wedi ei deffro gan gofion am ei gorfennol; gan gariad at y rhai a lafuriodd i'w chreu hi â'u chwys ac â'u gwaed; gan serch yn arbennig at yr

iaith, a dyfodd yno ac a lefarai yn enw cenedl gyfan. Yr oedd yr iaith hen hon i'w dysgu ym mhob ysgol yn Llydaw, gan mai hi ydoedd sylfaen pob diwygiad gwleidyddol, cymdeithasol a llenyddol. Dyfynnai'r ddihareb Almaenaidd: "Heb iaith, heb genedl"; ac ychwanegai yntau: "*Hon iez, hon langach Koz, eo hon daoulagad ni*"—ein hiaith hen yw ein dau lygad ni.

O'r braidd na thybiwch glywed atgof o eiriau Emrys ap Iwan: "Yr iaith Gymraeg yw'r unig wrthglawdd sydd rhyngom ni a diddymdra." Ond ni ddywed ef, fel Emrys, mai Duw ei hun a luniodd yr iaith honno, a'i ffurfio'n gyfaddas i'w genedl; ac ni ddywed ychwaith fod y Llydawiaid yn genedl drwy ordeiniad Duw. Yn wir, go brin y defnyddia Taldir y gair cenedl o gwbl. Ei air mawr ef ydyw *Regionalisme*, Talaithyddiaeth, ac nid pregethu annibyniaeth genedlaethol a wna, ond dadlau dros fesur o ddatganoli o Baris. A dyma fo, Vallée, Berthou, Anatole le Braz, Estourbeillon, Le Goffic ac eraill ar drawiad yn sefydlu Cymdeithas yn 1898 yn dwyn yr enw *l'Union Régionaliste Bretonne*, yr hon oedd i gasglu ynghyd yr holl egnïon a oedd ar wasgar hyd hynny, a'u cyfuno mewn gwasanaethgarwch ffrwythlonach i Lydaw. Dwy flynedd yn ddiweddarach, yn 1900, wele ef eto, gyda'i gyfeillion, yn sefydlu Cymdeithas Myfyrwyr Llydaw yn y Brifysgol yn Rennes, er mwyn i'r myfyrwyr hyn ddatblygu gweithgarwch llenyddol ac artistaidd a fyddai'n gymwys iddynt hwy fel Llydawiaid. Yma hefyd y mae'r prif bwyslais ar yr iaith, a fyddai'n naturiol yn ganolfan ac yn ffynnon fyw eu holl egnïon. Arwydd oedd y cymdeithasau hyn—gydag

amryw eraill—fod cynnydd ac ymchwydd yn y Deffro Llydewig.

Rhaglen barchus ddigon, lle ni rennir bywyd cenedl yn ddau ddosbarth gwahanedig—y bywyd diwylliannol a'r bywyd gwleidyddol. Ac os yw bod yn gymedrol ac yn gymesur yn rhinwedd mewn rhaglen, yr oedd i hon bob gobaith am lwyddiant. Yng Nghymru buasai Thomas Gee a Thom Ellis yn barod i roddi sêl eu bendith arni. Ac fel Tom Ellis, yr oedd diddordebau Taldir yn amlochrog iawn. Yr oedd am roddi mwy o fywyd yn holl ddiwydiannau'r wlad, ac am ffurfio cymdeithasau cydweithredol i'w diogelu rhag cystadleuaeth oddi allan. Eto fel Tom Ellis, gweithiai'n ddiffino, a theithiai ar draws ac ar hyd yr holl wlad i geisio deffro ei bobl a'u tanio â'i amcanion ef. Yr oedd ganddo un fantais ar y gwleidydd Cymreig. Yr oedd yn fardd, ond yn fardd effro. "*Ni ddylai bardd fod yn freuddwydiwr,*" meddai; "dylai fod yn weithredwr, ac ymuno â beirdd eraill i gyflawni'r un gwaith mawr."

Ond am bob mantais a feddai ar y Cymro, yr oedd ganddo anfantais arall. Nid oedd yn wleidydd. Nid oedd yn aelod Seneddol hyd yn oed. Ac nid oedd ei raglen yn ddigon chwyldroadol i ennyn na serch na sarugrwydd aelodau Seneddol Llydaw. Gallai eu beirniadu bron mor llym ag Emrys ap Iwan yng Nghymru. A chwarae teg iddo, awgrymodd o leiaf unwaith mai da o beth fuasai i gynrychiolwyr ei wlad weithio'n gytûn gyda'i gilydd, ar draws pob ymbleidio gwleidyddol, dros fuddiannau Llydaw. "Pa bryd," meddai yn 1900, "pa bryd y penderfyna'r Llydawiaid ddewis o'u mysg wŷr profedig a pharod i amddiffyn eu

holl ddiddordebau a'u holl fuddiannau pwysicaf, ac i fynnu gyda'i gilydd, o'r tu allan i ymgecru sectol, sylweddoli diwygiadau ym mywyd eu gwlad?" Yng ngenau bachgen dwy-ar-hugain oed, yr oedd y geiriau hyn yn drawiadol iawn; a phed aethai rhagddo i rygnu ar yr un peth hwn, nid ydyw'n amhosibl na chawsai Llydaw'n fuan Blaid wleidyddol a fuasai'n gweithredu yn Senedd Ffrainc yn gyffelyb i'r Gwyddyl yn Sant Steffan.

Ond ni bu dim o'r fath. "Aml gnoc a dyrr y garreg," meddai'r hen air. Eithr ni ddaliodd Taldir i ddadlau ac i weiddi am Blaid wleidyddol i Lydaw, naill ai am nad oedd ei weledigaeth yn ddigon eglur, neu am iddo gilio'n ôl mewn dychryn rhag y canlyniadau. Yn y cyfamser, dechreuai gwrthwynebiadau a beirniadaeth y ceidwadwyr a'r cecrwyr godi yn ei erbyn ef a'i raglen, gan haeru mai gwahanu Llydaw oddi wrth Ffrainc ydoedd yr amcan. Tipyn bach gormod o gryndod a gwendid sydd yn ateb Taldir i'r cyhuddiadau hyn. "Ni ddymunwn ni wahanu Llydaw oddi wrth Ffrainc," medd yn 1903. "Beth a fynwn, ynteu? Hyn yn unig: bod i'r Llywodraeth gydnabod yn swyddogol ddyngu Llydaweg a Hanes Llydaw yn yr ysgolion; bod iddi roddi mwy o bwys a phris ar drafodaethau a dymuniadau'r Cynghorau Tref ac eraill; a'i bod hi, mewn un gair, yn rhoddi i boblogaeth Llydaw nid rhyddid ond eu rhyddidau."

Dyna ddechrau treiglo tuag i waered, yr un fath ag yn hanes Tom Ellis a "Chymru Fydd" ychydig flynyddoedd yn gynt. Yr oedd breuddwyd Tom Ellis fel y mynegodd ef yn ei araith yn y Bala yn 1890 yn ysblen-

nydd. Ond fel y daeth i ymyrryd yn fwy ac yn fwy yng ngwleidyddiaeth y wlad nesaf, ac y dechreuodd feddwl yn nhermau'r Ymerodraeth Brydeinig, ac y swynwyd ef gan fân deganau megis Cynghorau Sir a Phlwyf, ciliodd gradd ar ôl gradd o ysblander o freuddwyd y Bala. A ddigwyddodd iddo ef, a ddigwyddodd i Daldir, yr hwn a gawn o hyn allan yn rhoddi mwy a mwy o le i Ffrainc yn ei gynlluniau. Fel y cafodd Tom Ellis, y Cymro o Gefnddwysarn, ryw gyfeiliornus hwyl ar bwysleisio "*the influence of the Celt in the making of Britain*," cafodd Taldir, y Llydawr o Garnoët, flas ar ganmol Ffrainc a phrofi mai Celtiaid oedd ei phobl hi, o'r un bonedd â'r Llydawiad eu hunain. "Gan hynny," medd y llanc ifanc hwn, cyn dysgu ei Hanes yn well, "gan hynny, pa fodd y gall Celtiaid Llydaw ymwahanu oddi wrth Geltiaid Ffrainc, gan mai'r un a'r unrhyw enaid a roddodd fywyd iddynt?" Ac mewn lle arall, dywed, yn Llydaweg y tro hwn: "*Hon Bro eo Franz, ia, me oar ze; mez hon Mam-Bro honnez eo Breiz*. Mi a wn mai ein gwlad yw Ffrainc; ond ein mam-fro yw Llydaw."

Dyna iaith a ddeallai Aelodau Seneddol Cymru'r awr hon. Dyna iaith gwridog gewri ar lwyfannau Gŵyl Ddewi. Dyna oedd iaith yr Orsedd. Y mae pob rhyw Gymro a ddirywiodd, a gwmpodd ymaith, a grinodd yn golsyn sych, ac a fradychodd, yn gwybod yr iaith hon ar ei gof, ac yn hepian hyd ei fedd yn ei huawdledd bas. Disgynnodd Taldir am unwaith yn o agos atynt hwy. Ond yr oedd ei demtasiwn yn fwy. A pha ddiffyg bynnag oedd yn ei raglen o hyn allan, parhaodd i geisio ei sylweddoli am flynyddoedd eto. Cerddodd ei wlad o ben-bwy-gilydd i siarad, i ganu ac i lwyfannu dramaù.

Dyma flynyddoedd araul *Ti Kaniri Breiz*—Tŷ Cantorion Llydaw—pan swynid yr holl wlad gan berseinder gwlatgar Botrel. Cychwynnodd argraffwasg, sefydlodd bapur wythnosol—*Ar Bobl*—a chylchgrawn misol, *Ar Vro* (1904), gan ymdrechu'n galed i ddysgu ei genedl, i'w denu at eu llenyddiaeth, ac i fagu ynddynt hunanhyder. Nid hynny'n unig. Nid digon ganddo chwythu anadl i fywyd Llydaw. Breuddwydai'n gyson am gyfathrach agos rhwng yr holl wledydd Celtaidd, a dyna paham y teithiodd i Iwerddon ac i Gymru. Diwydrwydd beichiog a ffrwythlon hyd at drothwy'r Rhyfel Mawr.

Yn olaf, yr oedd yn fardd. Yma eto, yn ieuencid ei ddydd yr oedd ei ysbrydiaeth ar ei gorau. Daeth un o'i gerddi, *Bro goz ma Zadou*, i ennill ei lle'n fuan fel cân genedlaethol Llydaw. "Hen Wlad fy Nhadau" ydyw hon, wedi tocio tipyn arni, a'i chyfaddasu at wrpas y Llydawiaid.

Ni, Breiziz a galon, Karomp hon gwir Vro!*

Brudet† eo an Arvor dre ar bed tro dro.

Dispont‡ 'kreiz ar brezel,§ hon tadou ken mad

A skuillaz§ evit-hi o gwad.

Y mae'r gytgan yn debycach i'r gwreiddiol, ac yn darllen fel hyn:

O Breiz, ma Bro! me gar ma Bro!

Tra ma vo môr 'vel mur 'n he zro

*Ra vezo digabestr** ma Bro!*

Os troir i lyfr bychan Jenkyn Jones, *Telen ar C'hristen* (Telyn y Cristion), gwelir bod ganddo yntau gyfieithiad o'r un gân i Lydaweg; a chwynai wrthyf mai ef a feddyl-

* Llydawiaid. † Enwog. ‡ Diofn. § Rhyfel. § A gollodd eu gwae'd drosti. ** Yn Gymraeg, di-gebyst, di-ffrwy'n = rhydd.

iodd gyntaf am ei chyfieithu, ac nad yw cân Taldir yn ddim amgen nag arall-eiriad o'i drosiad ef. Fe ddichon fod hynny'n wir i ryw raddau, ac ni pherthyn imi dorri'r ddadl yma. Ond fel y gorfu Ysgolion Sul Thomas Charles o'r Bala ar y rhai oedd yma o'u blaen, felly'n union y gorfu trosiad Taldir ar drosiad Jenkyn Jones. Ac wedi'r cwbl, ynddi hi hefyd y mae'r mwyaf o ysbryd y gwreiddiol yn chwythu, er gwaethaf ambell fai yma a thraw.

Y mae'r rhan fwyaf o'i gerddi eraill yn fwy gwreiddiol. Ond yr un amcan sydd iddynt i gyd. Nid canu er mwyn canu, nid canu er mwyn cyfansoddi creadigaeth hardd. Amcan ei holl ganu ydoedd ennyn serch yn ei genedl at ddaear ei gwlad, at gewri ei gorffennol, at yr ysbryd di-ofn a feddai unwaith. Gwelir hynny'n amlwg wrth sylwi am hanner eiliad ar enwau'r cerddi hyn, enwau fel *Sao, Breiz-Izel* (Cyfod, Lydaw!), *Dalc'h Sonj, O Breiz-Izel* (Cofia, Lydaw!). Cerddi gwlatgar, cerddi hanner-milwrol hyd yn oed, nid annhebyg i lawer un a hoffai Ceiriog eu troi allan yn awr ac yn y man. Wrth eu darllen, ac yn enwedig wrth glywed eu canu, atgofir chwi'n barhaus o'r diffiniad a roddodd Taldir o fardd—nid breuddwydiwr ond gweithredwr.

Dyma ryfelgyrch o'r iawn ryw, a geilw'n groch am fynd i'r gad:

Sao, Breiz-Izel, d' an nec'h da vannelou

Ruziet gant gwad hon c'hentadou!

Stagomp d' hon gouriz ar c'hlezeier hir,

Ra vo hon divec'h krenv 'vel dir!

Lavaromp holl euz a bouez honn fenn:

Breiz da virviken! Breiz da virviken!

PERERINDODAU

*Dihun, Breiz-Vihan, ma mam binniget
Rag an deiz a zo digouezet;
Hon galv a ziston war benn ar mene
Hag ac'h entana peb ene!
Breiziz deuz peb parrez a ziskenn:
Breiz da virviken! Breiz da virviken!**

Yn y penillion nesaf, gwel y bardd ei alwad yn cerdded uwch y rhosydd, ac yn peri i'r mamau ollwng eu plant i'r byddinoedd ac i'r rhyfeloedd. Cyfyd y mynyddoedd eu cri hwythau, gan ymateb y naill i'r llall. Disgyn y creigiau o'u lleoedd, ac ymdeithiant yn finteioedd yn erbyn y gelyn. Tipyn o'r Victor Hugo yn ei ramant-iaeth apocalyptaidd! Ac fel ym Marwnad dymhestlog Gruffydd ab yr Ynad Coch, y mae i'r môr yntau ei gyfraniad i'r cymorth a'r cydymdeimlad a ddisgwylir gan holl elfennau'r byd naturiol.

Y mae'r gân nesaf yn llai o alwad i ryfel, ac yn fwy o ddeniad i edrych yn ôl tua'r gorffennol, am y tywalltiad ysbryd a'r sioncrwydd a'r sicrwydd a lifa oddi yno yn ffrwd ddihsbydd i fywyd pob cenedl. Ar wahân i unrhyw swyn neu gelfyddyd a all fod yn y gerdd hon, ni bydd yn gwbl ofer i Gymry agor eu llygaid uwchben pennill neu ddau arall sydd bellach yn rhan o etifedd-

* Cyfod, Lydaw (yn llythrennol, Llydaw-isel, sef y rhan sy'n Llydewig ei hiaith), i fyny dy faner, a gochwyd gan waed ein cyn-dadau! Rhwymwn ein cleddyfau hir wrth ein gwregys. Bydded ein breichiau'n gryffion fel dur. Gwaeddwn bawb nerth ein pennau: Llydaw am byth! Llydaw am byth!

Dihuna di, Lydaw fechan, fy mam fendigaidd, canys y mae'r dydd wedi dyfod. Atseinia ein galwad ar ben y mynydd, ac ef a dania bob enaid. Disgyn (daw) y Llydawiad o bob plwyf. Llydaw am byth! Llydaw am byth!

TALDIR

iaeth eu cefndyr. Dyma'r pennill cyntaf* o'r gerdd, *Dalc'h Sonj, O Breiz-Izel:*

*Dalc'homp sonj, O Breiz-Izel, deuz an amzer
Rog ma oaz gwerzet ha trec'het,
Pa c'halle da vibien kerzed seder,
Sonn o fenn, dinec'h o spered,
Rog ma oaz bet taolet, heb difenn ha paour,
Dindan seuliou pouner an estrenn
Ha staget da viken deuz e garronz aour,
Deuz da dreid ken tener eu chaden!*

Geilw arni i gofio ei brenhinoedd a'i thywysogion gynt, a'r Seintiau a ddiwylliodd ei thir hi—*ar Sent deuz gret da zouar*—a'r beirdd a ganodd ei hiaith swynol—*a ganas da iez dudius*. A chloi'r cwbl yn wresog ac yn ffyddiog iawn fel hyn†:

*Dalc'homp sonj! Dalc'homp da viken an envor
Deuz gloariou dispar hon c'hentadou,
Ha, n'euz forz pegeid e padfe bro Arvor,
Na zilezomp biken o roudou.*

Dyna Daldir! Dyna Daldir fel y gwelodd Llydaw ef gyntaf. Dyna Daldir fel y gwelais i ef gyntaf, y Taldir fel y dychmygwn ei fod, ac fel y dymunwn iddo aros. Ond dywed fy nghyfeillion ei fod wedi hen droi ei gefn ar y Taldir hwnnw; bod y tân oedd ynddo wedi llosgi'n

* Cofia, Lydaw, am yr amser cyn iti gael dy werthu a'th drechu, pan allai dy feibion gerdded yn llon, yn uchel eu pennau, ac yn ddi-bryder eu hysbryd; cyn dy dafu yn ddi-amddiffyn ac yn dlawd dan draed trymion yr estron, wedi dy glymu am byth wrth ei gerbyd aur, ac yn llusgo (tynnu) cadwyn wrth dy draed tyner.

† Cofiw ninnau, cofiw yn wastadol am glodydd digymar ein cyn-dadau. A pha mor hir bynnag fyddo oes Arvor (Llydaw) na chollwn ôl eu traed hwy.

PERERINDODAU

llwyr allan, a'r weledigaeth a fu ganddo—os bu, meddant hwy yn hy ac yn ddig—wedi mynd ar goll. Heddiw, y mae'n rhyfel agored rhyngddo ef a'r Mudiad Cenedlaethol. Y mae eraill hyd yn oed, rhai na pherthynant i'r Mudiad hwnnw, yn ei gyhuddo o droi'r ffrydiau i'w felin ei hun, o ddefnyddio'r Orsedd—Gorsedd Llydaw—yn basiant i'w ogoneddu ef a'i gyfeillion. Yn haf 1939 cyrhaeddodd y duedd hon ei hanterth yng Ngorsedd Vannes, pryd y gweithredodd Taldir yn fwy fel swyddog Ffrengig nag fel Llydawr.

Bwriadwn ei weled fel arfer ar fy nhaith drwy Lydaw, ond darganfûm na red y trên bach o Forlaix i Huelgoat a *Carhaix*; ac ni welais Daldir. Drwg iawn oedd gennyf am hynny, gan yr hoffwn gael gair ganddo o'i enau ei hun. Bu ar gam, yn ddiâu; a bu eraill hefyd. Onid oes modd ail-ddeffro ynddo yr hen angerdd a fu'n llosgi? Efallai fy mod yn ffôl; ond ni chollais fy ngobaith eto . . . er bod adegau pan welaf nad oes fodd fyth mwy ei gymodi â'i orffennol *ei hun* nac â phresennol *Llydaw*.

PENNOD VII

KEMPER (FFRANGEG : QUIMPER)

Ar ôl gadael Taldir, nid oedd gennyf yr un lle arall i alw ynddo nes cyrraedd Kemper. Ar i lawt yr âi'r trên bychan bob cam bellach, gan ei gloywi hi'n ffwdanus rhwng cymoedd a chreigiau, o'r berfeddwlad fryniog tua dyffrynnoedd gwaelod gwlad. Yr oedd y daith yn ddifyr i'r llygad, er ei bod yn hynod o hir. Cefais gwmni rhyw ddwsin o ferched-ysgol oedd yn myned tua Chemper i eistedd arholiad. Hyfrydwch di-ail oedd gweled eu bod yn cymryd diddordeb mawr ym mywyd eu gwlad, ac y gwyddent yn dda am waith llenorion cyfoes, megis Anatole le Braz, Charles le Goffic, Botrel, Taldir, ac yn y blaen. Yr oedd gennyf led-syniad na welwn yng Nghymru ferched o'u hoed mor aeddfed â hwy. Ac y mae'n hen dyb gennyf fod merched yn datblygu'n gynt o dipyn yn Llydaw nag yng Nghymru. Yr hyn a'm synna ydyw na chlywaf byth wedyn adlais o sôn am ferched a ymddangosai mor addawol. O ran hynny, onid hyn ydyw un o'r rhyfeddodau mawr na roddodd neb eto mo'r eglurhad amdano?—sef, y deuwch yn aml ar draws merched a bechgyn ieuainc, sydd ganddynt bob nod sicr o dalentau, ond a welwch yn ddiweddarach heb nemor ddim o'r dawnusrwydd cyswynol hwn yn perthyn iddynt mwy. Y mae'n ddigon i beri ichwi gredu mai un o lwyddiannau mawr Addysg ydyw lladd gwreiddiolder a dawn.

A dyma fi yng Nghemper. Teimlwn ar unwaith, cyn gadael yr orsaf hyd yn oed, mewn awyrgylch gwahanol i drefi'r Gogledd. Yr oedd yno fwy o lawnder pobl, mwy o dreiglo'n gyflym drwy'i gilydd—mewn gair rhyddieithol a chynefin, mwy o fynd. A phan gerddais i mewn i westy yn ymyl i swpera, cadarnhawyd fi yn fy nheimlad cyntaf. Yno drachefn yr oedd llawnder o gylch y byrddau, a mwg sigarennau a photes yn ymgymysgu uwchben y morynion diwyd, a thafodau'n rhyddion ac yn barabllus dros ben. Yr oedd gwin neu seidr ar gyfer pawb, ac nid oedd cymaint ag un dirwestwr yno. Nac oedd; na'r un meddwyn ychwaith.

Er mai rhyw fis wedi "troad y dydd" ydoedd hi, yr oedd yn dechrau nosi erbyn imi droi allan; a rhywbryd rhwng y cyfnos golau a'r cyfnos tywyll y gwelais Gemper y tro cyntaf. Ymestyn yn hir gyda glannau'r Afon Odet i ddechrau, yna am ddwylan Afon Steir, ac yn olaf am lannau'r ddwy wedi ymuno ohonynt â'i gilydd. Oddi wrth ddylifiad y ddwy afon i'w gilydd y cafodd ei henw bedydd—Kemper (yn Gymraeg, Cymer). Cyn llwyr dreulio o'r cyfnos, yr oedd fy nhraed wedi mesur y rhan fwyaf o'r dref, a'm ffroenau wedi synhwyro trochion ei harogleuon hyd yr eithaf, bron. Nid oes berygl iddynt gael eu camgymryd am arogleuon unrhyw dref arall yn y byd.

Un argyhoeddiad dwfn oedd gennyf wrth fynd i gysgu'n hwyr y noson honno: fy mod mewn tref y gallwn gymryd ati o ddifrif calon ag un naid, fel y cymer plentyn weithiau at ambell newydd-ddyfodiad i'w fyd bach ef, a chodi ei freichiau'n sbonclyd tuag ato. Gwir mai amlinelliad ohoni'n unig a welswn eto: un

heol drystiog gyda min yr afon; dwy neu dair o rai bychain, hŷn o lawer, yn ysgwyddo'n draddodiadol gyfeillgar â'i gilydd; afon ddiog a phontydd aml yn ei chroesi o lan i lan; mynych dŷ a rychwantodd bedair neu bump o ganrifoedd ac a laswenai wrth weled fawed y tai diweddar; a bryn bach coediog yn taflu ei gysgod dros y dref a thros y rhai oedd yn caru ar ei arffed. Yna, yn y canol, yn coroni'r cwbl, yn seintwar pawb a phopeth, yn denu hen a newydd ati ei hun, gan roddi unoliaeth ystafellog i dai a dynion, yr Eglwys Gadeiriol—yn aros bron "mewn mawredd didymhorau," ac yn danfon ei saethau hedegog megis cenhadon tua'r nefoedd.

Hawdd fu cymryd ati o'r dechrau cyntaf. Aeth y dynfa'n gryfach eto drannoeth, a phob dydd fel y deuai o'r newydd, a phob blwyddyn yr ymwelais â hi wedyn. Erbyn heddiw y mae cyfeillgarwch cariadus a chymuneddeb cymdeithasgar rhyngof a hi. Bellach yr wyf wedi treulio wythnosau yno, ac wedi dyfod i adnabod pob cwr ohoni, pob olion o'i gwregys furiau, pob hengwrt a henblas. Mi a adwaen hyd yn oed y delwau Llydewig a saif yn agennau'r tai hynaf, ac a'u cyfarchaf wrth eu henwau pan gerddaf heibio iddynt. Y maent hwy mor gymdeithasgar â neb yn y dref lawen-chwedl, barabllus hon, ac ni adawai fy nghydwylbod imi sôn am Gemper heb eu henwi hwy—preswylwyr yr uchelfannau, trigolion y tabernaclau sydd goruwch trybestod llwch y llawr. Ond ar law a hindda, liw nos dywyll ac yn wyneb haul, nid oes gysurwyr tebyg iddynt. Canys gwyddant y cyfan am y mân gyfnewidiadau amgylchiadol hyn. Ni newidiant hwy na'u gwedd na'u gwisg. Edrychant

arnoch yn serchog-galonogol bob amser, a gwisgant liwiau moethus-gynnes. Ar Sul a gŵyl, ar ddydd marchnad a dydd gwaith, dygant eu "bragou bras" a'u hetiau melfed mawr amdanynt.

Kemper yw'r dref orau gennyf i yn Llydaw oll. Y mae amryw o rai eraill a hoffaf yn iawn. Ond o'r cwbl, hi yw'r anwylaf a'r hawddgaraf. Y mae'n fwy tref ac yn daclusach tref na *Morlaix*, ac yn fywiocach o beth difesur. Ac er nad ydyw gymaint â *Rennes*, y mae arni lawn cymaint o nodau prif-ddinas. Y mae ganddi afon—dwy, o ran hynny—ac y mae afon mor anhepgor i dref hardd ag ydyw i ddyffryn teg. Y mae tri neu bedwar o fryncynnau o'i chwmpas, ac y mae un ohonynt yn gysgod rhag timestl ac yn ysbieddtrych i weled y dref a'r holl wlad gyfoethog y mae hi'n gorffwys arni. Y mae yno ddwy Amgueddfa y gallai unrhyw ddinas ymffrostio ynddynt. Y mae yno amryw byd o westai da, a dau *gafé* sy'n ganolfannau i fywyd cymdeithasol y dref. Ynddynt hwy y clywch y trigolion yn meddwl yn uchel, ac yno y gall Cymro wrando am oriau ar Lydawiaid ieuainc yn dirwyn eu cynlluniau, ac y caiff yntau daflu ei hatling i'w trysorfa feddyliol.

Eithr nid yr holl bethau hyn gyda'i gilydd ydyw Kemper. Beth yn gymwys ydyw, ni wn yn rhy dda. Y mae yn awyrgylch. Y mae'n rhyw fath o swyngyfaredd. Teimlir yno atgofus hidl yn disgyn yn ddafnau o ganrif-oedd pell, a'r hudoliaeth anniffiniol, anghyffwrdd, a berthyn yn unig i ddinasoedd hen. Y mae'r tai hynafol a'r Eglwys odidog, gweddillion y rhagfuriau a'r Eglwys Rufeinaidd, yn datgan presenoldeb y canrifoedd amhresennol. Y mae yno boblogaeth chwerthinog galonnog.

sy'n frawdol siaradus, yn hoff o ysbleddach diofal, ac eto'n gymesur yn eu chwerthin a'u chwarae, ac yn byw'n chwaethus fel pe bai preswylwyr y gorffennol yn gwastadol wyllo drostynt. Y mae yno naws, a greir efallai am fod y meirw a'r byw yn ymgymysgu â'i gilydd ar delerau cydnabyddedig a thraddodiadol. Y mae Kemper yn brif-ddinas; prif-ddinas fechan efallai, ond prif-ddinas er hynny, calon talaith Kerne* (*Cornouaille*), i'r lle y treigla'n brysur ac yn gyson holl fywyd yr ardaloedd o gwmpas.

Y mae dychymyg cryf gan bobl Kemper, ac am hynny rhoddant i'w tref darddiad chwedlonol. Hoff ganddynt feddwl amdani'n dirwyn ei hanes yn ôl at y brenin Grallon, a ymfudodd yno gyda chanlynwyr lawer o Gernyw yn Neheudir Lloegr, meddir, tua bore glas y bumed ganrif. Ac onid oes cerflun mawr ohono ef, Grallon, ar gefn ei farch, i fyny'n uchel rhwng dau dŵr yr Eglwys Gadeiriol? Oni chefais innau'r f faint o gyd-farchogaeth ag ef ar y march llonydd-llamsachus hwnnw? Hyd yn oed os nad oedd Kemper yn brif-ddinas iddo ef, hi a ddaeth yn fuan yn eisteddfa i'r esgobaeth a sefydlodd Sant Corentin. Tref fechan ydoedd hi yr adeg honno, a'i thai bychain, pren, yn gwasgu at ei gilydd yn dynn rhwng creigiau Frugy a dŵr budr yr afon. Symudodd y dref yn ddiweddarach i ochr arall yr afon, gan ddechrau o'r newydd o gwmpas Eglwys fwy na'r eglwys Rufeinaidd† gyntaf, a chodi bob bore i synnu at ryfeddol gyfodiad honno o ganrif i ganrif.

* Yn Gymraeg, Cernyw.

† Defnyddiaf yr ansoddair hwn yn gyfystyr â *Romanesque*.

Locmaria ydyw enw'r fan lle y cychwynnodd y dref. Euthum yno drannoeth, er mwyn ceisio dirwyn ei hanes o'r cychwyn. Yr unig adeilad a erys o'r cyfnod bore ydyw'r Eglwys, sy'n hŷn na'r un sydd gennym ni yng Nghymru. Eglwys Rufeinaidd â muriau llydain, colofnau trymion, pedryfal, a ffenestri bychain a hynafol. Ar draws corff yr Eglwys y mae trawst cryf, ac arno ef y mae Crist yn hongian. Nid y Crist noeth, di-ddillad a welir yn gyffredin, ond y Crist wedi ei lwyr ddilladu mewn coch llaes. Gwelais Grist wedi ei wisgo'n gyffelyb mewn dwy eglwys arall yn Llydaw, ac yr wyf bron yn sicr mai dyna'r unig enghreifftiau sydd. *Quimperlé a Plouegat-Moysan* biau'r ddau Grist arall.

Oddi yno cerddais yn ôl gyda'r afon Odet at y ddau dŵr cyfrwys eu celfyddyd a'u dwy saeth, hwythau'n crynu'n feddwol yn anterth y wybren—dau dŵr a dwy saeth yr Eglwys Gadeiriol. Cerddais o'i chwmpas hi, ôl a blaen, gan synnu'n syfrdan at ei ffenestri, at ei hategion ac at ei thyrau, ac at gyd-gyfraniad y cwbl ohonynt i'r cyfanwaith perffaith ag yw'r Eglwys hon. Yr wyf wedi ei gweled hi bellach ddegau o weithiau, ac o bob cyfiriad yn y ddinas, ac o ben y bryniau gerllaw. Liw dydd glân golau y gwelais hi amlaf, yng ngolau cyfrin yr ardal, a phan fyddai'r haul o'i gaerau yn taro ar ei thalcen, ac yn saethu ei ddellt aur ar ei dellt main hi. Y mae gwrthdrawiad yr elfennau mawr hyn yn erbyn ei gilydd yn ogleisiol ysbrydol. Fe'i gwelais hi hefyd yn gwlychu ei phinaclau yn nistyll gwllithoedd mis Medi, ac yn estyn ei cholynnau hirion allan o gopäon ei thyrau tuag at loer y naw nos olau. Ar adegau fel y rhain, o'r braidd nad oeddwn yn disgwyl ei gweled yn

lledu ei hategion allan o'i deutu, yn ymryddhau ac ymddatod oddi wrth ei seiliau, ac yna'n cyfodi o'r ddaear ac yn hofran yn y ffurfafen.

Ond pa beth a wnâi Kemper hebdi hi? Anodd gennyf ddychmygu am Baris heb y Notre Dame, a llawn mor anodd fuasai meddwl am Gemper heb ei heglwys hithau. Yn wir, y mae'r syniad ynddo'i hun yn rhyfyg noeth. Awn i mewn iddi, yn hytrach. Wrth edrych o'r tu cefn, yn ymyl y drws, ar y cyfrinachau ym mlaen yr allorau, heibio'r colofnau a'r pileri a'r lliwiau dwys-fragleuog a adlewyrchir o'r ffenestri lliw, fe wêl y llygad fod yr anferth adeilad cysegredig yn goleddfu tua'r chwith o'r côr ymlaen. A gynlluniodd y pensaer y gwyro atgofus hwn? Ac a fwriadodd felly ychwanegu at y cyfrinachau a anadlai'r llestr santaidd eisoes? Beth bynnag, ni fedr neb sylwi ddwywaith ar y tro ym mhen yr Eglwys heb deimlo'n wastadol bresennol yno y gwyro a fu unwaith ar ben Eneiniog y Nefoedd, ar grocbren, fymryn bach oddi allan i furiau Caersalem. Yn wir, yn wir, gellwch ddarllen yr Hanes hwnnw ddegau o weithiau yn yr Efengylau heb brofi'r hanner na'r canfed o ingoedd yfed "gwaddod y cwpan erchyll" ag a wneir pan sefuch yn llonydd wrth borth Eglwys Kemper, a syllu'n hir ar ogwydd symbolaidd o'r côr ymlaen heibio'r allor at y pen eithaf. Yma y sylweddolir yn llawn nad yw gair ar lyfr yn ddim ond is-adlais gwan wrth gelfyddyd fyw mewn pren a main. O hyd ac o hyd daw geiriau Emile Mâle i'r cof, mai "Beibl y Tlodion" ydyw'r Eglwysi Cadeiriol. Ie: a'r "tlodion yn yr ysbryd," yn ddiau.

Os hoffech wybod yn gywir pa faint yw hyd yr Eglwys,

PERERINDODAU

a pha faint yw ei huchder, chwi a gewch lyfrau a rydd ichwi yr holl fanylion hynny. Dyna wybodaeth na byddaf i fyth yn rhoddi pwys arni, ac ni wn i eto yn gywir pa un sydd hwyaf ac uchaf, ai Eglwys Kemper ai Eglwys Kastel Paol. Y mae gennyf led-amgyffred, er hynny, mai'r gyntaf a'i piau hi yn hyn o beth fel ag mai hi a'i piau ym mhob cyfeiriad arall. Ni buaswn i'n petruso gosod hon o flaen holl Eglwysi Llydaw, er y gwn i'n weddol dda am ragoriaethau y rhan fwyaf o'r lleill, a bod yn hoff gennyf Eglwysi Kastel Paol, Tréguier a Nantes, heb sôn am lawer o'r rhai llai sy'n addurno'r parthau gwledig.

Wedi gorffen sylwi ar y cyfanwaith gorffenedig o ymyl y porth, yr unig beth gweddus yna ydyw araf symud gyda'i hymylon, i daflu golwg ar yr elfennau gwahanol sydd yn ei chyfansoddi—y capeli, y ffenestri lliw, y côr a'r allorau, y pulpud a'r gangell, y darluniau mawr a'r beddau i esgobion. Fe arhoswch eto, yn ddiamau, ar eich llwybr a gadael i lawer profiad llednais suddo trwy'r llygad i'r cnawd, ac i'r ymennydd ac i'r galon, a chwarae â'i fysedd arnynt megis ar dannau telyn. Chwi a sylwch ar osod Crist yn y bedd, ar fydryddu arwrgerdd bywyd Sant Corentin mewn gwydrau lliw, ar adrodd hanes Mair a Christ, ar fynegi gwyrth yn rhoddi dawn siarad Llydaweg i'r Tad Maunoir, ar gyfarchiadau caruaidd i Fair Forwyn, ac ar lawer chwedl arall sy'n poblogi'r eglwys â chymaint o bersonau, o wyrthiau, o obeithion, o gredoau ac o gyfrinachau. Henffych well iti, ddigymar addoldy ac amgueddfa! Ar y ffordd i ymweld â thi, byddaf bob amser wedi rhyfeddu'n ogleisiol at odidowgrwydd y Notre Dame ym Mharis ac

KEMPER

yn Chartres; ond nid byth, wedi nesáu at dy degwch di, y caf reswm dros i tithau gywilyddio. Ar dy dir dy hun, y mae dy degwch yn deilwng o'u tegwch hwythau. Y mae arnat yr un nod ag arnynt hwy, ac ynot yr un naws ag ynddynt hwythau—nod a naws campwaith.

PENNOD VIII

GYDA'R CENHADWR

Mi gofias yn dda mai dyma bennawd un o benodau "Tro yn Llydaw" gan Syr O. M. Edwards. Gan fod arnaf innau eisiau sôn am yr un gŵr, efallai y maddeuir imi oherwydd lladrata cymaint â hyn.

Pan gyrhaeddais gyntaf i Gemper yr oedd fy mryd ar alw rywbyrd gyda Mr. Jenkyn Jones, er ei fod yn ŵr hollol ddieithr imi. Ni chefais y drafferth leiaf i ddyfod o hyd i'w dŷ, gan y gwyddai pawb ym mhle yr oedd yn byw. A dyma ddringo i fyny drwy amryw droellau yn y we o strydoedd tuag un o fannau uchaf y dref. Erbyn cyrraedd, yr oedd siom fawr yn fy nisgwyl. Yr oedd yn ddrwg iawn ganddynt, ond nid oedd Mr. Jones gartref. "Y mae wedi mynd i Gymru," meddid, "ac yno y bydd am beth amser. Heddiw y mae yn Aberystwyth, yn derbyn gradd M.A. Anrhydeddus Prifysgol Cymru."

Dywedais mai o ymyl Aberystwyth y deawn innau, ac imi edrych ymlaen ers tro am gwrdd â'r Cenhadwr.

"Dyna drueni! Mi fuasai'n falch o'ch gweld chi. Y mae mor dda ganddo weld rhywun o Gymru. Cymru yw ei nefoedd. Mae'n sôn amdani byth a beunydd . . . Mi fuasai'n dawnsio o lawenydd pe buasai yma . . . Beth bynnag, dewch i mewn."

Ac i mewn â mi, gan wneud yn fawr o'r croeso. Bu'n rhaid imi hyd yn oed aros am ginio, pryd y bu ymddiddan hir â thair Ffrances a thair Americanaes oedd

GYDA'R CENHADWR

yn lletya yno. Yr oedd y rhain yn amlwg yn gyfeillion mawr i Mr. Jones a'i wraig, ac yn rhedeg drwy'r tŷ megis rhai wedi hen gartrefu yno. Bywyd Ffrainc a Llydaw a fu'n bennaf dan drafodaeth rhyngom; ac i'r Americanaesau duwiolfrydig, yr oedd yn rhyfedd ac yn ofnadwy. Arsywident wrth feddwl am rai o'r pethau a welsent ym Mharis, yn enwedig merched Ffrainc yn dawnsio gyda dynion duon. Iddynt hwy, yr oedd hynny yn gymwys yr un fath â phechu yn erbyn yr Ysbryd Glân. Ceisiais innau'n ddiniwed ddigon ddarbwylllo tipyn ar yr eneidiau santeiddiaf hyn, ond yn hollol ofer. Diwedd pob dadl ydoedd y geiriau efengylaidd, terfynol hynny: "Ni buasai'r fath beth yn bosibl yn America." Mi ddiolchais y tro hwnnw, a diolchaf o hyd, nad gwlad debyg i America ydyw Ffrainc, ac nad pobl debyg i'r Americanaid hunangyfiawn ydyw'r Ffrancod. Y mae llawn gormod o'r Americaneidd-dra hwn i'w gael yng Nghymru weithiau, ac nid yw byth braidd yn flasu. Rhoddwn ddogn da o halen arno.

Dwy flynedd yn ddiweddarach wele fi drachefn yn curo wrth ddôr Mr. Jenkyn Jones. A'r tro hwn yr oedd gartref, ac ef a Madame Jones, ei wraig, yn rhoddi gwrhydri o groeso imi. Ac nid oedd yr Americanaesau glân yno! Yr oedd lletywyr eraill, er hynny, a chroeso i minnau fynd yno i'w prydiau bwyd. Trefniant wrth fy modd. Am fwy nag wythnos gyfan, bâm yn treulio'r dyddiau yng nghwmni Mr. Jones, a myned allan y nos i gysgu mewn tŷ yn ymyl. Yn ystod yr wythnos honno bu rhyngom gymdeithas agos neilltuol, a siarad ynghylch llawer iawn o bynciau, yn enwedig am Gymru a Llydaw.

Yr oeddwn i yn ei weled tua deuddeng mlynedd ar

hugain wedi i Syr O. M. Edwards ymweled ag ef. Wyth mlynedd a dreuliasai yn Llydaw pan ddaeth ei gyfaill heibio iddo, ond yr oedd wedi mwy na gorffen deugain pan gyfarfûm i ag ef. Yr oedd yn ŵr llawn trigain a deng mlwydd oed, er na ddywedwn i mo hynny wrth edrych ar y dyn cryf a safai o'm blaen, a gerddai gyda mi'n hoyw hyd strydoedd y dref, ac a bregethai'r Efengyl yn yr awyr agored, ym mhentrefi bach glannau'r môr, yn *Lesconil*, yn *Leschiagat*, *Kerity* a *Saint-Guénolé*. Yr oedd ei safiad yn gadarn, ei gam yn chwim. Gŵr hardd odiaeth, a'i wallt yn tonni goruwch talcen llydan, a'i farf yn chwarae'n frithwyn islaw gwefusau cochion. Trwyn llyfn, meinflaen, yn ymestyn ychydig dros drawswch a dyfai i lawr at y farf hirlas. Llygaid gleision, tyner, a gronnai ambell ddeigr yn hallt pan ddeuai ei ferch glaf heibio iddo bob nos ar ei ffordd i'w gwely. Wyneb croen-glir, glân, wedi ei aeddfedu'n loywoch gan haul a gwynt gororau Llydaw. Gŵr annwyl anghyffredin, a llais mwyn, melys, ganddo; a llaw gelfydd, fechan, yr hon a godai ac a ostyngai'n huawdl pan lefarai. Wedi deugain mlynedd o fyw oddi allan i Gymru, siaradai Gymraeg yn gwbl ddi-drafferth, heb ball am air odid fyth. Siaradai Ffrangeg yn llawn gwell na'r un estron a glywais erioed; ac wrth bregethu cyfunai soniarusrwydd naturiol yr iaith honno â hwyl pulpud Cymru. Gallai Llydawr gorau'r wlad ryfeddu at burdeb a rhwyddineb ei Lydaweg. Yn wir, mi gofias glywed ei alw gan ŵr o awdurdod yn "fardd Llydewig."

I mi, darn o orffennol pell yn Hanes Cymru ydoedd Mr. Jones, gŵr a allai fy nghysylltu i â Syr O. M. Edwards, Syr Henry Jones, ac yn wir â'r Prifathro

T. C. Edwards, Aberystwyth. Yn y tŷ ac allan ar yr heol, gyda glannau'r môr ar ôl ei bregethu i'w gynull-eidfa fechan, dlodaidd, ac yn y cerbyd ôl a blaen, holwn ef hyd at ei flino, y mae arnaf ofn, am y gwŷr hynny. Yr oedd ganddo barch mawr iddynt oll, ond yn fwy fel Cristnogion nag fel ysgolheigion. Y ddau a garai'n fwyaf ydoedd ei brifathro yn Aberystwyth a Syr Henry Jones, a'r olaf yn fwy na'r un. Clywsai rywrai'n honni nad oedd Syr Henry yn Gristion o'r iawn ryw; ond ni fynnai ef am funud dderbyn y fath syniad rhyfygus. Fe'i gwelodd yn ei gystudd olaf, meddai, ac nid anghofiai byth ei glywed yn adrodd emynau Cymru, yn enwedig "*O! Iesu mawr, rho'th anian bur*" a "*Mi bwysaf atat eto'n nes*," ac yn dyfynnu adnodau o'r Beibl Cymraeg, oedd ar y bwrdd yn ei ymyl.

Yn awr ac yn y man, gwahoddai Mr. Jones fi i fyny i'w fyfyrgeall ym mhen y tŷ, ac yn y fan honno y rhoddodd imi gopi o'i emynau Llydewig ef, *Telen ar C'hristen*, a garai fel y câr plentyn degan sydd wrth ei fodd, ac a ddarllenai imi yn ei lais tyner. Ar aml dudalen yn y llyfr yr oedd wedi newid ei eiriad cyntaf, yn ôl fel yr oedd profiad o'u canu, a'i aeddfedrwydd mewn Llydaweg, wedi ei ddyngu. Y mae'r llyfr gennyf o hyd, ac yn un o'r rhai a drysoraf yn fawr, yn bennaf oherwydd y sawl a'i rhoddodd, ac a ysgrifennodd arno y geiriau hyn: "*Doie ganeoc'h ken n'en em gavomp c'hoaz*." Ynddo y mae aml un o'r emynau Cymraeg oedd hoffaf ganddo wedi ei drosi i Lydaweg—*Pen Calfaria*, *Y Delyn Aur*, ac emyn mawr Islwyn, *Gwêl uwchlaw cymylau amser*. Yn ddiweddarach, yr oedd wedi cyfieithu dau neu dri o rai eraill sydd heb fod yn *Telen ar C'hristen*

—megis *O! Iesu mawr, rho'th anian bur, a Mi bwysaf atat eto'n nes*; a mawr oedd ei fyd, druan, i gael gwybod beth a feddyliwn i am y cyfieithiadau hyn.

Yr oedd ganddo ddrws yn arwain o'r ystafell hon yn union i'r ardd, heb ddisgyn i'r tŷ. Nid byth y gwelais ef yn dyfod allan ohoni heb fynd i ben y mur a godai o'r dyfnder islaw, ac a gaeai am gefn yr ardd. Chwaraeai gwên foddhaus o gil ei lygad glas dros ei holl wyneb hardd, a chodai ei ddeheulaw i fyny. Yna, acennai'r geiriau hyn gyda gorawen orfoleddus:

"Welwch! . . . Yr olygfa! . . . Quimper i gyd! . . . Dyma ni'n sefyll ar ben y darn hynaf o'r ddinas! . . . rhan o'r rhagfuriau fu unwaith yn wregys am yr holl dref . . . ydyw hon . . . A minnau'n byw yma, ar yr amddiffynfeydd! Oddi tanaf . . . gwelaf y ddinas oll yn lledu ac yn ymestyn . . . wrth fodd fy nghalon! Sbiwch . . . ar rai o wrthrychau fy serch! . . ."

Yr oedd hi'n olygfa i'w chofio, a'i charu . . . gweled yr hynafgwr hwn o Gymro yn ymfrostio yn safiad ei dŷ uwchlaw deryn o gaerau hen ddinas Gatholig, mewn gwlad ddieithr; ac yn ennyn yn fy llygaid gronfa o ddagrau di-angen, wrth feddwl amdano'n ymdeithio'n drigfannus yno am fwy na hanner ei oes, a'i glywed ar yr un anadl yn mynegi ei ddymuniad am wneud ei hir gartref yn y fynwent fach, i lawr yn y gwaelod . . . acw. Carai Gymru â'i holl galon, ac â'i holl enaid. Iddo ef, hi oedd gwlad y diwygiadau a'r cyrddau crefyddol, paradwys y cantorion a'r pregethwyr mawr. Hi oedd y tir santaidd, preswylfa'r pwerau tragwydd, hen gartref yr addewidion mawr a'r cyflawniadau prid, y wynfydedig ymysg y gwledydd . . . bro Ganaan y breintiau drud.

O uchelder ei freuddwydion disglair amdani, nofiai ei feddwl i ganol geiriau annigonol:

"Mi hoffwn ei gweled hi eto cyn marw . . . a chw'rdd â'm cyfeillion yn yr Efengyl sydd yno . . . Ond dyna! . . . 'cha' i ddim! . . . A 'chwyna' i ddim . . . 'rwy' i am farw yma . . . Rhowch imi feddrod yn Llydaw. 'Rwy'n ei charu hithau . . . ac wedi rhoddi iddi dros ddeugain mlynedd o 'mywyd. Dyma 'ngwinllan i . . . yn yr Arglwydd. Yma y llafuriais, y bliniais, y cerddais, y brwydrais . . . yr heuais, ac y gwyliais yr egin . . . had! Yma yr wyf am gau fy llygaid ar y byd hwn. A fan'na . . . ie, fan'na . . . i lawr yn y gwaelod yna . . . 'welwch chi? . . . yr wyf am orffwys oddi wrth fy ngwaith."

Ar ddiwrnod arall yr oedd Mr. Jones a minnau'n cerdded i lawr drwy rai o heolydd y ddinas, pan ddaethom i fan arbennig. Safodd ef yn stond, a galw fy sylw at enw stryd oedd ar ein cyfer—*Rue de la Providence*. Darllenodd ef allan unwaith neu ddwy, ac fel pe mewn llesmair, ychwanegodd:

"Rhagluniaeth! Dyna ichi air ardderchog! Mae Cymru'n gwybod mwy oddi wrtho na'r un wlad dan haul. Mae hi wedi cael ei breintio uwchlaw pob cenedl. Meddyliwch am y Diwygiadau! A'r pregethwyr! Pa wlad a gafodd eu tebyg? 'Rwy' i wedi clywed pregethwyr gorau Ffrainc, ond i mi 'd oedd 'na'r un ohonyn' nhw'n debyg i bregethwyr mawr Cymru. Nac oedd . . . ond dyna . . . 'dydy' Cymru heddiw ddim yn sylweddoli hynny. Mae'n bryd iddi gael cawod arall."

Pan ddeuai'n ôl o'i grwydriadau tua Chymru, dechreuai siarad am Lydaw. Ac ar Lydaw yr oedd ei serch, er mor gynnes, yn rhannol iawn. Carai ei daear i gyd,

a'r iaith a dyfodd allan ohoni. Ond ychydig iawn o'i phobl a garai'n angerddol, dim ond yr ynysoedd bach, bach, o Brotestaniaid oedd yno i'w cael mewn pentrefi bychain—ar lannau'r môr yn bennaf—y dychweledigion at yr Arglwydd oddi wrth dywyllwch yr Eglwys Gatholig—tua thri chant o aelodau, y rhai a achubwyd ganddo ef oddi ar y fflamau tân. Gwyddai gryn dipyn am arweinwyr bywyd cyhoeddus Llydaw y genhedlaeth hon a'r genhedlaeth o'r blaen. Fe adnabu Luzel a Villemarqué, ac yr oedd ganddo air mawr i'r olaf. Y Tad Vallée oedd yr unig un arall a barchai. Bu unwaith yn weddol gyfarwydd ag Anatole le Braz, ond nid wy'n meddwl iddo ddarllen nemor o'i waith, ac ni siaradai'n uchel amdano ef nac am Charles le Goffic. Yr oedd Taldir, wrth reswm, yn anathema oherwydd iddo "ladrata" 'r *Bro Goz ma Zadou* oddi wrtho.

Yr oedd Mr. Jones yn gymaint o Brotestant, ac o Biwritan o ran hynny, fel na fedrai fyth ddygymod â nemor ddim a ysgrifennir yn Llydaweg, nac yn Ffrangeg ychwaith. Awduron Protestannaidd yn unig a ddarllenai, ac felly ni cherddodd erioed ar briffordd llenyddiaeth yr un o'r ddwy wlad. Un o bobl yr ymylon ydoedd, yn cyffwrdd yn unig â'r hyn oedd yn eithriadol ym mywyd Llydaw a Ffrainc, â'r hyn oedd yn ddieithr ac yn groes i hanes ac i draddodiad y ddwy. Iddo ef, yr oedd gwir nodweddion cenhedlig y naill wlad a'r llall yn gwbl ddrwg. Ni allai weld dim yn dda ac yn dlws mewn "Pardon" Llydewig, nac mewn offeren na gosber. Y mae'n nodweddiadol na chlywais mohono gymaint ag unwaith yn canmol celfyddyd odidog yr Eglwys Gadeiriol yn y ddinas a hoffai gymaint. Cerddodd gyda

mi i ymweled â'r Eglwys Rufeinaidd, oedd yn llawer iawn pellach o'i dŷ, a chymerai ddiddordeb yn ei sobrwydd a'i symlder. Ond ni ddaeth unwaith gyda mi i'r Eglwys fawr, foethuswych. Yr oedd syberwyd honno yn flinder i'w enaid, tra 'r oedd noethni moel yr hen Eglwys Rufeinaidd yn ymdebygu i ryw raddau i sylm-rwydd ysguboraidd ei "Demlau" bychain ef ym mhentrefi glannau'r môr.

Yno yr oedd cenhadaeth Mr. Jones wedi llwyddo orau, yn *Lesconil* a *Leschiagat*, ac nid yng Nghemper. Ac am reswm da. Dinas y cwfenoedd a'r ysgolion, yr eglwysi a'r esgopty ydyw Kemper, seintwar Rhufain. Ond yn Lesconil nid oedd offeiriad yn byw ymhlith y trigolion, am ei fod yn lle bychan o'r neilltu, megis. Felly yr oedd gan y Cenhadwr y fantais fawr o fynd i bregethu a chyhoeddi'r Efengyl yn eu canol. Yr oedd y bobl hefyd yn Sosialwyr rhonc, ac yn wrth-glerigwyr, fel y gallai'r Protestaniaid ymddangos iddynt yn ganllaw yn eu syniadau gwleidyddol. Gan mai morwyr ydynt, ond odid nad ydynt hefyd yn rhyddach pobl, yn llai ceidwadol, yn llai cysylltiedig â thraddodiad ac â chrefydd arbennig. Gwelodd Mr. Jones ei gyfle, ac ers blynnyddoedd bellach yr oedd yn myned yno i bregethu yn yr awyr agored.

Yr oeddwn i'n awyddus dros ben i gael mynd gydag ef i'w weled wrth ei waith. Ac un prynhawn dydd Sul, dyma'i chychwyn hi'n gynnar wedi cinio i gyfeiriad y môr. Cawsai'r Cenhadwr gerbyd i'w hwyluso yn ei lafur caled, ac yn hwnnw yr aethom i lawr drwy'r wlad wastataf yn Llydaw, heibio *Pont l'Abbé* a *Phlobannalec*. Wedi cyrraedd Leschiagat, aethom i ysgoldy yn perthyn

i'r Protestaniaid, lle 'r oedd rhyw ddeunaw o bobl yn ein disgwyl. Cerddodd Mr. Jones ymlaen at y pulpud. Darllenodd gyfran o'r Ysgrythur, a rhoi emyn allan i'w ganu. Oni bai am y canu, a oedd yn dlawd iawn, a'r iaith a ddefnyddid—Llydaweg bob gair—prin na ellid meddwl mai mewn capel bychan gwledig yng Nghymru yr oeddem. Wedi'r canu, gweddio, ac yn nesaf y bregeth. Gwasanaeth byr a gafwyd, a mwynheais bob rhan ohono.

Cefnu wedyn, a mynd yn ein blaen i Lesconil, pryd yr oedd dau genhadwr o Lydawiad, a'r Parch. Gerlan Williams, yn ein disgwyl. Gan yr olaf yr oedd organ fechan, a gludai gydag ef i gyfarfodydd yr awyr agored. Dyna a gaem y tro hwn, cyfarfod yn yr awyr agored. Yr oedd tua dau ddwsin ynghyd, morwyr lled oedrannus, a di-raen eu golwg gan mwyaf, ambell lefnyn o grtll segur, amryw blant, a rhyw ddwy neu dair o hen wragedd. Yn gyntaf, canwyd er mwyn dwyn tipyn o drefn ar ein cynulleidfa led-rwyfus; ac yna cafwyd anerchiad, gyda gwres tafod ac ystumiau corff mynych, gan un o'r ddau Lydawr. Yn nesaf, darllenodd Mr. Williams emyn arall, a ganem yna gyda'n gilydd orau y gallem, ond yn sobr o sâl yr un pryd. Felly y digwyddai rhwng yr anerchiadau bob cynnig. Siaradodd Mr. Williams mor dwym â'r Llydawr. Daeth yn dro Mr. Jones toc, ac yr oedd ganddo ef ei ddull ei hun. Siaradai'n arafach o dipyn na'r lleill, ac yr oedd ei Lydaweg yn burach hefyd. Llifai daioni a charedigrwydd ei berson allan yn ebrwydd o'i enau ef.

Pacio drachefn, a symud yn ein blaenau i le o'r enw *Croariou*, lle y buasai "Pardon" yn ystod y dydd, a gobaith am wrandawyr niferus. Ond gwelsom mai

y chydig o gyfle a gaem yno, gan fod y ffair ar ben, a'r torfeydd yn paratoi i'w llercian hi tuag adref. Heb aros dim, aed ar ein cyfer tua *Ste Marine*, sy'n hyfryd o le bach tlws ar enau'r afon Odet, a chyferbyn â *Benodet*. Yno eto nid oedd neb, a bu raid dychwelyd yn swta tua Chemper i giniawa. Treuliwyd y nos Sul hwnnw i'w ddiwedd trwy ganu amryw byd o emynau Cymru.

Tua deg o'r gloch fore trannoeth, cychwynnodd Mr. Jones a minnau drachefn am Leschiagat, lle y ciniawasom ar fara-y-menyn a the, yng nghysgod y cerbyd. Yr oedd gan Mr. Jones fân negeseuau i'w gwneud yno, ac felly mi a gerddais yn fy mlaen gyda glan y môr, a heibio i rifedi mawr o longau bach, nes dyfod i bentref arall, *Guilvinic*. Nid pentref ychwaith, ond rhibiniau o dai a heolydd ar wasgar, a'r cwbl i gyd yn wynion eu lliw, ac yn hynod o lân. Pysgotwyr oedd y preswylwyr bron i gyd, ac yn digwydd bod ar y lan yr adeg honno. Yr oedd llawer ohonynt yn dyrrau bach segur yma a thraw, â'u dwylo'n ddwfn ym mhocedi eu llofrau, ac eraill yn wŷr prysur yn llifio hwybrefni eu llongau neu'n cyweirio'r rhwyfau. Dillad cochion, braidd yn fudron, oedd gan rai, a dillad gleision gan eraill, a'r gweddill yn lliwgar ddigrif mewn dillad pob lliw yn y byd, wedi eu clytio wrth ei gilydd yn glogyrnaidd iawn. Ni chyrrhaeddai gwaelod llofrau mwy nag un o'r llanciau i lawr o fewn troedfedd at ei 'sgidiau pren. Llydaweg oedd unig iaith yr holl finteioedd ohonynt, a bwm yn dal pen-rheswm â thwr neu ddau. Dim ond un o'r rheini a fedrai ddarllen Llydaweg, er y medrai bron bawb ddarllen Ffrangeg. Pan oeddym ar ganol sgwrs clywem sŵn meddw-ganu llaes gan balff o lymeitiwr, a fesurai

hyd a lled y ffordd wrth wegian-cerdded tuag atom. Trodd pawb wyneb a gwên druenus tuag at y pechadur, a phan ddaeth i'n plith, torrodd y cynulliad bach, a throdd pawb i'w ffordd.

Ymhen hir a hwyr, wele Mr. Jones a'r cenhadon yn cyrraedd, ac yn fy nghodi innau er mwyn mynd tua *Phenmarc'h*, lle y mae Eglwys bur ddiddorol, a goleudy mawreddog. Gwlad drist, undonog, i'm llygad i, beichus o wastad a moel, heb na chloddiau mawr bro Kastel Paol na'i heithin. Bodlonodd Mr. Jones, chwarae teg iddo, gerdded i mewn i'r eglwys, a chil-edrychodd ar lawer delw gerfiedig a brith ffenestri a'm boddiai i ond, yn ddiau, a'i blinai ef. Oddi allan, y mae cofadail luniaidd iawn i Lydawes o'r ardal, ac arni enwau'r milwyr a laddwyd yn y Rhyfel Mawr, a'r geiriau Llydaweg hyn: *O haniou a jomo skrivet down en hor c'halonn*—eu henwau a erys yn ysgrifenedig yn ddwfn yn ein calon. Yn y fan a'r lle, wrth droed y gofadail honno, tynnwyd llun Mr. Jones a minnau. Y mae'n ddrwg gennyf erbyn heddiw na thycia dim i gael gafael arno.

Wedi bod ar ben y goleudy, yn sbïo ennyd ar y môr trochionog ac ar y wlad lonydd, trowyd pen y cerbyd i gyfeiriad *Kerity*, tua'r Gorllewin. Ac yno y daethom yn dra chyftym, gan y bwriadai'r cenhadon gynnal cyfarfod awyr agored o flaen y môr. Disgynasom bob un, a gostwng yr organ fach ar y llawr yn ymyl, ger bron rhes o bysgotwyr a eisteddai ar fainc hir. Gan weled yr organ ar lawr, a sylwi ar ein cyniwaïr ni, daeth rhagor o gynulleidfa ynghyd, pysgotwyr hwythau gan mwyaf, ac amryw hen wragedd, a thyrfaf fwy o blant bychain, coesnoeth a throednoeth. Yn y canol, rhwng gwŷr y fainc hir a'r

llu aflonydd ar eu sefyll, yr oeddym ni—Mr. Jones a Mr. Williams, y tri chenhadwr Llydewig a minnau. Cymerodd Mr. Williams at yr organ ac at ddarllen pennill o lyfr Mr. Jones; a chanasom y pennill hwnnw i gyd gyda'n gilydd, a chael petrus gefnogaeth floesg gan ein gwrandawyr synedig. Ac felly o bennill i bennill, nes gorffen yr emyn. Yna siaradodd un o'r cenhadon Llydewig, ac ar ôl canu drachefn, yr ail genhadwr, gyda'r un gwres ac ystumiau â'r dydd cynt. Yr oedd yno gynulleidfa o hanner cant, rhwng y gwragedd a'r plant. Gwrandawent yn astud iawn, yn ddistaw lonydd, a chegau'r mwyafrif ohonynt o led y pen, yn barod i lyncu'r newyddion Efengylaidd a gyhoeddid iddynt. Mr. Jones oedd yr olaf i annerch, fel arfer, ac yn arafach na'r lleill, yn ddwysach, ac yn nes at ei bobl. Gallai pawb ddeall pob gair a ddywedai, a rhyfeddu at bryd a gwedd yr hynafgwr golygus, at las ei lygaid tanbaid, ac at liw ei lais tyner. Wedi iddo yntau orffen, a chanu drachefn, caewyd yr organ a'i chadw yn y cerbyd. Yna cerdded i blith y dyrfa a chymell Testamentau iddynt. "Aml gnoc a dyr y garreg"; a thrwy ddyfal gynnig a chymell, llwyddasom i werthu tri-ar-ddeg. Ar hynny ciliwyd oddi yno, a theithio'n ôl tua Chemper. Yr oedd Mr. Jones yn burion bodlon ar ei ddiwrnod gwaith, un arall at y miloedd a gyflawnodd ym mro ei addewid.*

Ar adeg fel honno, ac ar adegau eraill pan fyddai mwy o hamdden ganddo, byddwn yn mentro gofyn i Mr. Jones pa lesâd oedd i'w holl lafur yn Llydaw. Yr oedd yn bwnc anodd iawn ei agor o gwbl, rhag ofn

* Am hanes diwrnod arall o bregethu awyr agored gan Mr. Jones, gweler "Ffair ac Offeiriad" yn *Y Llenor*, cyfrol VIII, rhif 3.

clwyfo calon gŵr a roddes flynyddoedd gorau ei fywyd i'w genhadaeth yno. Mi a wyddwn yn dda hefyd nad ag ystadegau a rhif a mesur y gellid yn deg bwyso gwerth gwasanaeth, na sylweddoli ei ffrwyth. Yr un pryd, y mae o leiaf beth tystiolaeth gan rifedi. A dyma fi'n beiddio gofyn i Mr. Jones:

"Beth oedd rhif y Protestaniaid pan ddaethoch gyntaf i Gemper?"

"Tua deugain" oedd yr ateb byr.

"Beth yw eu rhifedi erbyn heddiw, Mr. Jones?"

"Dim rhyw lawer yn fwy. Tua thri a deugain, efallai."

"Ac y mae dros ddeugain mlynedd er pan ddaethoch yma?"

"Oes. Ond rhaid i chwi gofio dau beth: Yn gyntaf, mi ddaeth y Rhyfel Mawr ar ein traws, ac fe goll'som ni lawer o'n haelodau yr adeg honno. Cymerodd gryn drafferth inni ennill y golled honno'n ôl. Ac yn ail, nid yn y dref hon yr wyf i'n gweithio'n unig erbyn hyn, nac yn bennaf—fel y gwelsoch eich hun. Mae fy nghanhad-aeth i wedi llwyddo'n well yn y pentrefi bach ar lannau'r môr—megis Guilvinic a Kerity, ac yn enwedig yn Lesconil a Leschiagat."

Yr oedd hynny'n wir. Ond yr oedd hyn wedi digwydd am mai yno yr oedd y gwaith yn hawddaf i'w wneud o lawer iawn. Pentrefi bach o forwyr bob un, a'r morwyr hynny'n aml heb fawr grap ar grefydd o fath yn y byd. Ac yn rhai ohonynt, o leiaf, ni ddigwyddai fod offeiriad o gwbl. Wrth gwrs, bai yr Eglwys Gatholig oedd hynny.

Bu farw Mr. Jones ar y degfed o Chwefror 1925, tua phum mis union wedi imi gael y fraint o dreulio wythnos ddiddan yn ei gwmmi. Daliodd i weithio hyd

y diwedd, a byr ysgafn gystudd a gafodd. Credodd hyd y dyddiau olaf y câi wella i fynd eilwaith yn ôl at ei waith; ac un o'i bennaf ofidiau ydoedd na orffenasai gyfeithu'r Testament Newydd i Lydaweg, yr hyn a gychwynasai ers tro.*

* * * *

Yn Awst 1928 yr oeddwn drachefn yn Llydaw, a chwmmi o fyfyrwyr o Goleg Aberystwyth gyda mi. Galwasom ar Madame Jones, a'i chael hi'n alarus iawn, ond yn hynod o falch fod cyfeillion o Gymry wedi dyfod i edrych amdani. Mynnai roddi te inni, er ei bod yn gynnwr yn y prynhawn. Un peth a ddeisyfai gennym, sef cerdded gyda hi i lawr i'r fynwent lle y claddwyd ei gŵr, a chanu uwch ei fedd ddau emyn Cymraeg. Hynny hefyd a wnaethom, a gwelodd yr hen fynwent honno beth na welodd efallai erioed o'r blaen, na chynt na chwedyn, sef cwmni bach o Gymry yn canu "*Ar lan Iorrdonen ddofn*" ac "*O fryniau Caersalem*" mewn dwyster teimladwy i'w ryfeddu. Bob cam o'r ffordd i lawr yno ac i fyny'n ôl ni pheidiai Madame Jones â sôn am ei dymuniad i gael ei dwyn hithau "ato fo."

Gelwais arni y flwyddyn ddilynol, a'r tro hwnnw dangosodd imi fyfyrgerll Mr. Jones. Gwelais fod y cwbl a berthynai iddo wedi ei droi yn grair santaidd. Ar y muriau yr oedd lluniau lawer ohono, a than bob un yr oedd tusw mawr o flodau. Yn y gadair lle yr arferai eistedd, yr oedd y llun mwyaf oll wedi ei osod ar ei sefyll,

* Yn 1928 cyhoeddwyd cofiant iddo gan S. Bourguet, yn dwyn yr enw *Un pionnier de l'Évangélisation en Bretagne: William-Jenkyn Jones.*

ac o flaen hwnnw drachefn yr oedd torch arall o flodau. Mewn gair, yr oedd y Brotestannes hon wedi gwneud o'i gŵr marw yr union beth y cyhuddai hi a Mr. Jones y Llydawiaid, a phawb Catholigion, o fod yn euog ohono gyda'u Seintiau. Yn y pen draw, onid yr un yw bryd pawb ohonom? Ac y mae cyflwr yn yr enaid dynol lle nid yw'r enwau Catholigion a Phrotestaniaid ond gwagedd o wagedd.

Yn niwedd Awst 1939 yr oeddwn yng Nghemper drachefn, a thybiais ei bod yn ddyletswydd arnaf fyned i weld Madame Jones, yn ôl fy arfer. Yr oedd wedi torri'n anghyffredin, ond siaradai fel melin wynt, weithiau drwy gawod o ddagrau ac weithiau drwy gawod o wenau. Ni pheidiai â diolch imi am alw, oblegid bod Mr. Jones, meddai hi, yn meddwl y byd ohonof. O dipyn i beth, trodd ein hymgom at y "genhadaeth," ac yr oedd adroddiad Madame Jones yn bur dorcalonnus. Yn lle bod dros ddeugain aelod yn y "Deml" Brotestannaidd yng Nghemper, nid oedd bellach ond tri-ar-ddeg. Ym Mhont l'Abbé, lle yr oedd cant o aelodau pan fu farw Mr. Jones, y mae'r "Deml" wedi ei chau yn gyfangwbl. Ac am Lesconil a Leschiagat, y meysydd mwyaf toreithiog a ffrwythlon yng ngwinllan yr Arglwydd yn nyddiau Mr. Jones, yr oedd pethau'n waeth fyth. Daethai'r Pentecostiaid yno yn ystod y gaeaf blaenorol, a chawsant bob croeso a chefnogaeth gan y gynulleidfa Brotestannaidd. Ond y diwedd fu, wedi ymsefydlu yno a'u gwneuthur eu hunain yn gartrefol, iddynt godi yn erbyn y rhai a'u croesawodd, cychwyn achos eu hunain, a denu pawb ar a allent atynt hwy. Y canlyniad ydyw rhwygo'r Protestaniaid yn ddwy garfan

ddig, ac ennill o'r Pentecostiaid fwy na'r hanner o ddychweledigion Mr. Jones a'i gydweithwyr.

"Trist iawn," yn wir, fel y dywedai Madame Jones; a diwedd truenus i lafur diwyd bywyd wedi ei gysegru'n gyfan yn y winllan hon. Yr un pryd, onid canlyniad naturiol yr ymgais i Brotestaneiddio Llydaw, wedi Protestaneiddio cyfran ohoni, ydyw i'r gyfran honno ymrannu yn ei herbyn ei hun, yn ôl egwyddorion sylfaenol Protestaniaeth? Pa hyd, pa hyd yn wir, y deil yr enwadau yng Nghymru i ymgyndynnu yn erbyn Pabyddiaeth Llydaw, ac i wastraffu amser ac adnoddau ar yr hyn yw na bara na bywyd, na gwirionedd na goleuni i'r Llydawiaid? Arall yw crefydd Llydaw, ac arall ydyw crefydd Cymru, a pha lesâd ydyw ceisio gorfodi'r naill grefydd ar y llall?

PENNOD IX

O GEMPER I BONT L'ABBÉ, PENMARC'H, LOCTUDY,
DOUARNENEZ, CONCARNEAU, PONT AVEN

Nid digon a fuasai amryw benodau i fynegi'n agos gyflawn yr hyn a brofodd clust a llygad yng Nghemper. Clywai'r gyntaf lawenydd a thristwch fel y codent o galonnau'r Llydawiaid, a gwelai'r llygad harddwch mewn pren a maen, ac mewn cig a gwaed. Arweiniodd fy nghalon fi y noson gyntaf i chwilio am siopau llyfrau, ac fe'u cefais heb holi dim, ddwy neu dair ohonynt, ac un yn eithriadol o lewyrchus. Gŵr byr a thew, hawddgar o bryd a mawr o ben, o'r enw Goaziou oedd biau honno, un o'r Llydawiaid hynny a gronna yn eu mynwes hanes a hiraeth eu cenedl, ac a fedr gyfuno doniau'r byd a doniau'r ysbryd. Y mae ef a'i siop lyfrau yn addurn i Gemper fel y mae Gourvil yn addurn i'w dref yntau, Morlaix. Ac er nad ydyw Goaziou mor adnabyddus ar hyd holl fyrdd Llydaw, y mae'n bendefig yn ei dalaith ei hun. Mi a wn erbyn hyn faint yr hyfrydwch sydd o agor drws y siop, edrych ar loddest o lyfrau, ac yna, yn araf bach ac yn gynhyrfus dawel, gerdded i mewn i'w ystafell ei hun yn y cefn. Yno, wedi cau'r drws, y cerddwch i mewn yn cbrwydd i un o lawer o drigfannau Llydaw.

Y noson gyntaf honno, aeth y rhan fwyaf o'r amser i adrodd fy hanes i yn y wlad. Gwyddai'n dda am y Llydawiaid cyfeillgar ym Mharis a'm rhoddodd i ar ben y ffordd tua'u cartref; a gwyddai am hawb o bwys a welais er pan gyrhaeddais gyntaf i Lydaw. Am fwy

O GEMPER I BONT AVEN

nag un ohonynt yr oedd ganddo hanesyn a eglurai eu cymeriad imi yn gystal â siarad â hwy. Aeth yn ei flaen i enwi'r Llydawiaid eraill y gweddai imi eu gweled cyn troi'n ôl tua Chymru. Déellais ar unwaith mai'r gwŷr a garai ef ydoedd y rhai a weithiai'n ddistaw bach, heb godi eu cloch yn ormodol, golygyddion y papurau Llydewig, a'r rheini a dreuliai eu hamser i ysgrifennu Llydaweg, gan ei chaboli a'i hystwytho at wasanaeth y dydd heddiw. Beirniadau arweinwyr y Blaid Genedlaethol, ond nid yn llym, er nad oedd ganddo fawr serch tuag at Mordrel. "Y mae e mor falch! Nid oes dim Llydewig o'i gwmpas o gwbl. Balchder yw'r pechod olaf a ddaw at wir Lydawr. Ffrancwr, a Ffrancwr o Baris, ydyw Mordrel." Beirniadaeth gwbl naturiol, ac nid heb lawer o sail iddi. Fe'i clywais ddegau o weithiau, a hyd yn oed gan aelodau o'r mudiad.

Fel gwerthwr llyfrau, y mae'n naturiol mai yn y diwylliant Llydewig yr ymddiddora Goaziou fwyaf. "Y mae eisiau llyfrau arnom ni, llyfrau newydd yn ymdrin â phob math o bethau. Ac yn enwedig eisiau nofelau, o bob maint a safon. Nofelau a'i piau hi heddiw, a gorau po fwyaf ohonynt a gawn. Nid yw o lawer o bwys eu bod oll yn dda. Eu cael sy'n bwysig, a'u gwsgar ymhlith y werin, a chreu diddordeb yn yr iaith a'i llenyddiaeth. Wedi dechrau troi'r rhod, fe â ohoni ei hun wedyn. Y gamp ydyw deffro Llydaw. Unwaith y gwneir hynny, fe gyfyd fel y wawr. Y mae adnoddau dihybydd ynddi—mwngloddiau!"

Dyna'i obaith. Pa rinwedd sy'n debyg i obaith?—y pennaf o'r rhinweddau, y ferch fechan a ennyn syndod ym mhawb, ac a fydd, meddai Péguy, yn synnu hyd yn

PERERINDODAU

oed Dduw ei hun. Hyhi a ddeil ynghyd y deunydd brau o lwch a fflam sydd mewn Llydawr. Daliai Goaziou i gredu nad oedd cyflwr y Llydaweg yn beryglus hyd yn oed yng Nghemper, a rhoddai deyrnged mawr i wasanaeth yr Esgob. Amdano ef ei hun, yr oedd yn awyddus i argraffu llawer o lyfrau, a dangosodd imi un llyfr hardd iawn o'i waith, sef *Leor Neves an Oferen Hag ar Gousperou*—Llyfr Newydd yr Offeren a'r Gosberau—at wasanaeth esgobaeth Kemper. Llyfr hardd dros ben, ac ynddo yn ymyl naw can tudalen. Gyda'r llyfr hwn yn eiddo imi y gadewais fy nghyfaill Goaziou.

Gydag imi ymddangos yn yr heol fechan, clywais barablu Llydaweg ar bob llaw. Heb fod ymhell y mae'r farchnad—y fwyaf diddorol yn yr holl wlad—ac ar ei phwys hi y mae rhai o'r maestrefi. Yno, ym mhob man bron, clywir Llydaweg yn amlach na Ffrangeg, er y brithir hi'n bur fynych gan air o'r iaith arall. Y noson gyntaf, newyddaf honno, yr oedd fy enaid yn hiraethu o hyd ac o hyd am Lydaweg firain gwŷr y Deheudir. Ni'm siomwyd ychwaith. Gydag ymestyn o gysgodion hendai canrifoedd oed dros aml gongl arogleuog, a distewi o drwst y dref, yr oedd isel ymddiddanion y tai yn tasgu allan i'r heolydd, weithiau o bennau'r drysau, ac weithiau o'r lloffydd uwchben. Am ryw reswm, yr oedd trigolion y lloffydd fry ar delerau gwell â'r ffordd-olion na phreswylwyr carreg y drws, a thafent air o gyfarch i'w plith. Dyna gyfle i hyrddio gair neu ddau yn ei ôl, a thorri'r ia rhyngoch a dieithriaid, ac ymgyflwyno iddynt. Yn y modd hwnnw, cefais aml ymddiddan rhydd a fraeth heb ei ddisgwyl, a diau fod fy Llydaweg i—Llydaweg a ddysgwyd yn y Gogledd—yn

O GEMPER I BONT AVEN

ychwanegu at ddigrifwch fy nghyfeillion newydd. Yr oedd yn llwybr hyffordd at eu calon, ac yn cynnau tân yn y lle cynnes hwnnw. Yn ddisyfyd yr oedd gennyf gwmnïau bychain wedi tyrru amdanaf, a'r clo a ddyry'r Llydawr ar ei dafod wedi ei ddatod, a'r cyfrinachau a geidw dan sêl yn dyfod ar wib o gilfachau'r galon. Fel arfer mewn cwmni o'r fath yn Llydaw, yr oedd o leiaf un bardd yn eu plith, ac edrychid arno ef, fel perchen yr awen ddwyfol, gyda pharch yn ymylu ar addoliad. Mi a welais yr un math yn union o sagrafennaidd barch tuag at fardd o Gymro, Mr. Isgarn Davies, ar ymddangos ohono fore cneifio yng nghegin Camer, ymysg y gwragedd a huliai fyrddau llawnion y dydd hwnnw. I'r naill fel y llall, yr oedd yr awen o ddwyfol darddiad.

A barnu oddi wrth danbeidrwydd fy nghyfeillion newydd o ganol yr heolydd ger y farchnad, yr oedd tynged Llydaw'n ddiogel, a hoedl yr iaith yn llifeiriol. Y prawf oedd eu bod hwy, bechgyn a merched Kemper, yn caru eu gwlad fel carreg eu drws, ac yn gweithio'n llawen gydag amryw o'r mudiadau a'r cymdeithasau sy'n glochaid yn cyhoeddi eu bod yn gwasanaethu Llydaw ddydd a nos. Prawf arall ydoedd nawdd a chefnogaeth yr Esgob, a ganmolent hwythau'n ddibaid. Pa bryd o'r blaen y gwelwyd Esgob oedd yn Llydawr i'r carn, ac a anogai'r Llydawiaid, defaid ei borfa, i lynu wrth eu hiaith a'u traddodiadau, am mai ynddynt hwy y credai fod bywyd i'w braidd? Pwy o'r hynafgwyr a gofiai am y fath sêl dros y gwisgoedd Llydewig, y dawns-feydd gwladaidd, a'r llên werin? Un peth yn unig a arhosai i ddeisyf amdano, sef caffael o'r iaith ei dysgu yn holl ysgolion y wlad. Prin efallai y sylweddolai'r

calonnau tyner hynny mai'r un peth hanfodol hwnnw a fyddai'r anoddaf o'r cwbl i'w ennill. Llifodd llawer o ddyfroedd dan bontydd Kemper er y nos honno, ond ni symudwyd eto odid gam yn nes at y nod hwn. Yn y cyfamser, ple mae'r bechgyn a'r merched hynny erbyn heddiw? Beth a wnaethant i droi eu breuddwydion yn amddiffynfeydd i'w gwlad? Pa le y mae eira llynedd?

Cysgais y nos gyda pharabl boeth ieuenctid Kemper yn fy nghlustiau. Y bore ymwelais â'r gŵr sydd yno'n gwerthu Beiblau dros y Protestaniaid, gan deimlo y byddai ei brofiad ef gyda'r gwaith yn ddiddorol. Yr oedd yn siom imi mai Ffrancwr a ddewiswyd at y gwaith pwysig hwn, yr un fath ag ym Morlaix. Er ei fod yn ddyn caredig ac annwyl ddigon, ni thybiwn y gallai gael yr un llwyddiant â M. le Queré yn Nhremel, y gŵr a roddodd imi'r mwynhad o gerdded degau o filltiroedd gydag ef yn gwerthu Beiblau o dŷ i dŷ.* Cyfaddefodd y Ffrancwr wrthyf ar unwaith ei fod yn gwerthu dau cymaint o lyfrau Ffrengig ag o rai Llydewig. "Paham hynny," gofynnais, "a'r wlad o gwmpas Kemper mor drwyadl Lydewig?"

"Mewn gwirionedd," meddai, "arnaf i y mae'r bai . . . os bai hefyd. Y mae'r llyfrau Llydaweg sydd gennyf yn llawer mwy o faint ac yn drymach na'r lleill, sydd yn ysgafn ac yn hawdd eu rhoddi mewn llai o le. Ystyr-iaeth hollol faterol, os mynnwch. Ond dyna, be wnewch chwi, a chwithau'n gorfod eu cludo o fan i fan, ac eisiau mynd â chynifer ag a fedrwh ar y tro?"

"Yr ateb ydyw, cael llyfrau Llydewig yr un mor ysgafn â'r lleill."

* Gwél pen. xi a xii yn *Llydaw*.

"Eithaf gwir—ond nid myfi sy'n gyfrifol am eu cynhyrchu. Newidier y drefn, ac ni bydd gronyn o wahan-iaeth gennyf i."

Sut yr hoffai ei waith? "Campus!" A'r bobl? "Di-fai iawn. 'D oes gen i'r un gair drwg i'w ddweud amdanynt; pobl garedig, hoffus a chroesawgar."

"Beth am yr offeiriaid?"

Gwên fach hanner-chwareus ar ei wyneb, a chodiad llaw ac ysgwydd oedd yr atebion cyntaf. Yna:

"Offeiriaid ydyw offeiriaid, yntê? I bob un ei waith; ac i bawb, chwarae teg. Mae'r offeiriaid yma'n burion. 'D oes gen i'r un gŵyn yn eu herbryn. Yr un pryd, rhyngoch chi a mi, mae'n well gen i beidio â'u gweld."

"Pam?"

"Am ein bod yn cystadlu â'n gilydd."

"Faint o wir sydd yn yr honiad bod ar y bobl eu hofn?"

"Dim o'r gronyn lleiaf, dim mymryn! Dyna 'mhrofiad i, beth bynnag. Na; mae'r dyddiau hynny wedi eu hen rifo, diolch i Dduw!"

"A yw hi'n anodd gwerthu llyfrau?"

"Anodd? . . . Ydyw . . . a . . . nac ydyw. Yn rhyfedd iawn, y mae'n anoddach gwerthu i'r bobl ddysgedig."

"Nid mor rhyfedd, tybed? Onid felly y disgwyliech iddi fod?"

"Sut? Beth ydych chi'n feddwl?"

"Hyn, debyg iawn. Y mae'r dysgedig, chwedl chwithau, yn gwybod yn iawn pa fath lyfrau a gynig-wich iddynt. Ond a wŷr y lleill?"

Ond ni fynnai'r gwerthwr Beiblau gytuno â mi. Y gwir reswm, meddai ef, ydoedd caledu o'u calon yn fwy na'r werin syml; a thafodd i'm hwyneb lawer adnod a

PERERINDODAU

ddylai, yn ei dyb ef, dorri'r ddadl unwaith ac am byth. Gwahanwyd toc, a phob un ohonom yn glynu'n dynn wrth ei esboniad ei hun.

Y gŵr nesaf yr ymwelais ag ef ydoedd un a enwyd imi gan fy nghyfeillion o Baris, sef *Dr. Picquenard*. Ymddiddanwr cain a diddan, ysgolhaig a hynafiaethydd; ysgrifennwr mynych i'r cylchgronau, *Buhez Breiz, Ar Vro, Ar Bobl*; bardd ar dro, a dramodydd yn y fargen. Yr oedd yn ieithydd go dda hefyd, ac un o'i brif ddiddordebau oedd cymharu'r ieithoedd Celtaidd â'i gilydd. Ar hynny o bryd yr oedd yn fwriad ganddo ysgrifennu llyfr ar y pwnc, ond ni wn eto a gyflawnodd y bwriad hwnnw. Iddo ef, fel i'r rhan fwyaf o Lydawiaid, Cymru ydoedd cartref a gwir aelwyd y Celtiaid; ac allan ohoni hi y disgwyliai am arweiniad a chyffro a symbyliad yn y dyfodol. Er mor llawen i fachgen o Gymro oedd clywed y mawl hwn gan Lydawiaid gorau'r wlad, gwridai ei galon gan gywilydd yn fynych, a gwyddai'r gyfrinfa yn ei enaid na haeddai ei wlad ef mohono heddiw. Am yfory, cloddiai iddo ei hun obaith y deuai ei wlad mewn gwirionedd yn deilwng o'r moliant. Yn y cyfamser, gallai fwynhau ymgom *Dr. Picquenard* am fywyd Iwerddon a Llydaw, gan orffen yng Nghemper ei hun. Yma, meddai, "ni chyll yr iaith ddim o'i thir o gwbl. Yr wyf wedi byw yma o agoriad fy llygaid hyd heddiw, ac y mae'n sicr gennyf fod yr iaith mor ddiogel ag erioed. Pe dysgid hi yn yr ysgolion, deuai unwaith eto yn iaith yr uchelwyr drwy'r holl wlad." Dyna obaith gŵr a lanwodd le nid dibwys yn y deffro Llydewig ar ddiwedd y ganrif o'r blaen a dechrau hon.

Yr un dydd ag y gwelais y *Dr. Picquenard*, cwrddais

O GEMPER I BONT AVEN

hefyd â'r Parch. Gerlan Williams. Er mai yn is i'r de, ym Mhont l'Abbé, yr ymsefydlodd ef, deuai bob wythnos i dŷ Mr. Jones yng Nghemper. Soniais o'r blaen am y ddau yn cydweithio i gyfieithu'r Testament Newydd i Lydaweg. Dechreuasant ar y gwaith rywbryd yn y flwyddyn 1923, y mae'n debyg, a gwn yn sicr eu bod yn cyfieithu'r nawfed bennod o Luc ar Awst 20, 1924, pan ddigwyddwn i fod yno. Ar de y diwrnod hwnnw, cefais wrando ar y ddau yn ymddrin â'r cyfieithiadau oedd ganddynt wrth eu penelin, eiddo Le Gonidec, M. le Coat a Mr. Jenkins, Morlaix. Tybient y gellid gwella tipyn ar y rheini, oherwydd eu bod weithiau'n glogyrnaidd ac ydoedd gwrando arnynt, a mynnai'r meddwl byth a beunydd ddychmygu'r sefyllfa a'r awyrgylch a'r ymddiddan rhwng William Salesbury a'r Esgob Davies, pan lafurient hwythau ynghyd ar gyffelyb antur, yn y plas yn Abergwili. Mor debyg!—y cyfieithwyr bron yr unig Brotestaniaid yng nghanol môr mawr Catholig. Mor wahanol!—y cyntaf a sêl a bendith y frenhines o'u plaid, a'r ail heb fendith na mellith y Weriniaeth Ffrengig. Rhyfeddach fyth—y ddau olaf yn ddau Gymro ar eu gorau'n cyfieithu Gair Duw nid i'w pobl eu hunain ond i'w cefndryd, yn y Winllan a osododd yr Arglwydd iddynt!

Llawer dadl a fu rhyngof a Mr. Williams, a'r ddadl weithiau'n troi'n boeth iawn. Rhyfyg noeth yn ei olwg ef ydoedd yr awgrym a wneuthum un tro mai gwagedd o wagedd ydoedd ceisio Protestanteiddio Llydaw. "Pa lesâd," meddwn i, "ydoedd ymdrechu i ddenu'r Llydawiaid oddi wrth y grefydd a fuasai'n eiddo iddynt am

yn agos i ddwy fil o flynyddoedd? Paham y gwariant eu hamser i ymladd yn erbyn greddf a thraddodiad a hanes y genedl? Beth a dalai llusgo'r Llydawiaid oddi wrth Eglwys eu gorffennol maith? Os diwygio eu bywyd a fynnid, oni ellid hynny heb ddilorni ar eu crefydd a'u credo? Ac oni allai'r Llydawiaid eu humain godi'r dynion y byddai ganddynt awdurdod a gweledigaeth i'w diwygio? Paham yr oedd yn rhaid i enwadau crefyddol Cymru, darnau drylliedig o'r Eglwys, gymryd arnynt hwy'r cyfrifoldeb o achub eneidiau yr oedd ganddynt eisoes foddion iachawdwriaeth ger llaw, yn eu ffydd draddodiadol? Onid oedd eu presenoldeb hwy yn Llydaw yn peri rhwyg rhyngddynt a dynion a garai'r wlad â holl angerdd eu henaid? Yn olaf, onid oedd llawer peth yng Nghymru a alwai yr un mor groch am ei ddiwygio? Ac onid yno y gallai Mr. Williams ddangos ei sêl genhadol orau o lawer?"

Nid yn aml y mae dadl yn esgor ar argyhoeddiad. Neidia i'r gwagle fel saeth o fwa, ac nid edwyn neb ei ffyrdd hi. Yr un modd ni thyciodd fy nadl i â Mr. Gerlan Williams. Daliai i gredu bod Llydaw yn faes i'w weithgarwch; ac yno y llafuria hyd y dydd heddiw. Eithr er imi ddadlau llawer ag ef, bu'n hynod o radlon wrthyf bob amser, gan fodloni hyd yn oed i'm hebrwng at y gelyn gwaethaf oedd gan Mr. Jones ac yntau yn Llydaw. Ni synnwn i ddim, ychwaith, pe deallwn fod yn eithaf da ganddo yng ngwaelod ei galon nad oedd y gŵr hwnnw, M. Jezigou, awdur "*Corn an Oaled*," yn digwydd bod gartref y dydd y gelwais arno. Aeth â mi hefyd i *St.-Guénolé* a *Phenmarc'h*, lle y mae'r wlad a'r trigolion yn ymddangos mor anghynnes drist â'i gilydd.

Tristach hyd yn oed na'r wlad ydyw gwedd a hanes *Penmarc'h*. Heddiw nid ydyw ond pentwr blér o dai llwydaidd a di-raen, heb ddim ond ei heglwys yn atgof o'i llewylch a'i ffyniant yn niwedd yr Oesoedd Canol. Yr adeg honno, nid oedd na thref na phorthladd yn holl Lydaw mor brysur â hi. Heddiw nid oes nemor un mor adfeiliedig.

Oddi yno yr oedd hi'n wir fwynhad gael dyfod yn ôl i *Bont l'Abbé*, lle y mae Mr. Williams yn byw, a chael cip ar ôl cip ar wragedd y dref—y *Bigouden*—yn gweithio'n ddiwyd ar eu gwaith les. Ni charaf na gwsg na gwedd merched yr ardaloedd hyn, ac ofnaf na wnaif fyth; ond parchaf eu diwydrwydd yn fawr. Blino ar fod yn llonydd, fel arfer, a cherdded y pedair milltir i *Loctudy*, dros wyneb gwlad bur wastad, a go lwm o goed. Nid annifyr, er hynny, gan y ceid yno gwllwm o binwydd yn weddol gyson ac weithiau ambell wigfa werdd, gyda rhyw lun o gastell hen yn cyhoeddi ei degwch allan o'u canol; ac o leiaf un capel yn denu llygad hyd rodfa at y llannerch lle y nythai ef a'i groes, unig weddill hen Galfaria. Bryd arall, âi'r meysydd eang â'ch sylw gyda'u llu o ddynion yn tynnu tatws. Wedi cyrraedd i *Loctudy*, gwelech wnïo'r sacheidiau llawnion hyn gan y merched ar gyfer eu danfon i Brydain. Lloches o le bach annwyl ar lan y môr ydyw *Loctudy*, a gwlad gynnes, gysgodol o'r tu ôl iddo, ac Eglwys Rufeinaidd yn cadw cyfrif y carrifoedd yng ngŵydd y tai newyddion.

* * * *

O *Loctudy* yn ôl i'm hoff Gemper a hyfrydwch ei gwindai, ei heolydd, a'i dynoliaeth ddi-freg ei rhyfeddod.

PERERINDODAU

Eilwaith ar sgwlc tua'r wlad, ac at y môr, tua *Douarnenez*. Disgyn ar heolydd llychlyd, a mynd ar ffrwst dihangol heibio aroglau sardins, ac i olwg yr eigion. Yma y mae ei las yn hynod o bur, ac er nad ydyw mor ysblennydd â'r glas a welir ar y Môr Canol tua *Nice* a *Cannes*, y mae ganddo ei ogoniant ei hun. Rhyngddo ef a'i lannau y mae godidowgrwydd mawr yno; ac ar rai oriau o'r dydd y mae ei longau a'i longwyr ynddynt eu hunain, yn eu gloddesta ar wyneb y llyfnder glas, yn olygfa fythgofiadwy. Y mae rhyw gynifer ohonynt arno bob amser; ond ar yr oriau sy'n hysbys i'r llongwyr y trefnir hwy megis gorymdaith hwylbrennog ar y tonnau. Y pryd hwnnw, nid oes dim arall yn yr holl fae hyfryd a all am funud gystadlu â hwy. Ar adegau eraill, y mae'n brofiad melys ichwi edrych draw at dueddau *St. Anne la Palud*, ar dai gwynion *Plomodiern*, ac ar y *Menez Hom*, a'r rhimyn tir sy'n ymestyn i lawr oddi wrtho'n gylchyn tesog hyd at dref *Morgat* a'r *Cap de la Chèvre*. Yn nes atoch, ar eich pwys bron, y mae hafnau grugog yn wyrdd gan binwydd, ac ambell lannerch eithinog yn wyn gan ddillad newydd eu golchi'n lân, a llu o blant noeth-felynion yn chwarae ar dirglas uwch y traeth.

O dipyn i beth, dringais i fyny o'r bae, drwy ridens o berthi, hyd at y clogwyn lle y saif Eglwys *Ploaré*, ac y chwery ei chlochdy mân-dyrog ei hun saeth, uwchlaw'r lledrith môr a mynydd. Yn ymyl y mae'r fynwent, ac o ben ei muriau hi gwelwn olwg eang ar yr holl fro. Agorais fy llygaid yn hir arni, gan eu cyfeirio i fyny ac i lawr, i lawr ac i fyny, ôl a blaen, dros dir a môr, a cheisio'u llenwi â hyfrydwch a harddwch nad âi'n angof

O GEMPER I BONT AVEN

byth. Trochais hwy'n dda yn yr olygfa, a chan eu gadael yng ngwlych, megis, cyfeiriais yn ôl at y bae.

Yr oedd ef erbyn hynny yn ei lifrai gorau, islaw'r pinwydd agos a'r penrhyn pell, mynydd *Locronan*, cwmpasoedd *Plonevez*, gwyn pur *Plomodiern*, a gwawl porffor *Menez Hom*. Disgynnaf i lawr ato o gae i gae dros gloddiau banadl a banc eithin; ac wrth ddynesu, rhyfeddaf at liw a llun yr holl fan, ac—ar hyn o bryd—at odidowgrwydd coedwig o hwylbrenni, a gwe gain o hwyliau gwyrddion yn dawnsio megis tylwyth teg ar lawnt las.

Chwyth y naill long ar ôl ei gilydd tua'r lan, ac wedi cyrraedd y porthladd parant gyffro a phrysurdeb ymhlith y rhai â'u disgwylant. Cyfyd y llongwyr eu helfeydd o bysgod, a'u hestyn i'r disgwylwyr, llongwyr a morwyr hwythau. Edrychant oll yn ddoniol yn eu dillad cochion a gleision, ac mor gryfion â'r creigiau sydd o'u cwmpas. Y mae'r palmant yn diaspedain gan sŵn y clocsiau trymion, gan alwadau, gorchmynion, gweiddi, ateb, esgyn a disgyn blychau. Ar y lan y mae'r hynaf o'r henwyr, yn rhy hen bellach i fordwyo, ond yn dal i fyw ar y môr. Ar ysbeidiau o ddeffro breuddwydiol, islaw capiau llydain fel crempogau, syllant yn fudhiraethus tua'r pellterau mawr, llwyfannau eu gwrhydri gynt. Rhyngddynt a'r morwyr yn y llongau, y mae'r merched—yn eistedd ar gadeiriau gwellt, ar feinciau, blychau, grisiau, gan wno a gwau, a chyweirio hwyliau—a bechgyn hoyw yn gwau'n garlamus trwy ei gilydd, dan frysio â'u pwysi o bysg ganddynt. Y fath doreth o liwiau, o luniau, o leisiau, o ystumiau ac o egnion, yn

PERERINDODAU

y dyrfa winglyd hon, disgynyddion y patriarchiaid hen a'u gwylia'n eiddigus oddi ar eu meinciau pren!

Prysurdeb nwydus, ofnus, yw eu prysurdeb hwy, prysurdeb y rhai a deimla'n reddfól eu bod yn cipio ei drysorau oddi ar y môr. Pair imi led-feddwl bod brithgof am foddï dolydd teg yn y bae hwn yn trigo'n ddistaw ym mynwes pawb o drigolion Douarnenez. Ai gwir ai gau, ni wn. Os gwir, odid nad hynny a'u ceidw hwy, pan ymarddelwant yn Sosialwyr a Chomiwnyddion, i lynu'n dynnach fyth wrth eu huchel-wyliau a'u hannwyl Fair Forwyn?

* * * *

O gyfeiriad arall, y mae *Concarneau* yn galw arnoch, ac i lawer y mae ei galwad yn gryfach na galwad Douarnenez. Y mae ganddi hithau fae godidog, a gŵyr yn dda y modd i'w boblogi a'i harddu gan longau a llongwyr am y mwyaf lliwgar. Ond cyn y cewch olwg gyflawn arnynt, rhaid ichwi gerdded drwy'r hen dref gaerog sydd yno—*la Ville Close*, fel y gelwir hi. Hen ddinas gyfan o'r Oesoedd Canol! Bitw bach iawn o dref wrth St. Malo, dyweder, ac yn enwedig wrth dref *Carcassonne*. Ond y mae'n wir demtasiwn imi ei chymharu â hwythau, a thrachefn â'r *Mont St. Michel* yn Normandi. Y mae'r modd y tywys y trefi hyn chwi i'r Oesoedd Canol, a'ch plannu megis yn eu canrifoedd, yn wyrthiol. Pont dros y dŵr, caerâu, tyrau, dirgel-leoedd, heolydd culion, sur-aroglau—y mae'r cwbl yma. Ac yn gymysg â hwy, Llydawiaid a Llydawesau o'r awr hon, siopau gloywon yn disgleirio eu teganau a'u lluniau o ganol eu conglau tywyll, ie, a gŵr o Grynwr a'i wallt ar wrych yn arllwys "athroniaeth orau'r byd," chwedl yntau, i lawr i gorn

O GEMPER I BONT AVEN

eich gwddwg. Blinwch ar yr arlwy gyfoethog hon, a dyna ichwi ddihangfa i ben y muriau, allan o'r cymhelri i gyd. Gellwch eistedd i lawr yno, a phorthi'ch llygaid ar un o'r gwleddoedd cyfoethocaf a baratôdd dyn a natur erioed. Chwi gewch brofi mor orffwysol dangnefeddus ydyw syllu i'r pellter ar longau unlliw â gwyfanod y môr, yn llithro'n esmwyth heibio'r penrhyn draw, ar ôl eu chworydd cochion a gleision, a'r cwbl yn hofran i'w rhengoedd ar y môr porffor dan y machlud tân.

Arall yw gogoniant *Pont Aven*, ar un cyfrif y pentref mwyaf swynol yn Llydaw. Y mae ei safiad yn freiniol dawel a hamddenol ar lan afonig sy'n gwlychu traed mil o greigiau, gan sibrwd ei chyfrinachau wrth dylwyth teg o felinau. Yr hen ddihareb am Bont Aven ydyw "Tref hyglod—pedair melin ar ddeg a phymtheg tŷ"; ac y mae'n air llwythog o wir ac o ledrith. Erbyn heddiw y mae yno seithgwaith cymaint o dai, a mwy, a'r mwyafrif ohonynt mor siriol â'r holl gefndir o goed a gerddi sy'n tyfu at eu drysau. Yn eu plith y mae aml henblas tirion yn eistedd yn serchog ar ei orseddfainc o lannerch gysgodol. Ym Mhont Aven, y mae hyd yn oed y gwesta'n gweddu'n gymwys i brydferthwch y baradwys ddaearol hon. Dau bentref perffaith sydd yn Llydaw. *Pont Aven* yw'r naill, *Saint Jean du Doigt* ydyw'r llall. Caef fy llygaid wrth feddwl amdanynt, ac yno yn dragywydd y gwelaf emau o dai gwynion a gleision, dŵr gloyw aberoedd yn trydar heibio, adenydd melinau yn hepian yn y tes, llawer llwybr cysgodol rhwng bronnydd a phinwydd, a môr o heulwen yn cronni yn y dyffryn.

PENNOD X

QUIMPERLÉ : LE FAOUET : SAINT FIACRE

Nid heb dipyn o hiraeth y gadewais Gemper yr un tro hyd yn hyn. Yr oedd yr hiraeth efallai yn fwy ar y daith gyntaf nag ar un o'm teithiau eraill. Ond nid oherwydd myned fy serch tuag ati yr un gronyn yn llai. Yn hytrach, oherwydd y gwn bellach fod gennyf o leiaf un dref arall ar fy nhaith sydd am y dim-a-dim â bod mor ddifyr â Chemper ei hun. Ni wyddwn hynny y tro cyntaf. Gadawn y dref a garwn yn fwy na'r un, am y nesaf na wyddwn eto ddim amdani ond ei henw.

Quimperlé ydyw'r dref honno. Y mae'r daith o Gemper hyd yno yn werth y dreth a'r draul o fod am awr neu fwy mewn trên anghysurus o boeth a llawn. Cefais drên saith o'r gloch y bore y tro cyntaf, ac er bod cawodydd o smwclaw tyner yn bwrw'n ddyfal, mwynheais yr olygfa yn fawr, ar wlad gyfoethog o goed a gwair, ŷd a pherthi, mân fryniau a dolydd. Plygai gwair a gwellt a dail yn hir-yमारhous dan goronau o ddafnau glaw, a gorweddaï buchod newydd eu godro, a'u caderi'n wag, i gnoi cil melys ar ôl eu gollyngdod o'r beudy. Pan euthum yno yr ail dro, ddwy flynedd yn ddiweddarach, yr oedd llifogydd mawr wedi golchi'r holl ardaloedd, a'r haf wedi hen fynd heibio'i anterth. Ond edrychai dwy ochr y wlad mor iraidd las â'r tro cynt yng Ngorffennaf. Porai gyroedd o wartheg lliwgar mewn ugeiniau o gaeau, a'u caderi llawn yn gostwng at

QUIMPERLÉ : LE FAOUET : SAINT FIACRE

y gwair, a golchai gwragedd ddrillad eu teuluoedd niferus mewn nentydd a llynnoedd, a'u taenu'n wyn dros y glas o'u cwmpas. Ac erbyn hynny yr oedd afalau'n melynau ar gangau miloedd o afallennau.

Wedi disgyn yng Nghemperle, prin y mae gan neb syniad, wrth edrych ar y rhes tai digon di-raen sy'n wynebu'r orsaf, fod o'r golwg dref yn meddu ar beth o atgofus swyn hen ddinasoedd. Rhaid ichwi gymryd eich pwyll, magu tipyn o hyder, ac ar ôl troi'r trwyn ar y tai hynny, droelli i lawr heibio iddynt. Nid hir y byddwch wedyn cyn sylweddoli bod rhywbeth gwell yn eich disgwyl yn nes ymlaen. Fe esgynnwch i changder o le agored, a thai nodweddiadol Lydewig o'i ddeutu, a marchnad, ac eglwys hynafol gyda mwswm ar ei tho, a thŵr cadarn uwch ei phen. O'r diwedd, dyna ddechrau talu'n ôl ichwi am eich trafferth. Ewch i mewn heibio i drwst y drws trwm, a rhowch un cip ar gyntedd yr eglwys fel awgrym y deuoch yn ôl yno drachefn; a daliwch yn eich blaen. Sylwch fod talcen yr eglwys ynglŷn wrth hen dŷ pren o'r bymthegfed ganrif. Arafwch yno'n oediog fyfyr, cyn disgyn yn sionc ar y gori-waered hyd waelod y dref.

Yno, yn wir, y mae tegwch *Quimperlé*, yn ei gwir gartref cyntefig. Yno y saif yr eglwys arall, eglwys *Sainte Croix*, ac ynddi hi, i mewn yn ei choluddion tywyll, islaw'r côr dyrchafedig a'r allor, y mae'r gell gél lle y gwelir bedd abad cyntaf y dref. Gellir casglu bod mymryn o bentref yno eisoes yn y chweched ganrif, pryd y daeth un o frenhinoedd Llydaw, ar ôl ymwadu â'i swydd, i adeiladu iddo'i hun gell meudwy yn gysgod rhag y tywydd. Tyfodd y gell o ganrif i ganrif yn

fynachlog dan nawdd Urdd Sant Benedict, a chododd tai eraill yn ymyl. Ac felly y daeth y ddôl werdd lle y cymysga'r ddwy afon, Isole ac Ellé, eu dyfroedd trystiog â'i gilydd, yn llawr i'r dref, a ddechreuodd wedyn ddringo'r bryniau o'r ddau du.

Yno hefyd y mae siopau heulog yn gwerthu tlysau Llydewig ar yn ail â gwisgoedd merched a dynion yr ardal. Bob yn ail â hwythau, dengys aml windy bychan ei big di-ymhongar; a siawns na chyfarfyddwch â Léon le Berre yn un o'r rhain. Os gwelwch swadyn bach cydnerth o Lydawr tywyll ei bryd, cwta ei air, yn gwisgo diwyg ei wlad gyda botymau disglair ar ei wasgod, a het aristocrataidd am ei ben, dyna ichwi Léon le Berre, fel y gwelais ef yma gyntaf i gyd, ac fel y gwelais ef ddegau o weithiau mewn llawer man wedyn. Y mae gan Le Berre brofiad maith o weithio yn y mwyafrif o'r mudiadau Llydewig, a theithiodd droeon i Gymru ac i Iwerddon. Nid yw, yn ddiâu, na gwelëdydd nac arweinydd yn ystyr lawnaf y geiriau hyn; ond y mae yn un o'r gwylwyr sydd ar ragfuriau Llydaw yn cadw'r gelyn draw. Hyd y dydd heddiw ni chlywais neb yn amau gwerth ei ymdrechion nac unionder ei amcanion. Mewn gwlad lle y cyfyd y fath gwmwl o fodau i'w galw eu hunain yn arweinwyr, ac yn broffwydi, y mae hynny'n werth y byd o glod. Ni chlywir ganddo ef yr ymadrodd a glywais ddwy flynedd yn ôl gan un o'r hunan-ddewisedig arweinwyr hyn. Gŵr o uchel waed ydyw hwnnw, a thelpyn bach pur dda o Lydawr yn ei ffordd ei hun. Y mae'n ymweled â'r holl aneirif gynadleddau sydd yn Llydaw bob haf, ac yr oedd yn un ohonynt ym Mhlougastel-Daoulas pan gyfarchais ef fel hyn:

"Dydd da, *Monsieur* . . . A dyma chwithau wedi cytraedd eto?"

"Ydwyf, fel arfer: '*je suis toujours là sur la brèche!*' —yr wyf i bob amser yn yr adwy!"

Y mae M. le Berre yn byw gyda'i chwaer ychydig oddi allan i'r dref, mewn lle hyfryd, ymysg dail ac irgoed. Yno y ciniawais unwaith, ac y dangoswyd imi lawer o ddodrefn a chreiriau'r wlad. Yno yr oeddym yn sefyll ar un o'r bencydd beichiog sy'n ffurfio math o amddiffynfeydd cordeddog o amgylch Quimperlé. Aeth fy nghyfaill i'w ffordd, a cherddais innau o lethr i lethr, gan adael i'm golygon syllu'n hir ar wyrdd y dolydd. Yr oedd yno ddigonedd o lwybrau yn cyfeirio bob un yn ôl ei fympwy, weithiau at ddarn o gapel henllwyd, ac weithiau at ffrydlif yn diferu rhwng coed a chreigiau. Yn y modd hwnnw y deuthum yn ddisymwth at gapel *Rosgrand*, sy'n ymddangos megis wedi ymddeol oddi wrth y byd i'w gefndir o goed. Fel holl gapeli Llydaw, yr oedd gan y neilltuedig di-ymffrost hwnnw ei harddwch a'i gyfrinachau ei hun, i'r neb a gurai wrth ei ddôr ac a âi yn droednoeth, megis, i'w gynteddau. Y mae ynddo lofft y grôg urddasol, gyda gwaith cywrain yn gerfiedig arni yn adrodd mewn celfyddyd ryfeddodau'r Geni Mawr.

* * * *

Dro arall, mynd i mewn ymhellach i berfeddion y fro goëdiog o gwmpas, hyd henffyrdd gwyrddion a gleddir gan gangau a brigau deiliog. Yr oedd gennyf gyfaill o Lydawr lluniaidd ac iraidd, wedi gyrru ataf o'r uchel *Rochefort-en-Terre* serchog, i'm tywys ac i'm difyrru. Treulio bore cyfan o ddirwyn drwy ganol harddwch a

rhyfeddodau hyd at dref ddengar *Le Faouët*, lle y porthasom ein chwilfrydedd ar lawer gwrthrych diddorol, ond yn bennaf ar yr hen Farchnad, anferth o adeilad yn sefyll ar bileri o bren a maen, a phatrwm go berffaith, mi dybiaf, o'r hyn ydoedd yr eglwysi bore dros yr holl wlad. Allan drachefn heibio i dŷ â cherflun *Sainte Barbe* yn ei fur; a cherdded igam-ogam o un hafgoed tesog i'r llall, nes dyfod at ffordd balmant dan gysgodion derw, ac i fyny i lannerch rhwng rhesi o binwydd mawr. Oddi yno agorai ein llygaid eu golygon ar ysblander gwyllt dyffryn *Ellé*, wedi ei wau gan afon drystiog, coed yn gwyro tuag ati, creigiau'n hongian uwch ei sŵn, a rhedyn anturus yn elino am le ym mhobman. Ar y dde, yn ymyl, yr oedd clochdy bychan bach, a'n gwahoddai ni, a phob pererin arall, i ganu ei gloch fel y tywalltai'r nefoedd ei bendith arnom, ar ein ffordd i gapel *Sainte Barbe*. I lawr yn y gwaelod yn deg yr oedd ef, yn ym-guddio dan gastanwydd, a grisiau a chanllawiau yn disgyn i lawr bob cam ato.

Prin le oedd ganddo i roddi ei droed i lawr yno o gwbl. A phaham y dewisodd y fath gilfach gyfyng? Adroddodd fy nghyfaill ddirgelwch y capel bach i gyd: am Arglwydd Locinalo yn mynd yn ôl ei fryd a'i arfer i hela parth â'r dyffryn hwn, pan dduodd y ffurfafen uwch ei ben, a dyfod tymestl erchyll o fellt a tharanau allan ohoni. Ar ei hól hithau wele aruthr garreg yn datod o blith y creigiau. Sef a wnaeth yntau yn ebrwydd, cymryd llw i *Sainte Barbe* y codai yn yr union fan honno gapel iddi, os achubai ei fywyd. Safodd y garreg yn y lle y mae hyd heddiw! Ac yn ieuencid y dydd drannoeth yr oedd seiri maen yn dechrau cyflawni'r adduned. Pa

sawl gwaith y clywais chwedl gyffelyb mewn llawer lle arall yn Llydaw, i egluro'r myrdd gapeli sydd yn tyfu o'i mynwes, ac a dry ei daear yn llawn o feddyliau am Dduw?

Wedi hir oedi oherwydd ein dal gan hudoliaeth y fangre gysegredig, ymysgwyd, a mynd a thipyn o gerdded arnom i *Le Faouët* am ginio. Drachefn yr oeddem ar ein traed. Mynnem weled o leiaf un arall o'r capeli enwog sydd yn ymyl. Rhwng siarad go lawen fy nghyfaill, *Le Part*, a cherdded gweddol garlamus, yr oeddem yn union deg yn sefyll ar gyfer talcen gorllewinol capel *Saint Fiacre*, ac yn edmygu ei dri thŵr lluniaidd —y mwyaf yn glochdy yn y canol, a saeth yn esgyn uwchlaw iddo, a'r ddau arall yn cyd-gyfodi i'r un uchter, un o bob tu. Dyry'r cwbl argraff o gyfuniad cytbwys o symlder ac addurn, a swyn gwledig arbennig iawn. Oddi mewn, yr addurn sydd amlycaf o lawer. Y mae yma gyfoeth afrad ohono, yn enwedig yn y *jubé* gampus, sgrin o bren cerfiedig, sy'n adrodd mewn cyfres o ddarluniau, megis Beibl agored, hanes Adda ac Efa, Mair a'r Archangel Gabriel, gwobr y da a chosb y drwg. Mi a glywais ddywedyd mai hon yw'r sgrin berffeithiaf yn Llydaw, ac nid oes gennyf i le i amau hynny. Perthyn y sgrin, a'r holl gapel hefyd, i ddiwedd y bymthegfed ganrif. Ac onid yw'n drawiadol mai i'r un cyfnod y perthyn yr holl sgrinoedd pwysicaf sydd gennym ninnau yng Nghymru, o Laneilian ym Môn hyd Lananno ym Maesyfed?

Ar ein ffordd o *Saint Fiacre* tua *Chemperlé*, gwelsom lawer bwthyn to gwellt yn hanner ymddangos ac ym-guddio gyda min y ffordd. Ond nid oeddynt gystal eu

golwg â'r rhai a welais yn y Gogledd, yn Nhrégor a Léon. Edrychent braidd yn ddiserch rhwng eu clas o gloddiau mawr, ac ni welid gwên blodau o gwmpas na drws na ffenestr. Yn y berfeddwlad goediog hon gwar-
iwyd arian fel y gro i harddu Tŷ yr Arglwydd â ffenestri lliw, â sgrinoedd a delwau, â thyrau a chlochdai, ond ni chodwyd aur nac arian i adeiladu tai glanwaith i'r amaethwyr. Caled a llwm ydyw eu bywyd hwy gan mwyaf, ac nid ysgafnhawyd nemor ddim arno gan beiriannau'r canrifoedd diweddar. Ychydig lathenni oddi wrth gapel Saint Fiacre, daeth fy nghyfaill a minnau ar draws teulu'n dyrnu'r gwenith du. Yr oedd yr ŷd wedi ei wasgar yn gylch o gwmpas llawr caled yn y buarth. Ac yno yr oedd pum gŵr ac un wraig yn pwnio arno'n ddiwyd â'u ffustiau. Wynebai pob dau ei gilydd, gan godi a gostwng y ffust bob un i'w amser, fel na fwriai'r naill y llall. Symudai'r cyntaf o'r ddau lwrw ei gefn, gan gylcharwain y llall o gwmpas y llawr dyrnu. A'r un modd y lleill.

Dyna'r tro cyntaf imi weled dyrnu â ffust. Mi a glywswn lawer gwaith gartref, gan y rhai a wyddai drwy brofiad, mai diwrnod o ddyrnu â ffust ydoedd y caledwaith trymaf y gellid meddwl amdano hyd yn oed yn holl amrywiaeth gwaith fferm. Ond nid oedd gennyf fawr syniad o'r hyn ydoedd nes gweled y pum gŵr a'r un wraig yn ffusto'r ŷd du yn ymyl Capel Saint Fiacre ar y prynhawn dydd Iau trymaidd hwnnw, y pumed dydd ar hugain o fis Medi 1924. Ymddangosai imi megis darn o gyntefigrwydd pur, yn glynu ymlaen mewn canrif nad oedd ganddi le o gwbl iddo.

* * * *

Wedi treulio'r dydd yn ddifyr ac yn ddiwyd yng nghymdogaeth Le Faouët, croesawai hen dref Quimperlé ni'n gynnes i'w phyrth. Y mae'r gwesty, Gwesty'r Llew Aur, yn un o'r rhai gorau yn yr holl wlad. Llawer gwaith yr addunedais â mi fy hun aros yno am wythnosau er mwyn gweithio yn un o'i ystafelloedd mawr, uwchlaw trymru'r afon. Ond ni chyflawnais yr adduned eto: ai am fod gormod i'w ddysgu ac i'w weled oddi allan i'r ystafelloedd, ai am nad ydyw gwyliau o grwydro yn gyfnod da at weithio yn yr un lle—ni wn i ddim. Yr hyn a ddigwydd bob tro, gan hynny, ydyw cefnu ar yr ystafell yn bur fore, a chymryd coffi allan dan y dail, a mynd i'm ffordd. Y deniad cyntaf ydyw'r Eglwys *Sainte Croix* sydd yn ymyl. Ni allaf ymgadw rhag mynd iddi bob tro y byddaf yn agos, ac fe adwaen bellach bob cwr ohoni. O holl eglwysi Llydaw, dyma'r ryfeddaf. Eglwys gron, dew, ar lun y Beddrod Santaidd yng Nghaersalem, a'i phrif allor a'i phulpud ar lwyfan dyrchafedig. Pileri trymion mawr, a'r cwbl yn wahanol i'w gilydd yn eu haddurniadau. Ar gyfer y pulpud y mae Crist yn hongian, â gwisg laes amdano yr un fath ag a welsom yn eglwys Rufeinaidd Kemper.

Islaw'r llwyfan y mae'r gell gél, yr unig ran o'r eglwys wreiddiol sy'n aros, ac nid heb gennad swyddogol yr eir i mewn i'w thywyllwch hi. Gyda golau kannwyll gallwch weld yr hen golofnau Rhufeinaidd a'u capanau. Nesëwch yn araf at ddau feddrod, y naill i Abad cyntaf Quimperlé, a'r llall i un o'r abadau diweddarach. Sylwch ar y twll sydd drwy faen ar ochr y cyntaf, a chyn ichwi ofyn ei amcan, fe'i heglurir ichwi: mai gosod eich pen yno a iachâi bob cur pen; a mynd yn eich plyg

dan y garreg a wellái bob cur yn y cefn. Dyna oedd yr hen goel. Credid yr adeg honno fod y Seintiau'n gallu iacháu clefydau pan oeddynt ar y ddaear. Pa faint mwy wedi esgyn ohonynt i'r nefoedd? Wrth y bedd lle y claddwyd hwy, teimlai dynion yn agos iawn atynt, a phererinent yno am fendith a gollyngdod.

Ar ôl dyfod yn ôl i'r goleuni, ni fedrwyd nad ewch at y peth a dynnodd eich sylw gyntaf wedi cerdded i mewn i'r eglwys. Sef yw hwnnw, y *jubé*, sy'n ffrâm o ddelwau rhyfeddol eu gwaith mewn meini gwynion, o gwmpas y prif borth. Anafwyd tipyn arni o bryd i bryd, ond erys o hyd yn gyfanwaith celfyddyd o'r radd flaenaf: pedair delw fawr o'r Efengylwyr, dan ortho; mân ddelwau eraill yn portreadu'r Wryf Fair a'r Rhinweddau Pennaf; ac islaw'r cwbl, y Deuddeg Apostol—heb sôn am yr addurniadau a'r holltau sy'n dangos y Proffwydi, a Thadau'r Eglwys, y cwbl oll dan fendith y Crist Gogoneddus yng nghanol Ei angylion.

Wedi ymweled â'r eglwys hon, gellwch ddirwyn ymlaen yn hir drwy'r heol a arferai fod yn y dyddiau gynt, pan oedd muriau am y dref, yn heol fwyaf aristocrataidd Quimperlé. Erys o hyd aml awgrym o'r blynyddoedd pell hynny yn adfeilion eglwys Saint Colomban; a thrwy ei ffenestr wag hi yr edrychais ragor nag unwaith ar loer y naw nos olau. Heb fod ymhell, dyma chwi'n sbio ar hen Abaty *Sainte Croix*, sydd bellach yn gartref i bethau mor anghymarus â neuadd y dref a swyddfeydd y plismyn. Ewch i mewn a gwelwch y clas, ac odid na ddywed rhywun wrthych mai i'r Abaty hwn y ffodd Claude Lancelot, athro Racine yn y Port-Royal. Diau iddo hoffi ei loches mewn tref mor groesawgar ac

eto mor fynachaidd. Mynachaidd i raddau ydyw awyrgylch Quimperlé heddiw eto, ond heb fod yn asetig. Gyda'i chlasau a'i chwfennoedd, ei heglwysi hynafol a'i hendai, ei grisiau a'i strydoedd culion ar eu dring, y mae'n hynod o serchog. Hyd yn oed ar brynhawn Sul gallwch fwynhau edrych ar godymwyr enwog y fro hon yn ymwregysu i daflu i lawr y cadarnaf yn y wlad, a'r ymrysonfa genedlaethol hon yn cael ei hagar gan gôr o leisiau—a'r arweinydd yn offeiriad! Na ffromwch ddim. Nid yw'r Sul yn Llydaw wedi troi yn Saboth.

Yno hefyd "y mae afon." Ac ar fore heulog o haf, beth well na'i dilyn hi, a cherdded dros lwybr cul drwy gaeau gyda'i hymyl? Ymhenn hir a hwyr, gwelwch yr afon yn lledu ac yn llonyddu. Onid hyfryd fyddai treulio awr o hwylio arni, allan i'r glesni sy'n tyfu hyd at ei glan? Ar y gair, wele longwr a'i gwch yn barod i'ch hwylio. Eistedd yn llonydd dan guriadau haul ar ei gynnydd, gwranddo isel sŵn y rhwyfau ar lyfnder y wyneb, troelli gyda'r afon am dorlennydd yn dywyll gan gysgodion y bore, gwyllo'r da godro'n cyffroi'r tawelwch ym môn y borfa â'u pori di-hamdden, teimlo'r caeau a'r coedydd, y cysgodion a'r glannau, y gwartheg a'r borfa, yn cydorymdeithio'n ôl heibio, dotio at deiau'r dref yn codi'n rheng ar reng hyd ddwy ymyl y dyffryn am ran gyntaf ein taith, ond yna'n gostwng yr un mor drefnus, gan adael i fwy a mwy o lesni'r tu hwnt i'r dref ymddangos rhwng simneiau tai a saethau eglwys. Byrhau o'r cysgodion, cynhesu o'r haul, blino o'r llongwr, a thewi'n llwyr â'i rwyfo. Y mae'r bad ar ei ffordd yn ôl, yn llithro'n dawel gan ddewinol hud, heibio'r torlennydd a'r gwartheg, y gronynnau gwllith ar laswellt lawer, a'r

PERERINDODAU

Ilygedynnau haul drwy hollt yn y dail. Yn fuan, rhy fuan o lawer, wele gyrraedd i'r fan o'r lle y cychwynnodd. Ond yr ydych wedi'ch temptio a'ch dal yn gaeth am byth gan un arall o swynion y byd, wrth borth y dref sy'n brysur yn darpar ar gyfer y Tu-hwnt-i'r-llen.

PENNOD XI

LA VILLEMARQUÉ

YN y cyfamser, esgynnais i'r fynwent, i chwilio am fedd Hersart de la Villemarqué, un o Lydawiaid mawr y ganrif ddiwethaf. Fe'i ganed ef yma yn un o'r hen heolydd sydd i lawr yng ngwaelod y dref, yn 1815. Deuai o un o'r ychydig deuluoedd pendefigaidd Llydewig a drigai gartref yn y wlad, ac a ymddiddorai yn ei bywyd a'i phobl. Fe'i dygwyd i fyny mewn henblas gwledig yn ymyl Pont Aven, ac yno, wrth chwarae â phlant y tyddynwyr cyfagos, y dechreuodd ddysgu'r iaith a fu'n bennaf cydymaith a gwrthrych ei serch tra bu byw. Yn fuan, daeth y pendefig bychan i deimlo bod "anadl einioes y genedl yno," yn yr iaith, yn y gwerinwyr distadl a'i llefarai, ac yn y fro o berfeddgoed a'u lluniodd hwy yn ôl ei delw ei hun. Aeth i Baris am ei addysg, ac yno y cyfarfu ag amryw o fechgyn ieuaic eraill Llydaw, gobeithion y dyfodol—ac yn enwedig A. F. Rio, Brizeuz a Souvestre. Deuent ynghyd ar y Sul i gartref y brodyr Courcy yn y *Rue de la Victoire*, yr un fath â'r Llydawiaid a adnabûm innau yno rhwng 1922 a 1926; ac yng nghwmni ei gilydd gwelent drachefn eu gwlad, a'i hiaith a'i cherddi, a hyd yn oed ei gwisgoedd. Esgeulusodd Villemarqué ei ddosbarthiadau a'i wersi yn odidog, ond cysegrodd nwydau gwyllt ei galon i godi colofn fythol i'w wlad.

Yn y blynyddoedd ifanc-ramantaidd hynny, rhwng 1830 a 1840, llamodd ei ddychymyg yn ôl dros ganrif-oedd o Hanes ei wlad, a daeth Cymru i mewn i ddirgel

drigfannau ei feddyliau. Rhyw ddiwrnod, clywodd am farsiantwr o Gymro o'r enw Owen Jones a drysorodd drysorau, meddai'r newydd, yn unig er mwyn cyhoeddi cyfoeth llenyddol ei wlad. Oni allai yntau wneuthur yr un modd â'i wlad ei hun? Ond, yn gyntaf, onid gwell fuasai ymweled â'r famwlad bellennig, ryfeddol honno, y *Pays de Galles*—Gwlad y Cymry? Oni ddethlid yno gynt "ryw fath o gampau Olympaidd, pryd y deuai'r beirdd ynghyd, megis poëtau'r Groegiaid, o bob cwr o Brydain i gystadlu am wobr o delyn, ger bron cymantaf oedd o ddynion, a than lygaid pendefigion eu pobl"? Oni pharhâi'r cymantaf oedd hyn, dan yr enw Eisteddfodau, hyd y dwthwn hwnnw? Yn olaf, ac yn fwy byth wrth fodd y genhedlaeth ramantaidd-werinol honno, onid y "bobl eu hunain a benderfynai'n derfynol deil-yngdod y cystadleuwyr"? Dyna a glywsai.

Yr oedd un o'i gyfeillion, A. F. Rio, wedi priodi Cymraes o Lanarth, ac yn adnabod y Parch. Thomas Price (Carnhuanawc) yn dda. Yr olaf a awgrymodd i Rio wahodd ychydig Lydawiaid o fri i fynd ar bererindod tua'r cartref cyntaf.

Yr oedd phiol rhyfeddod a chwillfydedd Villemarqué yn llawn, ac yn llifo drosodd. I Gymru amdani! meddai mynwes chwyddedig y pendefig tair-ar-hugain oed. Ac ym Medi 1839 wele gychwyn tua'r Tir na n'Og cyfareddol hwnnw. Yn ychwanegol hefyd, yr oedd ganddo gennad oddi wrth Weinidog Addysg Ffrainc—"i astudio iaith a llên Cymru mewn cysylltiad ag iaith a llên Llydaw, ac i ddarllen y llawysgrifau Cymreig yng Ngholeg yr Iesu, Rhydychen." Cafodd fordaith esmwyth o Saint Malo, "y tywydd yn odidog, y môr yn brydferth, heb

grych ar don." Yn nechrau mis Hydref, yr oedd ef a'i gymdeithion wedi cytraedd Cymru. "O, 'r wlad dlos, fy nhad annwyl! Mynyddoedd fel yn Llydaw, gwastatiroedd, dyffrynnoedd wedi eu hafnu gan afonydd, coedydd, a meysydd meillionog; ond y mae'r golygfeydd yn helaethach, yn fwy awellog, ac yn fwy amrywiol."

Y peth cyntaf a'i trawodd oedd hysbysiad o'r Eisteddfod yn Abergafenni, a'r geiriau: "*Oed er bed ar iais Cymreg*"! Derbyniwyd hwy'n llawen i'r plas yn Llanover, a rhoddwyd croeso mawreddog iddynt yn yr Eisteddfod. Cyhoeddai'r papurau fod yr ymwelwyr o Lydaw nid yn unig yn llenorion, ond yn bendefigion yn disgyn oddi wrth Dywysogion Llydaw. Gosodwyd Villemarqué i eistedd ar ddeheulaw'r llywydd, a gofynnwyd ganddo "goroni'r bardd buddugol," canys mynnid ei ystyried ef nid yn unig yn bendefig Llydewig ond hefyd yn Llysgennad Brenin Ffrainc! "Yn yr hwyr, cenais gân o'm gwaith fy hun a'm synnodd â'i heffaith; syfrdanwyd fi gan y gymeradwyaeth." Ysgrifenna ei gyfaill, Rio, y cymerai gyfrolau i adrodd llwyddiant Villemarqué. "Ni chredaf gofio o neb erioed weld y fath beth yn y wlad hon." Fe'i derbyniwyd i gylch cysegredig yr Orsedd, a gwnaeth yntau araith mewn Llydaweg "a ddeallwyd gan bawb oll"!

Mewn gwirionedd, nid rhyw lawer iawn o'r araith honno oedd yn Llydaweg. Gan ddechrau yn Ffrangeg, cyfeiriodd yr areithiwr ieuanc at wreiddiau cyffredin y Cymry a'r Llydawiaid, ac at eu rhyfeloedd yn erbyn y Rhufeiniaid, ac yna'r Saeson, yn y cyfnod pan ffurfiai'r Celtiaid hyn un genedl yn unig. Aeth yn ei flaen i roddi prawf i'w wrandawyr o'r ysbryd brawdol oedd wedi aros

PERERINDODAU

a ffynnu rhwng y ddwy genedl, ganrifoedd lawer wedi eu hysgaru. Dyma oedd ei dystiolaeth: yn ystod brwydr *Saint-Cast* yn 1758, yr oedd y Saeson a'r Ffrancod yn ymladd yn erbyn ei gilydd. Gyda'r naill yr oedd milwyr o Gymru, ac yn rhengoedd y llall yr oedd Llydawiaid; ond ar ganol y cyrch, gwrthododd y milwyr Cymreig â tharo yn erbyn y Llydawiaid, oherwydd deall oddi wrth eu cerddi rhyfel mai brodyr iddynt hwy eu hunain oeddynt! Pa un ai gwir ai peidio y chwedl hon, nid oes amheuaeth nad oedd hi wrth fodd calon ei gynulleidfa. Gwrandawyd arni gyda syndod syfrdan, a chroesawyd hi gyda chymeradwyaeth nodweddiadol Eisteddfodol.

Yna, aeth Villemarqué rhagddo i ganu cerdd o'i waith ei hun, wedi ei chyfansoddi'n bwrpasol at yr amgylchiad, i ddathlu'r brawdgarwch Cymreig-Llydewig yr oedd newydd ddirwyn ei hanes o flaen llygaid ei wrandawyr. Gan nad ydyw'n rhy hawdd cael gafael arni erbyn heddiw, mi a'i hail-ysgrifennaf yn llawn yma:

KAN-AOUEN EISTEDDVOD

ER VRETONED-ARVORIS HAG ER GYMMRI-BRETONED

ER GOR

*Ul long a zaez gan ann awel,
En un porz à Gymru oc'h a bell.*

ER GYMMRI-BRETONED

*Pérérion d'hon-ni lafarec'h
Poui e'ch c'hwi nag a pa fann a e'ch?*

ER VRETONED-ARVORIS

*Bretoned emp-ni oc'h ann Armor
A L'aezomp d'ho kwelet tros er mor*

136

LA VILLEMARQUÉ

ER GYMMRI

*Pan aezeç'h da vad é vézeç'h
Bretoned a edem-ni fel d'ec'h.*

*Hen tadau int tadau d' ac'h tadau
Hen mamau int mamau d'ac'h mamau.*

ER GOR

*Kanomp da pan er kefret hiziau
Kanomp, broderion mal hen tadau.
Kanaomp ré n'eus krénet tal Gaezar.*

HOLL KEFRET

*A lakaz da gréno er deuar;
Ré eus trec'het Piktet ha Saezon
Gant Arthur hag Howel hon teirnon.*

*Ha kefret ha laket pob-eill-benn
Ha maez al Lydaw er Frangizien.*

*Ré eus pell-amzer gourzwenebet
Gant mawr a voc'haud er Normaned.*

*Hag ho eus holl-d'ann-holl gorfodet
Dan Glyndwr ha Ian a Rieux kefret,*

*'R Breton 'Armor tal er Gymmro c'hwaz
Er banniar du tal er banniar glas.*

*Kanomp ré emlazaz pad mil vloez
Am hen Duw, hen bro, hen brent, hen iaiz.*

*A wardaz ho gwad oc'h er maro
Hag edint ho unan difaro,*

*Fel ma ganaz Taliesin Barz hon:
O tarogan—"Tra mor, tra Breton!"*

137

PERERINDODAU

ER BARZ

*Kerreg pe ré as da zoun n'lakez
Namen Breut ha Goruc'hafiaez;*

*Kerreg a Gymmru é-tal er mor
Aslafaret son barz a Armor,*

*Lafaret, lafaret da vis-ken
Hanes mawr hen gourhendadigien.*

*Ra glefent son anom oc'h ann ion
Ha ra lakent lawen hoc'h c'halon*

*Ha ra zelent tuez er deuar
Ha ra vendigent ho vibion Kar.*

Dyna'r gerdd a eilw Villemarqué yn "gerdd Lydaweg"—ond ni wn i am yr un Llydawr arall a'i galwai'n Llydaweg; ac yr wyf yn sicr na ddeallai'r un Llydawr cyffredin mohoni. Yn wir, gwnaeth fy nghyfaill, M. Gourvil, brawf ar y peth tua blwyddyn yn ôl, yn nhudalennau'r *Ouest Eclair*, pan wahoddodd y neb a fynnai i gyfieithu'r penillion uchod. Yr oedd yr ymdrechion yn ddigrif i'r eithaf, fel y gwelir oddi wrth ddau gyfieithiad o'r cwpled cyntaf. Wele un:

"Y mae saeth hir yn canu yn y gwynt
Mewn castell yng Nghymru, yn bell"!

Ac wele un arall:

"Ar hyd y dydd, cân y gwynt,
Gyda nerth cynyddol, ac ergyd (erch)"!

Eithr y gwir ystyr ydyw hyn:

"Llong a ddaeth gyda'r awel
I borth yng Nghymru, o bell . . ."

LA VILLEMARQUÉ

Nid rhaid imi ddweud wrth Gymry nad Cymraeg ychwaith ydyw'r gân ryfedd hon, er cymaint o eiriau Cymraeg sydd ynnddi, ac er cymaint o wisg Gymreig sydd am lawer o'r geiriau Llydaweg. Dyna gân, ynteu, nad ydyw hi na gwir Lydaweg na gwir Gymraeg; ac fe ddeil hyn yn wir am lawer o'i gerddi yn y *Barzaz Breiz* hyd yn oed. Y mae cofio hynny o werth inni wrth ddarllen y llyfr mawr hwnnw.

Ac eto . . . y fath floddest a enillodd yr ambell air Cymraeg i'r canwr oddi wrth ei edmygwyr Eisteddfodol! Gwresogodd llais tanbaid a chynnes yr awdur galonnau'r Cymry o'r bron. Dywed llygad-dyst iddynt godi ar eu traed, neidio ar y cadeiriau a'r meinciau, a chodi bonllef ar fonllef o gymeradwyaeth ac o ddiolch i Villemarqué. "Parhaodd y teimlad angerddol hwn yn hir, a daeth y beirdd yn llu at yr awdur, i daer ymbil ag ef am iddo dderbyn ei ordeinio'n fardd gan yr Orsedd."

Synnwyd y Llydawiaid oll, a Villemarqué gymaint â'r un, gan y brwdfrydedd mawr a greodd ei gerdd, a'r llwyddiant eithriadol a ddaeth i'w ran ef. Ar hyd yr amser y buont yma, ni chawsant ond y croeso mwyaf tywysogaidd ym mhobman. Derbyniesid rhai ohonynt gyda breichiau agored i gartref Rio yn *Llanarth Court*, ac agoresid drysau'r plasty yn Llanover o led y pen i'r lleill. Ar eu cyrraedd, nid oedd dim ond gwahoddiad yma ac acw, croeso hwnt ac yma, ciniawau gloywon, areithiau tanbaid, dathliadau, anerchiadau, cyhwfanu baneri, tynnu'r tannau, a gorymdeithio. Ond yr awr anterth ydoedd honno pan wnaeth Villemarqué ei araith, gan goroni'r holl wrhydri â'r gân na ddeallai neb yn llawn, ond pawb o ran. A'r prawf terfynol ydoedd

crynhoi o'r beirdd am ei ugain haf, a'i gymell i'w ordeinio'n fardd o Urdd y Derwyddon! Pa ryfedd iddo beryglu colli ei ben, ac ysgrifennu at ei dad y geiriau hyn?:—

"Bellach yr wyf yn fardd," meddai mewn llythyr ato, ". . . yn wir fardd . . . a derbyniwyd fi yn ôl defodau hynafol y bumed a'r chweched ganrif, y rhai a draddodwyd i lawr hyd heddiw . . . Fy nghân a enillodd imi'r anrhydedd hwn, yr wyf mor falch ohono. Cynhelir y seremoni ordeinio gan amlaf ar ben mynydd, yng nghanol cylch o gerrig, ger bron dolmen, yn y bore, cyn codi o'r haul i ganol ei gaerau. Y mae'n olygfa hynod iawn i edrych arni."

Do: fe'i coronwyd yn fardd yn ôl breintiau a defodau'r Orsedd, a'r cleddau'n gloywi yn llaw'r Archdderwydd, Cawrdaf. Tynnodd yntau, Villemarqué—yn awr, "Bardd Nizon"—lw o ffyddlondeb; ac, wedi gosod y cleddyf yn ôl yn y wain, gwnaeth araith arall "mewn Llydaweg." Dyma'r rhan bwysicaf ohoni:

"Oddi mewn i'r cylch meini cyfriniol hyn yr aeth anfarwol feirdd fel Taliesin a Myrddin o'm blaen; lle y derbyniwyd fi i mewn i'w cyfrinion hwy, mi a brofaf deimlad mawr ac arswydias grefyddol . . . Nid bod arnaf ofn torri'r llw a ddatganwyd uwchlaw'r cleddyf! Na ato Duw mo hynny! O'r newydd, mi a ymdynghedaf i'm cysegru fy hun i hyrwyddo barddas; tyngaf lw i garu Duw, fy ngwlad a rhyddid, hyd y ffun olaf . . . Na! nid ofnaf fy nghalon; buasai hynny'n gystal â'm bradychu fy hun; ond y mae pryder yn gafael ynof. Ymddengys i mi fel pe buasai cysgodion ardderchog feirdd y gorffennol yn cyfodi o flaen fy llygaid, ac yn gofyn imi'n

sobr: 'Pa beth a wnaethost ti i haeddu ohonot dy wisgo â'r lliwiau cysegredig hyn?'

"Ysywaeth, ni wneuthum ddim hyd yn hyn; ond meithrinaf yn nyfnder fy nghalon fwriad a bair i gysgod y meirw neidio mewn llawenydd, os daliant o hyd i ymddiddori yng ngwaith y byw. Mi a ddeisyfaf adeiladu teml, y gosodais ei sylfeini i lawr yn barod. Mi a ddechreuais eisoes gasglu ynghyd yn Llydaw ddarnau gwasgaredig eu cerddi, fel y cyfansoddwyf er eu clod â'r darnau hyn un gerdd fawr, a gyflwynaf i Lydaw, i Gymru, i'r dirifedi ganrifoedd a ddêl . . ."

Gwir a ddywedodd: yr oedd eisoes wedi dechrau adeiladu ei deml. Dechreuasai gasglu meini i'w adeilad cyn erioed gyfeirio ei gamre tua Chymru. Wedi dychwelyd, ef a gasglai eraill, ac â chun a morthwyl a'u cabolai'n gain. Am flynyddoedd lawer, am yn agos i hanner canrif, byddai'n dal i gasglu, i gywiro ac i gaboli. Pwy a wâd na chadwodd yr addunedwr hwn ei addewid yn llawn?

Arhosodd yng Nghymru amryw wythnosau, "ar deithiau cyson o blasty i blasty." "Déellir fy Llydaweg gan bawb, ac nid oes gennyf yr un cyfrwng arall i'm mynegi fy hun wrth feirdd na ddeallant gan mwyaf na Ffrangeg na hyd yn oed Saesneg." O wynfydedig ŵr! Croesodd i Sir Forgannwg i dderbyn o groeso'r Arglwyddes Charlotte Guest. "Y mae hi'n byw yn y fro erchyllaf yn y byd! Ni welwn ddim ond mynyddoedd ofnadwy o lo a marwor dan ein llygaid." Y mae'n amlwg iawn na welodd mo'r "haf ym Morgannwg," ac nad oedd yn dda ganddo ffatrioedd Syr John Guest yn "chwydu'r mwg i bob cyfeiriad."

PERERINDODAU

Ond cynhesodd ei galon yn anghyffredin at yr Arglwyddes Guest. "Y mae'n wraig eithriadol," meddai. "Sieryd ac ysgrifenna Ffrangeg fel un ohonom ni; gŵyr Eidaleg, a hyd yn oed yr ieithoedd dwyreiniol. Ond yr hyn a'm diddora bennaf ynddi ydyw ei gwaith ar lèn Cymru. Ar hyn o bryd, cyhoedda Ramantau Cymreig gyda chyfieithiad swynol i Saesneg." Cyn dychwelyd, aeth ar bererindod tua Chôr y Cewri, ac Ynys Afallon, "mynwent hen frenhinoedd a seintiau Llydaw. Ynys Afallon yn gyfan ydoedd paradwys y Derwyddon, ynys y Gwynfyd, ynys yr Athrylith, ac yn yr Oesoedd Canol, Ynys y Tylwyth Teg. Yn Ynys Afallon y claddwyd Arthur frenin."

Wedi treulio rhyw ddeufis arall yn Lloegr, yn bennaf yn Rhydychen, trodd adre tua'i wlad ei hun. Yn ei frwdfrydedd ieuanc, daeth i'r casgliad mai'r un iaith yn gymwys oedd gan Daliesin ac Aneurin ag a siaredir heddiw gan werinwyr Llydaw. Onid oedd ef wedi ei ddeall bob gair yn Eisteddfod Abergafenni? Ac onid gan dyddynwyr gwledig y dysgodd yntau Lydaweg? Gwaith ei fywyd bellach a fyddai casglu'r cerddi a gostrelai'r gwerinwyr hyn yn eu cof, a gwneud eu henw hwy a'u gwlad yn hyglod drwy'r holl fyd. Ni thalai oedi o gwbl. Yr oedd yr awr wedi taro. Onid oedd eisoes, yn wir, wedi dechrau ar y gwaith? Ac yn y flwyddyn ddilynol cyhoeddodd yr argraffiad cyntaf o'r *Barzaz Breiz*—Barddas Llydaw—a'i gwnaeth mor enwog ag a ddymunai. Cyhoeddodd amryw lyfrau eraill o bryd i'w gilydd, ond y *Barzaz Breiz* sy'n anwahanadwy gysylltiedig â'i enw ef.

Yr oedd i bob cân yn y llyfr gyfieithiad Ffrangeg, a

LA VILLEMARQUÉ

chafodd y llyfr groeso o "wên rasol" gan lenorion Ffrainc, yn cynnwys Chateaubriand a Lamartine. Aeth un ohonynt, George Sand, yn ei brwdfrydedd, mor bell ag ysgrifennu bod y gerdd, *Le Tribut de Nominoë*, yn fwy na'r Iliad, "yn gyflawnach, yn brydferthach, ac yn berffeithiach na'r un campwaith a ddaeth allan o feddwl dyn." Ond cyn bo hir iawn, clywyd llefaru'r gair "*Mac-Pherson moderne*" uwchben yr awdur, ac wedi ei sibrdw unwaith i'r gwynt nid ar chwarae bach y gellid ei alw yn ôl. Daeth llyfr Villemarqué yn destun dadleuon poeth, ac nid ydynt eto wedi llwyr ddiffannu.

Honnai'r awdur iddo hel y cerddi ar wefusau'r werin, ymhlith cantorion y ffeiriau a'r gwyliau crefyddol. Clywsai ei fam doreth ohonynt gan y tlodion a ymgeleddai hi yn ei chartref, ac aeth ei mab i chwilio am eraill, gan fynd weithiau ymhell ar gefn merlen. Diamau iddo gaboli llawer arnynt, ac fe ddichon iddo eu haddurno y tu hwnt i'w gwedd gyntefig. Eddyf ei hun iddo wneud hynny, ac y mae'n sicr iddo, ag yntau'n ddim ond pedair-ar-hugain oed ar y pryd, newid a diwygio llawer gormod arnynt. Ond peth arall, tipyn yn wahanol, fyddai dal mai ef a'u dyfeisiodd o'i ben a'i bastwn ei hun, er na ellir cau posibilrwydd hynny ynglŷn ag ambell un. Digoned inni ddywedyd iddo gamddeall ei ddyletswydd fel casglydd a golygydd, a bod hynny'n amharu'n ddirfawr ar ei waith fel casgliad o gerddi gwerin. Yr un pryd, rhodder clod iddo am fod y cyntaf i roddi iddynt olau dydd. Y mae tystiolaeth ei gyfoeswr o Ogledd Llydaw, Luzel, y gŵr a gasglodd yntau ysgub, wedi ei lloffa'n fwy gofalus, yn wir deilwng.

"I mi," medd Luzel, "nid oes mewn unrhyw iaith lyfr harddach" (na'r *Barzaz Breiz*).

I'r gŵr da a mawr hwn, Théodore Hersart de la Villemarqué, yr euthum i dalu gwrogaeth ar lan ei fedd y diwrnod hwnnw. Cefais ddwy siom yno. Yn gyntaf, nid oedd un gair o Lydaweg ar ei garreg fedd. Yn ail, bùm yn siarad â dau ŵr oedd yn ymyl. Ni wyddent ddim oll amdano. Gwyddent am ei deulu, gan eu bod yn byw yno o hyd, ond ni chlywsent sôn am y Llydawr a wnaeth fwy nag odid neb arall i ddatguddio Llydaw i'r byd, a'i dilladu â gwisg ei gorffennol, ei cherddi gwerin, ei hen hanes, ei harwyr mawr, ei harferion a'i hiaith. Yn wir, yn wir, meddwn wrthyf fy hun, pa lesâd i ŵr os cleddir ei enw o gof y genedl y cysegrodd ei oes i'w gwasanaethu? a pha lesâd i'r genedl onid anrhydeddo ei gwŷr mawr, ei gwasanaethwyr? Nid er mwyn clod y llafuriant, ac nid er mwyn myned yn angof ychwaith. Yr anghwrteisi mwyaf ar ran cenedl ydyw anghofio ei chymwynaswyr mawr. Oblegid heb-ddynt hwy ni wnaethpwyd dim ar a wnaethpwyd; ac os cleddir hwy o gof a serch y genedl, â pha beth y cedwir anadl yn yr esgyrn sychion?

O holl gymwynaswyr Llydaw, nid oes yr un yn fwy na Villemarqué. Yr oedd ganddo—y mae ganddo o hyd—ei gydweithwyr yn y llafur o ddyrchafu ei wlad. Ond ef yw un o'r rhai cyntaf, ac iddo ef y mae dyled pawb arall yn anfesurool. Anatole le Braz fyddai'n arfer holi—ac yr oedd ganddo ef gystal hawl â neb i holi—pa lun o ymbalfalu a fuasai ar feirdd Llydaw oni bai am "Villemarqué a'i anfarwol *Barzaz Breiz*"? Ef a roddodd i'r Llydaweg yr ymdeimlad o urddas, wrth ddatguddio

iddi ei chyfoeth a'i grym cudd. Os mynnwch wybod o ble y tarddodd yr ymdeimlad cenedlaethol sy'n cyniwair Llydaw ers canrif, ac o ba le y llifodd y farddoniaeth a lawiodd arni byth er hynny, gwybyddwch mai'r ateb ydyw . . . Villemarqué . . . Na adawn ef ar ei ben ei hun "fel lloer ddi-gartref rhwng lluosowgrwydd sêr," serch hynny, gan na wna neb bethau mawr yn gwbl unig ac ar ei ben ei hun. Ychwaneger ato yr ardderchog Le Gonidec, "*Reizer ar Brezoneg*," fel y galwyd ef yn gywir—Deddfwr y Llydaweg. Ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf, Le Gonidec a ddiffiniodd ac a roddes ddsbarth ar iaith oedd ar fedr dirywio'n fregliach anadferadwy. Ei Ramadeg a'i Eiriaduron ydyw'r gloddfa i ysgolheigion a beirdd hyd y dydd heddiw. Yn wahanol i Villemarqué, bu'n rhaid iddo dreulio'i oes bron yn gyfan ymhell o dŷ ei dadau, i ennill tipyn o fara at gadw corff ac enaid ynghyd. Gellwch ddarllen cyfran o'i gyni yn ei lythyrau at y Cymro da, Thomas Price (Carnhuanawc). Bywyd o arwriaeth di-gydnabod, mewn prinder, unigedd, distadled. Ar bob cyfrif, gosodwn ef gyda Villemarqué—nid yn gwbl gydradd, efallai, ond yn sicr yn gytún yn cydweithio i fawrhau a gogoneddu Llydaw. Bu Le Gonidec farw yr union ddydd y derbyniwyd Villemarqué i gylch yr Orsedd, ond cafodd Villemarqué fyw yn oleuad i'w ganrif hyd ei diwedd bron. Cafodd weled y fflam a gyneuwyd ganddo ef yn fflachio yn llygaid a llafur to ar ôl to o'i feibion-yn-yr-ysbryd—Brizeuz, Prosper Proux, Luzel, La Borderie, Quellien, Louis Tiercelin, Vallée, Berthou . . . Taldir . . . Calloc'h.

PENNOD XII

Y MORBIHAN;—AURAY, CARNAC, VANNES

Y BORE olaf yr oeddwn yng Nghemperlé, esgynnais i ben un o'r bencydd gleision sy'n cyfodi eu bronnydd uwchlaw'r dref. Yr oeddwn am gael un olwg olaf ar yr holl fan cyn troi fy wyneb i ffwrdd, ac am fanylu ar y modd yr estynnai'r wlad ei glesni o goed a dail a gwair hyd at gyrrau'r dref, nes eu toddi i'w gilydd. Siriolai gwedd y fro hawddgar, fel y lledai allan yn gefnennau ac yn blygion i bob cyfeiriad; ac ni pheidiai â'i gwenu wrth nesu i lawr at y dref wenllwyd hen, ac ymestyn yn garuaidd trwy ei bylchau a'i hadwyau fel pe bai i'w choffeidio i gyd. O'i mynwes gadawai i'w dwy afon lifo i lawr yn barabllus ddiddig i ganol y dref, gan lawenychu'r preswylwyr â'u ffrydiau dwfn-drystiog. Rhoddai flewyn melys i'r gwartheg a borai'n ddiwyd ar ael y bryn, a lle cynnes iddynt orwedd arno i gnoi eu cil. Eisteddais i lawr tan afallen oedd yn ymyl, a dechreuais wrando'n astud freuddwydiol ar leferydd y meysydd, a'r mil llyisiau a dyfai o'u bywyd. Ni chyrhaeddai'r un o leisiau'r dref yno, na chri plentyn yn crïo, na sŵn yr esgidiau pren ar yr heolydd. Ac o'r dyfnder distaw, uwchlaw'r grisiau a'r teiau, codai'r ddwy eglwys eu hadenydd amddiffynnol dros yr awrygylch mynachaid, y naill ei thŵr fel coron fawr, a'r llall ei saeth fel pinac teml yng Nghaersalem. Yna daeth cryndod drwy ganol y llonyddwch, a sŵn soniarus cloc yn taro un-ar-ddeg o'r gloch.

Y MORBIHAN;—AURAY, CARNAC, VANNES

Yr oedd yn hen bryd imi hwylio am yr orsaf. Erbyn imi gyrraedd, yr oedd hi'n llawn gan ferched yn dlyision yn eu gwisg Lydewig—y benwisg ysnodennog am eu pennau, a'r ffrociau o felfed du a phorffor, yn llawn o frodwaith manwl, amdanynt. Diamau gennyf na weddai'r dillad hyn i bawb. Ond i ferched gosgeiddig o'r wlad, a lliw gwridog haul a diniweidrwydd ar eu hwynebau, ni allai dim fod yn harddach. Er mai o'r wisg fynachaid y tardda'r benwisg Lydewig, y mae, o leiaf yn y fro rhwng Quimper a Quimperlé, wedi llwyr ymddihatru oddi wrth ei gwedd fynachaid; ac ymddengys bellach yn swynol a serchog yn amlder ei llun o ardal i ardal. Amrywia'n ddiwedd, yn ôl y modd y clymir yr adenydd, y dolennir yr ysnodennau, ac yn y blaen; ac y mae'n rhan hollol hanfodol o olygfeydd Llydaw. Yn eu plygion hwy y mae nid ychydig o wreiddioldeb y wlad yn trigo. I raddau llai efallai, y mae'r un peth yn wir hefyd am wisg y dynion. Yma, sylwais ar eu hetiau copa uchel, a'r cylch melfed amdano, ond heb y rhubanau'n hongian sydd gan drigolion St.-Pol-de-Léon.

Cefais daith ddifyr wrth fynd tuag Auray. Gwelais lawer iawn o dai to gwellt, fwy nag yn un rhan arall o Lydaw. Ond nid oedd rhyw ormod o swyn yn perthyn iddynt. Edrychent yn bur dlodaidd, ac ar y cyfan yn anolygus braidd. Efallai mai'r lliw llwydaidd oedd arnynt a gyfrifai am hyn. Yr oedd yn llawn mwy diddorol gwylio'r wlad o'n cwmpas, yn morio o gaeau a theisi gwair ac ŷd, yng nghanol eangderau o dir gwastad. Pryd arall, gorweddai'r ysgubau'n llonydd ar y grynnau, ac weithiau'n fôn-fôn mewn sopynnau digon

PERERINDODAU

blêr. Collais olwg ar yr holl brysurdeb gwledig pan ddaethom i sŵn prysurdeb gwahanol yn *Lorient*. Porthladd mawr, yn ddiau, ond tref heb ormodedd o swyn imi. Ni wn i ddim faint o nodweddion Llydewig a berthyn iddi, ag eithrio mai ynddi y ganed Brizeuz, un o feirdd mawr Llydaw yn y ganrif ddiwethaf. Codi at y ffenestr, ysbio ar bobloedd lawer yn gwau trwy ei gilydd fel morgrug—ac i fwrdd.

Unwaith eto yr oeddym yn teithio drwy wastatir eang. Y mae'r wlad yn amlwg yn dlotach o lawer yma nag yn un rhan arall o Lydaw. Dyma'r *Morbihan*—y Môr Bychan—y môr oddi mewn i'r tir, megis, am ei fod yn frith o ynysoedd bychain. Ond yr hen enw arno ydyw *Bro-Wened*, Bro Wynedd yn ein geiriau ni, a chartref un o'r llwythau pennaf a orchfygwyd gan Iwl Cesar yn y flwyddyn 56 c.c. Ac, yn ôl y traddodiad Llydewig, onid yma y ffodd Gildas a Thaliesin? Bro bellennig, gan hynny, noddfa Seintiau a beirdd a chredoau a choelion hen, yn chwilio am ddihangfa rhag eu herlidwyr o ganrif i ganrif. Gyda'i choed a'i mân fforestydd, ei chyrrau eithinog a'i llenyrrch banadlog, ei cherrig y drudion, a'i meini hirion, paham na chuddiai hi drysorau o'r cynfyd, a'i atgofion am filoedd o flynyddoedd?

Dyma'r Afon *Blavet*, un o'r afonydd harddaf yn Llydaw. Clywais ddywedyd bod mordwyo arni hi o Hennebont tua'r môr gystal â'r cyfryw brofiad ar Afon *Rance* o *Sant Malo* i *Ddinan*, neu ar Afon *Odet* o Gemper i'r môr. Ni wn i ddim, gan na phrofais i mohono. Ond mi wn am hyfrydwch yr afondaith araf ar y ddwy arall, o'u dilyn yn ddiwyd ragor nag unwaith. Ni phenderfynais, er hynny, ba un o'r ddwy sydd hoffaf

Y MORBIHAN;—AURAY, CARNAC, VANNES

gennyf. Eithr, yn wir, paham y dylwn dafoli'r naill yn erbyn y llall? Rhoes y naill imi olwg newydd ar ragfuriau Sant Malo, a'i thref a'i heglwys yn cyfodi megis un adeilad rhyngof a phelydrau gwin; a gadawodd y llall imi weled Kemper yn ymbellhau ar ben bore glas, pan oedd yr haul yn dechrau taffu ei lewych dros ysgwydd bryn Fruguy ar saeth yr Eglwys Gadeiriol.

Gadawn yr afon, ac wele gyrraedd yr hen dref sydd yn eistedd o bobtu i'w glannau. *Hennebont* yw'r enw a welwch ar y map, ac ar byst yr orsaf, ond *Hen-pont* mewn Llydaweg. Ai'r hen bont, ai hynt neu ffordd y bont, ydyw ystyr yr enw, sydd fwy nag a fedraf i ei ddweud; ac ni chlywais fod neb eto wedi torri'r ddadl. Yr hyn a welwch â'r llygad ydyw tŵr yr Eglwys yn cysgodi'r holl fangre, ac, yn wir, yn cuddio'r eglwys ei hun o'r golwg yn lân. Gwelwch gip hefyd ar ragfuriau'r hen dref, a chewch efallai brin ddigon o amser i gofio am un o frwydrau mawr Rhyfel yr Olyniaeth, ac am arwriaeth Jeanne de Flandre. Ni ddisgynnais erioed yn Hennebont, ac ni phrofais gan hynny o rin yr hynafiaeth a ymddengys ar borth a rhagfur. Ni wn baham ychwaith, onid am nad oedd gennyf enw'r un Llydawr i ymweled ag ef ar fy nhro cyntaf trwy'r wlad. A phob tro wedyn, treuliais gymaint o amser yn y gorllewin fel nad oedd gennyf fawr yn weddill i'w roddi i Hennebont. Y mae gennyf le i gredu y cawn yno nid ychydig o'r hiraethus, atgofus swyn a berthyn i drefi hen.*

Yr oedd hi'n brynhawn erbyn hyn, a'r trê'n yn gyrru

* Yr oedd hyn yn wir hyd at y cyntaf dydd o Fai 1939, pryd y treuliais brynhawn yno yn yr amgylchiadau mwyaf cynhyrfus a brofais erioed, fel yr adroddais mewn lle arall (*Dyddlyfr Pythefnos*, tt. 98).

yn ei flaen orau y gallai drwy hin drymaidd. Ardaloedd o binwydd hyd eithaf golwg llygad, a meysydd a gerddi o afallennau yn ymestyn hyd at eu cysgodion hwy, ac yn hel o gwmpas mynych ffermdy to gwellt. Dyfod i'r un casgliad ag o'r blaen, nad yw Morbihan mor gyfoethog gwlad, nac mor amrywiol ei golygfeydd, â'r rhannau eraill. Ar y meddwl hwnnw, dyma arafu yn *Auray*; yn *Llydaweg*, *Alré*. Disgyn, a mynd allan o'r orsaf, a dechrau teimlo'r awyrgylch. Cerddais dan goed am hir, ac yna gwelais eglwys yn arddel enw *Gildas*. Teflais linyr mesur arni oddi allan, ac euthum i mewn. Ni chofiaf imi sylwi ar ddim byd yn neilltuol iawn, ag eithrio'r brif allor, ac ychydig o gerfio da yn un o'r capeli. Y nesaf peth a welais ydoedd Neuadd y Dref burion urddasol; a thu hwnt i honno, hen gapel. Mewn dim o dro safwn ar le agored a elwir y *promenade du Loc*, a gwelwn yn agor o'm blaen olygfa wych ar yr holl wlad yn ymyl. Eisteddais i lawr yno, a daeth ton ar don o dristwch llethol drosof. Ai am fy mod yn unig ac yn hiraethus, ni wn. Ond gwn yn iawn imi deimlo bod yr olygfa ei hun, rywfodd, yn drist dan y ffurfafen lendew, isel. Un peth arall a wn yn dda: imi gofio'n eglur mai'r dydd hwnnw, flwyddyn yn ôl, oedd y dydd olaf y bu fy Mam byw. Rhwng popeth ni allwn deimlo'n amgen. A phan ddisgynnodd diferynnau o law o'r cymylau, a chnwl cloch o ben un o'r eglwysi, yr oedd fy ngofid yn llawn.

Bûm yn *Auray* amryw droeon wedi hynny, ond ni ddaeth y gawod tristwch heibio imi fyth wedyn. Mwynheais gerdded tan leuad Fedi gyda'r Cei sy'n hanner cysgu islaw'r coed, a blyg eu hanwes amdano. Yr oedd

hi'n hyfrydwch diledryw cael oedi'n hir ar y bont, a throi'n ôl yn hwyr i'm llety yn yr *Hotél du Pavillon*. Mor ddymunol oedd codi yn y bore yno, a chael blas ar goffi yng nghysgod dail yr ardd! Cewch godi allan i edrych ar ambell hen dŷ diddorol, ac ymweled â dwy neu dair o eglwysi, a cherdded, os mynnwch, i'r *Chartreuse*. Chwi a genwch y gloch yno, ac a deimlwch sangu ar dir cysegredig. Disgwyliwch weled angel yn dyfod i agor i chwi, neu ryw anllygradwy arall. Atolwg, lleian sydd yma. Hi a ddaw yn bur ac yn barabl-isel, ac a ddengys i chwi, yn ddwys ddi-annerch, y clas . . . a'r capel . . . lle y gorwedd llwch y naw cant a laddwyd yn ymyl. Uwch y fan ofnadwy y mae lamp yn gwyro ei goleuni i lawr at yr esgyrn. Gwynion esgyrn santaidd sydd yno—gweddillion y dewrion a laddwyd yn Awst 1795 oherwydd eu ffyddlondeb i'r frenhiniaeth Ffrengig. Y mae ganddynt hwy eu lle . . . yn sicr . . . yn y Deffro Llydewig.

Cyn troi allan, bydd eich meddwl wedi dwysáu cryn dipyn, a'ch enaid yn llawn o'r naw cyfriniol a gyfyd o'r tir hwn megis arogldarth o gangell eglwys. Bydd defosiwn y pererinion ar eich pen, a bydd arnoch hiraeth am gyrchu tua'r bererindod yn *Sainte Anne d'Auray*. Ers tua chan mlynedd y mae'n lle cysegredig yng ngolwg "pererinion mwynion mân," ac erbyn heddiw cynhelir yno un o bardynau mwyaf *Llydaw*. Dywed yr hanes i fachgennyn o'r enw *Yves Nicolazic* weled mam *Mair Forwyn* yno, a'i chlywed yn ei orchymyn i godi capel iddi. Ni chredai neb mo'i air hyd oni ddarganfu ef hen ddelw frau ohoni. Ar unwaith llifodd yr offrymau, a chyfodwyd eglwys a chwffaint yn ebrwydd. Er imi ym-

PERERINDODAU

weled â'r fan, ni bûm erioed yn y pardwn, a gynhelir ar y pumed dydd ar hugain o Orffennaf bob blwyddyn. Y mae'r rheswm yn syml. Go brin y byddaf wedi cyrraedd i Lydaw mor gynnar â hynny; ac os byddaf, yn y Gogledd, rhywle rhwng Gwengamp a Morlaix, y'm ceir yr adeg honno. Efallai fod un rheswm arall. Clywais sibwrdd nad yw'r pardwn hwn, er ei faintioli, mor nodweddiadol Lydewig ag aml un arall a welais, ac yn enwedig yng Ngwengamp a *Sainte Anne la Palud*. Disgrifiais y naill yn fy llyfr cyntaf ar Lydaw, a bydd gennyf fawl i'r llall cyn diwedd y llyfr hwn.

* * * *

Y bore trannoeth cyntaf wedi imi gyrraedd Auray, mi gyfodais yn fore, a mynd gyda'r trêen chwech o'r gloch tua *Charnac*. Bwriai law trwm yn gyson, ond yr oedd y wlad yn hynod o las a swynol. Disgynnais yng ngorsaf *Plouharnel*, a cherdded y tair milltir oddi yno i *Garnac*. Gan daered y glaw, ni chefais y daith yn esmwyth iawn. Ambell faen hir yma a thraw, a chloddiau uchel eithinig oedd fy nghwmni nes dyfod i bentref *Plouharnel*. Hoffais olwg ei dai gwynion, a chlywed ei Eglwys yn galw'r ardal i'r offeren fore. Agorai drysau'r tai ym mhobman, ac allan ohonynt cerddodd y merched dan eu penwisg wen, a myned yn llawen tua'r eglwys. Yn nes ymlaen dipyn, gwelais ddolmen *Kergavat*, ac yna abat y chwfaint. Toc wedi hynny yr oeddwn yng Ngharnac ei hun, ac yn eistedd yn un o'i dai yntau am bryd o goffi a bara-ymentyn. Bellach yr oeddwn yn barod at waith y dydd.

Cerddais y pentref yn gyntaf, ac edrychais ar yr

Y MORBIHAN;—AURAY, CARNAC, VANNES

eglwys a saif ar y canol. Gwelais yn fuan ei chysegro hi i Sant a elwir Cornély ac a gyfrifir yma yn nawddsant y gwartheg. Dengys ei gerflun o'r tu allan i'r eglwys, a'r darluniau oddi mewn sydd yn adrodd tipyn o'i hanes, ei fod ef yn barchus iawn yn ei blwyf. A phe buaswn yma ar ddydd ei bardwn, yr ail Sul ym Medi, mi a welsw'n brofion eraill o'i boblogrwydd. Er na offrymir iddo heddiw, megis cynt, offrymau o fustach, offrymir o hyd iddo roddion eraill, heblaw rhawn. Tua'r un adeg hefyd cynhelir ffair yno, a'r diwrnod hwnnw, o flaen yr offeren fawr, trefna'r amaethwyr eu hanifeiliaid yn hanner cylch o flaen yr eglwys, a dyry'r offeiriaid eu bendith arnynt. Hen arfer a ddaeth i lawr o ddyfnder-oedd yr oesoedd bore, yn ddiâu, ac a Gristioneiddir mor gyflym ag y gedy arafgarwch y Llydawr iddo ddigwydd. Yn Llandderfel yr oedd yr un math o arfer yn union yn bod, hyd y flwyddyn 1538. A'r adeg honno yr oedd y Doctor Elis Prys o Blas Iolyn "yn dwyn rhwysg mawr yng Ngogledd Cymru," ys dywed cyfoeswr iddo. Cododd "digasedd" rhyngddo ef a pherson Llandderfel, ac "er drwg i'r neb y peris y doctor dynnu delw Dderfel i'r llawr, a'i dwyn hi oddi yno." A'i diwedd hi fu ei llosgi'n gyhoeddus "ar vaes y gof" yn Llundain ar yr ail ddydd ar hugain o fis Mai 1538. Ond ni feiddiai'r un Doctor Coch wneud y fath beth yng Ngharnac.

Trois allan i'r wlad, a dechrau siarad â dau Lydawr a gerddai i'r un cyfeiriad. Dëellais ar unwaith nad oedd yn dda ganddynt fy Llydaweg i. "Taith Léon a siaradwch chwi," meddent, gan awgrymu nad oedd honno hanner cystal â'u hiaith hwy. "Nid ydym ni'n siarad honno o gwbl. Y mae gennym ni un sy'n eiddo i ni yma."

"Ond pa waeth os medrwch ei deall? Un iaith sydd i Lydaw i gyd, o leiaf i'r *Breiz-Izel*."

"*Vous avez tort, Monsieur,*" meddai'r ddau, ac ni fynnent siarad Llydaweg namyn Llydaweg yr ardal yr oeddynt yn byw ynddi.

Fe ellid clywed ymddiddan gweddol gyffelyb mewn unrhyw ran o Lydaw. Nid oes, efallai, ar wyneb daear Ewrop yr un wlad wedi ei thorri i fyny yn gymaint i ardaloedd a phlwyfi â hi. Y mae gan bob ardal ei gwisg ei hun, ei harferion a'i choelion ei hun, ie, a hyd yn oed ei hiaith ei hun. Byd y Llydawr ydyw ei ardal ef ei hun; ac yn wir, y mae pob ardal yno yn gymdogaeth, yn gymdeithas glòs, gaeëdig—mewn gair, yn fyd bach ynddo ei hun. Ac efallai fod hyn yn fwy gwir am *Fro-Wened* nag am unrhyw un arall o daleithiau Llydaw. Yn y lleill y mae'r iaith, ar y cyfan, yn sylfaenol debyg. Ond yma, y mae'r dafodiaith yn ddiarnheuol wahanol. Nid ydyw'r acen ar y sillaf olaf ond un, fel yn y lleill, ond ar yr olaf—yr un fath ag yn Ffrangeg. O'r herwydd, seinia'r iaith efallai'n esmwythach, a thueddir i ryw doddi'r seiniau celyd.

Gadewais y ddau Lydawr, a symudais ymlaen yn synfyfyr at y Meini Hirion. Pan gyrhaeddais at un rhes ohonynt a elwir *Kermario*, dyma chwech o blant troednoeth yn rhedeg ataf. Cyn y gallwn dorri gair â hwy, wele'r chwech yn cyd-adrodd eu ffregod am ystyr yr holl gladdfa gerrig a welwn yn ymestyn yn filoedd o'm blaen. "Yr ydych yma'n sefyll wrth linell *Kermario* o'r meini hirion. Y mae yma ddeg rhes ohonynt . . ."

"Pwy a ddysgodd y llith yna i chwi, blant y gwllith a'r glaw?"

"Monsieur Rouzic," oedd yr ateb balch.

Clywais Loth yn y College de France yn sôn am y gŵr hwn, ac yn ei ganmol yn fawr iawn. Yr oeddwn yn penderfynu ei weled. Aeth y plant ymlaen gyda'u gwers, y côr bach yn adrodd hynafiaeth y tir a roddodd olau dydd iddynt, a chryfder y cedyrn a gododd y meini. Telais ychydig iddynt, a diflanasant fel tylwyth teg dros y glaswellt a rhwng y meini, yn ôl i'r gwllith.

Daliais innau i gerdded yn fy mlaen o faen i faen, ac o reng i reng ohonynt. Ai hen gartref plygeiniol crefyddau cyntaf y byd, pan gyd-ganai sêr y bore, a welwn o'm cylch? Ai pererinfâ dynoliaeth i'r fan y claddodd hi ei phatriarchiaid, ei phenaethiaid a'i phendefigion cyntefig? Ai'r patrwm cyntaf i'r Calfariau a'r capeli a'r eglwysi a gyfyd eu pennau o ganol eu mwswg drwy'r holl wlad? Ai temlau ac allorau i'r "Duw nid adweinir," neu—gan nad oes iddynt do ond y cymylau a'r ffurfafennau—ai cartref i'r Arglwydd "nid yw yn trigo mewn temlau o waith dwylaw"? Ein gwyddoniaeth fechan, falch ni, paham na fedr hi egluro amcan y cewri a dynnodd y meini anferth hyn o'u lle, ac a'u dug o bellterau gan eu plannu i lawr yma yng nghanol eithin a banadl? Pa ryfedd i lèn werin yr ardaloedd hyn wneuthur ohonynt filwyr Rhufeinig a drowyd yn gerrig gan eu Sant hwy, Sant Cornély?

Wedi bod am hir yn bwhwman yn y glaw, ac yn pendroni yng nghylch y gwareiddiad rhyfedd a ddatguddiai—neu'n hytrach a guddiai—y meini a'r cromlechi, neséais at glogwyn bychan a elwir y Garnedd Sant-Michel. Peidiodd y glaw, cododd awelon o'r môr, rhwygodd y cymylau a gwasgarasant. Yr oedd y wybren

oll yn las. Trawodd yr haul ar y mil meini mwsoglyd, ar ros o eithin a banadl a phinwydd, ac ar ewyn dirifedi donnau; a pheri i'r cyfan oll ymddisgleirio, bob un yn ei liw a'i lun ei hun. Gloywai'r cloddiau cerrig megis cadwyni gemog o gwmpas caeau o fyd melyn, adladd glas, a rhedyn rhuddgoch. Tywynnai'r tai gwynion o un i un gyda glas y pinwydd. I'r dde, tua'r môr, ymestynnai gorynys *Quiberon*, ac i'r chwith ymbellhâi gorynys *Locmariaquer*, ac ar ei hôl hithau, gorynys *Rhuis*. Onid yno y dywedir i Sant Gildas gyfodi ei fynachlog pan gyrhaeddodd yma o Brydain? Ac onid yno y bu'r digymar Abelard yn tywys ei fynaich anystywallt, hyd y dydd y gwrthryfelasant yn ei erbyn? Pa ryfedd i'r meddyliwr balch hwnnw fynegi dyfnderoedd ei hiraeth a'i ddipter mewn llythyrau rhyfedd at Héloïse?

"Yr wyf yn trigo," meddai wrth ei anwylyd, "mewn gwlad farbaraidd, ei hiaith yn ddieithr imi, ac yn gas gan fy nghalon. Nid oes genyf gymdeithas ond â dynion ffyrnig. Y mae fy rhodfeydd gydag ymylon anhygyrch môr llidiog. Nid oes reol gan fy mynaich ond bod yn ddi-reol. Nid addurnant eu pyrth ond â thraed ewigod, bleiddiaid, arthod, baeddod gwyllt, ac ysglyfaeth erchyll tylluanod. O ddydd i ddydd daw peryglon newydd ar fy ngwarthaf."

Dyna rai o acennau Chateaubriand a Renan, yn sier ddigon. A phwy a ddeil bellach na chwiliai ysgolheigion a meddylwyr yr Oesoedd Canol gilfachau cuddiedig eu calonnau? O'r dynion ffyrnig y sonia Abelard amdanynt ni welaf arwydd yn un lle. Ac y mae hyd yn oed yr ewigod a'r bleiddiaid a'r arthod wedi ffoi o'r tir ers canrifoedd. Cymerasai ef at ei swydd o ddifrif—yn

ormod o ddifrif, efallai—a chododd yr holl fynaich yn ei erbyn, gan fwriadu ei wenwyno; a buasai wedi ei ladd oni bai am hen glochydd a'i tywysodd hyd ffordd tan y ddaear, nes ennill ohono'r wlad liw nos. Yna, aeth drachefn yn ôl i Baris. A phe dychwelai heddiw, odid na chât'r lle yn llawer mwy wrth ei fodd.

Disgyn o ben y *Mont Saint-Michel*, a myned i mewn i'w berfeddion rhwng parwydydd o gerrig, nes dyfod i un ystafell eang. Gellwch gael mymryn bach o gyffelyb brofiad ym Mryn Celli Ddu yn Sir Fôn, ond nid yr un o dipyn. Bychan iawn ydyw hwnnw wrth y gladdfa anferth yng Ngharnac, sydd yn eich dwyn allan nid yn unig oddi wrth olau dydd ond yn creu ynoch iasau annirnadwy. Cyn ffoi o'r rhain o'ch croen, ewch i'r Amgueddfa, lle y cewch y cyfaill annwyl, Zacharie le Rouzic, i'ch tywys o'r naill ystafell i'r llall, gan egluro ichwi yr holl gyfoeth o dlysau am fraich a gwddf, bwyell o bob math, gwaywffyn a phicellau, cwpanau a chawgiau addurn, ac ni chofiaf i faint o greiriau a chelfi eraill a gasglodd ef yma. Dewin yw ef yng nghanol ei drysorau, gŵr o'r ardal, tyddynnwr syml, ond bod ganddo reddf gyfewin i ddarllen cyfrinachau gweddillion y tir hwn, a nwyd i roddi ei ddyfais a'i ddyddiau i'w llythrennu.* Gwerinwr—a gydnabyddir gan y byd ysgolheigaidd fel un o'r awdurdodau uchaf oll ar y Cyn-Hanes!

* * * * *

Cyfeiriais fy nghamre unwaith yn ychwaneg at yr eglwys, i gael un edrychiad arall ar ei phorth prydferth a cherflun ei Sant a saeth ei thŵr. Wedyn am y trêr,

* Bu farw y gaeaf diwethaf yn 75 mlwydd oed.

ac yn ôl tuag *Auray*, ac oddi yno ymlaen i *Vannes*, trwy wlad undonog o wastad, ond yn llawn o dai to gwellt a gwartheg lliwgar. Gwelwn y ddinas beth o'r ffordd cyn cyrraedd, a rhoddodd imi ar unwaith argraff go ffafriol. Gwelwn eglwys uchel, a rhagfuriau llydain, a dau neu dri o dyrau crynion. Wedi disgyn fe'm cefais fy hun yn cerdded ar heol hir a rhesi o goed o bob tu iddi, ac yn cadw fy ngolwg ar y muriau, y tyrau, y pyrth a'r eglwysi. Deuthum at le agored lle safai Neuadd Dref ddigon golygus, a Choleg Jules Simon, ac yna yr Eglwys Gadeiriol. Canys y mae Vannes yn ddigon pwysig i fod yn ganolfan esgobaeth. Yr un pryd, nid oes camp neilltuol ar yr eglwys hon, a'i chymryd at ei gilydd. Ni ddeil gannwyll yn ymyl ei chymhares yn St.-Pol-de-Léon, heb sôn am honno yng Nghemper.

Chwiliwn am rywbeth arall. Dyma'r amgueddfa, a fu unwaith yn Senedd-dy Llydaw yn ystod blynyddoedd olaf ei hannibyniaeth; ac yma y daeth Ffrancis I, brenin Ffrainc, i uno'r ddwy wlad. Y Llydawiaid eu hunain, ar awgrym un ohonynt, a benderfynodd roddi eu gwlad iddo, ond nid heb wrthwynebiad pendant lleiafrif brwd. Gallai'r brenin gyhoeddi ei fwriad fel hyn: "Gan blygu i ddymuniaid y Seneddwyr . . . yr ydym yn uno ac yn clymu gwlad a dugiaeth Llydaw wrth frenhiniaeth a choron Ffrainc am byth." Ychwanegai yr addewid hon: "Ni a ddymunwn gadw a chynnal yn gyfan yr hawliau a'r breintiau a fu gan y wlad a'r ddugiaeth hon ac sydd ganddi hyd yr awr hon." Ar y pedwerydd dydd ar ddeg o fis Awst 1532 y bu hyn. Tair blynedd a hanner yn ddiweddarach, yr oedd Harri VIII yn cyhoeddi ddarfod iddo, â gair o'i enau, uno a chlymu a chyfangysylltu

Cymru wrth deyrnas Lloegr. Ond nid oes gofnod ar gael ar lyfr na llawysgrif i'r un Cymro godi ei lef yn erbyn y weithred honno. Cymru yw'r unig un o'r gwledydd Celtaidd a lyncwyd yn swyddogol heb wrthdystiad gan neb!

Fe welir, gan hynny, fod Vannes yn llawn o atgofion hanesyddol. Ond ni chefais hi hanner mor ddiddorol â Chemper. Nid ydyw mor llawn o arwyddion allanol, mewn cofgolofnau ac adeiladau. A rhaid i ddinas, os ydyw am ennill eich serch, feddu nid yn unig ar hanes ond hefyd ar brofion diriaethol o'r hanes hwnnw. Rhaid iddi fod yn berchen ar liaws o adeiladau hen, ar amrywiaeth o gofion mewn meini, ar aml gongl neu le agored, â gwir nod y gorffennol arnynt. Rhaid iddi beri bod holl binaglau ei hanes yn diferu ac yn distyll o bennau ei thai a'i heglwysi a'i muriau. Rhaid i'w holl safiad hi, a'i hymarweddiad megis, ymddangos yn gorff o ddi-freg lif y canrifoedd. Ni thâl pwt o dalcen plasty fan yma, a darn o borth hen neu dyrau draw, oni bo eu henaint yn wybyddus i'r adeiladau ieuaf, ac yn barchus yn eu golwg. Cyfanwaith yw dinas, fel pob camp a ddaeth allan o ddwylo dyn.

Nid cyfanwaith o'r fath ydyw Vannes, ond pentwr o fanion, digon diddorol ynddynt eu hunain; clytwaith, nid campwaith. Mi a gefais lawer o flas, er hynny, wrth chwilio am y pyrth, a cherdded ar y muriau, a dyfod unwaith neu ddwy i heolydd lle ni chlywid y sibrwd lleiaf am oriau bwy'i gilydd. Dinas ddistaw, hamddenol iawn. Tyf coed yn hyf hyd at yr hen byrth, a gwena gwelyau o flodau yn union wrth droed y tyrau. Am unwaith mi led-dybiech eich bod yn edrych i lawr ar

PERERINDODAU

y gerddi blodau islaw Castell Angers. Ond deuai'r tai golchi ar lan yr afon i'ch plannu'n ôl yn ddigon pendant yn Llydaw. Yr oedd yno brysurdeb mawr, mwy nag yn unlle arall yn yr holl ddinas.

Ymwelais â Vannes drachefn, ar y dydd cyntaf o Fai 1939, pan oedd cysgodion y rhyfel yn disgyn yn drymach, drymach, o awr i awr. Ac fe'i cefais yn ddinas ddifyrrach nag erioed o'r blaen. Deuthum yn ebrwydd i'r casgliad na wneuthum chwarae teg â hi yn y gorffennol. Yn ddisyfyd, mewn ychydig oriau, gafaelodd ynof â gafael gadarn; gweodd efynnau cyfrwys amdanaf, a dechreuodd dyfu arnaf. Y noson honno y teimlais ei hudoliaeth am y tro cyntaf, a daeth awydd nwydus arnaf i aros yno, i dario'n hir rhwng ei heolydd conglog, lliwus a chyfar-eddol. Teimlaswn dyndra a phwysau rhyfel-wedi-cyrraedd yn ystod y dydd, ac aethwn yn druenus o drist. Disgyn yn Vannes, a gweld plant bach yn chwarae yn yr Ardd Gyhoeddus—ac ar amrantiad aeth y ddinas i olygu rhywbeth cysurol, calonogol a thangnefeddus. Dyma fi'n mynd a cherdded arnaf gyda'r Rhodfa Victor Hugo tua chanol y dref, ac i'r Eglwys, ac eto'n ôl allan i'r dref. O'm cwmpas yr oedd prysurdeb bywyd, a dynion a merched yn cerdded yn llon, a gwên ar eu hwyneb-ebau. Pwy a fyddai ddigalon a thrist, a chalon y bobl hyn yn curo mor gynnes, mor groesawgar, mor debyg i bob-dydd? Gwir yw'r gair, a gonest—y mae'n rhaid imi fynd i Vannes eto!

PENNOD XIII

Y TAD VALLÉE A'I GYLCH

BORE trannoeth, yr oeddwn ar fy nhraed ychydig wedi pump, oherwydd imi addo bod yng Ngwengamp cyn diwedd y dydd hwnnw; ac yr oedd yn fy mryd alw gyda'r Tad Vallée yn St. Brieuc ar fy ffordd yno. O'm blaen yr oedd diwrnod go hir.

Daliais y trêrn cyntaf am *Bontivy*, gan deithio i mewn i'r berfeddwlad yr un fath ag o Forlaix i Gemper, ond fy mod lawer yn fwy i'r dwyrain. Mewn gwirionedd, âi'r daith hon â mi agos yn union ar hyd y ffin rhwng y Llydaweg ar y chwith imi, a'r Ffrangeg tua'r dde. Y mae'r ffin bron â bod yn gymwys yr un heddiw ag ydoedd yn y ddegfed neu'r ddeuddegfed ganrif. Chwarae teg i'r Llydaweg! Cadwodd ei thir yn wyrthiol drwy ganrifoedd maith o ryfela hir yn ei herbyn. Yn ail chwarter yr ugeinfed ganrif, deil i'w gadw er gwaethaf y miloedd dylanwadau sy'n ymgynghori ynghyd i'w lladd. Pwy a wŷr na bydd hi yma yn rhoddi tystiolaeth drosti ei hun ganrifoedd lawer yn ddiweddarach? Y mae ganddi ddau ddylanwad mawr o'i phlaid. Yn gyntaf, y mae ganddi filoedd o'i phlant na wyddant nemor air ar dafod o un iaith arall, mantais a gollodd y Gymraeg ers tro byd. Ac yn ail, y mae ganddi ddeffroad goreugwyr ei gwlad, y rhai, er pob gwendidau a gwahaniaethau, a lwydda yn union deg i roddi iddi ei phriod le yn y gyfundrefn addysg. Yr oeddwn i yn mynd i weled arch-

PERERINDODAU

offeiriad a phen-perffeithydd ffydd y rhai hynny cyn diwedd y dwthwn hwnnw.

Bore go lew o braf; yr haul yn ymollwng trwy'r cmylau yn awr ac yn y man, a hwythau bryd arall yn rhoi llen am ei wyneb. Treiddiai drachefn, a saethai ei belydrau melyn i lawr hyd las y dolydd. Dolau, dyffrynoedd, bryniau, a chreigiau oedd ar ein ffordd drwy'r wlad anwastad, ddifyr honno. Gwelwn wedd weili o geffylau ar eu ffordd i'r caeau yn y bore cyntaf, a gwedd yn eu gwaith yn ddiweddarach, ac weithiau yn torri eu syched yn yr afon. Afon Blavet ydyw hi, a gwelsom hi unwaith o'r blaen, yn hardd ei glannau yn Hennebont. Dyma hi eto, yn nes i'w tharddiad o dipyn, ond yn hynod o falch o'r llecynnau hyfryd a'r unigeddau tawel a leinw â'i lleferydd. Ym Mhontivy, treigla gydag ymyl hen gastell y Rohaniaid, a chofia megis doe am ei godi ef, a'r eglwys o'i flaen.

Ni chawn aros i fân-rodiana yn heolydd culion yr *Hen Dref*, nac i frasgamu dros ystrydoedd llydain y *Dref Newydd*. Cyflymwn yn ein blaen tua'r gogledd. Deil y wlad yn dlos bob gafaél. Brithir hi'n gyson gan brysgwydd a llennyrc'h, bryniau a chreigiau, a phob hyn-a-hyn safwn yn y gorsafoedd i lygadu ar dyrau eglwys yn codi allan o'r coed, neu ar do mwsogl y capeli yn ymguddio tanynt. Daw'r môr i'r golwg, arafa'r trê'n ei chwyrnellu chwim, y mae *St. Briec* ger llaw. Aros, disgyn. Dyna ni wedi croesi o'r De i'r Gogledd.

Hwyllo parth â thŷ Vallée ar unwaith. Dyma'r tro cyntaf erioed imi fynd i chwilio amdano. Clywswn lawer yn ei gylch gan fy nghyfeillion ym Mharis cyn cychwyn am Lydaw; ac yr oedd ei Eiriadur a'i Ramadeg gennyf

Y TAD VALLÉE A'I GYLCH

ers mwy na hanner blwyddyn. Clywais lawer iawn wedyn wrth ymgomio â hwn a'r llall ar fy nhaith drwy'r wlad, a phob sôn yn troi am wendid ei gorff, ac am gryfder ei ewyllys. Yr hen bererin! O'r holl rai llwyd eu gwedd, dyma'r llwytaf. O eiddilod y ddynoliaeth, dyma'r eiddilaf; o'r gweiniaid, y gwannaf; o'r ceimion, y camaf; o'r ysig, y mwyaf ysig. Ymddengys yn rhy gleiriach i symud, a phan symudo y mae'n olygfa druenus. O'r henwyr i gyd, dyma'r hynaf. Y *tad Vallée*, heb ddim amheuaeth. Am ei ben y mae cap du yn dynn, ac ar ei ruddiau henllwyd y mae barf yn drwch. Uchel yw ei dalcen rhychiog, ac o dano y mae llygaid bychain. Allan o'i enau daw llais isel, cwynfannus, rhwng ysbeidiau o golli anadl. Pwy a draetha hiraeth ac adfyd ei enaid ef? Pan edrychwn arno, nid oes ganddo bryd na thegwch. Dirmygedig yw ei olwg, a gwrthodedig gan ddynion. Ai gŵr ar dranc, ai gwas yr Arglwydd? Pwy bynnag oedd y "gwas" a ddisgrifia'r ail Eseiá, dyma ŵr a leinw'r llun yn burion llawn.

Pan euthum i mewn ato, a'i gyfarch mewn Cymraeg a Llydaweg, daeth gwên i'r llygaid trist, a cherddodd ton o lawenydd dros y wyneb ansiriol. Gallai'r bychan diolwg hwn groesawu megis tywysog, a gallwn innau anghofio ei drem ddigalon. Siaradai Gymraeg heb fawr fwy o drafferth nag yw *siarad* o gwbl iddo. Holai am Gymru gyda phwyslais atgofus, a barai imi ryw hanner dychmygu ei fod ef yn un o'r Llydawiaid cyntaf a groesodd oddi yma i Lydaw. Nid rhyfedd ei fod yn edrych mor hen. Gwrandewais yn hir arno'n adrodd ei dario yn ein plith unwaith, ac yn adrodd am ryfeddodau a dirgelion yr Eisteddfodau a'r Gorseddau, a'r prifeirdd

enwog yn eu phylacterau. Ni wenais wrth ei glywed yn sôn am yr edmygedd a lanwai ei fron pan syllai'n syn ar gyfrinachau'r Derwyddon ar ben y maen llog. Iddo ef, yr oedd y cwbl oll yn gysegredig, a phe amgen, darfyddai am Gymru megis llestr maluriedig. Dangosai imi weithiau Dyfed, Elfed, Ceiriog, Mynyddog, Eifion Wyn, Daniel Owen, ac ymfalchïai ynddynt megis pe baent yn greiriau santaidd.

Trodd ein hymddiddan yn araf deg am Lydaw. Iddo ef, merch Cymru ydyw Llydaw, ac os yw'r fam yn gysegredig, pa fodd na byddai'r ferch hefyd? Ynddi hi y mae ef yn llythrennol yn byw, yn symud ac yn bod. Fel y câr y sant ei Dduw, felly y câr yntau ei wlad. Y mae'n trigo ar y gororau lle y cyrhaedda ei iaith ei therfynau, ac ef yw'r gwyliwr sydd ar y tŵr yn gwylio drosti. Yno y clyw ei chri o holl barthau'r wlad, yno y gwrendy ar ei griddfannau, ac yno y clustfeinia am y lleisiau a gyfyd i achub ei cham. Ato ef, megis at gysegr santaidd, y daw hen ac ieuainc i ymofyn am ysbrydiaeth ac am gadernid; ac oddi wrtho yr ânt allan wedi eu hadnewyddu yn yr ysbryd. Y dwthwn hwnnw, pan oeddwn i gydag ef, yr oedd cynhadledd genedlaethol yng Ngwengamp, a chrynai ei gorff ysig gan hyder wrth feddwl a breuddwydio am y pethau mawr a ddeuai oddi yno. Darllenai lythyrau, chwiliai'r rhaglenni, ac edrychai drwy'r papurau. Yn wir, yn wir, dyma'r olygfa fwyaf ysbrydoledig a welais yn Llydaw i gyd. Trodd yr eiddilyn diymadferth yn gadfridog buddugoliaethus, yn gwylio ymdaith ei fyddinoedd yn y pellter yn ôl ei gyfarwyddyd ef. Ymddangosai hyder a hiraeth ei galon fel egnion minteioedd a lluoedd arfog. O'r awr honno, y

mae'n anodd iawn imi un amser lwyr anobeithio am ddyfodol iaith, llên ac enaid Llydaw. Gyda gweddiâu ac ynni ac ysfeydd y difarw Sant hwn yn ymbil drosti, pa fodd nad achubir hi yn y man?

Ymwelais ag ef ddwywaith neu dair wedi hynny, a chefais bob tro yr un croeso, yr un caredigrwydd; yr un eiddilwch corff, ond heb fynd yn eiddilach; yr un arwyddion henaint, ond heb ymddangos yn hŷn. Bron cyn imi eistedd galwai ar y forwyn—Mari—i ddyfod â rhywbeth imi ei fwyta, yn enwedig y "*fars*," math o bastai Lydewig wedi ei gwneud o wyau a blawd, a'r "te o'r wlad," chwedl yntau. "*Digasit te, mar plich*," meddai wrthi, ac yntau yr un pryd yn llusgo o gwmpas i ddangos imi ei "*Notennou*," nodiadau ar Hanes Llydaw, ei gasgliad geiriau ar gyfer ei "Eiriadur," hen gerddi a gyhoeddasai, ôl-rifynnau o'r *Kroaz ar Vretoned* a fu'n ei olygu am ugain mlynedd, a lluoedd o ffrwythau eraill ei lafur parhaus. Daliai i siarad, er bod ei anadl yn swnio'n fyglyd fel megin wedi hen dreulio. Hoffai roddi tro yn ei feddwl am ysgrifenywyr cyfoes Llydaw, a'u pwysu a'u mesur, a'u cael yn brin neu fel arall, i raddau helaeth yn ôl cywirdeb eu horgraff, neu eu parodrwydd i ymgadw rhag ysgrifennu tafodiaith. Syniadau go beiriannol—syniadau geiriadurwr cyfyng—sydd ganddo am lenyddiaeth, ac ni fedr drafod arddull fawr gwell na phlentyn. Arall yw diddordeb Geiriadurwr, onide? Fel y Sant arall, Charles Péguy, "uchel" ac "isel" ydoedd ei ddau air mesur wrth farnu llenyddiaeth a llenorion. "Awen uchel," er enghraifft, oedd gan J. Calloc'h, Berthou, Le Garrek; ond "awen isel" gan Picard, a Thaldir y cerddi diweddaraf.

Yn nhŷ Vallée cyfarfûm â dau lenor arall, sef Ivonig Picard a M. le Roux. Y mae'r cyntaf yn athro coleg yn St. Brieuc, ac yn awdur llyfr o'r enw *E. Menez Arré ha War hor Maeziou*, sef nifer o gerddi bro, i gyd wedi eu cyfyngu i ganu mawl y Mynyddoedd Arré. Gŵr garw ei olwg braidd, a llais go gras ganddo, a'i ddiddordeb gwyllt wedi ei hoelio wrth greigiau a gwylltineb y rhan fwyaf mynyddig o Lydaw. Am yr hanner awr y bûm yn ei gwmni, yr unig beth a wnaeth oedd canmol gogoniant y gelli a'r gellydd a'r creigiau y ganed ef yn eu canol, gan ddisgyn o'u pennau yn awr ac eilwaith i roddi clod i fywyd o gysegriad y Tad Vallée. Am y gŵr arall, M. le Roux, neu, fel y'i geilw ei hun, Meven Mordiern, y mae'r cyfuniad rhyfeddaf a all fod heddiw o feudwy ac ysgolhaig. Ymddangosai bob amser yn farw lonydd ac yn ddi-awydd i agor ei enau. Eisteddai'n dawel fel delw yn ei gadair, gan roddi'r argraff o falchter swil, ofnus, ac o bellter deoledig oddi wrth y byd o'i gwmpas. Dëllais ei fod yn byw ar ei ben ei hun, heb frawd na chwaer, na mam na gwraig, ryw dair milltir oddi allan i St. Brieuc. Nid oes ganddo grefft yn y byd namyn darllen, ac ni thâl ei ddarllen ddim iddo ond fel moddion i gyfrannu at ysgolheigtod Lydewig. Mwn-glawdd yw llyfrau iddo ef, fel y gallo dynnu ohonynt wybodaeth, a ddyry at wasanaeth eraill, er gogoniant i Lydaw. Ni wn i ar y ddaear sut y mae'n byw, os nad ar unig afr yn blewynna tipyn ar y cloddiau o gylch ei dŷ. Bywyd mor brin, mor llwm, mor gyflwynedig, ag eiddo Seintiau'r chweched a'r seithfed ganrif.

Yn ei gysylltiadau y mae fel Melchisedec, yn ymddangos "heb achau" o gwbl; ac nid oes gennyf y rhithyn

lleiaf o syniad o ba le y daw. Dywedodd wrthyf iddo fod am ddwy flynedd ym Mharis, yn ddisgybl i Jubainville; a chanddo ef y dysgodd Lydaweg—dysgu ei darllen, nid ei llefaru. Pwy a fedrai draethu tristwch a thrueni y meudwy mwy neu lai mud hwn? Fel ei feistr, Vallée, nid ydyw'n byw nac yn bod i ddim ond Llydaw; yr unig iaith a gâr ar y ddaear ydyw Llydaweg. Ac wele, ni fedr siarad nemor ddim ohoni! Cysegra ei holl amseroedd a'i egnïon a'i freuddwydion, a holl ddirgelion ei galon, i'w chyfoethogi hi â dysg a disgleirdeb; ac eto ni fedr siarad Llydaweg â'r un Llydawr yn ei wlad ei hun. Dyna ddirgelwch sydd yn drueni annisgrifiol. Ymddiddanwn ag ef mewn Llydaweg, ond yr oedd hi'n rhaid i'r Llydawr ysol hwn ateb yn Ffrangeg. Trwy'r Tad Vallée yn unig y geill ef ei fynegi ei hun i'w gydwladwyr. Daw i'w dŷ ddeuddydd bob wythnos, gan drosglwyddo iddo gynnwys ei ddarllen yn ystod y dyddiau a aeth heibio. A dyna ydyw'r "*Notennou diwar-benn ar Gelled Koz*"*: ffrwyth darllen Meven Mordiern wedi ei ddwyn yn boeth-offrwm at y Tad Vallée, a'i drosi ganddo ef i Lydaweg. Llafur hynod o werthfawr, a esgorodd ar o bymtheg i ugain o gyfrolau sy'n llenwi lle pwysig yn y dadeni Llydewig.

* * * *

Yn niwedd Awst 1939, yr oeddwn drachefn ar grwydr yn Llydaw. Ac yn y brifddinas, Rennes, dyma fi'n dechrau holi Mordrel a Debauvais am fy nghyfeillion yn y wlad. Un o'r rhai cyntaf imi holi amdano oedd Vallée, ac ar unwaith fe'm sicrhawyd ei fod yn wael iawn. Nid oedd honno'n wybodaeth newydd, gan na

* *Nodiadau am yr Hen Geltiaid.*

chlywais ddim amgen na hynny bob tro y teithiwn yno. Ond y tro hwn, aed ymhellach na hynny, a dweud wrthyf ei fod wedi gadael ei hen gartref yn St. Brieuç a mynd i dreulio ei ddyddiau olaf mewn clafdy, neu *maison de repos*, yn ymyl Rennes. "Yr wyf am roi tro amdano fel arfer," meddwn wrth fy nghyfeillion; ac atebodd Debauvais:

"Ie, dos! rhag ofn na weli mono byth mwy. Y mae'r diwedd yn agos. A phe bai'n cael y mymryn lleiaf o annwyd tua'r hydref, dyna hi ar ben arno!"

Cyn gynted ag y gofynnais pa fodd yr oedd mynd tuag yno, dyma Mordrel yn dweud y dygai ef a'i gyfaill fi at borth yr adeilad. Gyrru, a chyrraedd yn fuan. Disgynnais yng nghanol cawod o law taranau, ac arhosodd fy nau gyfaill yn y cerbyd. Curo wrth y porth a gofyn: "A ydy' M. Vallée yma?"

"Ydyw."

"A oes modd imi gael ei weld?"

"Yn llawen!"

Esgynnais hyd y grisiau, a dilynais rhwng parwydydd, nes dyfod at ddrws rhif 10. Curo'n isel. Dim ateb. Yn uwch . . . ac eto'n uwch; a rhyw dybio imi glywed llais gwan. Agorais y drws, a throis fy mhen ar y chwith. Yno yr oedd yr hen ŵr yn gorwedd yn ei wely claf . . . mewn ystafell fechan, gyda chroes neu ddwy yma a thraw, a nifer o lyfrau. Ymdrechai i godi ar ei hanner eistedd, ac yr oedd golwg hurt, ofnus, diymadferth arno. Nid adwaen ddim ohonof. Brysiai i dorri gair ag ef—yn Gymraeg: "M. Vallée, sut ydych . . . ers llawer dydd? . . . Ydych chi'n fy nghofio i . . . bûm yn eich tŷ deirgwaith neu bedair . . . ?"

"Ydwyf . . . yd—ydwyf . . . yr wyf yn eich cofio . . . M. Bebb, yntê? Da gennyf eich gweld . . . da iawn gennyf. 'R wyf i wedi mynd o'm cartref . . . rhy wan i fyw yno. Ydwyf . . . yr wyf yn eich cofio yno. Ac mi gefais eich llyfr ar Lydaw . . . Da iawn."

"Diolch yn fawr . . . Ond sut ydych chi . . . ers cymaint?"

"Claf . . . a gwan iawn. Fy anadl, welwch chi . . . fy . . . fy . . . ysgyfaint . . . a'm llygaid. 'Fedra' i ddim darllen . . . fawr, nac ysgrifennu."

"'R wy'n clywed eich bod yn dal i weithio, er y cwbl i gyd! . . . Mi ddewch yn well eto."

"Gweithio tamaid bychan . . . ar y Geiriadur mawr . . . eisiau ei orffen . . . ond . . . ! 'Chaf i ddim . . . Y diwedd . . . yn dod."

Anadlai'n flinderus o drafferthus, ac o'r braidd y torrai fwy na geiriau aneglur. Ac eto gallwn dyngu, 'r wy'n sicr, fod gwedd ei wyneb yn fwy golygus ac iach nag y gwelais ef erioed. Gan nad oedd nac yn llusgo nac yn cerdded, ymddangosai rywffodd o ychydig yn llai ysig nag arfer. Mwy chwithig na dim oedd meddwl am yr hen ŵr pedwar ugain oed, a dreuliodd ei holl feddyliau a'i fynyddoedd yng ngwasanaeth Llydaw Lydewig, a roddodd ei serch a'i gariad yn unig iddi hi, yn dyfod yn hwyr o ddydd i orffwys mewn tŷ yn ymyl y Brifddinas, lle ni byddai'r un o'r rhai a weinai arno yn gwybod gair o Lydaweg, yr unig iaith a siaradai â'i gi a'i gath . . . yr unig iaith y cyfarchodd ei Dduw a'i Seintiau Llydewig ynddi. Pan gefais wybod y rheswm, aeth ymgysgriad yr hen bererin yn fwy fyth o ryfeddod. Fe'i gadewais heb oedi llawer, gan ei wanned, ond nid

heb obeithio y caf ei weled eto, ag yntau'n berchen ar y fath drysor o wytnwch. A'n geiriau olaf oedd, nid *Kenavo* yn unig, ond *Kenavo arc'henta!*—sef canu'n iach hyd y tro nesaf!

Wedi troi allan oddi wrtho, a dychwelyd at fy nghyf-eillion, gofynnais i Mordrel paham y dewisodd le mor anghydnaws â'i ysbryd i ymorffwys ynddo. "Mi ddywedaf wrthyt," meddai yntau; "er mwyn bod o fewn cyrraedd i'r Brifysgol, i gael myned i berffeithio ei Gymraeg yn nosbarth M. le Roux. Ar hyd y gaeaf diwethaf, ymlusgodd yno bob wythnos!" Godidog! Yr un arwriaeth ddewr, yr un ymgyflwyniad santaidd i'w waith, hyd y diwedd. Cyfuniad eithriadol o symlder plentyn ac unplygrwydd Sant—dyna ysbryd Vallée, y Tad Vallée.

Ar hyd y gaeaf diwethaf ofnwn yn aml glywed y newydd am ei farw. Danfonai fy nghyfeillion ffo o'r Blaid Genedlaethol eu newyddion imi—o'r Swistir, o'r Eidal, ac o Holand. Felly y clywais am farw dau annwyl imi—Charles Rolland, y bardd gwlad dawnus a ffraeth, a Le Rouzic, ceidwad cyfrinion Carnac. Ni ddaeth gair am dranc Vallée. A rhyw ddiwrnod ym mis Ebrill, beth a gyrhaeddodd yma ond gair oddi wrtho ef ei hun . . . yn gofyn am ddanfon iddo . . . "Dyddlyfr Pythefnos, neu y Ddawns Angau"! Y mae Vallée yn aros. Rhaid oedd iddo ef fyw—er mor fregus—i weled Llydaw drwy'r tân.

Cyn gadael Vallée, yr wyf am ofyn cwestiwn i mi fy hun: beth yw ei le yn y Dadeni Llydewig? Bu'n cyd-oesi â Villemarqué a Luzel am bymtheng mlynedd ar hugain, a gor-oesodd bob un o'i gyfoeswyr ei hun—Le Braz, Le Goffic, Loth, Botrel, Berthou, Le Garrec. Bu'n gwrando ar La Borderie yn darlithio ar Hanes Llydaw, ac ar Loth

yn darllen ei nodiadau manwl ar yr Ieithoedd Celtaidd. Yn ieuenctid ei ddydd, cyffyrddodd y nwyd santaidd—y cariad at ei genedl—â'i holl enaid. Sefydlodd Gadair Lydaweg yng Ngholeg St. Brieuc, a dechreuodd gael disgyblion, megis Taldir a Le Moal. Yn 1897 cychwynnodd bapur wythnosol, gydag enw nodweddiadol, *Kroaz ar Vretoned*—Croes y Llydawiaid—y cyntaf un a gaed yn gwbl Lydaweg. Byth oddi ar hynny, y mae ei Gylch ef gyflod â Llydaw ei hun. Bu ganddo ran mewn sefydlu'r amryfal Gymdeithasau — gwleidyddol, cymdeithasol, ieithyddol—a gododd o'r ddaear yn llu ar ddiwedd y ganrif.

Pan aned ef, yr oedd y gwaith mawr a ddechreuodd Villemarqué yn dwyn ffrwyth, a'r awyr yn ymlenwi gan gerdd ac angerdd. Dwy flwydd oed ydoedd pan gaedd Brizeux ei lygaid ar ôl mawrhau Llydaw gydag acennau diffuant, a galw ar ei phlant i fod "bob amser yn Llydawiaid, tud Kaled." Am ddeuddeng mlynedd eto, yr oedd telyn Prosper Proux i ganu na ddarfyddai am y genedl Lydewig byth . . . *Bro Breiz Izel, ne varvo ket!* Daliai Luzel i gerdded llwybrau'r wlad fel pererin crwydr, o bentre i bentre, o fferm i fferm, gan loffa ysgubau gwerthfawr y llên werin—*soniou, gwerziou, ystoriau, chwedlau*,—sy'n golofnau i'w lafur ef ac i athrylith ei genedl. Yr oedd yn fardd gyda hynny, awdur y gyfrol *Bepred Breizad*—Llydawr Bob Amser!—yn garwr angerddol ei iaith a'i genedl. Darllenwch ei ragair i'w gyfrol ei hun ac i gyfrol Prosper Proux, ac fe dybiwch o'r braidd mai geiriau mwyaf gwridog Emrys ap Iwan sydd o'ch blaen. Dywedant wrthych mai "Duw sy'n darostwng ac yn dyrchafu cenhedloedd, a'i fod wedi gadael mewn cilfach

ddirgel yng nghalon y Llydawiaid un pelydryn olaf o obaith, na ddiffydd byth, ond sy'n abl i oleuo eu hir nos hyd y dydd y bydd y llaw a'u darostyngodd yn eu codi o'r llwch, i'w gosod yn gydradd â'u meistri ar lwyfan gyfnewidiol tynged y ddynoliaeth." Ac eto: "Y mae Llydaw'n dechrau ymgyffroi, y wlad ddjarhebol lonydd, ddisymud hon yn symud; ac o bob rhanbarth ohoni cyfyd llef i fynegi ein bod yn fyw o hyd, nad yw ein cenedl—yr hynaf yn Ewrop, ond odid—ddim wedi dioddef yr ergyd marwol."

Pan oedd Luzel yn teui â sôn yn 1895, yr oedd *Arthur de la Borderie* yn diffinio amcan Hanesydd o'i Gadair Hanes yn y Brifysgol yn Rennes. Astud iawn y gwrandawai Vallée a'r myfyrwyr eraill ar y brawddegau rhyfedd hyn: "Y mae Hanes . . . yn waith cenedlaethol. Yn ei holl weithiau, yn ei holl astudiaethau, Hanes ydyw'r wyddor genedlaethol uwchlaw'r un . . . Canlyniad angenrheidiol llafur hanesyddol ydyw peri i bob llen a guddiai oddi wrthym fawredd ein Gwlad ddisgyn o un i un, a chynhyrchu ynom yn fwy ac yn fwy fflam gwladgarwch . . . Llydaw, ein Llydaw ni, iaith ydyw, cymeriad ydyw, cymeriad cenedlaethol gyda'i nodweddion pendant . . . cenedl . . . hanes. Nid hynny'n unig . . . barddoniaeth ydyw hi . . ." Felly yr agorodd La Borderie ei gyfres ddarlithiau ar Hanes, ger bron blodau ieuencid Llydaw yn 1890; ac yn yr ysbryd hwn yr ysgrifennodd "Hanes Llydaw," cofadail gampus, odidog, a safadwy. Y mae'n hawdd ichwi ddychmygu bellach y modd yr oedd awyrgylch meddyliol Llydaw wedi ei lwyr newid erbyn 1900. Prin y mae eisïau nodi hefyd mai llenorion a beirdd, haneswyr a lloffwyr llên werin, a fu'n unig yn

gyfrifol am y newid hwn, y gallwn yn deg ei alw y Dadeni Cenedlaethol.

Egyr y ganrif newydd a'i hwyneb tuag at obeithion a breuddwydion newyddion. Fel y disgyn yr hen i'r bedd, cyfyd eraill i gymryd eu lle yn y rheng—Berthou, Le Garrec, Taldir, a beunydd a byth, Vallée. Yn 1902 wele Lywodraeth Ffrainc yn erlid yr Eglwys Gatholig a'r bregeth Lydaweg, ac yn ennyn tân ym mynwes pob Llydawr. Am y tro cyntaf erioed clywir y gair "*Séparatisme*" yn codi oddi ar y gwrthryfel, a llef Erwan Berthou—*Dihun Breiz!* Megir mwy a mwy o hyfdra, ac yn 1909 gofynnir am ddysgu'r Llydaweg yn yr ysgolion uwchraddol a'r colegau. Gwrthodir yn bendant; a dwe flynedd yn ddiweddarach gwelir ffurfio'r Blaid Genedlaethol gyntaf yn Llydaw—*Strollad Broadel Breiz*—dan arweiniad Ronan de Kerméné a Camille le Mercier D'Erm. Pan ddaw'r Rhyfel Mawr, 1914-18, â'r aelodau'n ewyllysgar i'r fyddin, gan ddangos ffyddlondeb Llydaw tuag at Ffrainc mewn perygl.

*Je suis le matelot au bossoir, le guetteur. La France
M'a appelé ce soir,**

medd y bardd mawr, Jean Calloc'h. Yn lled fuan ar ei ôl, daw Mordrel, Marechal a Debauvais i gychwyn Mudiad newydd, y mudiad y deuthum innau i gysylltiad agos ag ef pan gyrhaeddais gyntaf i Lydaw yn 1922. Cafodd hwn, fel pob Mudiad arall, nawdd a bendith y Tad Vallée . . . hyd at ei lesg bedwar ugain oed.

* Myfi yw'r morwr ar ben blaen y llong, y gwyliwr. Heno'n hwyr, galwodd Ffrainc arnaf.

PENNOD XIV

YMDDIDDAN AG ANATOLE LE BRAZ

O HOLL Lydawiaid mawr y ganrif hon, yr oedd Anatole le Braz yn sicr yn un o'r mwyaf; ac er bod enw Charles le Goffic* yn fwy hysbys efallai yn Ffrainc, ag yntau'n aelod o'r *Academie Française*, mi gredaf y cytunai'r rhan fwyaf o Lydawiaid mai Anatole le Braz oedd y Llydawr mwyaf trwyadl o'r ddau, ac mai ef a ddeallai gyfrinïon ei genedl orau. Gwyddai'r ddau Lydaweg, ond bod gwybodaeth Le Braz ohoni o beth difesur yn fwy na gwybodaeth Le Goffic. Gwybodaeth gŵr a aned yn Lannion, mewn tref lle y cyll yr iaith dipyn o dir, ydoedd gwybodaeth Le Goffic, ac ni thrafferthodd ryw lawer gyda hi fyth wedyn, ac ni ddefnyddiodd ddim ohoni fel cyfrwng i'w waith llenyddol. Ond ganwyd Le Braz yn Saint-Servais, yng nghilfachau'r Mynyddoedd Arré, yng nghanol y rhan fwyaf nodweddiadol Lydewig o'r holl wlad. Diamau gennyf mai Llydaweg oedd yr unig iaith a wyddai yn ei flynyddoedd cynnar, ac astudiodd hi'n gariadus, a'i defnyddio i ysgrifennu o leiaf beth o'i gerddi a'i ystorïau, megis *Feunteun Sant Iwinen*, *Maronad Marc'harit Phulup*, a *Treo ar Maro*.

Fe allai unrhyw estron i Lydaw ddysgu llawer iawn am y wlad honno drwy ddarllen cyfrolau Charles le Goffic ar *l'Âme Bretonne*; ac yr oeddynt ymysg y llyfrau cyntaf a ddarllenais i amdani cyn erioed fynd tuag yno.

* Am ymgom gyffelyb, â Charles le Goffic, gweler *Y Llenor*, cyfrol IV (1925), t. 219.

YMDDIDDAN AG ANATOLE LE BRAZ

Y maent yn ddifyr, yn olau, yn hawdd eu darllen; ac yn ddadansoddiad go fanwl o feddwl y Llydawr heddiw, ei arferion, ei dymor, ei natur, a'i grefydd. Yr un pryd, y mae'n ddiogel gennyf nad ydynt, ac na allant fod, wrth fodd gwir Lydawr, sy'n edrych ar ei wlad nid fel crair marw i'w gyhwfan ger bron cynulleidfa o ddylifwyr gen ym Mharis, ond fel gwlad o ddynion a merched mor fyw, mor effro, mor anodd i'w diffinio, mor llawn o wrthgyferbyniadau ag unrhyw wlad arall yn Ewrop.

Dyna feirniadaeth y gellid yn deg ei rhoddi ar lyfrau Le Goffic, sef eu bod yn rhy debyg i waith gŵr yn sefyll oddi allan i'r "Enaid" a'r bywyd a ddadansodda, ac yn rhoddi gormod o'i fryd ar foddio'r miloedd darllenwyr dinesig a chwilfrydig sydd ganddo yn Ffrainc. Y mae hyn o dipyn yn llai gwir am Anatole le Braz; ac o ganlyniad mi a gefais fwy o flas diledryw wrth ddarllen ei *Au Pays des Pardons*, *La Terre du Passé*, *Pâques d'Islande*, a hyd yn oed *Le Gardien du Feu*, nag yng nghyfrolau'r *Âme Bretonne*. Ac nid y rhain ydyw unig lyfrau Le Braz o lawer, na'r pwysicaf. Mi gredaf y gellir dweud bod *La Légende de la Mort* yn gampwaith di-amheuol, hyd yn oed os nad yw un neu ddau o'r lleill. Arno ef y disgynnodd mantell Luzel.

Yr oedd wedi ysgrifennu ei holl waith cyn imi ymweled ag ef ym mis Awst 1924, a rhai cyfrolau ganddo wedi eu "coroni" gan yr *Academie Française*. Yr oedd, mewn gair, yn llenor enwog yn ei wlad ei hun ac yn Ffrainc. Daliai gadair Llenyddiaeth Ffrangeg ym Mhrifysgol Llydaw yn Rennes, ac yr oedd yn ŵr tua thrigain a phum mlwydd oed. Treuliai ei wyliau haf mewn lle bychan ar lan y môr yn y Gogledd, rhwng *Tréguier* a

Perros-Guirec. Enw'r lle bychan ydyw *Port-Blanc*—yn Llydaweg, *Porz-Guen*—ac yr oeddwn wedi bod ddwy-waith o'r blaen yn chwilio am y llenor mawr; ond nid oedd yno ar y pryd. Gan fy mod yn bwriadu treulio rhwng tri a phedwar mis yn Llydaw yr haf hwnnw, gallwn alw drachefn i'w weled. A'r bore Sul hwn, dyma fi'n clywed ei fod yno.

Curo wrth y drws, a dyfod y forwyn i'm croesawu i'r tŷ, ac i'm tywys i ystafell go isel, yn llawn o lyfrau, a hen ddodrefn Llydewig. Gydag imi sylwi bod holl waith Renan ymysg y llyfrau, dyma Anatole le Braz ei hun yn ymddangos. Dyn cymharol dal, hoyw a chwimwth o gorff; wyneb go welw, gyda dau lygad glas yn ei oleuo, a barf wen yn addurn main tan ei ên. Llais hynod o fwyn, a melys hyd yn oed, ac yn melysu wrth siarad Llydaweg, ac wrth ddarllen. Yn llawn ystyr y gair, swynwr.

Y peth cyntaf a ddaw dros ei enau ydyw gair o groeso i Gymro, a ddaeth o wlad sydd yn annwyl iawn ganddo.

"Bûm yng Nghymru ddwywaith . . . yn y De, ac i olwg y Mynydd Santaidd, yr Wyddfa . . . Bûm hefyd yn Sir Fôn, Mam Cymru, fel y galwch hi . . . a chroesais i Iwerddon. Os caf fywyd ac iechyd, mi af yno eto . . . ac i rai o ynysoedd yr Alban, sydd hwythau'n annwyl iawn i ni, y Celtiaid. Mi fu gennyf grap go lew ar y Gymraeg yr adeg honno, ac yr oeddwn yn synnu braidd at ei *souplesse*, ei hystwythder."

"Fuoch chi'n ceisio dysgu'r Wyddeleg hefyd? Y mae hi lawer anos na Chymraeg, on'd ydy'?"

"Ydyw: mae'n anodd iawn. Y mae M. Dottin yn awdurdod arni, a dysgais innau beth gydag ef. Ond fy

athro i oedd Loth . . . 'rŷch chi'n ei adnabod yntau, mae'n debyg? . . . A myfi oedd ei unig ddisgybl. Dyn caredig, meddwl clir wrth ysgrifennu, ac ysbryd bywiog . . . ond, 'wn i ddim pam, 'd ydyw e ddim yn glir wrth ddarlithio . . . a dyna ni! . . . ofnaf na ellais i ddim dysgu llawer gydag ef."

Bu'n rhaid imi gyfaddef mai go debyg oedd fy mhrofiad innau o ddarlithiau Loth, er mor hynod ddifyr y cawn ef bob amser wedi gadael yr ystafell ddarlithio.

Trodd ein siarad yn fuan am lenorion cyfoes Llydaw, a difyr oedd clywed barn yr ysgolhaig a'r llenor hwn amdanynt. Galwai Vallée yn ddyn "nodedig" iawn, a Jean Calloc'h "yn fardd mawr, yn fardd mawr iawn." Synnais ei glywed yn dweud bod Joseph Cuillandre (Glanmor) yn llawn cystal bardd ag yntau, os nad yn fwy. Os gwir yw hynny, y mae'n drueni nad ysgrifennai lawer ychwaneg nag a wnaeth, gan na chyhoeddodd hyd yn hyn ond un gyfrol fechan—*Mouez en Aochou*—casgliad o gerddi a ysgrifennodd pan oedd yn fyfyrwr yn Rennes, dros bymtheng mlynedd ar hugain yn ôl! Ei eglurhad ar hyn imi, pan welais ef ryw ddau fis yn ddiweddarach, ydoedd mai prin oedd ei amser, a bod ei holl fryd wedi mynd yn hytrach ar ysgolheictod Geltaidd!

Yr oedd gan Le Braz syniad go uchel am brydyddiaeth Yves* Berthou, ac mi led-dybiaf y cyrifai ef y bardd Llydewig gorau o'i genhedlaeth, ac yn un o'r rhai a ddeallai'n orau ac yn ddyfnaf adnoddau cudd y Llydaweg. Yr un pryd, yr oedd braidd yn amheus o'i bybyrwch. Gwell oedd ganddo gymedroldeb Le Garrec, ac yr oedd yn naturiol iddo ganmol ei gyfraniad pur

* Y ffurf Lydaweg—*Erwan*—a ddefnyddiai ef bob amser!

bwysig ef i'r Mudiad Drama yn Llydaw. Cefais y fraint o gyfarfod â'r ddau unwaith, a'r hyn a'm trawodd yn Le Garrec oedd ei arafwch urddasol, hanner swyddogol, a'i awydd i ymgadw rhag perthyn i'r naill fudiad na'r llall yn Llydaw. Yr oedd Berthou, er yn hŷn o beth, ac yn eiddilach o lawer, yn dân i gyd yn ei henaint, ac yn orawyddus i ymladd y frwydr dros Lydaw a Llydaweg. Nid rhyfedd bod Le Braz yn edrych arno fel pentewyn, a oedd yn gyfrifol i raddau am amharodrwydd Llywodraeth Ffrainc i ddysgu Llydaweg yn yr ysgolion.

Credai fod athrylith go fawr gan Charles Rolland, a'i fod yn fardd nodweddiadol Lydewig, yn dyfod o groth y wlad a'r werin, ond yn colli am na chafodd fawr o ddysg ond yr hyn a bigodd yma a thraw yng nghanol bywyd go anwastad a thrafferthus. Pan aethpwyd i sôn am Daldir, pwysleisiodd mai mab i gyfreithiwr ydoedd, gŵr yn deall dulliau'r byd hwn, ac yn gwybod pa fodd i'w hysbysu ei hun! Yr un pryd, cydnabyddai'n ebrwydd iddo wneud llawer iawn o ddaioni, ac iddo unwaith o leiaf ddeffro'r wlad a bod yn lleferydd iddi. Yr oedd ei gerddi cynnar yn addawol iawn. Bai mwyaf y casgliad cyntaf a gyhoeddodd, dan yr enw "*An Hirvoudou*," ydoedd bod llawer gormod o'i ddeunydd a'i ysbrydiaeth yn Ffrengig; yr hyn a achosodd i Le Braz dorri allan fel hyn:

"Dyna'n gwendid ni fel Llydawiad! bod yn rhy dueddol i chwilio yn Ffrainc ac yn llên Ffrainc am ysbrydiaeth. Nid ydyw'n hysgrifenwyr ni'n hanner digon Celtaidd. Yr oedd hynny'n wir hyd yn oed am Luzel . . . ac am Villemarqué. 'Rŷch chi'n gweld, mae'n dysg ni i gyd yn Ffrengig, a'n cartref yn unig sy'n

Llydewig. Rhaid i'n dysg—ein haddysg—ddyfod yn Llydewig cyn y cawn fywyd a llên Lydewig. Ar hyn o bryd, y bardd mwyaf trwyadl Lydewig a feddwn ydyw Glanmor. Fel Calloc'h, y bardd mawr a gollasom yn ystod y rhyfel, daw o ynys, ac y mae ei gefndir o gymaint â hynny'n fwy Llydewig."

"Fe gytunwch, gan hynny, bod dysgu Llydaweg yn yr ysgolion yn beth da, a hyd yn oed yn anhepgor? . . . A gredwch y daw hi i hynny?"

"Ei dysgu? Ar bob cyfrif! 'Rwy'n berffaith sicr . . . A phan oeddwn yn Athro yng Nghemper mi wnes fy ngorau i'w chael i mewn i'r Lycée. Yr oedd y Prifathro'n ffatriol, ac yr oedd Luzel—a oedd yn geidwad yr Amgueddfa ar y pryd—yn frwd iawn. Ysgrifennais yna at Renan, a dyma'r ateb a gefais ganddo: ei fod ef yn caru'r Llydaweg gymaint ag unrhyw Lydawr; ond ni fynnai ei dysgu yn yr ysgolion! Pam? Rhag i hynny achosi trafferth a pherygl i'r Weriniaeth! Cymherwch Alsas, meddai wrthyf; oni bai i'r Almaeneg gael ei dysgu yno, ni buasai'n perthyn heddiw i'r Almaen! Dadl afresymol, yntê? Y mae'r sefyllfa'n gwbl wahanol yma. 'D oes yna'r un Almaen yma! Â phwy yr unem? Â Chymru? Ag Iwerddon? Mor afresymol!"

"Pa fodd y gellir newid agwedd y Llydawiad eu hunain tuag at eu hiaith—agwedd rhai sy'n dweud bob tro y gofynnaf iddynt pam na ddysgant yr iaith i'w plant, 'fe ddysg y plant hi ohonynt eu hunain,' neu 'mae'n rhy gynnar ei dysgu iddynt eto, fe'i dysgant yn ddiweddarach'? Ymddengys yn agwedd mor ddieithr, mor anodd ei deall."

"Y mae'n bwnc anodd iawn, a buasai gwneud ymchwil

i mewn i agwedd meddwl y bobl yn dra siomedig, ac yn drist iawn. Yn y rhannau gwledig, y mae'r plant yn gwybod Llydaweg, a denfyn eu rhieni hwy i'r ysgol 'i ddysgu Ffrangeg,' fel y cyfaddefant yn syml. Yn y trefi, lle y sylwch chi fod y rhieni'n siarad Ffrangeg â'r plant cyn dysgu eu hiaith eu hunain, dilynant y ffasiwn a'r ffordd hawsaf; a gadawant dynged y Llydaweg i'r gorlif a ddaw i mewn o'r wlad. Yn Llydaw heddiw, Ffrangeg ydyw iaith dysg, masnach ac arian, ac yn y blaen; ac y mae barnu gwerthoedd yn ôl safonau aur ac arian yn beth cyffredin yn Llydaw heddiw. Dyna ichi, er enghraifft, ddau Lydawr ar eu ffordd adre o weithio yn Normandi, yn siarad Ffrangeg sâl â'i gilydd, a minnau'n dweud wrthynt: "'Oes dim cywilydd arnoch chi?' A'r ddau'n ateb: 'Gyda Llydaweg, nid aem ddim pellach na Guengamp; ond gyda'n Ffrangeg *gwael*, yr ydym yn gallu mynd i Normandi, a dod â phocedaidd lawn yn ôl gyda ni!' 'D oedd dim modd ateb. Rhy drist! 'D ydy'r Celt ddim yn hoff o'r gwir; y mae'n rhy greulon iddo. Gwell ganddo ef y celwydd tlws, y *beau mensonge*."

"O'r ochr arall, y mae ganddynt ryw serch rhyfedd at yr iaith yn y bôn. Sylwais ddegau o weithiau fel y daw ton o oleuni a sirioldeb dros eu hwynebau pan siaradaf Lydaweg â hwy."

"Oes, y mae ganddynt ryw hoffter mawr ohoni, pan ewch chi i lawr tan y gramen galed sydd ar yr wyneb. Dyna ichi hen wraig a adnabûm i'n dda—hen wraig bedwar ugain a phedair oed . . . yr olaf o'r rhai a adroddai *soniou* ar ei chof. Yr oedd Llydawr a Phrotestant a siaradai Lydaweg yn benigamp yn arfer dod

yma unwaith bob wythnos o *Blougresgand*. Ai hithau ac amryw eraill i wrando arno, yn bennaf gan mor hyfryd oedd ei Lydaweg. Daeth yr offeiriad i wybod, a gofynnodd iddi ai gwir, ac atebodd hithau: '*Ia, 'vit Doue!*'

"'Yna, mae'n rhaid eich ysgymuno,' meddai'r offeiriad.

"'O'r gorau! Bydd yn rhaid ichi fy nad-ysgymuno o hyd. Canys 'wna' i ddim peidio â mynd i'w wrando. 'Rwy'n cael gwybod yr Efengyl ganddo ef, a deall pwy yw, beth yw, Crist. Ond nid gyda chwi. Dyma fi'n mynd i wrando arnoch chi ers hanner can mlynedd a mwy, a 'd oeddwn i'n gwybod dim am Grist. 'R oeddech chi'n darllen tipyn o Ladin na ddeallwn i ddim ohono; ac yn rhoi tamaid o bregeth a'm gyrrai i gysgu. 'D alla' i ddim cysgu wrth wrando ar hwn. Mae e mor ddiddorol. Ac yn enwedig, mae e'n siarad *fy iaith i fy hun . . .*' Ac felly y bu!"

"Dyna'r Llydawr a welaf innau ar ôl treiddio tan yr haenen o grach-barchusrwydd trefol ac o ariangarwch tiriol."

"Ond ped erlidid ei iaith, yna fe godai'r bobl o'i phlaid."

"A gredwch chi y dysgir hi yn yr ysgolion cyn bo hir? Dyna'r angen cyntaf, onide?"

"Ie. Mi ddaw . . . 'rwy'n meddwl. Fe ddaw i'r Lycée cyn bo hir . . . ond efallai y bydd yn rhaid aros . . . tipyn cyn y daw hi i'r ysgolion dyddiol, elfennol . . ."

Distawodd am ychydig yma, megis un mewn peth penbleth. Yna ail-afaelodd yn ei feddyliau:

"Mi fyddaf yn ofni weithiau mai marw fydd rhan yr iaith. Ond hyd yn oed os hynny a ddigwydd iddi yn y

diwedd, mi gredaf mai ceisio ei hachub a ddylem, a mynnu ei dysgu yn yr ysgolion. Canys, yn gyntaf, 'd oes dim *sicrwydd* y bydd hi farw; ac yna, yn ail, os marw a wna, gwell iddi farw ar ôl gwneud ymdrech deg na heb hynny."

"Gwir iawn. Yr hyn a gaf i yn anodd iawn i'w ddeall ydyw agwedd y Llywodraeth . . . agwedd a oedd yn gyffredin i Renan hefyd . . . mor anneallus anghymodlawn . . ."

"Yr esgus ar hyn o bryd ydyw'r Mudiad Cenedlaethol sydd gennym yma. Y mae hwnnw, yn y *Breiz Atao*, yn sôn am Lydaw fel gwlad i fod ar *wahân* i Ffrainc. Dadleuant dros Annibyniaeth, ac am allu Llydaw i fyw ar ei phen ei hun, ac er ei mwyn ei hun . . . Y mae efallai ysgrifennu rhy wyllt . . . ac y mae hefyd ryw wirionedd yn yr hyn a ddywedant. Beth bynnag, dyna a deflir i'n hwynebau yn awr, bod gennym eisoes Fudiad sy'n awyddus i ddatod yn llwyr y cwlwm sydd rhyngom a Ffrainc; a phe dysgid Llydaweg yn yr ysgolion, meddir, fe gryfheid y Mudiad hwnnw."

"Onid y gwrthwyneb a ddigwyddai? . . . A pheth arall, faint sydd? . . . tair neu bedair blynedd sydd, er pan gychwynwyd y Mudiad Cenedlaethol hwn?"

"Ie . . . ie . . . ond fe ddylech gofio bod yna Fudiad cyffelyb o'i flaen yntau—Mudiad Taldir, er enghraifft, ar y dechrau. Ac yr oedd Berthou yn fwy pybyr ac eithafol nag yntau . . . ac yn dadlau'n danbaid dros annibyniaeth lwyr."

"Ydyw, y mae ef yn danbaid o hyd. Fe'i gwelais dair wythnos yn ôl, ac y mae'n amlwg bod y tân yn dal i losgi ynddo."

"Do? Dwedwch, sut y mae o?"

"Go glaf, meddai ef. Gwaeth na dim, y mae hi'n bur dlawd arno, er nad addefai ef mo hynny'n uniongyrchol. Dywedodd wrthyf fod ganddo Eiriadur Odlau yr hoffai'n fawr ei gyhoeddi, ond nad oedd ganddo ddim moddion at y fath draul."

"Trueni! 'Wyddwn i ddim. Ac y mae ganddo well gafael ar yr iaith na neb sy'n fyw. Dylid gwneud rhywbeth ar bob cyfrif. Mae'n ddrwg iawn gen i glywed am ei adfyd. Mae gennym ni ddigon o Gymdeithasau yn Llydaw 'ma, ac fe ddylai un ohonynt gymryd at gyhoeddi'r gwaith."

"Ond . . . i fynd yn ôl at ddysgu'r Llydaweg. 'Ydych chi ddim yn amheus o Lywodraeth Ffrainc? Mae hi fel pe byddai am unffurfiaeth berffaith drwy'r holl wlad . . . Dyna hi yn Alsas heddiw, er enghraifft . . ."

"Ie, beth? . . ."

"Wel, gorfodi ysgolion di-grefydd ar y fro Gatholig honno, a mesurau eraill sydd yn gas ganddynt . . ."

"Be wnewch chi? . . . A pham lai? . . ."

"Ond . . . yr oedd Ffrainc wedi rhoi ei gair na wneid hynny . . . na wesgid deddfau unffurf arni . . ."

"Ie . . . eto . . . ond am ddeddfau *sylfaenol* gwlad, y mae'n rhaid iddynt fod yr un ym mhobman. Ni thâl hi ichwi gael math arbennig o gyfraith mewn un rhan o wlad, a math arall—hollol wahanol—mewn rhan arall. Wedi'r cyfan, y mae Datgysylltiad yr Eglwys yn bod yn y rhelyw o Ffrainc. A dylai fod hefyd yn Alsas!"

"Dyna'r lle 'rwy'n gweld y Frenhiniaeth yn Ffrainc yn rhagori ar y Werin-lywodraeth. Cydnabyddai hi ddeddfau a rheolau ac arferion arbennig yn Alsas—ac

PERERINDODAU

mewn llawer talaith arall yn Ffrainc . . . Heblaw, yn Alsas heddiw, y mae'r bobl eu hunain yn erbyn y deddfau a orfodir arnynt o Baris."

"'D ydw' i ddim mor siŵr o hynny! Ofnaf mai pwnc plaid ydyw . . ."

"Beth am y cynadleddau a'r cyfarfodydd gwrthdystio a fu yno'n ddiweddar, yn Strasbourg er enghraifft?"

"Ie! A pha nifer oedd ynddynt? Yr oedd pedwar ugain mil i fod . . . ond llai na phymtheng mil a ddaeth ynghyd. A'r rheini wedi eu talu am ddod! Fe welsom yr un peth yn digwydd yma . . . yn *Nhréguier* ynglŷn â'r Galfaria a godwyd fel gwrthdystiad i gofadail Renan. Do! 'r oedden' nhw'n talu pobl o Léon i ddod yno . . . er mwyn cael tyrfaoedd mawr . . ."

Yr oedd Anatole le Braz yn gwbl ddisyfl ar y pwnc. Gwyddwn yn burion mai dyna oedd safbwynt arweinwyr gwleidyddol Ffrainc, oddi allan i Fudiad Maurras a'r *Action Française*; ond yr oedd yn gryn syndod imi glywed yr un dadleuon, a'r un duedd amlwg, gan y Llydawr o hynafgwr praff ei feddwl a eisteddai yn ei gadair ar fy nghyfer. Yn y bôn, yr oedd ei safbwynt yr un, wedi'r cyfan, â Renan, ond nad oedd mor gwbl resymegol â'i athro a'i feistr. Golygai'r iaith Lydaweg lawer mwy iddo ef nag i Renan, a dyna'r holl wahan-iaeth a oedd rhyngddynt. Ac am hynny, dywedodd y swynwr drachefn y geiriau hyn:

"Daw! Cyn pen rhai blynyddoedd, 'rwy'n meddwl y cawn ni ddysgu Llydaweg."

"Mi obeithiaf innau. Ond maddeuwch i ddyn nad ydyw'n Ffrancwr, ac sydd er hynny'n caru Ffrainc yn anghyffredin iawn, am iddo amau y gall yr egwyddorion

YMDIDDAN AG ANATOLE LE BRAZ

sydd yn sylfaen ei gwleidyddiaeth heddiw ganiatáu'r fath beth . . . Trueni mawr Llydaw, yn fy nhyb i, ydyw na chafodd yr iaith ei lle priodol yn ei bywyd erioed . . . o leiaf o'r ddegfed ganrif ymlaen . . . gan ei brenhinoedd a'i dugiaid ei hun . . . Gyda llaw, a fedrai Nominoë Lydaweg o gwbl?"

"Anodd iawn gwybod. Mewn ysgrif unwaith, mi ddywedais i na wyddai . . . mwy na thebyg na wyddai."

"Na Jean IV a V, wrth reswm?"

"Na! dim!"

"Ac, yn ôl a welaf i, ni ŵyr y Llydawiad ddim am Nominoë na Jean na neb . . . ond y Seintiau . . . !"

"Ie . . . ac un arall . . . '*An Duges Anna*'!"

"Anffodus iawn, onide? . . . Cywilydd na buasai'r Llywodraeth yn dysgu'r iaith a'r Hanes! . . . 'Ydych chi'n meddwl bod llên Lydaweg ar gael cyn y bymthegfed ganrif? ac iddi fynd ar goll? Canys yr oedd llên yn bod yng Nghymru yn y cyfnod yr ymfudwyd oddi yno —o Gernyw, ac o Ddeheudir Lloegr—tuag yma? Beth yw'ch barn chwi?"

"Mewn gwirionedd, 'd oes neb yn gwybod, a phrin y mae modd i neb wybod bellach. Er hynny, yr wyf i'n rhyw gredu iddi fod—nid o angenrheidrwydd yn llên ysgrifenedig. Yr oedd yn bod, hynny yw, ar dafod. Llên ar lafar oedd hi, mi dybiaf; ac fel pob llên lafar, mewn perygl o'i llygru, o'i darostwng, o fynd yn angof . . . ac o ddiflannu'n llwyr mewn rhyfeloedd dinistriol, yr hyn a ddaeth i ran Llydaw. Dyna fy eglurhad i ar y llên fore a ddiflannodd . . . Ond y mae gennym un trysor o lôn sy'n ddigymar. Y mae gennym ein caneuon o bob math, y *soniou* a'r *gwerziou*. Ac fel y dywed Loth,

gogoniant ein llenyddiaeth ni ydyw y casgliad campus o chwedlau a cherddi poblogaidd sydd gennym. Y mae'r rheini'n disgyn i lawr o'r unfed ganrif ar bymtheg ac o'r ail-ar-bymtheg ac efallai o gyfnod cynt."

"Ac fe genid llawer ohonynt yn y ffeiriau, y mae'n debyg? Mi welais i un o'r cantorion ffeiriau hyn y llynedd yn y ffair ar ben y *Menéz Bré*. Ond dywedodd wrthyf ei fod yn canu am y tro olaf."

"Ydynt; y maent ar ddiplannu i gyd. Yr oeddynt yn y dyddiau gynt yn rhyw fath o hil; ond bellach, 'd oes nemor un yn aros. Y mae'n drist iawn; ond dyna eu tynged!"

* * * *

O dipyn i beth, daeth ein hymddiddan i ben, ac ni cheidw'r uchod ddim ond adroddiad moel—yr esgryn sychion, megis—o'r hyn a lefarodd y swynwr wrthyf. Cyn ei adael, croesawodd fi'n ôl drachefn i ginio, erbyn un o'r gloch. Ni fedrwn wrthod, er mor anodd, yn wir, oedd derbyn y croeso hwnnw ar ben y croeso cyntaf. A dyma fi'n dangos fy wyneb unwaith yn rhagor wrth ddrws y tŷ lletygar. Daeth yntau, Le Braz, yn ddisyfyd i'm cyfarfod ac i'm croesawu i'r tŷ; ac yn ei sgil, wele ei wraig—y drydedd a fu ganddo, os da y cofiaf. Americanaid, yr oedd ei hymarweddiad mor fonheddig a llednais nes i bob rhith ohono gilio o'r golwg yn llwyr. Siaradai Ffrangeg yn rhugl a chywir iawn, a heb fawr ôl yr acen a berthyn i'w chenedl. Yn union deg canodd y gloch, a myned ohonom i'r ystafell ginio, pryd y daeth cawod o rai eraill i'n plith—un ferch ac un ferch-yng-nghyfraith, dau fab-yng-nghyfraith, meddyg, ac un neu

ddau arall. Cwmni dymunol dros ben, yn foengar fel y Ffrancwyr ac yn gynnes fel Llydawiaid. Er bod y cwmni i gyd yn rhydd-ymddiddangar, yr oedd iddo un llywydd, Le Braz ei hun, a dywysai'r ymddiddan, a agorai iddo gyfeiriad newydd o hyd, ac a'i coronai â'i brofiad ac â'i hudoliaeth. O dro i dro, âi pawb yn fud, gan ffurfio rhyw fath o gwmwl tystion o gwmpas y gŵr a oedd ar unwaith yn ben ac yn bont.

Holodd dipyn arnaf ynghylch fy mhrofiad yn Llydaw, gan egluro rhai o'r pethau y sylwais arnynt ymhlith y bobl, yn y gwyliau crefyddol, yn y tai, yr eglwysi a'r ffeiriau. Dywedais wrtho nad oeddwn wedi gweled yr un *pilhaouer*—heliwr carpiâu—yn yr holl wlad, er cymaint a ddisgwyliais am eu gweled yn y berfeddwlad fynyddig.

"A! y *pilhaouer*!" meddai, a'i lygaid gleision yn cynnau'n loyw lachar. "Dyna oedd fy nhadcu! Mi ddangosaf rywbeth diddorol ichwi'n awr."

Cododd o'i gadair, a daeth yn ôl toc â chlorian ganddo. "Dyma ichwi'r glorian oedd ganddo'n pwyso'r carpiâu, y rhacs a gasglai o dŷ i dŷ. Yr oedd y rheini hwythau yn hil ar wahân, fel y beirdd crwydr. Ac yn fynych, yr oeddynt yn feirdd hefyd. Gwyddai fy nhaid lawer iawn o gerddi ar ei gof, ac adroddai hwy yn rhaffau. Yr un modd, yr oedd y Beibl ar flaen ei fysedd, a medrai adrodd rhesi ar resi o adnodau. Ym *Mhlestin* yr oedd e'n byw, ac yr oedd bywyd o ddiwylliant mawr ym *Mhlestin* yr adeg honno. Yr oedd yno ryw ŵr a ddarllenai ei Feibl bob dydd o'r flwyddyn; ac am ryw reswm, deuai lluoedd o bobl i'w dŷ i wrando arno. Yr oedd yn ddarllenwr campus, mae'n debyg, neu'n ŵr o argyhoedd-

iad—ni wn i p'un. Gyda hwnnw y dysgodd fy nhadcu ei Feibl ar ei gof—er na ddysgodd ddarllen erioed. Cof cryf oedd ganddo, am ei fod yn gorfod dibynnu arno . . . Ond . . . erbyn hyn y mae'r *pilhaouer* eto bron â darfod . . . Felly y derfydd yr hen fywyd o'r tir."

Wedi gorffen y cinio, yfwyd coffi du tan gamp, ac yfodd Le Braz fwy na neb—dau neu dri chwpanaid. Yr oedd y siarad wedi myned yn gyfan i'w ofal ef, a phrin yr oedd amser, na man, na lle, na dim yn cyfrif. O ddyfnderoedd ei gof aruthrol, tynnai drysorau o atgofion rhyfeddol, a'u stofi yn rhwydwaith o swyn amdanom. Hoffai ymhelaethu'n hir am yr hen ofergoelion y siglwyd ei grud yn eu clyw, am y parch a roddai'r henwyr yn y mynyddoedd i'r meirw, am y darpar ar fwyd a llestri a wnaent ar eu cyfer nosau eu gŵyl hwy. "Daw'r meirw'n ôl i'w tai y nos honno, adre'n ôl i'w cartref, yn oer ac mewn newyn, a gadewir tân mawr iddynt, a bwyd a diod; ac nid ysgubir y llwch allan o'r tŷ wedi'r machlud haul y nos honno, rhag ofn i hynny darfu ar ysbrydion y meirw."

Adroddai'r ofn a'r pryder a'r arswyd a achosid gan enw *Llyfr Agrippa*, a chan y gŵr y tybid bod y llyfr hwnnw ganddo . . . y gŵr y ffoai pawb rhagddo, ac a gylchid o bell, bell, gan y bobl a gadwai oddi wrtho hyd yn oed mewn ffair. Beth oedd y Llyfr? "Y mae gennyf i gopi ohono—efallai yr unig un sydd ar gael heddiw. Hen lyfr ydyw, yn llawn o'r gymysgedd ryfeddaf o bethau, gan gynnwys moddion a physigwriaeth, ac yn y blaen . . . Gwnaeth fil o wyrthiau yn ei ddydd!"

Yn ôl, hefyd, yn y canrifoedd meithion, yr oedd y *Kelc'h Llydaw—Tro Breiz*. Pererindod oedd honno o

gwmpas holl gyrrau'r wlad, gan alw ym mhrif eglwys y saith esgobaeth—St.-Pol-de-Léon, Tréguier, St. Brieuc, St. Malo, Dol, Vannes, Quimper. Am ganrifoedd ar ganrifoedd âi'r ffyddloniaid ar y bererindod hon, nes ei disodli'n araf bach gan y bererindod i Sant Iago de Compostella yn Sbaen, lle 'r oedd Celtiaid eraill! Ond o fewn cof yr hynaf, ceir hanes am ambell un yn dal i wneud y *Tro Breiz*.

A thrachefn yr oedd Le Braz yn cyrraedd yn ôl i'r byd a gofiai'n blentyn ac yn fachgen ieuanc, drigain o flynyddoedd yn ôl. Curai ei galon yn gyflym, codai ei amrannau'n uchel gan ddatguddio hiraeth a dwyster ei ddau lygad glas, wrth sôn am Marc'harit Phulup, y wraig a dywalltodd i Luzel y rhan fwyaf o'r cerddi sydd yn ei ddau gasgliad mawr—*Gwerziou Breiz-Izel* a *Soniou Breiz-Izel*. "Yr oedd ganddi gof dihysbydd," meddai, "a chanai byth a beunydd yn ddiffin ac yn ddiiddiwedd, yr hen gantores—*Kanerez*—ddigymar! Ni welais erioed mo'i bath . . . ac ni welaf byth mwy. Yr oedd deunydd llyfrau lawer yn ei phen, a phan gladdwyd hi, fe gladdwyd cyfrolau gyda'i gilydd. Meddyliwch am y cynhaeaf toreithiog a gafodd Luzel ganddi! A minnau, o ran hynny. Yr oedd hi'r anwylaf o wragedd y ddaear, a chymerai pawb ati yn ebrwydd. Dyna ichwi'r Americanes, Madame Ange-Mosher, er enghraifft. Teithiodd ni wn i faint o Lydaw gyda Marc'harit. Wyddai'r Americanes ddim gair o Lydaweg, na Marc'harit Phulup yr un gair o Ffrangeg na Saesneg. Ac eto, mi 'r oedden' nhw'n deall ei gilydd yn berffaith, ac yr oedd gwyrrth o gyfeillgarwch rhyngddynt . . . Yr hen bererines! Un gwendid yn unig a berthynai iddi, sef bod ei dwylo'n

drwch o faw bob amser—baw glân, os mynnwch, ond baw er hynny. A dyna'r Americanes ryw dro—yng Ngwengamp yr oedd hyn—yn rhoddi i'r forwyn dalp o sebon tlws i'w drosglwyddo i Marc'harit olchi ei dwylo ag ef. Ond yn ofer . . . Daeth Marc'harit i ginio y dydd hwnnw â'i dwylo yr un mor fudr ag erioed! . . . Cofiaf amdanaf innau, ryw dro arall . . . wedi hyn . . . yn mynd gyda'r Americanes i dŷ Marc'harit, a hithau'n fawr ei chroeso fel arfer, ac yn dangos y dodrefn. Ac ar y fantell, ymysg pethau eraill, yr oedd y sebon—yn gyfan a newydd fel y cafodd ef! 'Dyma fo!' meddai hi. 'Fe'i cadwaf,' meddai wedyn, 'fe'i cadwaf fan'na tra bydda' i byw!' Dyna ichi Lydaw, yr ysbryd *cadw*, y meddwl ceidwadol, sydd yn un o'n prif nodweddion, y glynu wrth draddodiad er gwaethaf holl gyfnewidiadau a newyddion bethau yr oes hon. Wele ran dda o'n cryfder; wele hefyd gyfran o'n gwendid."

Toc wedi hyn, daeth yr hudoliaeth i ben. Heb i neb ohonom sylweddoli hynny, yr oedd wedi mynd yn hwyr brynhawn. Hwyliais innau i fynd, a daeth y lledrithiwr gyda mi at drothwy'r drws, a'r geiriau diwethaf a ddywedodd oedd: "Cyfarchaf well i Gymru! *Kenavo!*"

* * * *

Kenavo—i un o Lydawiaid disgleiriaf y ganrif hon! Y mae yn ei fedd bellach.

PENNOD XV

PARDWN SAINTE-ANNE-DE-LA-PALUD

O GWMPAS y rhan fwyaf o eglwysi, capeli a chalfariau yn Llydaw cynhelir bob blwyddyn seremonïau crefyddol a elwir *pardonou*, pardynau. Iddynt hwy daw'r pererinion o bell ac agos, i gymryd rhan yn yr orymdaith a fydd yno, ac i ddwyn eu hoffrwm. Yno, yn y pardynau hyn, y ceir y cyfle gorau i astudio gyda'i gilydd, megis mewn amgueddfa awyr agored, arferion, gwisgoedd, coel ac ofergoel y Llydawiaid. Y mae rhai pardynau yn llawer enwocach nag eraill, a rhyw gynifer ohonynt yn denu pererinion o bob rhan o'r wlad, ac ymwelwyr o Ffrainc, a Lloegr, ac America. Disgrifiais un o'r rhain, sef Pardwn Gwengamp, yn y gyfrol flaenorol, *Llydaw*. O dro i dro ymwelais â phardynau eraill. O'r cwbl i gyd, yr un a gefais yn fwyaf diddorol am y mwyaf o ystyriaethau ydoedd Pardwn y Santes Anna yn y lle a enwir uchod, ac a gynhelir ar y Sul olaf yn Awst, a'r dydd Sadwrn o'i flaen.

Bûm ynddo o leiaf bump o weithiau. Y tro cyntaf oedd yn 1924, pryd y treuliais yn agos i wythnos yng nghartref fy nghyfaill, y Doctor Cornic, ym mhentref bach *Plonevez-Porzay*, o fewn dwy filltir i'r wyl. Yr ail dro oedd yn 1927, pryd y teithiais yn unig swydd o Dremel, yng Ngogledd Llydaw, i weled y Pardwn am yr ail dro. Blwyddyn yn ddiweddarach, yr oeddwn yno drachefn, a chwmini o fyfyrwyr o Aberystwyth gyda mi.

Yr un modd yn 1929 a 1931 a 1937. O'r ymweliadau uchod, am y gyntaf y mae gennyf yr atgofion llawnaf; ond gan mai yn 1927 yr euthum yno'n debycaf i bererin, hynny yw, yn un swydd o'r Gogledd eithaf, ymweliad y flwyddyn honno a ddisgrifiad yma.

Cychwynnais o Dremel, ger Morlaix, fore dydd Sadwrn, Awst 27. Taith ddifyr, er dilyn rhannau ohoni ddegau o weithiau o'r blaen—o Dremel i Forlaix, oddi yno heibio i Guimiliau a Landivisiau hyd Landerneau. Y mae'n gwella bob cynnig, ac yn ein dwyn ymhen hir a hwyr at drothwy'r bryniau unig, y Mynyddoedd Duon fel y gelwir hwy yn Llydaw—nid am eu bod yn sythfryd ac ysgythrog fel mynyddoedd Cymru, ond am eu bod yn arswydus ac yn gartref yr angau, yn drigfan dychrynfeydd meddyliau'r Llydawiaid. Ond rhyfedd mor ddisymwth y gadewch y gwylltineb hwn, ac y'ch gwelwch eich hun yn cyflymu trwy lennyrch coediog, cynnes, lle y mae afradlonedd dail ar frigau, a ffrydiau dwfr grisialog yn gloywi rhwng glaswellt gwllithog. Yn ymyl y mae *Quimerç'h*, un o bentrefi'r-bryniau, sydd yn britho'r fro yma gyda thipyn o help oddi wrth dyddynnod a thir tro, a choedydd—hen weddillion y fforestydd mawr a fu yma unwaith yn unig drigolion y berfeddwlad. Yma, newydd gael y cip olaf ar y môr, y sylweddolir mor wir yw'r geiriau:

*O Breiz-Izel, O Kaera vro!**

Koat am he c'hreis, mor enn he zro!

Wrth ddisgyn o'r bryniau, amheuthun yw gweled coed afalau yn awr ac eilwaith, weithiau'n amlhau'n berthenni beichiog a phryd arall yn ffurfio perllan gyfoethog.

* O Lydaw, O'r fro harddaf! Coed yn ei chanol, môr yn ei chylch.

Oddi tanom y mae meinddol hir, a llinyn gwyn o dai yn ei goleuo, yn gymysg â hirgoed yn y gwaelod. Fe'n tywys yn union deg, drwy desni llathraid, at y tro lle y disgwylia'r llygaid gael yr olwg gyntaf ar *Chateaulin* a'i dai gwynion a brithion yn disgleirio o ganol y cefndir glas. Gorffwys ef yn foddog a diog, ac yn ei hyd ar lawr ei hafn gynnes; ond saif ei Gapel Notre Dame yn syber ar ben ei sylfaen o graig. Bùm yn aros yma unwaith neu ddwy, ac nid af byth heibio bellach heb ddiolch i'r trèn am oedi ennyd, i'm llygaid gael trochiad newydd yn llyfnder yr afon a'i rhidens o dalgoed amdani, a'u dail fel gogr yn hidlo heulwen oddi uchod i lawr ar wyneb gemog yr afon. Coetir irdwf sydd ymlaen; caeau lle y mae merched yn gwau hosanau a hudoliaethau, a phlant bach yn cymryd arnynt fugeilio gwartheg wrth chwarae gyda'i gilydd. Cyn y cânt amser i roddi eu chwarae i gadw, disgyrnaf yng ngorsaf fechan *Quemeneven*. Yma y mae taith y trèn yn dyfod i ben. Rhoddaf fy ffydd a'm hyder bellach mewn dwy goes hir, a wyneba'n hyf ar y saith milltir sydd oddi yma i *Locronan*.

II

Ymosodant ar y ddwy filltir sydd o'r orsaf i bentref *Quemeneven* yn fileinig, gan fynd i lawr i waered, ac i fyny i riw gyda'r un rhwyddineb. Prin y gadawant i ben na llygad droi i edrych ar gaeau wedi eu gwarchae gan gloddiau a pherthi mawr, a'u llenwi gan wenith du yn britho ac yn rhuddo yn yr haul. Dyma'r pentref ei hun, yn effro gan sŵn pobl yn nithio gwenith gwyn ar lawr ei le bach agored, yn union o flaen yr Eglwys. Af i'r gwesty gwledig am bryd o goffi a bara cartref ac

ymenyn o liw blodau banadl, a blas adladd iraidd arno. Y mae peth newyn arnaf wedi bore cyfan o deithio, ac fe'i torraf yn fân ac yn fuan yn y gegin gartrefol hon.

Eilwaith â mi'n ôl i'r ffordd fawr, sy'n dirwyn yn igam-ogam rhwng cloddiau llydain a'u twf tewfrig o dderw a chyll, ynn a ffawydd. Ni bu llaw amaethwr na thorwr cerrig yn tocio dim ar y cloddiau a'r gwrychoedd hyn, nac eleni na llynedd. Y mae'n ddiogel gennyf y buasai gwaith o'r fath yn wastraff ar amser ac egni ym mryd y Llydawiaid, na ddeallent ddim o falchter amaethwyr Ceredigion sydd yn cystadlu â'i gilydd am laned a llyfned a theced eu perthi trwsiadus. Ond nid oes arnaf awydd eu beio am adael i'r perthi eu penrhyddid ac i minnau gysgod rhag y tes. Ni'm rhwystrant, ychwaith, rhag gweled y wlad yn disgyn yn blygion llyfnon i lawr at ddôl a glyn a glan aber ac afon, ac esgyn yr un mor llyfn hyd at ffriddoedd ffrwythlon-dardd, gan ddisgyn ennyd a chodi eilwaith ar ddringfa gysonach tua'r mynyddoedd, a goronir bob tro gan Gapel neu'i gilydd, er clod i'r Sant a feddalodd galon y Llydawiaid bore, yr un pryd ag yr enillodd y gwrthdir i dyfu gwair a gwenith.

Nid dengarwch y fro yn unig a ddiidanai fryd a chalon pererin y prynhawngwaith hwnnw. Yr oedd y tawelwch yn hynod ar ddydd mor bwysig. Hyd *Locronan*, o'r braidd yr oedd dim yn eich atgofio bod pererinion ar gerdded o gwbl, na phardwn yn *Sainte Anne*. Llenwid yr holl wlad â'r fath dawelwch a distawrwydd, nes disgyn o fân leisiau'r greadigaeth yn hidl ar eich pen—adlais chwiban rhyw fab o fugail geifr a freuddwydiai uwchben ei ddeadell ddiwyd; sŵn troed

mewn *botou koat* oddi ar balmant beudy neu ysgubor; distaw sain oddi ar weill gwraig yn gwau wrth wyllo ei dafad a'i buwch; ac ambell glec o'r gwellt dan draed yr hon a loffai ymysg ysgubau gwenith a haidd. Yn nes na dim, ac yn gysonach, yr oedd bwrlwm aber-oedd grisialog, llafar a llawen, yn trydar heibio, trwst dyfroedd yn disgyn dros greigiau, a dwndwr gloywddwr newydd gychwyn allan o ffynnon. Ag eithrio'r lleisiau tangnefeddus hyn a godai'n fân gerddi o fynwes anian, yr oedd yr holl fangre mor ddistaw â'r Croesau cerrig y cerddwn heibio iddynt o drofa i drofa, a'r Calfariau a hongianai eu Crist ar Grog o groesffordd i groesffordd.

Cyfeiriai'r Meini huawdl hyn bob tro at ryw gapel gwledig neu eglwys blwyf, a welid yn boddid eu saethau yn yr awyr, a'u toau mewn amdo o fwsogl. Yn ddisyfyd, deuthum at un ohonynt mewn pentref bach, bach, o'r enw *Kergoat*, gyda rhes o brennau preiffion o flaen y fynwent hen. Treiglais tua'r Capel sydd yno, a synnais ddarganfod adeilad Gothig mor hynod mewn pentref mor ddinod. O'r fel y mae'r wlad hon yn anadlu allan feddyliau o hyfrydwch a harddwch santaidd ym mhob man! Islaw'r Galfaria y mae allor, ac uwchben y Capel y mae clochdy teg. Yn ei ffenestr y mae pump . . . chwech . . . saith . . . o wydrau ysblennydd, yn adrodd Hanes y Crist, a Ioseff, a'r Farn Fawr. Llyfr agored mewn llythrennau aur, Beibl i bawb o bobl y plwyf!

Y mae *Kergoat* ar groesffordd, a gwelais mai tua'r un faint o ffordd oedd i *Blonevez-Portzay* ag i *Locronan*, dau le yr ymserchodd fy nghalon wrthynt o'r blaen, ond yn enwedig *Locronan*. Tuag yno yr af, gan wybod yn sicr na bydd modd cael ystafell ym *Mhlonevez* heno.

PERERINDODAU

Dringo yw fy rhan o hyd, ond nid yn serth. Law yn llaw â mi, megis, y mae meithter o fynydd yn esgyn ac yn ymestyn dan ei faich o goed derw bychain cartrefol. Fe'i gelwir yn Fynydd Locronan, ac fe'i caf yn gwmni i'm meddyliau ac yn ffin i'm ffurfafen nes cyrraedd at gyrrau'r dref ei hun. Bellach, gadewais y gwrychoedd tewfrig o'm hól, a gostwng fy llygaid ar gloddiau di-goed, gydag eithriad o aethnen ac eithinen a banadlen, a thrwch o rug. Fel y dringir i fyny'r hirfryn grugog, daw'r gyfeillach â natur yn ddwysach nes cyrraedd ymdeimlad o frawdoliaeth llwch a phridd, fel yn y geiriau:

"Ond cefais gan yr hon a'm dug
Fy ngeni'n frawd i flodau'r grug."

Heno, y maent hwy, y grug, ie, a'r banadl a'r meillion a'r eithin, ar eu mwyaf lliwus, fel pe gwyddent hwythau mai dydd o Wyl ydyw. A ydynt hwy, fel y Llydawiad —y cwbl yn blant yr un fro, yr un tir—am ddwyn eu hysgub o offrwm i'r Santes Anna? O leiaf, ymddengys eu porffor llachar fel rhodd ar allor i'r haul, a ddeil i'w cusanu oddi ar ei obennydd yn y gorllewin gorffwysol.

Yn awr, daw Locronan i'r golwg, fel brenhines mewn rhamant. Saif ar ben y mynydd, yr eglwys yn y canol, yn danfon ei thŵr cadarn ar neges wybrennol uwchlaw'r trum a'r teiau golygus sydd o gwmpas. Ar y cwbl i gyd y mae arwyddion cyfoeth, cyfoeth y canrifoedd a'i gwariai ar eglwysi, ac ar adeiladu trefi a phentrefi gwychion ac addurnol. Cymerai dudalennau lawer i enwi'n unig y trysorau o gelfyddyd a gysgoda'r eglwys, heb sôn am ddisgrifio hyfrydwch y lle agored ar ganol y pentref, o gylch y ffynnon ddŵr. Codwch eich llygaid oddi ar un

PARDWN SAINTE-ANNE-DE-LA-PALUD

o leoedd uchaf y pentref, ar y wlad sy'n lledu allan ac yn chwyddo o bonc i blyg fel agor rhôl o'ch blaen. Yn gorwedd oddi tanodd y mae bro gynnes *Plonevez-Porzay*, yn dryfrith o gaeau, gweirgloddiau, gerddi, perllannoedd, treflannoedd a thyddynnod, y cyfan tan fendith y clochtaf a'r tyrau eglwysi a breswylia yn yr awel denau ac a gyfyd eu saethau o *Blonevez*, o *Blomodiern*, *Gerglas* a *Sainte Anne*, ac o *Bloaré* bell, megis bysedd estynedig mewn ymbil tua'r nefoedd.

Fe'i gwelwch, y fro hon, yn cyrraedd o eithaf cyrrau Mynydd Locronan a Mynydd Hom ar y dde, i lawr at draethau gloywon *Douarnenez*, lle y mae'r môr heno mor dawel ei ymchwydd â mynwes plentyn bach yn ei grud. Y mae'r rhan ohono ef sydd nesaf at *Ddouarnenez* yn un arian byw, yn neidio ac yn dawnsio, yn disgleirio fel dellt mell, ac fel llafnau cleddyfau'n taro. Ennyd, a thywallt yr haul ei belydr o borffor drosto a'i ddilladu â gwrid merch yn gweled ei chariad. Pelydra ar y llethri grugog, a lliwio'u blodau megis gwreichion o dân. Y môr mor dawel â gwllith yn disgyn, mor llonydd ag anadliad blodeuyn. Ac eto, y môr hwn a lyncodd y Ddinas Is, "Cantre'r Gwaelod" Llydaw, ac a ddena i'w grombil yn barhaus forwyr y traethau a'r nysoedd yn ymyl. Mor deg heno! A ydyw yntau am gadw Gŵyl y Santes Anna, a farchogodd ar ei donnau o *Ddouarnenez* i Ganaan, ac o Ganaan yn ôl, ys dywed y chwedl Lydewig? Ai gostegu a wna, er mwyn anrhydeddu noddwraig ei forwyr dewrion, Mam Mair y Wryf, a Nain Crist y Gwardwr, a Thywysoges y Llydawiad?

Y mae ei gof, fel ei grombil, yn ddiderfyn. Gŵyr yn iawn y llun oedd ar y fro hon yn y dyddiau pan oedd

Arglwyddi Nevet yn teyrnasu yma, a'r dyddiau pellach fyth pan laniodd y Sant Ronan hwnnw o Iwerddon, gan rodio gyda'i Dduw yng nghilfeydd a thywyllwch fforestydd Nevet, a brodio ym mroydd yr unigeddau hynny goelion a chwedlau ar gyfer cenedlaethau a chanrifoedd o'i bobl. Ysgrifennwyd y chwedlau hynny mewn lluniau naif a byw ar y pulpud sydd yn yr Eglwys; ac ail-adroddir cyfran ohonynt ar ddydd ei bardwn blynyddol, ond yn arbennig yn y pardwn a gynhelir yma bob saith mlynedd, pryd y treulir wythnos gyfan i orymdeithio dros y ffordd a gerddai yntau bob wythnos. Hwnnw yw'r *Troménie*, neu'r *Tro-Minihy*, y Tro o gwmpas y Mynachty, yr holl noddfa santiaidd a oedd dan ei ofal ef, a orymdeithir mewn distawrwydd, a phob yn un ac un, gan ugain mil o bererinion o fro Cernyw. Ar y cyfryw adegau â hyn, ac ar ddyddiau Pardwn Sainte Anne, paid Locronan â bod yn bentref ei boneddigion a'i barwniaid canol-oesol, a llenwir ei lle agored a'i phedair priffordd gan lifeiriant y bobloedd a'r cerbydau yn dilifo i mewn o'r pedwar cwr.

Prin y caf addewid am wely yma, heb sôn am ystafell i mi fy hun; ond y mae'r addewid yn ddigon imi, a gwely ar noson fel hon yn rhywbeth moethus dros ben. Cyn mynd ymlaen i Sainte Anne, caf giniawa yma hefyd mewn neuadd sydd mor hen â mwyafrif adeiladau'r pentref hynafol hwn. Cynnwys ddodrefn godidog, wedi eu gwneud o dderw a gydoesai'n ddiamau â Sant Ronan ei hun, yn y bumed ganrif. A gallaf ddychmygu bod yr ystafell a roddwyd imi i gysgu'n hwyr heno neu'n fore yfory—gyda darlunydd o'r enw Bieling, Is-Almaenwr o'r un genedl â Rembrandt—wedi cysgodi'r brenin Jean IV

a'r dduges Anna, tywysoges olaf Llydaw, wrth ddyfod, hwythau, i dalu gwrogaeth i Ronan.

III

Mewn tipyn go lew o frys y bwyteais, am ei bod wedi troi saith o'r gloch, a'r orymdaith fawr i fod yn Sainte Anne am naw. Trwy ryw wyrth o eiddo Rhagluniaeth, cefais fy nghludo i ben fy nhaith mewn cerbyd moethus-wych yn perthyn i Americanwr goludog iawn. Y mae'n fachgen bras, ac yn ei alw ei hun yn *Artiste* (gyda llythrennau fawr) ac yn gwisgo y *beret* Ffrengig am ei ben, fel arwydd allanol o'i gelfyddyd. Gydag ef y mae ei fam, peunes o ddynes aflêr mewn trwch o ffwr, a'i phen yn llawn o'r truth rhyfeddaf a glywodd neb, ond yn fyddar fel post. Gwastraff ar nerth ac amser oedd cynnig dweud yr un gair wrthi, heb fod gennych amynedd i'w weiddi i dwll ei chlust ddeg o weithiau drosodd. Rheswm digonol dros adael iddi frygawthan ei Sosialaeth gosmopolitan hirwyntog, moli ei hanarchiaeth ddi-lywodraeth, a chanmol ei noddedigion enwog—o'r Indiad Gandhi i'r Sais Norman Angell. Dim ond goludogion o'i bath hi a fedrai anwesu'r fath annhrefn o hanner gwirioneddau a alwai hi'n gyfundrefnau. Yn naturiol iawn, Ford oedd ei henw hithau, ac yr oedd yn awdures mwy o lyfrau nag a allai eu cyfrif ar y ffordd o *Locronan* i *Blonevez-Portzay*. Fe ddaw amser pan gais ysgolhaig o Almaenwr llafurus-drafferthus brofi mai hi ydoedd y broffwydes a gynhyrfodd Gandhi, a ysbrydolodd Stalin, a achosodd y chwyldroadau yn Sina a'r rhyfel cartref yn Sbaen; ac mai'r gwir yn syml a lefarodd pan ddywedodd wrthyf mai'r adyn a'r ynfyty mwyaf a gododd America ydoedd

Edgar Allan Poe! Gwir yw'r gair, a thrist yn amlach na heb, fod gan bob pen ei biniwn, ac na allai awyr rasmusol ardaloedd *Sainte Anne* a *Locronan* rwystro hon i'w lygru â'i ffegod ffôl, mwy nag y gall papur glân ei hatal i'w lychwino yntau â'r un ffiloreg.

Yr oedd mwy o ddi-ddordeb imi yn rhuthr y cerbydau a welem ar ein ffordd nag yn ei rhethreg hi. Cyflyment orau y gallent drwy'i gilydd, ac ar sodlau ei gilydd, dan gymylau tew y llwch a godai allan o'r ffordd, fel tARTH cors, hyd hanner y meysydd. A'r fath amrywiaeth ohonynt! Cynrychiolant bob math o gelyyddyd rhagor nag un ganrif, o'r gert a'r gambo a'r garafan hyd at y ceir ffair a marchnad; ac o'r cerbydau modur cyntaf a luniodd llaw hyd at y drutaf ar y farchnad. Yn llawn dan sang i gyd, o Lydawiaid a Llydawesau, hen ac ieuanc, trigolion gwlad a thref, perchnogion tir ac arian, a chardotwyr crwydr, mynychwyr diwytaf holl Wyliau Llydaw. Digon o waith oedd rhoddi cam heibio i rai ohonynt; ac ar ôl cyrraedd *Plonevez* yr oedd yn anodd symud o gwbl. Ymlaen yr awn, er hynny, a'r Americanes barabulus yn synnu at y fath luosowgrwydd o gerbydau a dynion ym mhobman, ar ffordd a chroes-ffordd, cloddiau a chaeau.

Dacw dŵr Eglwys *Sainte Anne* yn codi i'r golwg uwchlaw'r môr dynoliaeth sy'n ymdaith tuag ato ac am ei gylch. Nid oes dim yno ond yr eglwys ei hun, dau dyddyn, a rhyw hanner tafarn. Trigant yno'n ddiiddig ac yn unig ar hyd y flwyddyn, yng nghysgod grwn o dir sy'n codi fymryn rhyngddynt a'r môr, a chopi bach o goed o'r cyfeiriad arall. Heddiw fe'i gweddnewidir i gyd. Am ddwy ochr i'r eglwys y mae myrdd o letyau

unnos, o gabanau ystyllod a phebyll lliain, o standingau yn llawn gwerthwyr creiriau, croesau, gleiniau, delwau, canhwyllau a phob rhyw dlws eglwysig, a standingau eraill yn gwneud ffrwst o fasnach mewn bara ac ymenyn. cremrogau a chacenni, caws a chig, ffrwythau gerddi Ffrainc a Llydaw, seidr y gorllewin a gwin Bwrgwyn ac Angou a Bordeaux. O'r tu cefn i'r pebyll, cyfyd persawr coffi du uwchlaw tanau a gyneuir gan hen wragedd sionc a ffraeth, a'u hwynebau poeth yn tasgu chwŷs yng ngolau'r flamau. Trônt a throellant trwy ei gilydd, gan osod trybeddi duon yn y tanau i ferwi cawl i'r rhai a'i mynnai. Y mae'r gwragedd tafodrydd a diffino hyn yn rhan anhepgor o'r lliestwyr cymysg sydd yma, a hwy sy'n eich atgoffa nad am noson yn unig y bydd y rhyfedd ymgynnull hwn, a ymddengys am funud fel myrdd o sipsiwn crwydr wedi dyfod ynghyd megis ar gân corn i ryw ddefod ddieithr, a munud arall fel gwrsylltai byddinoedd mewn gloddest cyn mynd i'r gad, ond efallai ar y cyfan yn debycach i lu o Ddwyreinwyr banerog yn gwrsyllu dan arweiniad rhyw Senacherib neu Diglath-Pilesar neu Fahomed Broffwyd. Ar y naill du i'r standingau a'r pebyll y mae trioedd o "geffylau bach" yn uchelgloch eu rhialtwch, ac yn boddî â'u maswgerddi meddwol holl leisiau'r lliestai a'r bythod a'r pebyll—a'u ffræo a'u ffeirio, clandran eu gwyrddau gwin a seidr, eu bowlenni cawl a choffi, brygaldian tafodog eu gwragedd ffel—a chyfeddach y meibion a anghofia eu gwyleidd-dra arferol mewn gormod diod, dan gysgod y lliciniau a'r llenni.

IV

Wedi dyfod at gyffiniau'r gwrsyloedd hyn, gadewais

yr Americanaid, a brasgamu at yr Eglwys. Y mae'r clychau wedi dechrau canu, gan awgrymu i'r "ceffylau bach" dewi â'u maswedd, ac i'r pererinion frysio i lenwi gwagleoedd yr addoldy. Dyma fi i mewn cyn llanw o'r holl gonglau, a gwelaf fyrdd o ddygyfor, o allor i allor, o gapel i gapel, ac yn arbennig at Gapel y Santes Anna ei hun. Ar hyn, wele dyrfa drefnus o offeiriaid, "oll yn eu gynau gwynion," yn cerdded yn urddasol o gyfeiriad y brif allor tua chanol yr eglwys. Ar eu blaen y mae offeiriad y plwyf, sy'n cyfuno syberwyd a symlwydd yn gyflawn; ac ef yw'r dewin sydd yn eu ffurfio yn gnewyllyn yr orymdaith luniaidd, liwgar a dyf ohonynt yn union deg. Gair o'i enau, amnaid ac arwydd, ac y mae'r holl eglwys, pawb â'i gannwyll yn ei law, wedi mynd i'w lle yn yr orymdaith, ac yn dechrau llifo allan drwy'r porth, a than y clychau sy'n lledu'r newydd am yr orymdaith hyd gartrefi morwyr y traethau, i dai tyddynwyr gororau'r Mynyddoedd Du a Mynyddoedd Arré, ac i gabanau cyntefig cryddion y *botou koat* ym mherfeddion y fforestydd gwyll. Danfonodd yr holl ardaloedd hynny eu cynrychiolwyr yma, fel y gwelir oddi wrth wisgoedd eu merched a'u meibion; ond, er hynny, onid gweddus i'r hen a'r methedig, a adawyd gartref, gyfranogi yn eu hunfan pellennig o ddwyster yr awr pan ddyry Llydaw gyfan wrogaeth i'w nawdd Santes? O fôr i fynydd, y mae cynulleidfa ddistaw yr aelwydydd gwasgaredig, plant y crud a henwyr y pentan, yn cymryd rhan yn yr ŵyl hwyrol hon, pan dery sŵn y clychau wrth garreg eu drws.

Tau y clychau, ac am ennyd, disgyn distawrwydd ar yr holl fan. Troëlla'r rhengoedd pererinion rhwng

porth y fynwent, a dechreuant ddringo'r morfa. Clywir, megis islais o dan y tawelwch dwys, siffrwd awelon tawedog yr hwyrnos ym mrig y deilgoed, a chyffyrddiad byddin o draed ar fonion eithin wrth araf esgyn y fron dwmpathog, ac anadl tyndra hen wrageddos y mae holl gerdded blinderus yr hirddydd yn mennu arnynt. Torrir ar y distawrwydd yn fuan gan felysgan offeiriad yn codi o gyrrau blaen yr orymdaith, ac yn agor geneuau'r holl dorf i gyd-ganu ag ef glod a diolch i *Zantez Anna ar Palud*:

*Mamm zantel a Vari
Salud a greiz galon
Enor ha meuleudi
D'hor Mamm ha d'hon Itron!*

Ar ôl pob pennill newydd, seinir y gytgan drachefn a thrachefn, a chyda mwy o foddfa soniarus na'r penillion eraill, sydd efallai'n newydd i rai o'r cantorion gwledig hyn:

*Itron Zantez Anna,
Ni ho ped gant joa!
Mirit tud an Arvor
Var zouar ha var Vor!*

Tonnau o soniarusrwydd gorfoleddus yn morio, yn llanw ac yn treio, ydyw gogoniant y canu, ac nid perffeithrwydd cytûn lleisiau disgybledig. Dyfnheir ei ddieithrwch a'i gyfriniaeth rhyfeddol gan gyfaredd na pherthyn yn gywir iddo ef, ond i'r awr a'r lle. Y mae'r dydd wedi diweddu aeddfedu, dan yr haul a newydd gwblhaodd ei rawd yn fflam dân o'r tu hwnt i'r gorwel llosg. Pabell ennyd yn y gwyllnos a gronna i'w oriau

riniau swyn Llydaw, a dwyster dwfn y mudandod mawr a bwysa fel amdo amdani. Y mae'r gwyll ar fynd yn nos dyner, wlithog, a llen o ffurfafen ysgafn yn cau amdani o bob cwr, ac am y cantorion gorymdeithiog. Y mae ganddi hithau ei storfa o oleuadau llachar, tanbeitiach na chanhwyllau'r pererinion. Ond pa le y mae'r gym-anfa aneirif honno heno? Onid ydyw'n wylaidd iawn? Onid ydyw'n araf yn ymddangos? A oes arni ofn neu gywilydd cystadlu â'r canhwyllau hirion sydd yn nwylo'r Saint? Neu, a ddewis hi'n hytrach ymatal am y tro, oherwydd teimlo ddigoni o'r canhwyllau, eu hunain i oleuo traed y pererinion ac i serennu gwedd eu gorymdaith? A da y gwna, canys y mae'r morfa unig hwn heno yn droedfainc i draed cymanfa'r etholedigion, yn gysegr pererinion tylwyth paradwys.

O ryfedd ras! medd y crefyddwyr. O berffaith gelfyddyd! medd y tlws o lygad. O brydferthwch santeiddrwydd! medd y sawl a gyfunar ddwy ddawn. Bwria'r tri dosbarth eu bryd ar ryfeddodau'r gerddorfa symudol a symudliw, yr offeiriaid gwynion yn y gwyll, y merched a'u trilliw—can pur eu capanau, melynrudd y golau gweinion yn eu dwylo, a du perffaith y gweddill o'u gwisgoedd—ac yn olaf, y dynion yn dywyllach na'r tywyllwch ei hun. Cynganedda'r lliwiau a'r ymdaith a'r canu yn gyfangamp gyfrodedd. Mawl y Santes Anna a genir o hyd ac o hyd, o bennill i bennill, o ris i ris, o gytgan i gytgan, gydag ystum a genau a golau cannyll. Gwerir pob moliant arni, a gelwir hi wrth bob enw serchog, cariadus—"Mamm goz hon Doue," "Mamm hor bro,"

hano meulet

E Breiz-Izel, kement caret

Hano douz, hano caer meurbet.

Cryna'r canhwyllau, goleuant a diffoddant, cyfyd y canu'n donnau chwyddedig, a thau ennyd. Bwriai rhengoedd o draed yn erbyn boncyffion y llethrau, distawai'r nos a disgynnai'n dywyllach, dywyllach. Trwy ei distawrwydd tywyll, esgyn y canu yn weddi am fendith.

Selaouit hor pedenn

Mamm garet Breiz-Izel;

Selaouit hor goulenn

Bemdez enn o chapel.

Treigla'r orymdaith yn ei blaen ac i lawr ar oriwaered; cerdda'r moliant tuag yn ôl, gan ddechrau bob tro yn y rheng flaenaf gyda'r offeiriaid, a'i gymryd i fyny gan y rhengoedd nesaf, a'i ddanfôn yn ei ôl, o gerdd i gerdd, dros yr holl orymdaith. Y mae gyrfa hir ac ar gynnydd, gyrfa laes o ymdoniad ysblennydd, i bob pennill, a gyrfa ferrach, gyflymach i'r gytgan. Gweddiir am ddoethineb i'r gŵr ifanc, ac am ddiwedd gweddus i fywyd yr hen:

D'ann den yaouank roit

Eun tenzor a furnez,

D'ann den koz goulennit

Eur fin vad d'he vuez!

Y mae'r orymdaith yn nesáu at y fan lle y mae'r ceffylau bach mor ddistaw â'r bedd, a'u perchnogion a'u gyrrwyr yn syllu'n geg-agored oddi ar y grisiau a'r cloddiau, ar ryfeddodau lliwiau ac odlau cân y rheng-

oedd ysbrydol. Disgyn yn gerddgar i lawr o'r llethrau tolciog, twmpathog, gan ymddolennu tuag yn ôl at yr Eglwys. Ond ni ddychwel ar unwaith i Dŷ yr Arglwydd. Symuda yn ei blaen at Ffynnon Santes Anna, y ffynnon a dorrodd allan yma, medd y Llydawiaid, pan ddaeth Crist bob cam o'r ffordd i'r tir cysegredig hwn i ymweled ag Anna yn ei bro ei hun, ym Mhlonevez-Parzay, i addo ac i roddi'r cwbl a erfyniai ar ran ei phlant arbennig hi yn Arvorig, yn Llydaw. O'r dydd hwnnw, medd yr hanes, ni pheidiodd y dwfr bywiol â ffrydio allan o'r ffynnon hon. Yno, gan hynny, y mac'n weddus ymdaith yn foliannus cyn myned i mewn i'r Eglwys. Dyma gyrraedd at ei phorth hithau, a myned i mewn i'r cynteddau o'r lle y cychwynnodd y bellen hudol ddirwyn allan.

Yma y detyd ac y gwasgar; ac y gedy'r crefyddwyr eu lle yn yr orymdaith, i fynd i ddodi'r canhwyllau'n offrymau disglair ar yr allorau, ond yn enwedig ar allor y Santes ei hun. Ati hi y cyfeiria cam a llygad a deisyf pawb. Mewn ennyd, llenwir yr Eglwys gan y pererinion dychweledig; a ffurfir cylchoedd o gwmpas allor y Santes, yn bennaf gan wragedd hen, yn eistedd fel delwau mor agos ati ag y gallant, a rhai ohonynt â'u pennau yn cyffwrdd ag ymyl ei gwisg. Hwynthwy ydyw'r gwir ffyddloniaid—hwynthwy, er garwed yw golwg eu hwynebau rhychiog, hwynthwy a'r crwyn o liw mwswgl gan hinoedd celyd, a heuliau poethion. Eiddynt hwy yw anterth yr uchel wyl. Hwy yw y rhai a bereriniodd gyfran o'r bererindod ar eu gliniau. Hwy yw'r rhai a ymlusgodd o gwmpas yr Eglwys. Teirgwaith yr ymlusgasant o'i chylch, cyn dyfod llygad o gnawd i'w

gweled. O'u plith, cyfyd un i osod olew yn y llusernau, fel y byddo golau ganddynt oll . . . drwy'r nos, ac fel y byddont yr un fath â'r "rhai call a gymerodd olew yn eu llestri gyda'u lampau." Yma yr eisteddant, yma y disgwylant . . . hyd y bore. Ac am dri o'r gloch y bore y bydd yr Offeren Fore—Offeren gyntaf yr ail ddydd o'r Wyl.

v

Yr oeddwn i erbyn hynny yn ôl yn *Locronan*, yn cysgu gyda'r celfyddwr o'r Is-Almaen a'i ugain darlun o ddelwau'r Eglwys, mewn gwesty a letyodd dywysogion a phendefigion ganrifoedd maith yn ôl.

Pan ddeffroais tua chaniad saith o'r gloch, dëellais fod dygyfor eisoes yn y pentref. Yr oedd hi'n ddydd Sul, ac oherwydd mai yn *Sainte Anne* yr addolai pawb a allai y dydd hwnnw, ni byddai ond un offeren yn unig yn *Locronan*. Prin y cefais amser i wisgo nad oedd clych yr eglwys yn deffro'r holl wlad ag atsain eu dwndwr. A phan ddisgynnais i lawr dros y grisiau derw, a dyfod i'r lle agored, gwelais olygfa a ddigrifodd fy llygaid newydd-agored yn fawr. Ymgasglasai'r praidd o bob cyfeiriad, ac efallai o bob cartref, i ganol y pentref—yr un fath, yn ddiau, â phob bore Sul. Yno yr arhosant nes llenwi'r lle. Yna, symuda'r gwragedd gyda'i gilydd oddi wrth y dyrfa gymysg, a cherddant i gyd at borth yr Eglwys. Erys y dynion bob un ar ôl, gan grynhoi at ei gilydd ar ffurf hanner cylch, rhyw ugain llath ymaith oddi wrth yr eglwys. Safant yn fud, a'u llygaid wedi eu hoelio wrth yr addoldy hen. Ffy munud neu ddau heibio. Trachefn y cân y clychau. Dyna'r arwydd fod y gwasanaeth ar fedr dechrau. Ymlaen â'r gwŷr yn un

fintai frysiog, megis milwyr yn gwneud cyrch ar gaer, ac i mewn i'w lleoedd. O'u blaenau, y mae'r Offeren fore yn ymagor yr un fel ag i'w teidiau ar hyd y canrif-oedd, yn llawn hud dirgel, gan guddio a datguddio cyfrin bethau gweledig ac anweledig, y sylweddau anhraethadwy . . .

Nid arhosais i'r Offeren, ond mynd yn ôl i'm llety am y pryd bore, o goffi a bara ac ymenyn. Yr oedd wedi ei baratoi'n ddifai, ac yr oedd blas arno. Un peth a'i difwynai'n anghyffredin, sef dyfod cawod o glêr adeiniog drwy'r awyr a disgyn yn hyf ar y bwrdd a'i gynnwys. Cododd y byrddaid gwesteion yn unfryd yn erbyn yr ormes oddi fry. Ond nid cynt y dug eu hymosod ryw wasgfa ymhlith y gwasgaredigion o'r awyr nag y cododd ymryson oddi mewn i rengoedd y fyddin a ymosodai. Ymryson geiriau, yn wir, ond ymryson chwerw er hynny. Yr oedd yr holl ystafellaid o ymwelwyr yn eu galw eu hunain yn *Artistes*. Yn eu plith yr oedd nid ychydig o Saesnesi, wedi ymsychu yn eu bronnau a'u hysbryd wrth nesu at y deg-ar-hugain oed, a mynd heibio iddo mewn braw. Eu cysur bellach ydoedd cymryd arnynt eu bod wedi rhoddi eu gwryfod . . . a'u hathrylith, wrth gwrs, gan na ddychmygai'r un o'r bodau anniodefol hyn ei bod yn ddi-athrylith—at wasanaeth celfyddyd. Ymfrostient yn gegog yn eu gwaith. Ar hyn, a rhwng dau lwnc o goffi, dyma feirniadaeth ddeifiol ar y cwbl ohonynt gan yr Is-Almaenwr. Cyn iddo orffen ei wawdio annhrugarog, dyma'r holl Saesnesi'n codi'n frig-frig am ei ben fel haid o wenyn barus. Pe gallai tafodau pigog, coliog, wenwyno hyd angau, ni buasai fwy sôn amdano druan na'r marw mewn ychydig funudau. Plygodd dan

y picellau miniog, gwenodd i'w ddwrn, a thawodd. Ac felly y daeth y rhyfel yn y neuadd i ben,—“digwyddodd, darfu, megis seren wib.”

Pan gyrhaeddais at ddrws y gwesty, yr oedd clychau'r Eglwys eilwaith yn canu, ac yn cyhoeddi bod rhywbeth newydd ar ddigwydd. Dywedodd rhywun wrthyf mai Esgob Quimper oedd ar fedr galw yno ar ei ffordd i'r Pardwn. Gwir iawn. Fe'i gwelaf yn disgyn o'i gerbyd, ac adnabyddaf ar unwaith ei gorff hirdal, y cefn sydd wedi crymu rhyw fymryn megis derwen dan wyntoedd y gaeafau, ac yn enwedig yr wyneb llym a llyfn, ond hynod o fenywaidd, a'r gwallt gwyn a donna'n wlanog dan ei gapan Esgob. Cerdda i fyny'r grisiau sy'n arwain at borth yr Eglwys, gan amneidio ar bawb o'i gwmpas, a nesu at bob perchen plentyn, i osod ei law ar eu pennau. Tywylla'r porth am eiliad, a mynd heibio'r ddau glochydd sydd yn llewys eu crys yn tynnu'r rhaffau; a symud rhagddo at y brif allor. Disgyn ar ei ddeulin yno, mewn gweddi oediog. Cyfyd, a cherdda at yr allorau eraill ar dde ac ar aswy, gan gymryd sylw arbennig o ddelwau Corentin a Ronan. Pan drodd oddi wrthynt hwy, yr oedd cynulliad go fawr ar lawr yr Eglwys, yn enwedig o hen wragedd a phlant, dau eithaf edefyn bywyd.

Anelai pob un o'r gwagedd at gusanu modrwy'r Esgob; a golygfa ryfedd braidd oedd gweled dwy neu ragor yn ceisio ei chusanu ar unwaith â'i gilydd. Ond y mae'n gwbl ddiogel gennyf na resynai'r Esgob ddim wrth yr arwydd goelgrefyddol hon, a'u hanelu petrus am eu bendithio ganddo ef. Deallai bobl ei blwyfi yn well na

neb, a gwyddai mai un o ddigwyddiadau mawr eu bywyd llafurus, digyfnwid a di-gynnwrf, a fyddai hyn; ac yr arhosai'r dydd yn eu cof hyd fyth, fel un yn llawn miraglau o ben bwy'i gilydd, rhyw fath o dymor hud a mwynder haf yn eu bywyd ysbrydol, yn hidlo i lawr ar eu pennau drugareddau nefol, a maddeuant pechodau. Dygent y plant gyda hwy i fod yn dystion o dywalltiad y bendithion ar henaint a blinder eu mamau, ac i fod eu hunain yn gyd-gyfranogion ohonynt yn nhynerwch eu hieuenctid hwythau.

Wedi gorffen ei swyddogaeth yn yr Eglwys, cerddodd yr Esgob lluniaidd allan drwy'r porth, a dychwelodd i'w gerbyd. Araf ddiflannodd ymaith o ganol y cwmwl gwrageddos, gan eu gadael mewn gwynfyd undydd, ac edifeirwch di-drannoeth . . . efallai. Aeth y pentref yn ôl i hanner hepian am ysbaid eto. Am ysbaid yn unig. Canys dechreuodd y rhuthr a'r rhedeg tua *Locronan* o bob cwr, gan ei llenwi â mynd a dyfod dibaid, a rhoddi iddi agwedd congl yn y *Place de la Concorde* ym Mharis. Drwyddi hi yr oedd broydd pell ac agos, trefi a phentrefi, yn arllwys eu llifeiriant pobl ar eu ffordd i ail ddiwrnod y bererindod.

VI

Yr oedd yr Offeren Fawr yn *Sainte Anne* i fod am un-ar-dddeg o'r gloch. I'r cyfeiriad hwnnw y cychwynnais innau, mewn digon o bryd i gael gweled y pererinion yn ymgynnull ynghyd o'r morfa ac o'r traeth, o'r caeau ac o'r cerbydau. Gwasanaeth awyr agored a gawn, oddi ar allor wedi ei chyfodi yn bwrpasol o'r naill du i'r Eglwys. Ar lwyfan gerllaw y mae deg-ar-hugain neu fwy

o offeiriaid, ac o'u blaen, yn cistedd ar y tirlas i fyny gofron oleddfog, y mae un o'r tyrfaoedd harddaf y gall llygad dyn fyth ymborthi arnynt. Y mae amrywiaeth oedran a gwisgoedd, ystum a lliwiau, yn eithriadol iawn. Y mae yma ferched heirdd—yn hardd gan wryfod corff a meddwl, gan iechyd a doniau'r tir—o bob ardal yn ymyl; a'r rheini sydd o gyffiniau *Pont l'Abbé* yn amlycach na neb, nid am eu bod yn harddach nac yn amlach, ond am fod corun pigynnog eu penwisg mor hawdd ei weld. Edrychwch ar benwisgoedd pawb ohonynt, ac yno darllenwch, megis mewn llyfr agored, y plwyfi a'r trefi o ble y deuant—*Plonevez-Porzay*, *Plomodiern*, a *Locronan*; *Ploaré a Douarnenez*; *St. Guenolé* ac *Audierne*; *Quimper*, *Concarneau*, *Pont Aven* a *Quimperlé*; *Scaer*, *Pontivy* a *Vannes*; *Huelgoat*, *Landerneau* a *Morlaix*. Pwy yw y rhai hyn sydd yn eu duon—sydd yn ddu o'u corun i'w sawdl? Yn ddiau, dyma blant y cystudd mawr! Deuant i gyd o Ynys Sein, a du yw eu gwisgoedd bob amser, fel y gweddai i drigolion y ddrycin, lle y mae pawb, meddir, mewn galar beunydd. Fel y bawdd eu dagrau yn y môr a gân ei grwth o gylch eu hynys, felly y tawdd eu dillad galar i mewn i amryfal liwiau'r dorf.

Yn gymysg â'r merched bonheddig hyn—ac nid ymddiheuraf funud awr am ddefnyddio'r gair *bonheddig* wrth sôn amdanynt—yn gymysg â hwy, y mae'r bechgyn o dan eu hetiau melfed, rhubanog a byclog, yn eu gwasgodi gleision a'u melfed du a melyn, a botymau lliwus yn rhesi arnynt. Ymddangosant hwythau fel penaethiaid a thywysogion, a bron mor urddasol â'u chwirydd unbenesaidd.

Ymuna'r gynulleidfa i ganu'r *Gloria in Excelsis* a'r *Ave Maria* mewn ysblander. Yna darllenir cyfran allan o'r Efengylau ac o'r Epistolau, a chyd-genir paderau. Dilynir y cwbl hyn, a mwy, gan bregeth Lydaweg. Y mae'r offeiriad a bregetha yn feistr ar ei iaith ac ar arddull gain. Medd ar lais soniarus, sy'n glywadwy o'r gair cyntaf hyd y diwethaf. Dyry fawl uchel i'r *Santez Anna*, a sonia am ddyled y Llydawiaid iddi. Ond prif nod ei bregeth fer ond diddorol ydyw pwysleisio mai un Duw sydd, y dylid Ei wasanaethu Ef o flaen popeth, a cheisio'n gyntaf Ei Deyrnas Ef, a gweini ar ddynion, a'u caru. Dylai'r goludogion iawn-ddefnyddio'r cyfoeth a ymddiriedwyd iddynt, ac ymddwyn yn gyfiawn ac yn gariadus at y rhai sydd islaw iddynt. "*Doze a zo just,*" medd y pregethwr; y mae Duw'n gyfiawn, yn talu da am dda "*en e bed*" ac ym mro "*Paradoz.*" Ond disgyn Ei felltith yn drwm ar y rhai a lywodraethir gan anghyfiawnder, casineb, cenfigen, a gelyniaeth.

Y mae'n ddyletswydd ar bob Llydawr ddarllen *Buhez ar Zent*, myfyrio llawer ar fuchedd y Seintiau, ac yn enwedig y *Santez Anna*, sydd mor barod i wrando ar ymbil ei phlant. Hi oedd mam y Wryf Fair, ac a ddysgodd iddi "*lenn lezen Doue,*" sef darllen cyfraith Duw. "*N'eus ked den parfait er bed mân, ma breudeur ker,*" meddai mewn geiriau wedi eu gwllitho gan diriondeb brawdol. Ond fe rydd Anna, "*Vam Goz Jesus, Patronez ar Breiziz,*" i bob Llydawr "*nerz, zicour a bennoz*"!

Ar y nodyn cysurlawn hwn y terfynodd y pregethwr ei bregeth awyr agored, mor fer, mor ddifyr. Ni ddaeth y gwasanaeth i ben eto. Dilynydd y bregeth gan ganu'r

Credo a'r *Ave Maristella*, math o gyfarch gwell ac annerch i Seren y Môr, mor weddus, mor hyfryd, yn y lle hwn.

Erbyn hyn, y mae hi'n dipyn go lew wedi canol dydd, a daw'r gwasanaeth yn yr awyr agored i ben. Y mae'r tyrfaoedd a swynwyd ganddo am ysbaïd awr a hanner heb flino dim, yn gwasgar i bob cyfeiriad, i fyny ac i lawr y gofrennydd, i'w diwallu eu hunain â bwyd a diod, rhai yn y cabanau a'r pebyll, rhai ar ael y bryn, a thrachefn rai i lawr ymhell wrth fin y môr. Dyma gyfle'r "ceffylau bach." Wedi gorfod bod yn llonydd am ddwy awr, wele, daeth eu tro hwythau. I fwrdd â hwy ar eu tuth cylchynol, a phob cylchres yn drwm ac yn dew gan farchogion a marchogesau, peiriau dedwydd i'w ryfeddu. Ymddengys y merched yn swil iawn, a phrin y codant eu talcennau ar yr edrychwyr o'u cwmpas. Y mae'r bechgyn yn hyfach o dipyn ac yn cyfarch eu cyfeillion yn y dorf, a leinw'r holl ffordd rhyngddynt hwy a'r tu ôl i'r pebyll, at y rhai newynnog sy'n ymborthi ar y meinciau hirion, ac at y cerddorion a ddena o'u cylch lygadwrth blant y meysydd a'r mynyddoedd, i wrando ar ddawns-ganu *As-tu vu?* a masweddau eraill. O blith yr holl dyrfa gymysg, cyfyd swnllyd grioedd Llydawiaid anghofus o'u bywyd gwastadfyrd arferol. Cyfyd, a lleinw'r awyr, ac â allan i gwrdd â llanw'r môr. Y mae ganddo yntau ei luoedd o ffyddloniaid, y rhai a gâr ei furmuron ef uwchlaw seiniau'r pebyll a'u gwinglyd drigolion crwydr. O ben y bryncyn fe'u gwelaf yn rheng ddu rhyngof a'i las ef. Dad-wisga rhai, gan gerdded i mewn i'w ddŵr llyfn, ac ymddangos fel y morforynion a dynga brodorion glannau Môr Ceredigion

eu gweld o dro i dro. Gwnânt i chwi gofio hefyd am Dahut, merch y brenin Grallon, a'i morynion; a lled-dybio eu bod hwy yn ymweled eto â glannau eu gware gynt, y glannau lle y boddwyd hwy a'u trefi cyfoethog gan y tonnau, fel rhyw Sodom a Gomora.

Y mae'r môr mor dawel, mor dreiog, a'r marian mor llyfn a sych, fel y gellir cerdded neu yrru cerbyd yr un mor ddiogel ag ar briffordd gwlad. Dacw gerbydau'n dyfod dros y marian â'u llond o breswylwyr amaethdai'r glannau. Dacw eraill yn dyfod ar feirch, a thrachefn eraill mewn cerbydau modur, i gyd mor hamddenol â phe bai'r traethau'n llwyfannau chwaraeon a rhedeg-feydd. Ac o bell, o gyrrau'r gorwelion, wele longau hwyliâu gwynion yn cyrchu ar esmwyth lifiant tua'r glannau, gan ddwyn ar eu byrddau gwllithog bererinion Douarnenez i'r gylchwyl yn y fangre gysegredig. O drum y fron lle y safaf, hyd gopa Ploaré ar y dde, i ben Menez Hom ar y chwith, ac yna ymlaen hyd frig y don bellaf sy'n serennu yn y pellter, y fath dafellaid o gread-igaeth odidog! Y fath hudoliaeth fry ac obry! Swyn cynghanedd môr a mynydd, lledrith llawenydd dynion ac anian! Y mae mor hyfryd â'r hyfrytaf o'r breuddwydion a lonyddodd ac a foddhaodd galon y genedl hon erioed yn ei hanes hen. Yng ngŵydd y rhyfeddodau digymar hyn, pa ryfedd i genedl a feithrinwyd ganddynt, a fabwysyd ganddynt, ac a suwyd ganddynt i nyddu breuddwydion brithloywon, fodloni yn hir ar ganu "*Cwsg Breiz Izel*"? Pwysa cysgodion cwsg a breuddwyd yn drwm yma o fôr i fynydd. Nid oes gysgod arall. Nid oes gwmwl yn un lle. Nid oes dim ond goleuni yn sigl-ymestyn ac yn disglair-wreichioni ar lyfnder y glas sy'n

dyfnhau o don i don, heb ddim i dorri arno ond y purwyn yn ymyl y lan, ar wanegau a gyfyd yn ddiog y naill o'r tu cefn i'r llall fel grisiau grisial, a chwalu'n ôl i'r glesni llyfn.

I'r prynhawngwaith tesog hwn daw chwa o gyniwair tawel. Gedy'r ymdrochwyr ddŵr yr heli a'u cusanai mor gynnes, a disgleiria ei ddafnau ar eu cefnau cyn eu sychu. Y mae'r cariadon sy'n rhodio law yn llaw, gan wasgu bysedd ei gilydd fel dau blentyn, ac yngan ambell air yn awr ac eilwaith, yn troi oddi wrth eu rhodfeydd dedwydd. Cyfyd y cwmnioedd a'r teuluoedd sy'n mwynhau ciniawa ar eu byrddau glaswellt. Try pawb eu meddyliau a'u serchiadau tuag at yr Eglwys. Canys yno hwy a gânt glywed canu'r Gosberau, a gwledda eu llygaid ar olygfa ragored â'r un sy'n nyddu ei gweoedd cyfrwys amdanynt yn awr. Paid y ceffylau bach â'u masw gerddi a'u meddwol gylchynu.

VII

Tri o'r gloch!—fel yr atgoffeir ni gan y clychau. Y mae'r tyrfaoedd wedi ymhel ynghyd o gyfeiliorn grwydro, ac yn tyrru at ei gilydd, ar ffurf amphitheatr Rufeinig, o flaen yr allor yn yr awyr agored. Ar gymryd ohonynt eu lleoedd, cenir emyn Ffrangeg sy'n eiriol am i'r Santes gadw ei hanwyliaid hyd fyth yn Llydawiaid ac yn Gatholigion. Tau'r canu, ac yna fe'n synnir gan sŵn y clychau unwaith eto. Dan eu trybestod, daw cadwyn osgeiddig allan drwy ddrws yr Eglwys, a Chroes aur ganddi o'i blaen, tabwrdd ar ei hól hi, ac offeiriaid gynog yn dilyn. Yn olaf wele'r Esgob, a'i felynfion aur yn ei law aswy. Cyfeiriant i gyd at yr allor, ac esgyn yr offeir-

iaid a'r Esgob i'r llwyfan. Dechreuir canu'r Gosberau ar unwaith, gan ymchwydd miloedd lleisiau'r gymanfa pobl sy'n gwasgu am yr allor, y llwyfan, y muriau a'r cynteddau.

Wedi'r per-ganu, ceir anerchiad gan yr Esgob. Fe'i hadweinir gan filoedd ar filoedd o'i bobl, a pherchir ef gan offeiriaid a phobl gyffredin. Y mae ei bersonoliaeth urddasol yn hawlio gwrandawriad i'r gŵr â'r wyneb gwelw a'r llygaid liw gwaneg. Er boddhad i'r Ffrancwyr sydd yma o Baris a dinasoedd eraill, y mae'n areithydd o'r iawn ryw, *de bonne race*, ac yn feistr ar iaith goeth, firain, a dwymir gan wres ei galon. Sieryd braidd yn gyflym, ac ar y cyfan yn geryddgar, gan amneidio llawer â'i ddeheulaw, megis i rybuddio'r gwrandawr diffwrth, difater. Ffrangeg yw ei iaith heddiw, fel pe byddai am ennill clust y rhan estron o'i gynulleidfa. Ond y Llydawiaid a anerchir ganddo'n uniongyrchol. Dwg ar gof iddynt hyned yw'r ŵyl a ddethlir ganddynt heddiw mor ddefosiynol ag yn amser Grallon Frenin a Sant Guenolé. Buasai eu teidiau hen yn ffyddlon i'w *Santex Anna*, eu noddwraig gariadus, a bu hithau yn amddiffynfa iddynt hwy yn wastadol. Ar hyd y canrifoedd bu llwydd a llewych ar eu Heglwys; a'u dyletswydd bellach ydyw sicrhau iddi yr un ffyniant yn y dyfodol. Y mae'n rhaid iddynt lynu'n gadarn wrth eu Ffydd, yr un Ffydd â Ffydd eu Santes, â Ffydd aneirif dorf eu meirw.

Rhagddo tuag at galon y gwrandawyr, mor union â golwg ei lygad miniog, yr â ei eiriau eirias, weithiau mor llym â'i drem asetig, weithiau mor sidanaidd â'i wallt gwyn. Dyry bwyslais mawr iawn ar weddi. "Gweddi ydyw'r gallu mwyaf ar y ddaear ac yn y nefoedd,"

meddai. Trwyddi hi, gallant feddalu caledwch eu calonnau, tyneru a lledneisio eu cymeriadau, a'u trwytho eu hunain yn Ysbryd yr Efengyl. Trwyddi hi yr adnabyddant eu Tad, ac yr enilliant le yn Ei fwriadau Ef. "Nid anobeithiaf fyth am Lydaw, fy ngwlad, tra byddo'i hymddiried mewn gweddi."

Ond, atolwg, onid oedd yr arferiad ddwyfol honno'n darfod? Onid oedd yn ddewisach gan y merched a'r bechgyn ysbleddach gwacsaw nag ysblander offeren, mwynderau masw na mynychu gosberau? Oni welid mewn cartrefi crefyddol lyfrau, cylchgronau a phapurau oedd yn llawn gwenwyn i'r rhai nad oedd ganddynt ansigledigrwydd yr egwyddorion Cristnogol? Ysywaeth, onid oes heddiw dadau a mamau a ollyngodd dros gof y ddyletswydd deuluaidd, ie, ac a edy i'w plant dyfu a rhedeg yn wyllt? Rhybuddia hwy i gyd i ail-afael yn yr arferion crefyddol, i lynu wrth y gwirioneddau di-ymod. "Gwasanaethwch yr Arglwydd yn deilwng—yn deilwng o'ch cenedl, o'ch Seintiau lluosog, ac o Honno y byddwch yn y munudau nesaf yn anrhydeddu ei henw mewn dull mor ardderchog!"

Y dull hwnnw ydoedd yr Orymdaith—gorymdaith yn wyneb haul a golau dydd. Paratoir ar ei chyfer yn union wedi tewi o'r Esgob, ac y mae mawr ddisgwyl amdani. Wele ei rhengoedd blaen yn llifo allan o'r Eglwys, a myrdd o redeg i'w gweled, gan ddringo muriau a meinciau, cerrig a grisiau, yn nhueddau'r porth. Y peth cyntaf a wél pawb ydyw Croes hir, o aur i gyd, gellid meddwl, a hwnnw'n loyw euraid yn yr haul. Yn nesaf daw offeiriaid yn eu gynau gwynion, a gwragedd yn dwyn canhwyllau wedi eu cynnu. Yna, nifer o fechgyn

cydnerth yn eu Sul gorau, eu dillad parch a'u hetiau cantiau helaeth, a rhubanau amdanynt wedi eu byclu, ac yn disgyn i lawr at eu cefnau. Cludant faner fawr, baner y plwyf lle y saif yr Eglwys, ac y mae golwg rhai sy'n sylweddoli eu braint arnynt bob un. Ar y faner y mae darlun rhuddloyw o'r Santes Anna yn dysgu y Wryf Fair i ddarllen yr Ysgrythurau, ac oddi tano y geiriau hyn yn disgleirio:

Santez Anna, pedid evidomp.

Baner Sant Hervé ydyw'r nesaf, ac arni hithau lun brasfelyn wedi ei gyfrododdu'n frodwaith mawreddog, a'r weddi fer: *Saint Hervé, prie pour nous*. Baneri disgleirwych eraill, i Sant Miliau, i Sant Ronan, i Ioseff, i'r Wryf, i Grist, sydd yn dilyn. Tynn un ohonynt fwy o sylw na'r lleill. Baner newydd sbon ydyw, yn perthyn i forwyr *Douarnenez*, ac yn dangos Crist yn tawelu'r dymestl ar Fôr Galilea. O gwmpas y rhan fwyaf o'r baneri hyn y mae clychau bychain, yn cyd-ganu eu hisel dincian croyw-ber, fel y mae deunydd brodiog y baneri'n cyd-adrodd eu harddwch llathredig.

Y meibion a ddygai bwysau'r holl faneri uchod, oherwydd eu trymed, yn ddiâu. Yn awr, dyma gyfle'r rhianedd. Gwelwch eu talcennau gwryfddwys, eu golygon hirben, eu rhodiad gosgeiddig, eu cyrff cyflun-iaidd, a'u gwisgoedd bonheddig! Y fath gyfuniad o degwch cnawd a gwyleidd-dra ysbryd! Am y rhai cyntaf y mae'r gwyn mwyaf cannaid, a meini mererid yn disgleirio oddi arno. Yn olynol daw eraill, hwythau eto yn eu gwynion, ond bod blodau melynion wedi eu brodio i mewn i'r gwyn hwnnw. Dwg y rhianedd hyn eu beichiau hwythau o aberthau prydfertwch a sant-

eiddrwydd. Baneri a welir gan y rhai blaenaf ohonynt, baneri ysgafnach nag oedd gan y meibion, eithr heb fod yr un tipyn yn dlotach eu cywreinrwydd a'u hysblander. Delwau sydd gan y rhai nesaf, delwau o'r Santes Anna, o Fair, o Grist; ac ar ôl y delwau, creiriau gwerthfawr mewn blychau costus ar elorau aur, aml Groes fawr, a mynych glychau bychain. Rhifaf bymtheg, ie, deunaw o'r baneri, ac ni wn faint o'r elorau a'r creiriau.

Drwy'r porth daw eto offeiriaid, rhyw ddeugain ohonynt, a phob un yn ei w'n gwyn, a'r llais soniarus oedd ganddynt gynnau'n llenwi'r eglwys, yn awr yn lledu yn yr awyr oddi allan. Yn eu plith hwy, y mae'r Esgob yn symud yn ôl mesur a mydr, ac archoffeiriad o bob tu iddo yn dal gafael yn ymyl ei wisg. Y mae dwyster llym ac urddas noeth yn ei bryd benywaidd a'i berson teyrnaidd. Prydfertwch anllygradwy yw ei eiddo ef, ac awdurdod megis yn disgyn o'r goruchelder. Er mor fenywaidd yw gwedd ei wyneb, dywedir bod ei ddisgyblaeth yn galed, a'i iau ar ei offeiriaid yn drwm i'w dwyn. Er ei fod dros ei bedwar ugain oed, y mae ei gorff yn hynod o syth a heini, ac y mae ei hirwallt gwyn yn goron ariannaid i'w hen ddyddiau. Nid ymffrostia, ac nid ymorchesta. Yn y rhwysg a'r rhodres a ddyry'r Dydd a'r Wyl ar "y rhai addfwyn," ni rodesa ef ddim. Amneidia'n fwyn ar bawb, amgylcha eu bywyd â gwên ei lygaid, a bendithia hwy â gair nas clywir.

Y werin a'r miloedd, y pererinion cyffredin a'r lluoedd, sy'n ffurfio gweddill yr orymdaith, gan lifo i mewn iddi o dde ac aswy. Y mae'r orymdaith yn dirwyn i fyny'r

maestir agored, a'r Ffrancwyr sydd yn fy ymyl yn llesmair-sisial wrth ei gilydd, "*C'est superbe!*"

Eisteddwn yn rhwyfus ar gongl yn y mur wrth ymyl porth yr eglwys. Oddi yno gallwn weled i mewn i ganol yr addoldy ei hun, ac allan ymhell i bob cyfeiriad. Gwelwn yr orymdaith yn dechrau ymffurfio yn y deml, yn hwylio i fynd allan ac i ddirwyn yn ei holl ymchwydd, i orymdeithio ei rhyfeddol ysblander dros wyneb y tir. Gwelwn y baneri'n gostwng eu pennau wrth ddod allan drwy'r porth, ac yn agor eu lliwiau a'u llythrennau i wyneb yr haul. Gwelaf y lluoedd pererinion cyffredin yn mud-syllu ar y rhyfeddod, yn llofo iddo, ac ymdoddi ynddo. Gallaf weld y rhengoedd cadwynog o wŷr a gwragedd, o liwiau moethus ac o leisiau cerddgar, yn cerdded mewn cynganeddol drefn a dosbarth. Y fath odidog gyfoeth o liwiau! Ba ryw berffaith unoliaeth mewn amrywiaeth! Yma, fel yng ngherdd Baudelaire, y mae popeth yn drefnusrwydd a phrydferthwch, moethusrwydd, llonyddwch, a glythineb.

*Tout n'est qu'orde et beauté,
Luxe, calme, et volupté.*

Yn wir, yn wir, oni lawenycha Duw ei Hun yn Ei Nefoedd wrth weld Ei bobl yn eu godidowgrwydd? Fel yr edrychwyr eraill, disgynnaf o'm lle, cyflymaf i fyny'r foncen, i syllu ac i ail-syllu yma, acw, ar y modrwyog gyloch sydd o hyd yn dirwyn yn ei blaen, o hyd yn canu mawl ei Santes:

*Santez Anna, mam d'ar Verc'hez,
Hom beuz c'hoazet da batronez;
Mam goz Iezuz, Salver ar bed,
A zo mam goz d'ar Vretoned.*

Yn gwmwl du o dystion am y pererinion yr oedd aneirif luoedd yr edmygwyr. Symudent gyda hwythau, aros ennyd, mynd drachefn, a synnu a rhyfeddu drwy'r amser. Glynent wrth yr Esgob yn fwy na dim, ac ym-groesent fel y disgynnai glas ei lygaid arnynt. Unwaith neu ddwy, torrodd rhywun allan i ddweud mewn geiriau yr hyn a deimlai pawb: *Vive l'Eveque!* Synna'r gorymdeithwyr gryn dipyn, a'r Esgob efallai'n fwy na neb.

Boddir llais y brwd hwn a phob llais arall gan y canu, sydd yn codi ac yn disgyn, yn llanw ac yn treio, yn cerdded yn ôl ac ymlaen, yn tonni ac yn tawelu, ond heb dewi. Edrydd ei orawen holl ddefosiwn y Llydawiaid, byw a marw, i'r Santes, i Fair ac i Grist, o ddyddiau Grallon a Sant Guenolé hyd y dwthwn hwnnw, "*zul diveza a viz Eost.*" Tystia fod "*paour ha pinvidec,*" tlawd a chyfoethog, pobl "*ar meaz*" a phobl "*ar vôr,*" yn pererino'n flynyddol i "dir santaidd y Palud" i gael heddwch i'w calon, "*peoc'h ar galon.*" Ac ar ôl adrodd pob cam yn eu hanes, a gwedi sôn am ryfeddol ddaioni eu Santes, cyd-foria'r seiniau gorfoleddus:

*Meulomp oll gant joa,
Meulomp Santez Anna!*

(Molwn oll yn llawen, molwn Santes Anna!)

Erbyn hyn, y mae'r rhan fwyaf o'r bererindod amgylch ogyloch wedi ei cherdded; a chanol yr orymdaith fod-rwyog wedi cyrraedd at y cabanau a'r ceffylau bach. Dim sŵn sydd yma, ond y distawrwydd mwyaf, a phawb ar flaenau eu traed yn treisio golwg ar odidoced arddangosfa ffydd a phrydferthwch. Safant ar draed ei gilydd, oddi ar gerbydau a cherti, o loriau'r ceffylau bach ac o bennau'r cloddiau, o ben teisi gwair y ddwy

fferm ac o ffenestri'r ddau dŷ byw a'u tai-allan. Gwneir ffordd i'r orymdaith drwy le a ymddangosai o'r blaen yn bentwr ar bentwr o ddynion, cerbydau, cabanau, pebyll, cunogau, crochanau, trybeddi, poteli gwin a seidr, stondingau ffrwythau a phob danteithion. Felly y treigla yn ei blaen at y Ffynnon, lle y mae bagad gymysg o Lydawiad a Ffrancwyr, hen ac ieuainc, yn ymgiprys am y "dwfr bywiol," ai i'w geneuau ai i'w poteli, ai i unrhyw lun o lestr a ddeil ddwfr.

Oddi yma, try tuag i fyny at yr Eglwys, lle y mae'r baneri blaenaf eisoes wedi cyrraedd. Dacw'r elor fawr—elor y Santes Anna—yn cyrraedd at y porth. A i mewn? Na! Yn lle hynny, fe'i cyfodir i fyny hyd uchder breichiau'r bechgyn sydd yn ei chynnal. Oddi tani hi, ac o barch i'r Santes, megis dan Borth Buddug-oliaeth, yr â'r holl faneri, a'r croesau, a'r creiriau eraill i gyd i mewn. Eithr yn gyntaf, y mae'n rhaid iddynt fynd am un tro o gwmpas yr eglwys. Wedi cyrraedd yn ôl eilwaith at y porth, cânt rwydd fynediad i mewn. Ni warafunant hwythau ychwaith orfod dolennu'n araf o gam i gam araf y merched a'r meibion, gan ymdeimlo'n fwy â'r rhyfeddod sy'n cronni yn llygaid pawb a'u gŵyl, ac â'r disgleirdeb a dywynna arnynt oddi wrth yr unllygeidiog fry.

Onid siomedig oedd orfod myned ohonynt i mewn o gwbl . . . wedi bod yn orhoffedd cynifer? Onid siom i ninnau eu colli? Pa mor drist yw deffro o fyd a ymddangosai'n lledrith pur, i ganfod y gwacter a crys wedi diflannu o awduron a phenseiri'r gorchestwaith ardderchog? Gyda'u colli hwy a'u myrdd gosgorddion, dihangodd o'n ffurfafen ryfeddodau dynion a chyfrin-

achau duwiau. Yn y modd hwnnw, daeth yr Ŵyl am y Dydd Sul olaf yn Awst 1927 i ben, yr un fath ag y diflanna gogoniant allan o'r dydd pan gilia'r haul yn ôl i'w ystafell.

Perchenogion y ceffylau bach, y gwerthwyr a'r mars-iandwyr, oedd y cyntaf i wybod hynny. Ennyd bach, ac yr oedd mynd a suo arnynt, a'r pleserau a'r peiriannau oedd biau popeth. "Diwedd gwael i ŵyl grefyddol," oedd cŵyn Ffrances yn fy ymyl. A gwir oedd hynny, a gwir siomedig. Ond ni welai'r Llydawiad cyffredin ddim allan o'i le ynddo, na dim yn anwedus. Iddynt hwy, y mae'r Pardwn yn gymaint o ŵyl wladol ag o ŵyl grefyddol. Ac os dywedwch mai gwrthuni erchyll ydyw diweddu dydd o ddefosiwn hardd gyda chwaraeon a diota, atebant mai felly y mae'n rhaid iddi fod. Felly yr oedd gynt pan gymerai cystadleuaethau codymu le'r ceffylau bach. Gwnewch i fwrdd â hwy, meddant, ac i lawr yr â'r ŵyl grefyddol hithau. Gwir, efallai—un o wirioneddau trist Llydaw, y wlad lle yr esgynnir i Fynydd y Gweddnewidiad, ac yr eisteddir yn eisteddfa gwatwarwyr, ar yr un awr ac yn yr un lle.



